

# **Aiddarlleniadau o Waith Dafydd ap Gwilym**

Owen Thomas

(D.Phil.)

Prifysgol Rhydychen / University of Oxford

2008

## **Crynodeb (Abstract)**

---

Cynnwys y traethawd ymchwil hwn bedair astudiaeth ar waith Dafydd ap Gwilym. O ran methodoleg, defnyddir nifer o ddulliau, gan gynnwys beirniadaeth destunol a beirniadaeth lenyddol. Y mae penodau 1 a 3 yn destunol eu pwyslais, gan fynd i'r afael â llawysgrifau cymharol gynnar lle y ceir enghreifftiau o waith Dafydd ap Gwilym. Rhydd yr ail bennod sylw i lythrennedd yn yr Oesoedd Canol ac yn y bennod olaf eir i'r afael â barddoniaeth Dafydd ap Gwilym drwy roi sylw manwl i amwysedd ei farddoniaeth.

Yn y bennod gyntaf cymhwysir beirniadaeth destunol at Beniarth 48, un o'r llawysgrifau cynharaf lle y ceir casgliad o gerddi gan Ddafydd ap Gwilym, gan roi sylw manwl i'r cywydd anorffenedig amheus ei awduraeth 'Credaf i Naf y nefoedd', gan gynnig y dylid ystyried ei fod o bosibl yn gerdd ddilys gan Ddafydd ap Gwilym. Trafodir dylanwad llythrennedd y bedwaredd ganrif ar ddeg ar farddoniaeth Dafydd ap Gwilym yn yr ail bennod, a chesglir bod Dafydd ap Gwilym yn gyfarwydd â'r ffenomen hon mewn cyd-destun seciwlar yn ogystal â chyd-destun eglwysig. Canolbwyntia'r drydedd bennod ar Beniarth 52, lle y ceir dau gywydd gan Ddafydd ap Gwilym yn ogystal â cherddi gan Ddafydd Nanmor. Cedwir mewn cof mai endid ansefydlog yw canon llenyddol a chodir cwr y llen ar ddylanwad Dafydd ap Gwilym ar Ddafydd Nanmor. Yn y bennod olaf, trafodir amwysedd ym marddoniaeth Dafydd ap Gwilym a dadleuir bod ei farddoniaeth yn fwy na chanu confensiynol neu loddest eiriol o ystrydebau serch oherwydd bod ei hamwysedd, o bob math—boed yn eiriau unigol, yn ddelwedd estynedig, yn strwythur tanorweddol neu'n gymhleth o emosiynau'r bardd—yn byrlymu i'r wyneb ac yn cynysgaeddu'i gerddi â phrofiad llenyddol ehangach.

## **Crynodeb Manwl (Detailed Abstract)**

---

Cynnwys y traethawd ymchwil hwn bedair astudiaeth ar waith Dafydd ap Gwilym. O ran methodoleg, defnyddir nifer o ddulliau, gan gynnwys beirniadaeth destunol a beirniadaeth lenyddol. Y mae penodau 1 a 3 yn destunol eu pwyslais, gan fynd i'r afael â llawysgrifau cymharol gynnar lle y digwydd enghreifftiau o waith Dafydd ap Gwilym. Rhydd yr ail bennod sylw i lythrennedd yr Oesoedd Canol ac yn y bennod olaf eir i'r afael â barddoniaeth Dafydd ap Gwilym drwy roi sylw manwl i'r gwahanol fathau o amwysedd a welir yn fynych yn ei farddoniaeth.

Ers ail hanner yr ugeinfed ganrif bu canonau llenyddol gorllewin Ewrop a'r Unol Daleithiau o dan y chwyddwydr, yn bennaf o du dau fudiad deallusol: ôl-drefedigaethedd a ffeministiaeth. Fodd bynnag, ym maes astudiaethau Dafydd ap Gwilym beirniadaeth destunol a fu'n flaenllaw o'r cychwyn (ac y mae'n parhau'n bwysig fel y prawf y golygiad electronig newydd o waith Dafydd ap Gwilym), er bod ystyriaethau theoretig wedi dod yn fwyfwy amlwg yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf.

Ym mhennod gyntaf y traethawd ymchwil hwn cymhwysir beirniadaeth destunol at un o'r llawysgrifau cynharaf lle y ceir casgliad o gerddi Dafydd ap Gwilym, sef Peniarth 48. Nid oes ond tri chasgliad sylweddol o waith Dafydd ap Gwilym wedi goroesi o'r bymthegfed ganrif, sef Peniarth 57, rhan i, Peniarth 54 a Pheniarth 48. Am y rheswm hwnnw yn unig haedda pob un o'r rhain ein sylw manwl. Amcangyfrifir bod Peniarth 48

yn perthyn i ganol y bymthegfed ac y mae'r newidiadau yn yr ysgrifbin a'r inc yn y llawysgrif yn awgrymu i'r cywyddau gael eu hysgrifennu fesul un ar wahanol adegau. Rhoddir sylw manwl i Beniarth 48 yn y bennod gyntaf, gan drafod, y cywyddau a geir ynddi, ac yn anad dim y cywydd olaf anorffenedig sydd ynddi, sef 'Credaf i Naf y nefoedd'. Trafodir agwedd Thomas Parry tuag at y llawysgrif a'i chywyddau, gan ganolbwyntio'n benodol ar y modd yr aeth ati i benderfynu nad oedd 'Credaf i Naf y nefoedd' yn gywydd gan Ddafydd ap Gwilym.

Ymhlith casgliadau'r bennod hon cynigir nad yw'n annichon mai Dafydd ap Gwilym yw awdur 'Credaf i Naf y nefoedd'. Eir i'r afael â rhesymau Thomas Parry dros wrthod y cywydd, o ran ieithwedd, geirfa ac arddull y cywydd ac o ran ei odlau. Cymherir 'Credaf i Naf y nefoedd' â rhai o gywyddau crefyddol eraill Dafydd ap Gwilym, gan ddangos bod arddull ei gywyddau crefyddol yn tueddu i fod yn symlach nag arddull llenddulliau eraill o'i eiddo. Ar ddiwedd y bennod cynigir testun cyfansawdd o 'Credaf i Naf y nefoedd', sydd yn seiliedig ar y llawysgrifau a'r darlleniadau gorau.

Cynigir hefyd fod Thomas Parry wedi rhoi gormod o bwys ar ddarlleniadau Peniarth 49 (neu ar Hafod 26 lle nad oedd testun ym Mheniarth 49) nid yn unig wrth benderfynu ar awduraeth 'Credaf i Naf y nefoedd' ond hefyd yng nghyswllt cywyddau eraill Peniarth 48. Er bod Peniarth 48 yn llawysgrif sydd yn cynnig tystiolaeth bwysig nid yw hyd yma wedi derbyn y sylw sydd yn ddyladwy iddi. At hynny, awgrymir y geill astudiaeth o'i chywyddau eraill mewn perthynas â'r *Vetustus gadarnhau'r amheuon ynghylch*

bodolaeth ‘Cynsail y Gogledd’ a chadarnhau hefyd fod a wnelo copïydd neu gopiŵyr o’r de mewn rhyw fodd neu’i gilydd â’r Vetustus.

Yn yr ail bennod rhoddir sylw i lythrennedd oes Dafydd ap Gwilym a thrafodir sut yr oedd hynny’n ddylanwad ar rai elfennau yn ei farddoniaeth. Cydnabyddir ei bod yn anodd i ddarllenydd ôl-fodern werthfawrogi effaith llythrennedd ar feddylfryd pobl lafar eu diwylliant oherwydd bod sgiliau’r darllenydd wedi eu llunio i raddau helaeth gan ei ddiwylliant llythrennog yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, er ei bod hi yn anodd ail-greudulliau cyn-lythrennog o feddwl, y mae digon o ddogfennau o’r cyfnod rhwng 1066 a 1307 ar gael i ffurfio syniad bras am ddylanwad llythrennedd.

Cynigir braslun o gefndir cymdeithasol llythrennedd er mwyn creu cyd-destun i farddoniaeth Dafydd ap Gwilym. Amlinellir y cynnydd mawr a fu mewn llythrennedd yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg, a disgrifir sut yr ymgorfforwyd rhai o’r newidiadau hynny mewn barddoniaeth. Trafodir y cysylltiad rhwng twf llythrennedd a thwf trefydd ar draws Ewrop. Tynnir sylw at y twf aruthrol a fu mewn llythrennedd yn Lloegr, lle y ceir degau o filoedd o ddogfennau (gan gynnwys gwritiau a siarteri) o’r drydedd ganrif ar ddeg ymlaen sydd wedi goroesi.

Yr oedd lefel uchel o lythrennedd yn perthyn i gylch Dafydd ap Gwilym yn ogystal. Manylir ar hyn drwy drafod ei ewythr Llywelyn ap Gwilym a fu’n gwnstabl yng Nghastellnewydd Emlyn, a theulu Glyn Aeron (gan gynnwys Ieuan Llwyd ab Ieuan ac Angharad) a’r cysylltiad pwysig â Llawysgrif Hendregadredd (yn enwedig ei thrydedd haen), sydd oll yn dangos olion diwylliant llythrennog a berthyn i faes seciwlar. O

safbwynt Dafydd ap Gwilym, dengys hyn ei fod yn gyfarwydd â'r syniad o llythrennedd mewn cyd-destun lleygol yn ogystal â chyd-destun eglwysig.

Eir rhagddo i drafod termau cyfreithiol (er enghraifft, llythyr gwarant, rhol, dirwy dremyg, gwir) ym marddoniaeth Dafydd ap Gwilym, trioedd ar ffurf ysgrifenedig, Llyfr Gwyn Rhydderch (lle y ceir copi o englynion i'r cusan), Gramadeg Einion Offeiriad a dylanwad amlwg yr Eglwys arno ef a'i gymdeithas yn gyffredinol, a cheir cywyddau ganddo sydd yn dangos ôl y dylanwad eglwysig hwn yn eglur iawn. Gwelir hefyd effaith twf trefydd mewn cywyddau penodol (er enghraifft, 'Athrodi ei Was') ac ymdrinnir â geirfa benodol sydd yn ymwneud â llythrennedd.

Gellir crynhoi'r ymdriniaeth â llythrennedd drwy nodi ei bod yn ffenomen a oedd ar gynnydd law yn llaw â thwf trefydd yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg mewn nifer o beuoedd. Yn achos Dafydd ap Gwilym ei hun daeth i gysylltiad â llythrennedd ym maes yr Eglwys, ym maes y gyfraith drwy'i ewythr, ac ym maes llawysgrifau drwy ei gysylltiad â Glyn Aeron a Llyfr Gwyn Rhydderch ac, o bosibl, drwy Lawysgrif Hendregadredd er na cheir tystiolaeth uniongyrchol bendant yn ei ganu o ddylanwad llythrennedd arno yn sgil datblygiad trefol yng Nghymru. Nid yw'r dystiolaeth sydd ar glawr parthed ei gynefindra â *Roman de la Rose* neu â chyfrolau Ofydd mor argyhoeddiadol, ond bu'r diwylliant llythrennog yng Nghymru'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn ddylanwad ar farddoniaeth Dafydd ap Gwilym fel y gwelir mewn nifer o gyfeiriadau, trosiadau a dyfaliadau yn ei gerddi.

Y mae'r drydedd bennod yn canolbwyntio ar un wedd ar y canon drwy ystyried y modd y dehonglid ei waith yn y bymthegfed ganrif, gan ganolbwyntio yn benodol ar Beniarth 52. Yn y bennod hon cedwir mewn cof y casgliad fod y canon yn endid ansefydlog ac y geill yr hyn a ystyrir yn greiddiol i ganon bardd gan un genhedlaeth o olynwyr fod yn wahanol i eiddo cenhedlaeth arall. Ym Mheniarth 52 ceir dau gywydd a briodolir i Ddafydd ap Gwilym a thrafodir eu perthynas â Dafydd Nanmor yn benodol. Trwy hyn, cynigir rhai sylwadau ar natur dylanwad Dafydd ap Gwilym ar fardd canoloesol diweddar fel Dafydd Nanmor.

Trafodir y llawiau sydd ym Mheniarth 52. Hyd yma, tybiwyd gan balaeograffwyr a beirniaid llenyddol fel ei gilydd mai olion un llaw yn unig sydd yn y llawysgrif hon. Fodd bynnag, fe brawf y bennod hon fod ôl pedair llaw ynddi. Y mae'r llaw gyntaf yn gyfrifol am awdl gan Ddafydd Nanmor ar dudalennau 8–12, yr ail law yn gyfrifol am gywydd i ddiolch am fenig gan Ddafydd ap Gwilym ar dudalennau 12–14, y llaw nesaf yn gyfrifol am 'Y Ceiliog Bronfraith' (GDG 123) gan Ddafydd ap Gwilym ar dudalennau 15–18, a'r bedwaredd law yw llaw Dafydd Nanmor ei hun sydd i'w gweld rhwng tudalen 20 a 44 (sydd yn cynnwys llythyr Saesneg o Feddgelert). Y mae'r farn hon yn tynnu'n groes i'r hyn a dybid gynt am y llawysgrif hon a theifl oleuni newydd ar statws y llawysgrif hon, gan fod modd bellach inni gymryd bod un o brif feirdd y bymthegfed ganrif wedi ymwneud â hi.

Rhydd y casgliad newydd hwn am law Dafydd Nanmor gyfle inni hefyd ganolbwyntio ar ddylanwad Dafydd ap Gwilym ar fardd o'r bymthegfed ganrif, er bod mesur union

raddau'r dylanwad hwnnw'n bwnc astrus. Y mae'r ddau gywydd o eiddo Dafydd ap Gwilym a geir yn y llawysgrif hon yn gywyddau o bwys. Y mae'r cywydd cyntaf, sef 'Diolch am Fenig' yn asio ynghyd elfennau a fuasai gynt ar wahân, ac efallai'n cynnig patrwm i gywyddau mawl adnabyddus Dafydd Nanmor i deulu'r Tywyn. Y mae'r ail gywydd 'Y Ceiliog Bronfraith' o bwys o safbwynt ei ddylanwad ar waith Dafydd Nanmor yn ogystal gan ei fod yn cyfuno mawl i noddwr wrth dynnu coes yn gellweirus, sydd yn awgrymu perthynas agos (a llai ffurfiol) rhwng bardd a noddwr. Cloir y bennod drwy roi sylw i'r cyfatebiaethau ymddangosiadol eraill rhwng gyrfaoedd Dafydd ap Gwilym a Dafydd Nanmor, gan gasglu bod dyled Dafydd Nanmor i Ddafydd ap Gwilym yn faes dyrys, ac er bod modd amlinellu dylanwadau ni ellir honni mai efelychwr slafaidd oedd Dafydd Nanmor.

Yn mhennod olaf y traethawd ymchwil hwn trafodir amwysedd ym marddoniaeth Dafydd ap Gwilym. Trwy'r amwysedd hwn gellir canfod bod barddoniaeth Dafydd yn fwy na chanu confensiynol neu ystrydebau serch neu bwt o stori ddoniol, oherwydd bod amwysedd, o bob math—boed yn eiriau unigol, yn ddelwedd estynedig, yn strwythur tanorweddol neu'n gymhleth o emosiynau'r bardd—yn byrlymu i'r wyneb ac yn cynysgaeddu'i gerddi â phrofiad llenyddol ehangach. Geill cymhlethdod profiad bardd hefyd ddeillio o gymhlethdod profiad cymdeithas neu genedl gyfan ac, o bryd i'w gilydd, gellir olrhain y tensiynau hynny drwy gyfrwng yr amwysedd sydd yng ngwaith Dafydd ap Gwilym.

Trafodir rhai o eiriau mwys unigol barddoniaeth Dafydd ap Gwilym yng nghyswllt cywyddau unigol ac yng nghyswllt mwy nag un cywydd er mwyn cymharu'r modd y defnyddir amwysedd at amryw ddibenion mewn gwahanol gyd-destunau. Dygir sylw at ddefnydd amwys Dafydd ap Gwilym o enwau priod, sydd yn ategu'r dybiaeth mai bardd creadigol yw Dafydd ap Gwilym a wêl gyfle llenyddol ym mhob math o ddeunydd crai. Ceir ymdriniaeth â'r modd y geill sangiadau gynnig cyfleon euraid i greu amwysedd. Cynigir enghraifft o fenthycia ieithyddol sydd yn amwys cyn troi at drafod amwysedd ar wastad mwy cyffredinol lle y gwelir ymwybyddiaeth Dafydd ap Gwilym o ofynion penodol llenddulliau a'i barodrwydd i gyfuno'r llenddulliau hynny at ei ddibenion llenyddol ei hun. Nodir enghreifftiau o gymhwyso canu mawl at ganu serch, a cheir nifer o enghreifftiau o ryngdestunoldeb yn digwydd rhwng rhai o gywyddau Dafydd ap Gwilym ei hun. Mewn llenddulliau eraill hefyd, fel ffug-farwnadau a chanu dychan, eir ati i ddangos bod gan amwysedd ran i'w chwarae yn y drafodaeth.

Trwy ganolbwyntio ar un agwedd lenyddol yn benodol ar farddoniaeth Dafydd ap Gwilym, sef amwysedd, awgrymir y gellir arloesi'r tir ar gyfer ailwerthfawrogiad o'r newidiadau a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod allweddol hwn i gerdd dafod Cymru. Yn lle canolbwyntio ar y newidiadau yn y mydr —er mor werthfawr o ddadlennol y bu'r gwaith arloesol hwnnw—cyflwynir ymdriniaeth â'r dulliau llenyddol hynod ddiddorol a ddefnyddid. Cynigir hefyd, o ganolbwyntio ar rai elfennau o eirfa Dafydd ap Gwilym fod modd i farddoniaeth Dafydd ap Gwilym feddu ar arwyddocâd hanesyddol gan y geill fod yn ddrych i hanes masnach, bwrdeisiaid, trefydd, cestyll a gwŷr estron wedi eu

trawsblannu i ganol Cymru'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Dangosir sut y geill cymhlethdod profiad bardd a'r cymhlethdod sydd yn ei waith ddeillio o densiynau cymdeithasol a daw'r tensiynau hynny i'r wyneb yng ngwaith Dafydd ap Gwilym yn aml drwy ei ddefnydd o amwysedd. Anos yw mesur amwysedd perfformiadol—sef amwysedd a grëir trwy ystum neu drwy newid cywair lleisiol—ond yng ngwaith Dafydd ap Gwilym ceir ambell enghraifft o bosibl o hynny. Ceir nifer o enghreifftiau gwiw o amwysedd estynedig yng ngwaith Dafydd ap Gwilym lle y mae amwysedd yn rhan o'r ddelwedd ganolog neu'n uno'r mynegiant yn y cywydd, ac ymdrinnir â rhai o'r cywyddau hynny er mwyn tanlinellu bod amwysedd yn rhan bwysig o ddarfelydd y bardd.

Crybwyllir rhai o oblygiadau amwysedd drwy drafod y math o gynulleidfa a fyddai'n gwerthfawrogi llenyddoldeb, gan gynnig mai cynulleidfa soffistigedig a ragdybir gan rai o'r cywyddau. Os derbynnir bod amwysedd yn rhan bwysig o grefft farddol Dafydd ap Gwilym y mae'n bosibl y gellir dadlau y dylid ei gynnwys fel un o'r "saith maen prawf", chwedl Thomas Parry, a thrafodir rhai o ganlyniadau'r casgliad hwnnw drwy drafod rhai o gerddi amheus eu hawduraeth yng nghanon Dafydd ap Gwilym.

# Datganiad

Tystiaf mai ffrwyth fy ymchwil i fy hun—ac eithrio lle y nodir dyled i eraill—ydyw'r traethawd hwn.

Ymgeisydd: \_\_\_\_\_

Cyfarwyddwr: \_\_\_\_\_

Ni dderbyniwyd y traethawd hwn am unrhyw radd o'r blaen ac nis cyflwynir am unrhyw radd arall.

Ymgeisydd: \_\_\_\_\_

# Cydnabyddiaeth

Dymunaf ddiolch yn fawr i'r Athro Emeritws Ellis Evans ac i'r Athro Thomas Charles-Edwards am eu sylwadau gwerthfawr wrth baratoi'r ddoethuriaeth hon. Cydnabyddaf hefyd gymorth ariannol hael yr Academi Brydeinig. I Goleg Iesu, Rhydychen am roi tair blynedd lawen ac am ddyfarnu ysgoloriaeth Meyricke imi y mae fy niolch yn fawr. Ni allaf ychwaith beidio â diolch, o waelod calon, i'm rhieni hirymarhous ac i'm gwraig, Luned, am eu cefnogaeth ddihafal ill tri bob cam o'r ffordd wrth fynd i'r afael â barddoniaeth Dafydd ap Gwilym.

# Cynnwys

<b>Crynodebau</b>	<b>i</b>
<b>Datganiad</b>	<b>x</b>
<b>Cydnabyddiaeth</b>	<b>xi</b>
<b>Cynnwys</b>	<b>xii</b>
<b>Byrfoddau</b>	<b>xiii</b>
<b>1. Cywyddau Peniarth 48</b>	<b>1</b>
<b>2. Darfod a Wna Tafod Dyn</b>	<b>77</b>
<b>3. Trwy Lygaid Peniarth 52</b>	<b>159</b>
<b>4. Trwy Eiriau Amwys</b>	<b>193</b>
<b>Llyfryddiaeth</b>	<b>275</b>

# Byrfoddau

BBGC	<i>Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd</i> , 1921–93
Bangor	Llawysgrif yng nghasgliad Prifysgol Cymru, Bangor
BL Add	Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
Bodley	Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Bodley, Rhydychen
Brogyntyn	Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Caerdydd	Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
CMCS	<i>Cambridge Medieval Celtic Studies</i> , 1981–93; <i>Cambrian Medieval Celtic Studies</i> , 1993–
Cwrtmawr	Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Cymmrodor	<i>Y Cymmrodor</i> , <i>The Magazine of the Honourable Society of Cymmrodorion</i> , 1877–1951
CLIGC	<i>Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru</i> , 1939—
DGG	<i>Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr</i> , gol. Ifor Williams a Thomas Roberts (Caerdydd, 1935)
EC	<i>Études celtiques</i> , 1936—
GDG	<i>Gwaith Dafydd ap Gwilym</i> , gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952)
GDG <sup>3</sup>	<i>Gwaith Dafydd ap Gwilym</i> , gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979)
GGDT	Costigan, N. G., Daniel, R. Iestyn a Johnston, Dafydd (gol.), <i>Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli</i> (Aberystwyth, 1995).
GIG	<i>Gwaith Iolo Goch</i> , gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
GLGC	<i>Gwaith Lewys Glyn Cothi</i> , gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1995)
GMW	D. Simon Evans, <i>A Grammar of Middle Welsh</i> (Dublin, 1964)
GPC	<i>Geiriadur Prifysgol Cymru</i> (Caerdydd, 1950–2002)
Hafod	Llawysgrif yng nghasgliad Hafod, yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
IGE	<i>Cywyddau Iolo Goch ac Eraill</i> , gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
Jesus	Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen

<i>Cerdd Dafod</i>	John Morris-Jones, <i>Cerdd Dafod</i> (Rhydychen, 1925)
LIC	<i>Llên Cymru</i> , 1950—
LIGC	Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Llansteffan	Llawysgrif yng nghasgliad Llansteffan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Mostyn	Llawysgrif yng nghasgliad Bangor (Mostyn) ym Mhrifysgol Cymru, Bangor
MWM	Daniel Huws, <i>Medieval Welsh Manuscripts</i> (Caerdydd ac Aberystwyth, 2000)
OBWV	<i>The Oxford Book of Welsh Verse</i> , gol. Thomas Parry (Oxford, 1962)
Panton	Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Peniarth	Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
PKM	<i>Pedeir Keinc y Mabinogi</i> , gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930)
PWDN	<i>The Poetical Works of Dafydd Nanmor</i> , gol. Thomas Roberts and Ifor Williams (Caerdydd a Llundain, 1923)
RMWL I	<i>Report on Manuscripts in the Welsh Language</i> , cyf. 1, gol. J. Gwenogvryn Evans (Llundain, 1898)
RMWL II	<i>Report on Manuscripts in the Welsh Language</i> , cyf. 2, gol. J. Gwenogvryn Evans (Llundain, 1902)
SC	<i>Studia Celtica</i> , 1966—
Stowe	Llawysgrif yng nghasgliad Stowe, yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
Tanybwlech	Llawysgrif Tanybwlech, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
THSC	<i>The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion/Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion</i> , 1892/3—
TYP	<i>Trioedd Ynys Prydein</i> , gol. Rachel Bromwich (ail arg., Caerdydd, 1978)
TYP <sup>3</sup>	<i>Trioedd Ynys Prydein</i> , gol. Rachel Bromwich (trydydd arg., Caerdydd, 2006)
Thelwall	Llawysgrif Thelwall, yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
WG 1	P.C. Bartrum, <i>Welsh Genealogies AD 300–1400</i> (Caerdydd, 1974)
WG 2	P.C. Bartrum, <i>Welsh Genealogies AD 1400–1500</i> (Aberystwyth, 1983)

Wrecsam	Llawysgrif yng nghasgliad Wrecsam, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Wynnstay	Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstay, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
YB	Ysgrifau Beirniadol, 1965—
ZCP	<i>Zeitschrift für celtische Philologie</i> , 1897—

---

# Pennod 1

---

## Cywyddau Peniarth 48

### 1. Canonau Llenyddol

Ers ail hanner yr ugeinfed ganrif bu canonau llenyddol gorllewin Ewrop a'r Unol Daleithiau o dan yr ordd, yn bennaf o du dau fudiad deallusol: ôl-drefedigaethedd a ffeministiaeth.<sup>1</sup> Y ddau fudiad hyn a fu'n bennaf gyfrifol am holi'r gweithiau llenyddol clasurol o'r newydd a chael yr atebion i'w cwestiynau gwleidyddol yn aml yn anfoddfaol.<sup>2</sup>

I lenorion a beirniaid ôl-drefedigaethol, cynrychioli traddodiad gorllewinol a gwyn a wnâi'r canon llenyddol. Yr oedd y canon llenyddol hwn yn ddiffygiol am na chynrychiolai'r byd yn grwn. Cynrychioli un rhan ddaearyddol benodol, ac un hil yn arbennig, yr oedd yr awduron a'r testunau hyn, a diniweidrwydd deallusol yn unig a wrthodai weld imperialaeth ar waith mewn ffyrdd craffgyfrwys, dan law:

---

<sup>1</sup> Ymhlith y mudiadau eraill sydd wedi dwyn pwysau ar y canon llenyddol y mae beirniadaeth hoyw (neu gyfunrhywiol), Marcsiaeth, Dadadeiladaeth a beirniaid o dan ddylanwad Foucault.

<sup>2</sup> Traddodwyd peth o gynnwys y bennod hon ar ffurf papur ymchwil ym mis Ionawr 1999 yn y Seminar Celtaidd, Coleg Iesu, Rhydychen ac yn yr 11fed Gyngres Astudiaethau Celtaidd Ryngwladol, Coleg Prifysgol Iwerddon, Corc ym mis Gorffennaf 1999 a diolch i'r Athro Gruffydd Aled Williams am ei sylwadau ar ddiwedd fy narlith yno. Diolch i Mr Daniel Huws am drafodaeth ar Pen 48, i'r Athro Thomas Charles-Edwards, yr Athro Dafydd Johnston, Dr Jane Cartwright a Dr Iestyn Daniel am eu sylwadau ac i staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru am eu cymorth parod. Ymddangosodd y rhan helaethaf o'r bennod hon ar ffurf erthygl yn *Llên Cymru*, 29 (2006), 13–43.

Imperialism is not only the exploitation of cheap labour-power, raw materials and easy markets but the uprooting of languages and customs—not just the imposition of foreign armies, but of alien ways of experiencing. It manifests itself not only in company balance-sheets and in airbases, but can be tracked to the most intimate roots of speech and signification.<sup>3</sup>

Anghyflawn a diffygiol oedd y canon llenyddol yn nhyb beirniaid ôl-drefedigaethol, gan nad oedd yn ddrych i'r sefyllfa wleidyddol ac i'r profiad dynol ar bob cyfandir.

Wrth fynd i'r afael â Joseph Conrad, un o aelodau cydnabyddedig y canon llenyddol, tynnwyd sylw at hiliaeth ei nofel *Heart of Darkness* ynghyd â hiliaeth yr awdur ei hun. Yn y nofel portreadir Affricaniaid yn wrthrychau di-lais ac annynol o'u cyferbynnu â'r prif adroddwr croenwyn o Ewrop, Charlie Marlow.<sup>4</sup> Yn ôl y beirniad llenyddol a'r awdur Chinua Achebe:

It would never occur to them [sef beirniaid llenyddol y Gorllewin] to doubt the universality of their own literature. In the nature of things the work of a Western writer is automatically informed by universality. It is only others who must strain to achieve it. So-and-so's work is universal; he has truly arrived! As though universality were some distant bend in the road which you may take if you travel out far enough in the direction of Europe or America, if you put adequate distance between yourself and your home. I should like to see the word "universal" banned altogether from discussions of African literature until such a time as people cease to use it as a synonym for the narrow, self-serving parochialism of Europe, until their horizon extends to include all the world.<sup>5</sup>

Os nad yw llenyddiaeth a berthyn i'r canon llenyddol yn ymgorffori profiadau dynol ac oesol, yna y mae'n deg holi dros bwy y mae'n siarad? Ni all yr un diwylliant na'r un canon llenyddol ddianc o'r cyflwr hwn, fel y dywed Edward Said:

---

<sup>3</sup> Terry Eagleton, *Literary Theory: An Introduction* (Rhydychen, 1983), t. 215.

<sup>4</sup> Chinua Achebe, 'An image of Africa: Racism in Conrad's *Heart of Darkness*,' yn *Hopes and Impediments: Selected Essays* (Efrog Newydd, 1989), tt. 1–20.

<sup>5</sup> Chinua Achebe, "'Colonialist criticism,'" yn *Hopes and Impediments*, t. 76.

Partly because of empire, all cultures are involved in one another; none is single and pure, all hybrid, heterogeneous, extraordinarily differentiated, and unmonolithic.<sup>6</sup>

Bu Dafydd ap Gwilym yntau o dan y chwyddwydr ôl-drefedigaethol. Yng ngwaith

Helen Fulton, tybir bod ei farddoniaeth yn ddrych i rai o ideolegau'i oes:

The social function of Dafydd's poetry as the expression of a court-based élite is clearly analogous to that of Continental court-poetry.<sup>7</sup>

Yng ngwaith Morgan T. Davies y mae'r ymdriniaeth ôl-drefedigaethol yn fwy cynnil.

Wrth drafod 'Ei Gysgod' fe geir casgliad fel a ganlyn:

Dafydd was well attuned to the ideological needs of his patrons and audiences among the *uchelwyr*; no doubt he was equally well attuned to their ideological (and psychological) pressures, as well. The position of the *uchelwyr* in the post-Conquest period was an ironic and ambivalent one, racked by the disparity between the ideals of the past, to which they ostensibly subscribed and which helped to confer on them their identity and legitimacy within Welsh society, and the more restrictive realities of their current circumstances, which made it difficult if not impossible fully to live up to those ideals.<sup>8</sup>

Ers y chwedegau bu ffeministiaid yn ail-lunio'r canon llenyddol, drwy gyflwyno beirniadaeth ar destunau canonaidd a gwrywaidd o safbwynt y fenyw a thrwy drafod (a chanoneiddio) mwy o awduron benywaidd, yn enwedig awduron benywaidd nad oeddent gynt yn rhan o'r Parthenon llenyddol. Yr oedd effaith y mudiad hwn ar astudiaethau llenyddol yn bellgyrhaeddol ac yn ddeublyg. Yn gyntaf, trwy ddehongli gweithiau llenyddol o safbwynt ffeministaidd gwnaethpwyd y gweithiau canonaidd yn fwy gwleidyddol drwy ddangos eu bod, efallai'n ddjarwybod i'w hawduron, yn rhoi ideolegau patriarchaidd ar waith. O droi'r gweithiau llenyddol yn wrthrychau

---

<sup>6</sup> Edward Said, *Culture and Imperialism* (Llundain, 1993), t. xxix.

<sup>7</sup> Helen Fulton, *Dafydd ap Gwilym and the European Context* (Caerdydd, 1989), t. 229

<sup>8</sup> Morgan T. Davies, 'Dafydd ap Gwilym and the shadow of colonialism', yn Helen Fulton (gol.), *Medieval Celtic Literature and Society* (Dulyn, 2005), t. 273.

gwleidyddol pleidiol, collasant eu diniweidrwydd yn ogystal â'u statws aruchel o anghyffwrdd. At hynny, ers y chwedegau, aethpwyd ati'n ymwybodol i drafod mwy o weithiau gan fenywod, gan roi pwyslais ar lais a safbwynt benywaidd (yr estheteg fenywaidd neu'r *écriture féminine*) y gweithiau hynny: hynny yw, yr union elfennau a oedd yn aml yn absennol o'r gweithiau canonaidd a phatriarchaidd.<sup>9</sup> Bu ffeministiaeth yn y Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill yng ngorllewin Ewrop a'r Unol Daleithiau yn hynod o ffrwythlon a dadlennol ym maes beirniadaeth lenyddol a chodwyd nifer o gwestiynau theoretig newydd, ond un o'i sgileffeithiau mwyaf trawiadol, yn ddiaw, oedd ansefydlogi'r canon llenyddol.

Yn maes astudiaethau'r Gymraeg cafwyd ymdrechion o'r wythdegau ymlaen i gyflwyno ffeministiaeth i feirniadaeth lenyddol. Mewn rhifyn arbennig o'r *Traethodydd*, er enghraifft, rhoddwyd sylw i feirniadaeth lenyddol ffeministaidd, lle merched yn y gyfundrefn addysg, a beirdd benywaidd yng Nghymru cyn 1800;<sup>10</sup> cafwyd cyflwyniad i ffeministiaeth yn *Sglefrio ar Eiriau*;<sup>11</sup> ac, yn ddiweddarach, cyhoeddwyd blodeugerdd gynhwysfawr o ganu menywod gan Cathryn Charnell-White.<sup>12</sup> Ond prin fu'r ymdrech hyd yma i fynd i'r afael yn llawn â barddoniaeth Dafydd ap Gwilym o safbwynt ffeministiaeth. Mewn beirniadaeth lenyddol Gymraeg cafwyd tuedd hyd yma i ffeministiaid ganolbwyntio'u sylw ar awduron benywaidd—fel Gwerful Mechain, Alis ferch Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan, Catrin ferch

---

<sup>9</sup> Ann Rosalind Jones, 'Writing the body: Toward an understanding of *l'écriture féminine*', yn Elaine Showalter (gol.), *The New Feminist Criticism: Essays on Women, Literature and Theory* (Llundain, 1986), tt. 361–77.

<sup>10</sup> *Y Traethodydd*, 598 (Ionawr 1986).

<sup>11</sup> Menna Elfyn, 'Trwy lygaid ffeministaidd', yn John Rowlands (gol.), *Sglefrio ar Eiriau* (Llandysul, 1992), tt. 22–41.

<sup>12</sup> Cathryn A. Charnell-White (gol.), *Beirdd Ceridwen: Blodeugerdd Barddas o Ganu Menywod hyd tua 1800* (Llandybie, 2005).

Gruffudd ap Hywel, Angharad James, Ann Griffiths a Marged Dafydd—yn hytrach na dadansoddi ideolegau patriarchaidd beirdd gwrywaidd fel Dafydd ap Gwilym.

I rai beirniaid llenyddol mwy traddodiadol eu gogwydd, fodd bynnag, nid trafod y canon llenyddol y bu beirniaid llenyddol blaengar ail hanner yr ugeinfed ganrif ond ymosod ar y testunau canonaidd hynny yn gibddall ac yn enw egwyddorion gwleidyddol nad oedd a wnelont ddim oll â llenyddiaeth: fandaliaeth ddiwylliannol ydoedd hyn, yn nhyb yr hen do o feirniaid, ac nid oedd yn ddim ond ymgais i danseilio gwerthoedd gwâr y Gorllewin yn enw amlddiwylliannedd a chywirdeb gwleidyddol.<sup>13</sup> I ddifenwi'r fandaliaid o feirniaid llenyddol gwleidyddol newydd hyn bathwyd 'The School of Resentment', sef term a oedd yn cynnwys mudiadau fel Ffeministiaeth, Ôl-drefedigaethedd, Hanesyddiaeth Newydd, Dadadeiladaeth a Marcsiaeth.<sup>14</sup>

I Harold Bloom, awdur un o'r cyfrolau mwyaf adnabyddus ei amddiffyniad o'r canon llenyddol traddodiadol, yr oedd yn rhaid pwysleisio o'r newydd bwysigrwydd awduron fel Shakespeare a Dante yng nghanon llenyddol y Gorllewin rhag i'r moch diwylliannol, yn ei dyb ef a llawer beirniad traddodiadol tebyg iddo, sathru'r winllan yn gyfan gwbl:

---

<sup>13</sup> Ymhlith y beirniaid a oedd yn amddiffyn y syniad o ganon llenyddol y mae Allan Bloom, *The Closing of the American Mind* (Efrog Newydd, 1987); E.D. Hirsch, *Cultural Literacy* (Boston, 1987); Roger Kimball, *Tenured Radicals* (Efrog Newydd, 1990); Harold Bloom, *The Western Canon* (Efrog Newydd, 1994); David Denby, *The Great Books* (Efrog Newydd, 1996).

<sup>14</sup> Bloom, *The Western Canon*, t. 20.

The flight from or repression of the aesthetic is endemic in our institutions of what still purport to be higher education. Shakespeare, whose aesthetic supremacy has been confirmed by the universal judgment of four centuries, is now “historicized” into pragmatic diminishment, precisely because his uncanny aesthetic power is a scandal to any ideologue.<sup>15</sup>

Fodd bynnag, y mae gan y gair ‘canonau’ nifer o gynodiadau, sydd yn hŷn o lawer nag ymrafael deallusol yr ugeinfed ganrif. Fe berthyn i feysydd amrywiol (yn ogystal â’r maes llenyddol). Un o’r cyd-destunau cynharaf oll ar gyfer canonau oedd maes y llan, sef yr Eglwys gynnar. Tyfodd ymhlith y Cristnogion cynnar ymwybod â phwysigrwydd sefydlu canonau er mwyn creu hunaniaeth ddeoledig bendant iddynt eu hunain, ac er mwyn eu gosod eu hunain ar wahân i garfanau a chymdeithasau eraill. Fel y dywed B.B. Price:

The early Christians developed signs and practices by which they as followers of Christ were distinguished either to each other or from others... Within Christianity, the means of communicating identity and belonging were based upon certain rituals and words, which... were symbolic of accounts in the Bible, but also of the experiences of the earliest followers... In the long run, experiential sources came to be less favoured by the official Church, while textual sources were elevated. Along with acceptance of a notion of Christian orthodoxy (correct practice or teaching) came the assumption that there was a written authoritative “source” for Christian rituals... In fact, throughout the Middle Ages, connections between the written word and Christian beliefs were eagerly affirmed, and new interpretations were expansively articulated.<sup>16</sup>

Credai’r Cristnogion cynnar hyn y gellid ymgynraedd at ddealltwriaeth berffeithiach o Gristnogaeth drwy gyfeirio at Air Duw, yn ôl yr Hen Destament a’r Testament Newydd, a gafodd ei ddyddio oddeutu adeg cychwyn Cristnogaeth. Trwy gydol yr Oesoedd Canol tybiwyd mai yn ystod y cyfnod cynnar hwn yr ysgrifennwyd y

---

<sup>15</sup> Ibid., t. 23.

<sup>16</sup> B. B. Price, *Medieval Thought: An Introduction* (Rhydychen, 1992), tt. 16–17.

dogfennau pwysicaf, sef gweithiau Tadau'r Eglwys. I Gristnogion yr Oesoedd Canol crynhowyd pwysigrwydd Gair Duw yn yr adnod "Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair a oedd gyda Duw a Duw oedd y Gair".<sup>17</sup> Arweiniai hyn at ymlyniad di-syfl at destunau a oedd wedi eu canoneiddio. Ys dywed Price:

For most medieval Christians the library of essential texts consisted of a simple duo: the Bible and the Fathers of the Church, especially St Augustine. What practices and beliefs were to be found in the New Testament and the Church Fathers were seen to comprise all that Christianity needed in order to establish appropriate practices and beliefs for the Church in its age of the Paraclete or Holy Spirit... Constancy in Christianity which had endured the loss of the earthly presence of its originator captivated the minds of many early medieval Christians with the word as their guide.<sup>18</sup>

Gweithiai'r cymhelliad hwn yn groes i unrhyw fath ar newidiadau mewn credoau. Erbyn canol yr ail ganrif O.C. yr oedd y strwythur sylfaenol ar gyfer yr Offeren wedi ei bennu.

Although Churchmen, such as Ambrose and Augustine, argued against liturgical uniformity, prescriptive documents appeared from the beginning of the third century, written as if to forestall change and innovation, and to maintain a universal standard of ritual practice in all Christian communities.<sup>19</sup>

Byddai'r testunau a'r rheolau digyfnwid hyn yn disodli'r angen am unrhyw fath ar newid i gyfansoddiadau litwrgiaidd. At hynny, yr oedd safoni testunau hefyd yn mynd law yn llaw â safoni'r iaith,<sup>20</sup> a throsodd Damasus (366–83), Esgob Rhufain, yr

---

<sup>17</sup> Ioan 1:1.

<sup>18</sup> B. B. Price, *Medieval Thought*, t. 29.

<sup>19</sup> *Ibid.*, t. 18.

<sup>20</sup> Dyma bwynt sy'n hynod o ddiddorol yng nghyswllt y gwahanol fersiynau o waith Dafydd ap Gwilym a berthyn i wahanol ardaloedd yng Nghymru. Crybwyllir hyn yn ystod y bennod hon.

Offeren i'r Lladin, er bod yr Offeren tan hynny wedi ei gweinyddu trwy gyfrwng y Roeg ac er mai yn raddol y derbyniwyd y cyfieithiad newydd hwn.<sup>21</sup>

## **2. Creu Canon Dafydd ap Gwilym: Y Cyfnod Modern**

Yn y canon llenyddol Cymraeg y mae statws Dafydd ap Gwilym fel bardd canolog yn ddigamsyniol o hyd. Gellid mynd ati i ddangos dyled beirdd eraill i Ddafydd ap Gwilym neu ddyfynnu barn y Morrisiaid a William Owen Pughe wrth gyfeirio at 'Ofydd Cymru', ond digon, yn y cyswllt hwn, yw dangos unfrydedd barn beirniaid llenyddol diweddar am bwysigrwydd Dafydd ap Gwilym i lenyddiaeth Gymraeg.<sup>22</sup> Dafydd ap Gwilym, yn ôl R. Geraint Gruffydd, a fu'n gyfrifol am greu dau chwyldro mewn barddoniaeth Gymraeg, y naill chwyldro yn ymwneud â mesur barddoniaeth a'r modd y llwyddodd Dafydd ap Gwilym i boblogeiddio mesur y cywydd, a'r llall yn ymwneud â thestun y cywydd:<sup>23</sup> 'Ef mewn gwirionedd', meddai R. Geraint Gruffydd, 'yw'r bardd serch mawr cyntaf yn holl hanes lenyddiaeth Gymraeg, a'r gorau o ddigon hefyd.'<sup>24</sup> Cytuno ag un o farwnadwyr Dafydd ap Gwilym a wna R. Geraint Gruffydd hefyd mewn teitl darlith o'i eiddo ar waith Dafydd ap Gwilym: 'Athro pawb oedd'.<sup>25</sup>

I Rachel Bromwich, y mae Dafydd ap Gwilym yr un mor allweddol i'r canon llenyddol Cymraeg ag y mae Chaucer i'r canon llenyddol Saesneg:

---

<sup>21</sup> Christine Mohrmann, *Liturgical Latin* (Llundain, 1959), tt. 44–5.

<sup>22</sup> Ceir ymgais i amlinellu dyled Dafydd Nanmor a Lewys Glyn Cothi i Ddafydd ap Gwilym yn nhrydedd bennod y traethawd hwn.

<sup>23</sup> R. Geraint Gruffydd, *Dafydd ap Gwilym* (Caernarfon, 1987), tt. 22–6.

<sup>24</sup> *Ibid.*, t. 24.

<sup>25</sup> R. Geraint Gruffydd, '*Athro Pawb Oedd*': *Golwg ar Ddafydd ap Gwilym* (Aberystwyth, 1992). Gw. cywydd marwnad Iolo Goch, GDG, t. 422: 'Eithr pei byw athro pawb oedd'.

It is because of Dafydd ap Gwilym that we look back upon the fourteenth century as a major turning-point and a fresh beginning in Welsh poetry, just as it is because of Chaucer that we regard the fourteenth century in England in a similar light.<sup>26</sup>

Mewn astudiaethau diweddarach hefyd, llwydda Dafydd ap Gwilym i gadw’i enw da fel arloeswr. Wrth astudio’r dylanwadau posibl a fu ar farddoniaeth Dafydd ap Gwilym ac ar weithiau cyfatebol mewn ieithoedd eraill, tynnir sylw at arloesedd Dafydd ap Gwilym gan Huw Meirion Edwards:

Social and political factors were certainly conducive, but the development was also made possible by the convergence in fourteenth-century Wales of various cultural and literary influences to which Dafydd ap Gwilym, the most innovative of all medieval Welsh poets, was especially receptive.<sup>27</sup>

Cyn cloi’i ragymadrodd pwysleisia Huw Meirion Edwards ddyfeisgarwch Dafydd ap Gwilym yn groyw fel “the fascinatingly inventive verse of Dafydd ap Gwilym”.<sup>28</sup>

Yn ôl arolwg diweddar o faes barddoniaeth yr Oesoedd Canol, *primus inter pares* oedd Dafydd ap Gwilym:

fe ellir adnabod stamp arbennig mewn nifer helaeth o’i gerddi sy’n ei osod uwchlaw ei gyd-feirdd ac yn teilyngu lle iddo ymhlith llenorion mawr Ewrop yr Oesoedd Canol.<sup>29</sup>

Hyd yn oed yng ngwaith Helen Fulton—sydd weithiau’n ddelw-ddrylliol ac yn groes i’r farn gonfensiynol—fe geir cydnabyddiaeth ddigamsyniol o le unigryw Dafydd ap Gwilym ym Mharthenon llenyddol Cymru:

---

<sup>26</sup> Rachel Bromwich, *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym* (Caerdydd, 1986), t. xi.

<sup>27</sup> Huw M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues* (Rhydychen, 1996), t. xi.

<sup>28</sup> *Ibid.*, t. xiii.

<sup>29</sup> Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300–1525* (Caerdydd, 2005), t. 110.

The uniqueness of his contribution arises not only from his flexible and controlled handling of a common stock of themes, but also from the particular social environment in which he was composing... Dafydd has taken his stock of themes and transformed them into bardic poetry characterized by its beauty, wit, and clarity of perceptions.<sup>30</sup>

Hyd yma, ni chafwyd ymgais o du theori lenyddol i ddisodli goruchafiaeth Dafydd ap Gwilym, a bu tuedd ymhlith efrydwyr barddoniaeth Dafydd ap Gwilym i ganolbwyntio ar feirniadaeth destunol yn bennaf oll. Parhau y mae'r duedd honno hyd heddiw.<sup>31</sup> Helen Fulton fu'r unig feirniad, mewn gwirionedd, i fwrw amheuaeth ar feirniadaeth destunol, ac ar ragdybiaethau'r feirniadaeth honno, yn ei chrynswth mewn perthynas â Dafydd ap Gwilym o safbwynt ei theori lenyddol hi. Yn *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha* ceir ymgais i danseilio'r syniad o awdur yn yr Oesoedd Canol, gan honni mai cysyniad cymharol ddiweddar yw awduraeth.<sup>32</sup> Ond cafwyd ymateb cynhwysfawr i'r safbwynt hwnnw. Fel yr esbonia Cynfael Lake wrth ateb honiad Helen Fulton nad yw awduraeth yn berthnasol i gymdeithasau canoloesol, cofnodai copi'wyr enwau awduron a cheir ganddynt weithiau bob math o fanylion rhagarweiniol am fywydau'r beirdd, amgylchiadau cyfansoddi a chanu'r gerdd a manylion am wrthrychau'r cerddi.<sup>33</sup> Dengys astudiaeth Cynfael Lake hefyd fod cynulleidfaoedd yr Oesoedd Canol yn rhoi cryn bwys ar berchenogaeth a phersonoliaethau barddol.<sup>34</sup> Awduraeth cerddi unigol—a oedd yn fater o bwys yn yr Oesoedd Canol—yw'r maen tramgwydd o hyd felly i olygyddion ac efrydwyr Cymraeg wrth astudio barddoniaeth Dafydd ap Gwilym, ac ymgais i fwrw golwg ar

---

<sup>30</sup> Helen Fulton (gol.), *Dafydd ap Gwilym and the European Context* (Caerdydd, 1989), t. 232.

<sup>31</sup> Yr enghraifft ddiweddaraf o hyn yw'r golygiad newydd o waith Dafydd ap Gwilym a geir ar lein: <http://www.dafyddapgwilym.net> (cyrchwyd 4 Ebrill 2007).

<sup>32</sup> Helen Fulton, *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha* (Llandysul, 1996), tt. xxi–xxii.

<sup>33</sup> A. C. Lake, 'Awduraeth cerddi'r Oesoedd Canol: Rhai sylwadau', *Dwned*, 3 (1997), 63–71.

<sup>34</sup> *Ibid.*, 64–71.

gwestiynau o'r fath fydd yr ymdriniaeth â chywyddau Pen 48 a geir yng ngweddill y bennod hon.

Ar un olwg, gellir dweud mai ffenomen ddiweddar yw'r ymdderu ynglŷn â dilysrwydd cerddi a chwmpas gwaith Dafydd ap Gwilym. Yn 1878 galwodd Cowell yn daer am argraffiad beirniadol o waith y bardd:

for every student knows, to his cost, what it is to spend his strength uselessly in attempting to solve some enigma which at last turns out to be no dark saying of the poet, but some dull blunder of a scribe!<sup>35</sup>

Sylwodd Stern yntau, mewn rhifyn cynnar o'r *Zeitschrift*, fod copïwyr yn aml yn llygru'r testun yn ôl eu mympwy.<sup>36</sup> Yn yr un modd mynegodd Chotzen ei anfodlonrwydd ynghylch y lliaws mawr o gerddi annilys a briodolwyd i Ddafydd ap Gwilym yn y golygiadau modern cynnar. Sôn yr oedd yn fwyaf penodol am olygiad Owen Jones a William Owen Pughe yn 1789.<sup>37</sup> Nid oedd modd defnyddio'r golygiad hwnnw ond "avec la plus grande circonspection."<sup>38</sup> Er bod golygiadau 1914 a 1921 Ifor Williams wedi llwyddo i chwynnu llawer o'r beiau cynnar cwynai Chotzen o hyd ei bod yn anodd cynnig dyfyniadau dibynadwy o waith Dafydd ap Gwilym i'w ddarllenwyr oherwydd absenoldeb golygiad cyflawn o waith y bardd.<sup>39</sup> Rhestrodd yr Athro J. Glyn Davies 48 o gerddi *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym* ar wahân i Gywyddau'r Ychwanegiad, a ystyriai ef yn annilys.<sup>40</sup> Yn eu mysg, y mae'r cerddi

---

<sup>35</sup> E. B. Cowell, 'Dafydd ab Gwilym', *Y Cymmrodor*, 2 (1878), 132.

<sup>36</sup> L. Chr. Stern, 'Dafydd ab Gwilym, Ein Walisischer Minnesänger', *ZCP*, 7 (1910), 2-3.

<sup>37</sup> Th. M. Chotzen, *Recherches sur la poésie de Dafydd ab Gwilym* (Amsterdam, 1927), tt. ix-x.

<sup>38</sup> *Ibid.*, t. ix.

<sup>39</sup> *Ibid.* Cyfeirio y mae Chotzen at y ddau olygiad canlynol: Ifor Williams a Thomas Roberts (gol.), *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr* (Bangor, 1914); Ifor Williams (gol.), *Detholion o Gywyddau Dafydd ap Gwilym* (Bangor, 1921).

<sup>40</sup> Owen Jones a Wiliam Owen Pughe, *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym* (Llundain, 1789); J. Glyn Davies, *Welsh Metrics* (Llundain, 1911), t. 7.

ymryson â Gruffudd Gryg y mynnodd Thomas Parry eu cynnwys yn ei fersiwn, gan esbonio eu bod yn dangos holl nodau crefft farddol y bedwaredd ganrif ar ddeg.<sup>41</sup>

Ar y llaw arall, byth oddi ar ganol y bymthegfed ganrif (pryd y daeth Pen 48 i glawr) bu casglu a hel blodeugerddi o farddoniaeth Dafydd ap Gwilym, ac yn ôl tystiolaeth y llawysgrifau sydd ar glawr gennym y mae'n debyg fod ffynonellau gwerthfawr eraill wedi mynd ar goll. Ymhlith yr enghreifftiau enwocaf o'r rheiny y mae Llyfr Gwyn Hergest. Y mae'n resyn bod llawer o'r casgliadau cynnar hyn, sef y "cynseiliau", chwedl Thomas Parry, wedi mynd ar goll oherwydd yn sgil eu colli nid oes modd cymharu llawysgrifau o'r un cyfnod â'i gilydd yn aml.

Yn 1789 cyhoeddwyd *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym* gan Owain Myfyr a William Owen Pughe.<sup>42</sup> Fe'i hailgyhoeddwyd ymhen rhyw ganrif o dan olygyddiaeth Cynddelw, sef y bardd Robert Ellis o Drefaldwyn.<sup>43</sup> Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif cyhoeddodd O.M. Edwards 65 o ddarnau o waith Dafydd yng Nghyfres y Fil, ond yr oedd llawer o'r rheini yn gerddi a gâi eu hystyried yn annilys yn ôl safonau ysgolheictod modern.

Gwaith Syr Ifor Williams, a ymddangosodd gyntaf yn 1914, oedd y cynnig cyntaf i lunio testun o gywyddau Dafydd ap Gwilym yn ôl safonau ysgolheictod diweddar. Yn y gyfrol hon golygwyd 64 o gywyddau.<sup>44</sup> Hwn oedd y cam cyntaf pwysig. Wrth drafod y gyfrol a'r modd y chwynnodd Ifor Williams lawer ar waith Owain Myfyr a William Owen Pughe dywed Thomas Parry fel a ganlyn:

---

<sup>41</sup> GDG, rhifau 147–54.

<sup>42</sup> Gw. Jones a Pughe (gol.), *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym*.

<sup>43</sup> Robert Ellis (gol.), *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym* (Lerpwl, 1873).

<sup>44</sup> Ifor Williams, *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr* (1914).

Gan ddefnyddio'r egwyddorion a'r wybodaeth y ceisiwyd eu crynhoi yn yr adrannau blaenorol, gellir yn awr ystyried y nifer pur helaeth o gerddi a briodolwyd i DG yn y llsgrau., ond a farnwyd yn annilys ac a adawyd allan o'r casgliad hwn. Y mae'r meini praw y buwyd yn eu trafod, o'u cymhwyso'n weddol ofalus, yn torri'r ddadl fel rheol, ond weithiau rhaid defnyddio maen praw arall na ellir ei ddiffinio, a hwnnw yw math o chwaeth lenyddol. Er mor amhersonol yw crefft y beirdd, ac er bod cymaint ohoni wrth reol, gellir synhwyro rhyw naws arbennig pan fo gwir awenydd fel DG wrth ei waith. Bu raid dibynnu ar y synhwyro hwnnw ychydig weithiau, ac nid pawb efallai a gytuna â'r ddedfryd.<sup>45</sup>

Efallai'r enghraifft enwocaf o'i "chwaeth lenyddol" ar waith, ac yn ymyrryd yn ormodol, oedd pan wrthododd briodoli cywydd 'Y Gal' i Ddafydd ap Gwilym.<sup>46</sup> Er gwaethaf priodoli'r cywydd hwn yn y llawysgrifau i Ddafydd ap Gwilym, nis cynhwysir yng ngolygiad Thomas Parry ac ni chynigir rheswm dros ei wrthod. Tybia Dafydd Johnston iddo ei fwrw o'r neilltu "on the grounds of propriety".<sup>47</sup>

Fodd bynnag, annheg iawn yw canolbwyntio ar yr ychydig achlysuron pan filwriodd chwaeth lenyddol Thomas Parry yn erbyn pob ystyriaeth arall. Gan amlaf, defnyddir meini prawf sydd ar dir cadarn ac yn dangos yn bendant pam y dewiswyd y naill ddarlleniad ar draul y llall. Ceir crynodeb o'i feini prawf yn y dyfyniad a ganlyn:

Nid peth anodd, gydag ychydig o wybodaeth am iaith y beirdd a'u harferion mydryddol mewn gwahanol gyfnodau, yw llunio testun gweddol ddibynadwy o waith Dafydd ap Gwilym. Y mae'n golygu dewis, o fysg llu mawr o ddarlleniadau amrywiol ambell dro, y darlleniad y bernir ei fod yn waith gwreiddiol y bardd. Seilir y farn ar dystiolaeth y llawysgrifau, ansawdd yr iaith, nodweddion cynghanedd a mydr a gwybodaeth am arferion copi-wyr drwy'r canrifoedd.<sup>48</sup>

Fodd bynnag, nid yw'n anymwybodol o'r peryglon sydd wrth wraidd llawer o waith golygu testunau a rhydd rybudd pendant o'r peryglon hynny yn y dyfyniad a ganlyn:

---

<sup>45</sup> GDG, t. clxxi.

<sup>46</sup> Dafydd Johnston, 'Cywydd y Gal by Dafydd ap Gwilym', *CMCS*, 9 (1985), 71–89.

<sup>47</sup> *Ibid.*, 72.

<sup>48</sup> GDG, tt. lxxii.

Ond y mae un dasg sy'n anos o lawer, ac sy'n hanfodol i ddeall a gwerthfawrogi gwaith Dafydd, sef ceisio penderfynu pa gerddi sydd mewn gwirionedd yn eiddo iddo, a pha rai a briodolwyd iddo ar gam yn ystod y chwe chanrif a aeth heibio er pan oedd ef yn byw yn y byd.<sup>49</sup>

Un o'r problemau mawr sy'n wynebu'r neb a gais olygu gwaith Dafydd ap Gwilym yw'r nifer aruthrol o gerddi serch a dadogir arno yn y llawysgrifau. Y mae'r un duedd yn digwydd yng nghyswllt gwaith Siôn Cent a chywyddau crefyddol y bedwaredd ganrif ar ddeg a hyd yn oed y bymthegfed ganrif.<sup>50</sup> Yr oedd Thomas Parry felly yn llygad ei le pan soniodd am yr anawsterau ynghlwm wrth benderfynu ar eirwiredd priodoliad y llawysgrifau.

Ond yn nhyb Thomas Parry y mae rhai llawysgrifau yn fwy geirwir na'i gilydd, yn fwy dibynadwy, ac yn unol â'r ieithwedd y byddai Thomas Parry wedi ei chymeradwyo, yn fwy di-lwgr. Dywed a ganlyn:

Nid yw'n dilyn, wrth reswm, fod llawysgrif yn ddiogel ac yn ddbynadwy am ei bod yn hen, ond y mae'n resyn na bai gennym fwy o gopiâu o'r bymthegfed ganrif, oherwydd y mae'r ychydig sydd ar gael yn cynnwys testunau gwahanol, a gwell yn fyny, na'r llawysgrifau diweddarach.<sup>51</sup>

Yn y dyfyniad hwn ceir rhyw awgrym fod yn dda gan Thomas Parry wrth gasgliadau cynnar a'i fod yn seilio ei destunau cyfansawdd ar y rheiny lle nad oedd olion llygredd. Ond tybed ai dyna a ddigwyddodd mewn gwirionedd? Teg holi felly a gywirwyd yr addewid hwn yng nghyswllt cywyddau Dafydd ap Gwilym yn Pen 48.

---

<sup>49</sup> Ibid.

<sup>50</sup> M. Paul Bryant-Quinn, *Apocryffa Siôn Cent* (Aberystwyth, 2004), tt. 2–26.

<sup>51</sup> GDG, t. cix.

### 3. Beirniadaeth Lenyddol a Dafydd ap Gwilym

Yng nghyswllt ymdriniaeth â chanonau llenyddol a beirniadaeth destunol bydd o fudd pwysu a mesur Pen 48, y cywyddau sydd yn digwydd yn y llawysgrif honno ac agwedd Thomas Parry tuag ati. Trafodir Pen 48 oherwydd ei bod, yn gyntaf, yn gasgliad cynnar iawn o gerddi gan Ddafydd ap Gwilym ac yn allweddol i'n dealltwriaeth o'r canon llenyddol sydd yn perthyn iddo. Yn ail, y mae'r modd y defnyddiwyd y llawysgrif hon gan Thomas Parry yn ddadlennol o ran ei ddulliau golygu. Hynny yw, o gymharu'r darlleniadau a geir yn Pen 48 ac eiddo'r cywyddau perthnasol ym *magnum opus* Thomas Parry gellir cael syniad bras o'r hyn a gyflawnwyd ganddo wrth iddo ef ac ambell gynorthwydd gasglu a choladu cannoedd o ddarlleniadau amrywiol. Yn fwyaf penodol, bydd yr ymdriniaeth hon yn dadlennu rhywfaint ar ddulliau golygu Thomas Parry drwy roi sylw i'w agwedd at y fersiwn o'r cywydd â'r llinell gyntaf 'kredaf i naf y nevoydd' sydd yn Pen 48 yn ogystal â'i agwedd at fersiynau o gerddi eraill a briodolir i Ddafydd ap Gwilym yn Pen 48.<sup>52</sup> Un llawysgrif yn unig, ymysg lliaws sydd yn cynnwys gwaith Dafydd ap Gwilym, yw Pen 48, wrth gwrs, ond o drafod ymwneud Thomas Parry â hi bydd modd inni ddeall sut yr aeth ati i osod seiliau ysgolheictod ym maes golygiadau modern o gerddi canoloesol Cymraeg ar dir cadarn. Rhoddir ystyriaeth arbennig i'r wythfed gerdd yn Pen 48, sef 'Credaf i Naf y nefoedd', am i Thomas Parry wrthod ei derbyn fel gwaith dilys Dafydd ap Gwilym ac am ei bod yn cynrychioli math arbennig o ddull llenyddol sydd heb dderbyn hyd yma y sylw sydd yn ddyladwy iddo. At hynny, y mae ymdriniaeth o'r fath yn codi cwr y llen ar bynciau llawer mwy cyffredinol fel natur

---

<sup>52</sup> Cyfeirir at y cywydd hwn, o hyn allan, fel 'Credaf i Naf y nefoedd'.

awduraeth ganoloesol ac, yn fwy penodol, awduraeth llawer o'r farddoniaeth a gysylltir ag enw Dafydd ap Gwilym, er na ellir o fewn cwmpas pennod ond braidd gyffwrdd â'r pynciau hyn wrth drafod cyd-destunau'r llawysgrif hon.

Cyfyngir yr ymdriniaeth hon i'r modd y defnyddiodd Thomas Parry Pen 48 am ddau reswm. Yn gyntaf, er mwyn gwneud cyfiawnhad â'i olygiad gorchestol byddai'n rhaid chwilio pob sill o'r miloedd o linellau a olygodd Thomas Parry ac mi fyddai gwaith adolygu o'r fath yn orchestwaith y tu hwnt i gyfyngiadau'r ymdriniaeth hon.<sup>53</sup>

Yn ail, yn ymdriniaeth Thomas Parry â llawysgrif Pen 48 datgelir llawer am ei farn bersonol ynghylch y farddoniaeth a gysylltir ag enw Dafydd ap Gwilym ac ynghylch awduraeth yn gyffredinol er bod yn rhaid datgan ymlaen llaw na all yr ymdriniaeth hon ymhoni bod yn gwbl gynhwysfawr ei barn ar holl waith golygu Thomas Parry. Yn olaf, o edrych yn fanwl ar ddefnydd Thomas Parry o lawysgrif Pen 48 y mae'n bosibl dadlau bod yr wythfed cywydd ynddi, o dderbyn rhesymeg dulliau golygu Thomas Parry ei hun, yn haeddu cael ei ailystyried fel gwaith dilys Dafydd ap Gwilym. Hyd yn oed o beidio â derbyn yr wythfed cywydd yn waith dilys Dafydd ap Gwilym bydd trafod yr hanes golygyddol yn ddadlennol o safbwynt deall beirniadaeth destunol Thomas Parry.

Y mae sôn am deilyngdod ac ennill lle ymhlith gweithiau dilys bardd yn ein harwain o reidrwydd at gyd-destun ehangach canonau llenyddol y traddodiad deallusol Ewropeaidd yn ogystal â'r cyd-destun Cymreig ac y mae'n bwnc sydd wedi codi ei ben yng nghyswllt gwaith Dafydd ap Gwilym mewn ymdriniaethau sydd yn deillio o

---

<sup>53</sup> Y mae ailolygu gwaith Dafydd ap Gwilym yn mynd rhagddo ar hyn o bryd mewn prosiect AHRC i dîm o ymchwilyr o dan ofal yr Athro Dafydd Johnston, Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Abertawe, gw. <http://www.dafyddapgwilym.net> a lansiwyd 4 Ebrill 2007.

theoriau ôl-fodern. Pan gyhoeddwyd *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha* codwyd rhai cwestiynau sylfaenol am natur barddoniaeth Dafydd ap Gwilym.<sup>54</sup> Fodd bynnag, y maent yn fath o gwestiynau a godwyd (mewn ffyrdd ychydig yn wahanol i'r modd y'u codwyd gan Helen Fulton yn ei golygiad o waith apocryffaidd Dafydd ap Gwilym) droeon a thro byth ers i gasgliadau o farddoniaeth Dafydd ap Gwilym ymddangos dros bum can mlynedd yn ôl. Wrth greu casgliad o'i waith yr oedd y copiŵyr cynnar yn mynd ati, efallai'n ddiarwybod, i greu canon o waith Dafydd ap Gwilym a hwnnw'n ddethol, o reidrwydd, fel y mae golygiad Helen Fulton yn gasgliad dethol o waith apocryffaidd Dafydd ap Gwilym.

Cwbl ymwybodol, wrth gwrs, yw Helen Fulton o gyfraniad Thomas Parry i'r maes hwn. Mewn un rhan o'i chyflwyniad cyfeirir at olygiad 1952 Thomas Parry o farddoniaeth Dafydd ap Gwilym fel "definitive edition of the Dafydd ap Gwilym canon".<sup>55</sup> Mewn rhan arall sonnir am "the weighty Introduction to the 1952 edition".<sup>56</sup> Tanlinellu ei dyled i'w waith a wna'r ansoddeiriau hyn a pharhau y bydd y dyled hyd yn oed ymhlith golygyddion ôl-fodern. Ond yn ei rhagair dywed Helen Fulton nad yw'n siwr beth sydd gan Thomas Parry dan sylw pan sonnir am "original work of the poet" oherwydd bod Dafydd ap Gwilym yn perthyn i ddiwylliant llafar ac oherwydd nad oes enghraifft ar gael o law Dafydd ap Gwilym.<sup>57</sup> Ergyd yr awgrym yw bod dau wendid sylfaenol yn nealltwriaeth Thomas Parry o farddoniaeth Dafydd ap Gwilym ac o farddoniaeth ganoloesol Gymraeg yn gyffredinol. Eithr, ni ellir cytuno â hyn am ddau reswm. Yn gyntaf, ac yn fwyaf amlwg, y mae'r copi cynharaf o'r

---

<sup>54</sup> Fulton (gol.), *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha*, tt. xi–xxxvii.

<sup>55</sup> *Ibid.*, t. xiv.

<sup>56</sup> *Ibid.*

<sup>57</sup> *Ibid.*, t. xix.

englynion i'r Grog yng Nghaerfyrddin fwy na thebyg yn llaw Dafydd ap Gwilym ac, o bosibl, yn dyddio i 1335.<sup>58</sup> Yn ail, nid oedd Dafydd ap Gwilym yn perthyn i gymdeithas gwbl lafar. Yr oedd ef ei hun yn llythrennog ac yr oedd yn perthyn i gymdeithas a ddefnyddiai dulliau llafar a llythrennog fel ei gilydd ac i wahanol raddau. Gorsymleiddio dybryd yw honni bod barddoniaeth y cyfnod yn wrthrych llafar yn unig.<sup>59</sup> Yn ogystal â'r englynion i'r Grog o Gaer ceir 'Marwnad Angharad' yn Llawysgrif Hendregadredd, ac yn Llyfr Gwyn Rhydderch ceir copi cynnar iawn o 'Englynion y Cusan'.<sup>60</sup> Pwynt llai sylfaenol, ond o bwys mawr wrth olygu barddoniaeth Gymraeg ganoloesol, yw perygl gorddibynnu ar un llawysgrif. Er enghraifft, yn achos Helen Fulton, fel y nododd un adolygydd, pwyswyd gormod ar ddarlleniad unigryw Thomas Wiliems yng Nghaerdydd, y Llyfrgell Ganolog, Llsgr. 4.330 (Hafod 26) am y llinell 'wyllt ei thôn' er bod pob llawysgrif arall yn cynnig y darlleniad llai dyrchafedig 'wyllt ei thin'.<sup>61</sup> O ran methodoleg, felly, ni fwriedir dilyn ei dulliau hi yn yr ymdriniaeth hon.

Y mae'n weddus pwysleisio ymlaen llaw nad ceisio bychanu *editio princeps* Thomas Parry yw'r nod wrth fynd i'r afael â PheniARTH 48. Ni ellir ond edmygu uchelgais a threfnusrwydd dihafal ei olygiad wrth iddo wynebu pentwr anferth o gopïau

---

<sup>58</sup> Gw. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill* (Aberystwyth, 1996), cerdd 4. Gw. hefyd Daniel Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* [= MWM] (Caerdydd, 2000), tt. 88–9.

<sup>59</sup> Trafodir llythrennedd Dafydd ap Gwilym a dylanwad llythrennedd ar ei farddoniaeth yn ail bennod y traethawd hwn.

<sup>60</sup> Daniel Huws, 'Transmission of a Welsh Classic: Dafydd ap Gwilym', yn Colin Richmond ac Isobel Harvey (gol.), *Recognitions: Essays Presented to Edmund Fryde* (Aberystwyth, 1996), 179–202; R. Geraint Gruffydd, 'Englynion y Cusan by Dafydd ap Gwilym', CMCS 23 (1992), 1–6; o bosibl, ceir copi cynnar arall, a ddarganfuwyd gan Dr Ann Parry Owen, o gerdd gan Dafydd ap Gwilym sy'n deillio o drydedd haen Llawysgrif Hendregadredd (ymdriniaeth i'w chyhoeddi yn y man).

<sup>61</sup> Dafydd Johnston, 'Dafydd ap Gwilym: Apocrypha', golygwyd gan Helen Fulton; *The Welsh Classics Series*; Llandysul: Gwasg Gomer, 1996', *Llên Cymru*, 21 (1998), 205.

llawysgrifol pan aeth ati gyntaf i drawsysgrifio barddoniaeth Dafydd ap Gwilym yn 1929. Bu'n rhaid iddo roi trefn ar y miloedd o linellau hynny a'r lliaws amrywiadau ac, ar yr un pryd, cymhwysio methodoleg ysgolheigaidd ac ymarferol gymharol newydd at faes astudiaeth helaeth dros ben a gwneud hynny oll heb gymorth canolfan ymchwil. Talu teyrnged yw'r unig ymateb priodol a cheisio gosod carreg arall ar ben y seiliau cadarn a osodwyd ganddo gan gymhwysio ei fethodoleg at ran arall o'r canon llenyddol a berthyn i waith Dafydd ap Gwilym.<sup>62</sup>

#### **4. Pen 48: Casgliad Cynnar a Gwerthfawr**

Nid oes ond tri chasgliad sylweddol o waith Dafydd ap Gwilym wedi goroesi o'r bymthegfed ganrif, sef Pen 57, rhan i, Pen 54 a Pen 48. Am y rheswm hwnnw yn unig haedda pob un o'r rhain ein sylw manwl. Ceir rhai llawysgrifau eraill o'r cyfnod cyn diwedd y bymthegfed ganrif sydd yn cynnwys ambell gerdd a briodolir i Ddafydd ap Gwilym, gan gynnwys Pen 52, ond nid yw'r llawysgrifau hynny agos mor werthfawr â'r casgliadau sylweddol a wnaethpwyd yn ystod y bymthegfed ganrif.<sup>63</sup> Wrth gwrs, nid yw casgliad cynnar bob amser yn gyfystyr â chasgliad o gopïau di-lwgr ond, yn aml iawn, y mae casgliadau cynnar yn ffurfio'r seiliau cadarn ac yn creu cysail ar gyfer golygiad modern o waith bardd canoloesol.

Rhoddwyd sylw i Pen 57, rhan i a Pen 54 gan ysgolheigion eraill eisoes felly manylir mwy ar Pen 48 yma.<sup>64</sup> O graffu ar ddefnydd Thomas Parry o'r llawysgrif honno ac ar berthynas Pen 48 â llawysgrifau eraill gellir olrhain hanes testunol cerddi Dafydd ap

---

<sup>62</sup> Lanswyd golygiad cynhwysfawr newydd o waith Dafydd ap Gwilym ar 4 Ebrill 2007: <http://www.dafyddapgwilym.net>

<sup>63</sup> Trafodir Pen 52 mewn cyswllt â Dafydd ap Gwilym a Dafydd Nanmor yn y drydedd bennod.

<sup>64</sup> MWM, tt. 93–6.

Gwilym yn well. O wneud hynny bydd modd gweld hefyd i ba raddau y defnyddiwyd Pen 48 gan Thomas Parry fel carn neu demplad ar gyfer llunio ei destunau cyfansawdd. Hynny yw, gellir cychwyn rhoi rhyw lun ar ateb i'r cwestiwn ynghylch dibyniaeth Thomas Parry ar Pen 48 wrth lunio ei destunau o gywyddau eraill Dafydd ap Gwilym.

At hynny, oherwydd bod maes golygu barddoniaeth Dafydd ap Gwilym yn helaeth iawn bydd y rhan fwyaf o olygyddion, o ran ymarferoldeb a chyfleustra, yn trawsysgrifio un testun a defnyddio hwnnw fel y testun prawf ar gyfer y fersiynau eraill. Er mwyn osgoi dryswch mawr a dyblygu ofer bydd yn fantais i'r golygydd ddewis testun o'r cychwyn sydd yn ddibynadwy (er nad yw hyn, wrth gwrs, yn bosibl bob amser). Dyna fu'r dull o weithio a fabwysiadwyd gan Thomas Parry. Yn ei bapurau a'i drawsysgrifiadau, a gedwir bellach yn y Llyfrgell Genedlaethol, gellir gweld hyn ar waith ar gyfer pob un o'r cerddi a gynhwysir yn *Gwaith Dafydd ap Gwilym*. Dewisodd Thomas Parry destunau Pen 49 bob amser (er nad yw pob testun a geir yn Pen 49 yn deillio o'r un ffynhonell) lle'r oedd Pen 49 yn cynnig testun, fel sail ar gyfer cymharu testunau eraill. Gwnaethpwyd copi o'r testun cyhoeddedig a'i ludo ar ymyl eithaf y ddalen chwith gan ddefnyddio rhesi o golofnau i gymharu'r amrywiadau. Er mor hwylus oedd y dull hwn o ran gweld amrywiadau llinellau unigol nifer fawr o lawysgrifau, ar yr un pryd nid yw'n ddelfrydol ar gyfer dangos trefn cwpledi (os digwydd i'r rheiny amrywio), sydd o bosibl yn cyfrif i raddau am y diffyg hwnnw yn *Gwaith Dafydd ap Gwilym*.

## 5. Pen 48, Pen 49 a Hafod 26

Wrth ystyried pwnc fel cynseiliau llawysgrifol yng nghyswllt barddoniaeth Dafydd ap Gwilym, dilys troi ein golygon at gasgliad mawr Dr John Davies yn Pen 49 sydd yn cynnwys cerddi o nifer o wahanol ffynonellau. Bu Pen 49 yn bwysig iawn i waith golygu Thomas Parry yn ogystal ond y mae'n werth holi hefyd i ba raddau y bu Pen 48 yn bwysig i waith y dyneiddiwr o Fallwyd. Gan fod nifer o'r cywyddau sydd yn digwydd yn Pen 48 yn digwydd hefyd yn Pen 49 yn llaw Dr John Davies o Fallwyd gellir eu cymharu i weld i ba raddau yr oedd Dr John Davies yn dibynnu'n uniongyrchol ar ddarlleniadau Pen 48 ac i weld a yw darlleniadau'r ddwy lawysgrif yn tarddu o'r un gysail.<sup>65</sup>

### **Trefn y Cywyddau yn Pen 49**

Digwydd y testunau sydd yn Pen 48 mewn trefn bur wahanol yn Pen 49. Yn Pen 49 y mae'r testunau'r cywyddau sydd yn Pen 48 yn perthyn i wahanol rannau o'r llawysgrif. Golyga hynny fod y copiâu a geir yn Pen 49 yn deillio o wahanol ffynonellau: o Lyfr Wiliam Mathew o Landaf, o "hên Lyfr Arall", ac o'r Vetustus Codex. O'r herwydd, buddiol yw cymharu perthynas y testunau fel y maent yn digwydd yn Pen 49 a Pen 48 â'i gilydd, er mwyn dadlennu mwy am eu cynseiliau ac er mwyn deall eu hanes testunol yn well. Digwydd y cywyddau 'Amaw ar Gam' a 'Merch Fileinaidd' yn Pen 48 ac yn Pen 49 yn yr adran a elwir yn 'P 49A', sef yr adran a ddaw o Lyfr Wiliam Mathew o Landaf.<sup>66</sup>

---

<sup>65</sup> Adysgrifwyd Pen 49 o dan olygyddiaeth Thomas Parry, gw. T. Parry (gol.), *Peniarth 49* (Caerdydd, 1929).

<sup>66</sup> Daniel Huws, 'John Davies and his manuscripts', yn Ceri Davies (gol.), *Dr John Davies of Mallwyd: Renaissance Scholar* (Caerdydd, 2004), t. 93.

### **‘Amau ar Gam’**

Y mae'r fersiwn o'r cywydd 'Amau ar Gam' a geir yn Pen 48 yn wahanol mewn nifer o ffyrdd bychain ond arwyddocaol i'r hyn a geir yn Pen 49 sydd yn dangos nad yw Pen 49 yn yr achos hwn yn gopi uniongyrchol o gopi Pen 48.<sup>67</sup> Digwydd y cywydd yn Pen 49 mewn adran a godwyd gan Dr John Davies o Lyfr Wiliam Mathew (sef llyfr sydd bellach ar goll), a chodwyd amrywiadau yn Pen 49 o'r *Vetustus (ex per vetust)*.<sup>68</sup> At hynny, ceir ambell gwpled ychwanegol yn fersiwn Pen 49, sef:

o serch ar ormodd o son  
Iev neidr ai anvdon<sup>69</sup>

Ac:

Iawn y gwnevthum dy ganmawl  
ond oedd iawn veneit y ddiawl<sup>70</sup>

Ceir mân wahaniaethau hefyd rhwng fersiynau Pen 48 a Pen 49 y cywydd hwn o ran geiriad: 'i eni' yn Pen 48, 'y ynni' yn Pen 49; 'myn y gwr' yn Pen 48, 'mynnu gwr' yn Pen 49; 'karwn' yn Pen 48 ond 'karaf' yn Pen 49; 'di brvdd' yn Pen 48 ond 'di brwydd' yn Pen 49; 'ne a ddeirid' yn Pen 48 ond 'ag a ddeiryt' yn Pen 49; ac 'ni chaffwyf dda gan dduw vry' yn Pen 48 ond 'na chaffwyf drugaredd vry' yn Pen 49. Nid yr un drefn sydd i gwpledi'r cywydd yn y ddau fersiwn, ac felly ni ellir casglu'n bendant eu bod yn perthyn i'r un gynsail.<sup>71</sup>

### **‘Merch Fileinaidd’**

Uwchben fersiwn Pen 49 o 'Merch Fileinaidd' ceir 'Ex<sup>t</sup> per vetust', felly o'r *Vetustus Codex* y codwyd yr amrywiadau (yn llinell 16 ceir 'ai' yn lle 'ei'; yn llinell 25 ceir

---

<sup>67</sup> GDG, cerdd 77; Pen 48, t. 10; Pen 49, ff. 40<sup>f</sup>.

<sup>68</sup> Pen 49, ff. 40<sup>f</sup>.

<sup>69</sup> Ibid.

<sup>70</sup> Ibid, ff. 40<sup>v</sup>.

<sup>71</sup> Dafydd Johnston, 'Dafydd ap Gwilym and oral tradition', *Studia Celtica*, 37 (2003), 143–61.

‘nawrad’ yn lle ‘nawrywyt’, sef dau amrywiad sydd yr un peth â’r hyn a geir yn nhestun Pen 48, ond ni newidiwyd y darlleniad ‘ammwyll’ yn Pen 49 yn ‘owmal’ (sef yr hyn a geir yn Pen 48)). Er nad oes gwahaniaeth yn nifer a threfn y cwpledi yn fersiynau Pen 48 a Pen 49 ceir nifer helaeth o amrywiadau yn y rhan fwyaf o’r llinellau: er enghraifft, ‘maint yr awydd’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘meint yw r awydd’ yn Pen 49; ‘hely diol havl y deav’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘hela diol haul deheu’ yn Pen 49 a ‘hardd yw yn gayn’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘hoen ewyngaen’ yn Pen 49.<sup>72</sup> Y mae’r lliaws o amrywiadau a geir yn y cywydd yn gadarnhad pellach nad yw’r naill lawysgrif yn gopi uniongyrchol o’r llall, er ei bod yn bosibl o hyd, o ystyried bod y ddwy lawysgrif â’r un nifer ac a’r un drefn yng nghwpledi’r cywydd hwn, eu bod yn tarddu o’r un gysail yn y pen draw. At hynny, y mae’n werth nodi bod copi’dd Pen 48 yn defnyddio ffurfiau fel ‘yhdvas’ (llinell 2), ‘oir’ (llinell 15), ‘newidie’ (llinell 45), ‘myrchnadoydd’ (llinell 51) sydd yn awgrymu mai tafodiaith y de-orllewin oedd eiddo’r copi’dd. Digwydd camrannu geiriau hefyd (er enghraifft, ‘a garwydd’ yn

---

<sup>72</sup> Dyma restr o’r amrywiadau eraill: ‘a rrai a wyl vy chwyl chwyrn’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘y rhei a wyl vy cwyl cwyrn’ yn Pen 49; ‘hyñ’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘hwñn’ yn Pen 49; ‘am vynwyf’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘am y nwyf’ yn Pen 49; ‘Ai kayl’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘ei cael’ yn Pen 49; ‘heb oir’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘hebohir’ yn Pen 49; ‘Rydebic med rrai’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘rydebig y rhei’ yn Pen 49; ‘panid’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘ponit’ yn Pen 49; ‘prydv gair pryd’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘brydu geir brat’ yn Pen 49; ‘ni roy’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘ni roddei’ yn Pen 49; ‘nowrad owmal’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘nawrywyt ammwyl’ yn Pen 49; ‘a thal’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘a thwyll’ yn Pen 49; ‘mul’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘mawl’ yn Pen 49; ‘gwylan gayr marian y mor’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘gwylan ymmarian y mor’ yn Pen 49; ‘gwydn wy n bwrw’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘gwydn wyf vwrw’ yn Pen 49; ‘ai gwayth bwrw a sayth’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘gwaeth na bwrw a saeth’ yn Pen 49; ‘pe prytwn’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘Bei gwnelwn’ yn Pen 49; ‘a bryais’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘a wneuthvm’ yn Pen 49; ‘hawdd i gwnai yrof o hawl’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘rhwydd y gwnai erof yr hawl’ yn Pen 49; ‘gwynddaint’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘gwnddeint’ yn Pen 49; ‘ninn’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘nim’ yn Pen 49; ‘hensail’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘henseil’ yn Pen 49; ‘gayr gwllith gwedd’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘ger gwllith gwledd’ yn Pen 49; ‘gwrwawl gain gwevrhyl’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘gweirvyl gein gwirvawl’ yn Pen 49; ‘newidie ne wowdair’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘newidiei hon wawdeir’ yn Pen 49; ‘a bod’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘a’i bod’ yn Pen 49; ‘mo vileiniaidd’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘mor filenaidd’ yn Pen 49; ‘liw eiry’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘hoen eiry’ yn Pen 49; ‘hoñ a vv wir’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘peth a vu wir’ yn Pen 49; a ‘klwyf pa glwyf gloywa veinweñ’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘plwyf a glwyf gloywverch veinwen’ yn Pen 49.

llinell 22) ac esgeulustra ('mo' yn lle 'mor' yn llinell 48) yn Pen 48 sydd yn awgrymu, o bosibl, ddiffyg profiad y copïydd. Gall y ddau beth hyn—sef camrannu geiriau ac esgeulustra—hefyd awgrymu nad oedd copi ysgrifenedig o flaen yr ysgrifydd ac mai ar lafar y codwyd y cywydd. O ran orgraff, dylid sylwi hefyd fod Pen 49, sydd yn deillio o Lyfr Wiliam Mathew o Landaf, yn arddangos nodweddion Cymraeg Canol: er enghraifft, ffurfiau fel 'hoet', 'hutoi' ac 'ehutlas', sef ffurfiau na cheir yn Pen 48 yn yr achosion arbennig hyn.

### ***Llyfr Wiliam Mathew***

Y mae tystiolaeth destunol y ddau gywydd—sef 'Merch Fileinaidd' ac 'Amau ar Gam' fel y maent yn digwydd yn Pen 48 a Pen 49—yn ddadlennol o safbwynt Pen 48, Llyfr Wiliam Mathew a'r Vetustus Codex. O ran 'Merch Fileinaidd' ceir yr un nifer o gwpledi yn yr un drefn yn nhestunau Pen 48 a Pen 49. Codwyd yr amrywiadau yn Pen 49 o'r Vetustus Codex ond oherwydd bod 'nawrywyt ammwyl' yn Pen 49 wedi'i newid yn 'nawrad ammwyl' (a 'nowrad owmal' a geir yn Pen 48) teg casglu nad yr un ffynhonnell a oedd gerbron copïwyr y Vetustus a Pen 48. Er nad oes gwahaniaeth o ran hyd y cywyddau ac o ran trefn y cwpledi yn nhestunau'r ddau gywydd hyn yn Pen 48 a Pen 49 ceir nifer helaeth o wahaniaethau yng ngeiriad rhai o'r llinellau rhwng fersiynau'r ddwy lawysgrif. Gellir casglu, gyda hyn, nad yr un ffynhonnell a oedd gan Llyfr Wiliam Mathew a Pen 48, ond y mae'n bosibl bod gan y ddwy lawysgrif yr un gysail parthed y cywydd hwn. Diddorol yw nodi bod Llyfr Wiliam Mathew, fel y'i hatgynhyrchir yn Pen 49, yn dangos nodweddion orgraffyddol Cymraeg Canol. Ar y llaw arall, dengys testun Pen 48 nodweddion tafodieithol de-orllewin Cymru.

Y mae'r hanes testunol yn achos 'Amau ar Gam' yn fwy astrus. Y mae'r amrywiadau a godwyd o'r Vetustus Codex oll yn cytuno â'r hyn a geir yn Pen 48 (ac eithrio un amrywiad bychan, sef 'a' yn llinell 5). Ond fe geir cwpledi ychwanegol yn nhestun Pen 49, a nodir uchod, a dau gwpled ychwanegol yn nhestun Pen 48 yn ogystal, sy'n awgrymu nad yr un ffynhonnell yn uniongyrchol a fu gan Pen 48 a Llyfr Wiliam Mathew yn yr achos hwn. Yn ôl yr amrywiadau a godwyd o'r Vetustus Codex yn Pen 49 ceir nod bychan (sef " ") yn ymyl y cwpledi hyn: 'o serch ar ormodd o son/ Iev neidr ai anvdon' ac 'Jawn y gwnevthum dy ganmawl/ ond oedd iawn veneit y ddiawl' (sef y cwpledi ychwanegol yn Pen 49). O bosibl, diben y nod hwn oedd dangos eu bod yn absennol o'r Vetustus Codex. Digwydd y nod hwn (gyda'r un arwyddocâd, o bosibl) yn achos 'Y Llwynog'. Fodd bynnag, ni chynhwysir y ddau gwpled ychwanegol (sydd yn digwydd yn nhestun Pen 48) ymhlith amrywiadau'r Vetustus Codex yn Pen 49. Efallai ei bod yn deg dweud felly fod testun Pen 48 a'r Vetustus Codex yn perthyn yn agosach i'w gilydd na Pen 48 a Llyfr Wiliam Mathew.

O ran perthynas Pen 48 a'r Vetustus, yng nghyswllt tystiolaeth 'Merch Fileinaidd', ymddengys eu bod yn destunau sydd yn deillio o'r un gysail a'u bod yn debyg iawn i'w gilydd: y mae hynny'n wir i raddau llai—ond ni ellir ond dyfalu i ba raddau'n llai—yn achos 'Amau ar Gam'.

### **'Cyngor gan Frawd Llwyd'**

Yn y cywydd byr iawn 'Cyngor gan Frawd Llwyd' y mae fersiynau Pen 48 a Pen 49 yn drawiadol o debyg.<sup>73</sup> Y mae'r fersiwn sydd yn Pen 49 wedi ei godi *ex vetusto*

---

<sup>73</sup> GDG, cerdd 136; Pen 48, t. 13; Pen 49, ff. 129<sup>v</sup>.

*codice membranaceo script circa 1526* yn ôl y llaw sydd ynddi.<sup>74</sup> Ni cheir amrywiadau o ran trefn a nifer y cwpledi, er bod mân wahaniaethau yn narlleniadau'r ddau fersiwn: 'ym pericl' a geir yn Pen 48 yn lle 'ym mherigl' yn Pen 49; 'pynkie' a geir yn Pen 48 yn lle 'pyngiav' yn Pen 49; a 'mab duw' a geir yn Pen 48 yn lle 'mab mair' yn Pen 49.<sup>75</sup> Gellid tybio bod y ddau fersiwn hyn yn perthyn i'r un gynsail ond dylid sylwi hefyd ar ambell elfen ddeheuol yn fersiwn Pen 48, sef 'pynkie' llinell 3, 'ni thale' llinell 15 a 'bie' llinell 17 sydd yn awgrymu o bosibl mai deheuwr oedd copïydd fersiwn Pen 48.

### **'Cusan'**

Perthyn fersiwn Pen 49 o 'Cusan' i'r rhan o'r llawysgrif a godwyd o'r Vetustus. Ni cheir ond llond llaw o fân wahaniaethau rhwng fersiynau Pen 48 a Pen 49 yn achos y cywydd hwn.<sup>76</sup> Ni cheir unrhyw wahaniaeth o ran nifer a threfn y cwpledi yn fersiynau Pen 48 a Pen 49 ac ni cheir ond mân amrywiadau fel 'dwyol' yn Pen 48 yn lle 'dwywol' yn Pen 49; 'nychdaith' yn Pen 48 yn lle 'wychdaith' yn Pen 49; a 'her i ddoe' yn Pen 48 yn lle 'hyr i ddoe' yn Pen 49.<sup>77</sup> Mewn cywydd 54 llinell nid yw'r gwahaniaethau hyn yn sylfaenol, a gellir dadlau bod y ddau fersiwn yn sicr yn tarddu o'r un gynsail.

---

<sup>74</sup> Pen 49, ff. 85<sup>f</sup>.

<sup>75</sup> Dyma restr o'r amrywiadau eraill: 'dyvod' a geir yn Pen 48 yn lle 'dywad' yn Pen 49; 'kais ir mair' a geir yn Pen 48 yn lle 'cais er mair' yn Pen 49; 'ni thale ffayn gwyrddvlayn gwy[ ]' a geir yn Pen 48 yn lle 'ni thalai ffayn gwyrdd gwydd' yn Pen 49; 'myn y gwr bie heddiw' a geir yn Pen 48 yn lle 'myn y gwr a fedd heddiw' yn Pen 49; 'Mae y gwayw' a geir yn Pen 48 yn lle 'mae gwayw' yn Pen 49; ac yn y llinell olaf ceir 'am aur o ddyn a marw ddwyf' yn Pen 48 yn lle 'am avr o ddyn marw yddwyf'.

<sup>76</sup> GDG, cerdd 133; Pen 48, t. 3; Pen 49, ff. 127<sup>f</sup>.

<sup>77</sup> Dyma restr o'r amrywiadau eraill: 'kan oleuni' a geir yn Pen 48 yn lle 'cain oleuni' yn Pen 49; 'karodyn' a geir yn Pen 48 yn lle 'korrodyn' yn Pen 49; 'mawrson fwythau' a geir yn Pen 48 yn lle 'mawr son fawr fwythau' yn Pen 49; 'ddrwc i gwc a gaf' a geir yn Pen 48 yn lle 'ddiwg gwg a gaf' yn Pen 49; 'hayddodd' a geir yn Pen 48 yn lle 'hwyliodd' yn Pen 49; 'wadair' a geir yn Pen 48 yn lle 'wawdair' yn Pen 49; 'i luned' a geir yn Pen 48 yn lle 'Eluned' yn Pen 49; 'A dduw' a geir yn Pen 48 yn lle 'O dduw' yn Pen 49; 'y rrvw' a geir yn Pen 48 yn lle 'yn nuw' yn Pen 49.

### **'Lluniau Crist a'i Apostolion'**

Digwydd 'Lluniau Crist a'i Apostolion' yn Pen 48 ac yn Pen 49.<sup>78</sup> Codwyd testun Pen 49 o'r Vetustus. Fodd bynnag, ceir cryn wahaniaeth rhwng y ddau fersiwn. Er enghraifft, yn yr ail linell ni cheir 'y' yn Pen 49; 'yn llew' a geir yn Pen 48 ond 'yn lew' a geir yn Pen 49; ac 'Ar lun walch' a geir yn Pen 48 ond 'Ailvn wawr' a geir yn Pen 49.<sup>79</sup> Yr un nifer o gwpledi a geir yn nhestunau Pen 48 a Pen 49, ond y mae'r drefn yn wahanol, a cheir gwahanol gwpledi i'w gilydd yma a thraw yn y ddau destun. Y mae cwpledi olaf y cywydd yn achosi problem, a drafodir isod yng nghyswllt 'Credaf i Naf y nefoedd'.

### **Hafod 26**

---

<sup>78</sup> GDG, cerdd 4; Pen 48, t. 14; Pen 49, ff. 130<sup>f</sup>.

<sup>79</sup> Dyma restr o'r amrywiadau eraill: 'da llvniwyd iesu lwyd ion' a geir yn Pen 48 ond 'da y llvniwyd Iesv lwyd lon' a geir yn Pen 49; 'pantec' a geir yn Pen 48 ond 'pand teg' a geir yn Pen 49; 'Duw ior glan nny kanawl' a geir yn Pen 48 ond 'duw ei hvn sy'n y kanawl' a geir yn Pen 49; 'da i dyly' a geir yn Pen 48 ond 'da dyly' a geir yn Pen 49; 'a iaswd' a geir yn Pen 48 ond 'A roswyd' a geir yn Pen 49; 'chech' a geir yn Pen 48 ond 'Chwech' a geir yn Pen 49; 'devwn oll ynghylch' a geir yn Pen 48 ond 'Devan oll amgylch' a geir yn Pen 49; 'pedr da gwyr' a geir yn Pen 48 ond 'Pedr da y gwyr' a geir yn Pen 49; 'wiw awen' a geir yn Pen 48 ond 'wiw amcan' a geir yn Pen 49; 'gwyndroyd yw a gwiw' a geir yn Pen 48 ond 'Gwyndroed gyda gwiw' a geir yn Pen 49; 'Iago hayl wiw gv hylwydd' a geir yn Pen 48 ond 'Iago hael hoywgv hylwydd' a geir yn Pen 49; 'Lle aur' a geir yn Pen 48 ond 'lly avr' a geir yn Pen 49; 'kyvarwydd kall' a geir yn Pen 48 ond 'cain hylwydd call' a geir yn Pen 49; 'Martha ni wnayth ymwrthod' a geir yn Pen 48 ond 'Mathew a bair i'm wythwawd' a geir yn Pen 49; 'Mevvs glayr weddvs i glod' a geir yn Pen 48 ond 'Barthlomevs weddvs wawd' a geir yn Pen 49; 'Mwythvs liw mathevs' a geir yn Pen 48 ond 'Moethvs lew mathias' a geir yn Pen 49; 'A iago rrai diogan' a geir yn Pen 48 ond 'Gwiw fvchedd Iaco fychan' a geir yn Pen 49; 'y mewn' a geir yn Pen 48 ond 'o fewn' a geir yn Pen 49; 'twy llynynaid' a geir yn Pen 48 ond 'twy y llvniav' a geir yn Pen 49; 'bellynd bwyll' a geir yn Pen 48 ond 'pellynt pwyll' a geir yn Pen 49; 'lle doded' a geir yn Pen 48 ond 'lle y doded' a geir yn Pen 49; 'ystr doyth' a geir yn Pen 48 ond 'Ystyr dyn' a geir yn Pen 49; 'Dydd a gavos y devddec' a geir yn Pen 48 ond 'Y dydd a roed i'r devddeg' a geir yn Pen 49; 'kerdded y byd' a geir yn Pen 48 ond 'I gerdded byd' a geir yn Pen 49; 'kain dyddyd n kyn' a geir yn Pen 48 ond 'kain deddfawl cyn' a geir yn Pen 49; 'ar groys y groc' a geir yn Pen 48 ond 'ar y groes grog' a geir yn Pen 49; 'krist' a geir yn Pen 48 ond 'Christ' a geir yn Pen 49; 'ni bu' a geir yn Pen 48 ond 'nid oedd' a geir yn Pen 49; 'Pan gyvdes duw iesu' a geir yn Pen 48 ond 'pan gyfodes yr Iesu' a geir yn Pen 49; 'Yn iowngar or ddyar ddy' a geir yn Pen 48 ond 'Yn gwir gar or ddayar ddy' a geir yn Pen 49; 'llygaid llvs' a geir yn Pen 48 ond 'nid rhaid rhvs' a 'llygaid llvs' a geir yn Pen 49; 'Gwir vab mair gair o gariad' a geir yn Pen 48 ond 'Mab mair yw'r gair o gariad' a geir yn Pen 49; 'tyddyn' a geir yn Pen 48 ond 'dyddyn' a geir yn Pen 49; 'Or mab' a geir yn Pen 48 ond 'y mab' a geir yn Pen 49; ac, yn olaf, 'Amen nid addvwn mwy' a geir yn Pen 48 ond 'Amen ac nid rhaid i n mwy' a geir yn Pen 49.

Hafod 26 (Caerdydd 4.330) gan Thomas Wiliems o Ddyffryn Conwy yw casgliad cynharaf y Dyneiddwyr o gerddi Dafydd ap Gwilym Yng nghyswllt Pen 48, y Vetustus, a'r cywydd 'Credaf i Naf y nefoedd' y mae'n gasgliad pwysig o ran trefn ei gywyddau. Er bod cywydd arall o waith Dafydd ap Gwilym (nad yw'n ymddangos yn Pen 48 yn ôl yr hyn sydd ar glawr) wedi'i gopïo rhwng 'Cusan' a 'Marwnad Gruffudd Gryg' yn Hafod 26,<sup>80</sup> a'r ddau gywydd hynny yn ymddangos mewn trefn o chwith yn Pen 48, y mae trefn y cywyddau a geir yn Pen 48 a Hafod 26 yn drawiadol o debyg i'w gilydd.<sup>81</sup> Gan fod cysylltiad Hafod 26 â'r Vetustus yn hysbys, y mae trefn cywyddau Pen 48 eto yn awgrymu bod cysylltiad pur agos rhwng Pen 48 a'r Vetustus. Fel y gwelwyd eisoes uchod y mae testunau Pen 48 a'r Vetustus yn bur debyg i'w gilydd, a cheir prawf o hyn yn arbennig pan fo'r ddau destun yn rhannu gwall, er enghraifft, 'Dibrudd drin dy ebrwydd droed' yn 'Amau ar Gam' yn lle'r hyn a gynnigir gan Lyfr Wiliam Mathew yn Pen 49, sef 'Dibrudd drum dy ebrwydd droed'. Fodd bynnag, ceir nifer o enghreifftiau lle y mae testun Pen 48 yn rhagori ar eiddo'r Vetustus: 'nychdaith' ('Cusan') yn Pen 48 yn lle 'wychdaith' o'r Vetustus, neu 'niw kenyw' ('Cusan') yn Pen 48 yn lle 'nis cenyw' o'r Vetustus. Ond ceir ambell enghraifft o well darlleniad yn deillio o'r Vetustus, er enghraifft, 'Ar lvn walch' yn Pen 48 ond 'Ailvn wawr' yn Pen 49. Ni cheir copi o'r cywydd 'Marwnad Gruffudd Gryg' yn Pen 49, sydd hefyd yn awgrymu o bosibl na welwyd Pen 48 gan Dr John

---

<sup>80</sup> GDG, t. cx.

<sup>81</sup> Ibid.

Davies o Fallwyd.<sup>82</sup> Golyga hyn oll fod y Vetustus a Pen 48 yn perthyn yn agos i’w gilydd, ond nid yw’r naill yn gopi o’r llall.

### **‘Y Llwynog’**

Digwydd ‘Y Llwynog’ yn Pen 48 ac yn Pen 49 yn ogystal.<sup>83</sup> Yn Pen 49 fe ddigwydd yn y rhan o’r llawysgrif a godwyd o “hên Lyfr Arall”. ‘Ex<sup>r</sup> per vetust’ a geir uwchben y copi yn Pen 49, a cheir nifer o amrywiadau o’r Vetustus yno: y mae’r amrywiadau o’r Vetustus yn debyg iawn i ddarlleniadau Pen 48. Yn llinell 1 y mae’r amrywiad ‘yr’ hefyd yn digwydd yn Pen 48, felly hefyd ‘vfydd’ llinell 5, ‘ar ael y rhiw arial rhus’ llinell 18, ‘garw ei lais a i garol ef’ llinell 30, ‘gwedd’ a ‘y gwydd’ llinell 32, ond ‘deugwr talar y digwydd’ (lle y ceir ‘dev gwyar’ yn nhestun Pen 48) yn llinell 33 ac yn llinell 8 ymddengys fod Dr John Davies wedi ychwanegu ‘d’ i ‘Lonyda’ ac i ‘adail’ (ond ni ddigwydd y cwpled hwnnw yn Pen 48 beth bynnag). Ar garn hyn yn unig, gellir mentro bod y Vetustus a Pen 48 yn debyg i’w gilydd. At hynny, ceir nod bychan yn ymyl y cwpledi ychwanegol a geir yn Pen 49, sef ‘Mal ’r oeddwn anseiliwn sail/ Lonydda dan lwyn addail’ ac yn ymyl ‘Cyfarth a wna’r ci efydd/ Byrglust oedd y boreu glâs dydd’ sydd yn awgrymu o bosibl nad oedd y rhain yn y Vetustus. Fodd bynnag, nid yw llinellau 3–4 yn Pen 48 ychwaith, sy’n awgrymu nad yw testun Pen 48 a’r Vetustus yr un ffunud â’i gilydd.

Ceir nifer o fân wahaniaethau rhwng testunau Pen 48 a Pen 49. Er enghraifft, ceir ‘niw gwyl’ yn Pen 48 yn lle ‘ai gwyl’ yn Pen 49; ‘gwnayth ari hwyl’ yn Pen 48 yn lle

---

<sup>82</sup> GDG, cerdd 20.

<sup>83</sup> Ibid., cerdd 22; Pen 48, t. 11; Pen 49, ff. 81<sup>v</sup>.

‘gwnaeth ar fy hwyl’; a ‘lle ni’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘llain ni’ yn Pen 49.<sup>84</sup> Nid yw fersiynau Pen 48 a 49 o’r cywydd hwn mor debyg i’w gilydd â rhai o’r cywyddau eraill sydd yn perthyn i’r ddwy lawysgrif. Codwyd testun Pen 49 o ‘Y Llwynog’ o ‘hên Lyfr Arall’ (Pen 49, ff. 75<sup>v</sup>) felly o’i gymharu â’r ddau gywydd a godwyd o Lyfr Wiliam Mathew neu’r tri chywydd a godwyd yn uniongyrchol o’r Vetustus ni ddylid synnu bod gwahaniaethau. Ymddengys fod Pen 48 yn agosach ei pherthynas â’r Vetustus nag â’r ‘hên Lyfr Arall’. Os ydyw testunau’r ‘hên Lyfr Arall’ a Pen 48 yn perthyn i’r un gysail yn y pen draw ceir bwlech rhyngddynt.

### **Llaw Peniarth 48**

Wrth drafod y posibilrwydd, a gynigiwyd gyntaf gan Daniel Huws, mai bardd a fu wrthi’n copïo Pen 48 dywed Dafydd Johnston.<sup>85</sup>

It is understandable that poets would have been readier than professional reciters to commit poems to writing, since the reciters could well have regarded written texts as a threat to their livelihood which depended on the uniqueness of their memory. And it is likely that their approach to the preservation of texts would have been more creative than that of the reciters, for instance in adapting *cynganeddion* to conform to contemporary standards.<sup>86</sup>

At y dadansoddiad hwn gellir ychwanegu mai deheuwr o fardd a chopiwr amatur a fu’n copïo’r llawysgrif hon. Ategir y casgliad deublyg hwn gan nifer y nodweddion

---

<sup>84</sup> Dyma restr o’r amrywiadau eraill: ‘gayr’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘ger’ yn Pen 49; ‘ar ayl y rriw arial rrvs’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘afael ar hwn rhyw ofl rhus’ yn Pen 49; ‘evrgais’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘o argais’ yn Pen 49; ‘vy mwa i’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘y mwa i’ yn Pen 49; ‘anawn drychni’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘anian drychni’ yn Pen 49; ‘a choyc edn a chic adar’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘a chig edn a choeg adar’ yn Pen 49; ‘garw i lais ai garol ef’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘Gwyr y wlad ei garol ef’ yn Pen 49; ‘gwedd ab ymlith y gwydd ir’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘gwael ab ym-mlhith gwail ir’ yn Pen 49; ‘llamw erw’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘llamwr eiry’ yn Pen 49; ‘drain’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘brain’ yn Pen 49; ‘dyroganiair’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘daroganair’ yn Pen 49; ‘kynwr fryn’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘Cenau ar fryn’ yn Pen 49; ‘ai dy’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘I’w dŷ’ yn Pen 49; ‘dev gwayr talwrn i digwydd/ delw ki yny dolwg gwydd’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘Cyfarth a wna’r ci efydd/ Byrglust oedd y boreu glâs dydd’ yn Pen 49; ac, yn olaf, ‘ymlyniaid’ a geir yn Pen 48 yn lle ‘o’ mlyniaid’ yn Pen 49.

<sup>85</sup> MWM, t. 93.

<sup>86</sup> Dafydd Johnston, ‘Dafydd ap Gwilym and oral tradition’, 147.

a'r amrywiadau deheuol a geir yn y llawysgrif ac ar sail y camrannu geiriau a chamgymeriadau a geir ynddi yma ac acw.

## 6. *Gwaith Dafydd ap Gwilym a Peniarth 48*

Y mae'r cywydd sy'n dwyn y teitl 'Cusan' yng ngolygiad Thomas Parry, wedi ei seilio'n agos iawn ar destun Pen 48.<sup>87</sup> Ond faint o bwys mewn gwirionedd a rydd Thomas Parry ar y llawysgrif hon yn gyffredinol?

Pen 48 yw un o'r casgliadau cynharaf o farddoniaeth Dafydd ap Gwilym sydd gennym ar glawr. Yn wir, ar un adeg credid hyd yn oed mai llaw Dafydd ap Gwilym a fu'n gyfrifol am ysgrifennu'r cywyddau a geir yn y llawysgrif.<sup>88</sup> Ond yn sgil darganfod ei law, fwy na thebyg, yn Llawysgrif Hendregadredd y mae'n debyg nad ef biau un o'r llawiau sydd yn Pen 48.<sup>89</sup> Yn ogystal â hynny, amcangyfrifir bod Pen 48 yn perthyn i ganol y bymthegfed ganrif.<sup>90</sup> Yn ôl Daniel Huws, y mae'r newidiadau yn yr ysgrifbin a'r inc yn y llawysgrif yn awgrymu iddynt gael eu hysgrifennu fesul un ar wahanol adegau:

a collection of *cywyddau* by Dafydd ap Gwilym, by a single scribe, writing a poem or two at a time: there are changes of ink and quill on pp. 4, 7, 10 and 14.<sup>91</sup>

Gwaith ysgrifydd amaturaidd ydyw—o bosibl bardd (gan fod nifer ohonynt wrth waith o'r fath erbyn ail hanner y bymthegfed ganrif) neu ddatgeiniad yn codi testunau

---

<sup>87</sup> Gw. GDG, cerdd 133 a Pen 48, tt. 3–4.

<sup>88</sup> Am dystiolaeth bosibl o law Dafydd ap Gwilym gw. y drydedd haen o lawysgrif Hendregadredd a gw. MWM, tt. 193–226.

<sup>89</sup> Ibid., t. 219. Dengys D. J. Bowen a Rachel Bromwich fod gan Barcrhydderch a Gramadeg Einion Offeiriad yn ogystal ran fawr i'w chwarae yn natblygiad barddoniaeth Dafydd ap Gwilym, gw. D. J. Bowen, 'Dafydd ap Gwilym a datblygiad y cywydd', *Llên Cymru*, 8 (1964–5), 1–32; R. Bromwich, 'Gwaith Einion Offeiriad a barddoniaeth Dafydd ap Gwilym', *Ysgrifau Beirniadol*, 10 (Dinbych, 1977), 157–80.

<sup>90</sup> Daniel Huws, *A Repertory of Welsh Manuscripts* (fersiwn drafft, 2005), t. 8.

<sup>91</sup> Ibid.

sydd yma. Erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg rhoddwyd clawr am y llawysgrif hon, a cheir manylion wedi eu hysgrifennu arno yn ystod teyrnasiad Harri VII. Sonnir am gynnal llys yn siroedd Caerfyrddin a Cheredigion, sydd yn awgrymu, yn ôl Daniel Huws, i ba ardal yr oedd y llawysgrif hon yn perthyn.<sup>92</sup>

Pen 48 yw un o'r llawysgrifau pwysicaf yng nghyswllt cerddi Dafydd ap Gwilym ac yn ei ragymadrodd helaeth i waith Dafydd ap Gwilym cydnebydd Thomas Parry hynny yn blwmp ac yn blaen:

Hon yw un o'r llsgrau hynaf sy'n cynnwys gwaith Dafydd ap Gwilym... Fel eraill o'r llsgrau hynaf, y mae hon yn cynnwys rhai darlleniadau prin, a darlleniadau weithiau na cheir mohonynt yn yr un llsgr. arall<sup>93</sup>

Fel Gwenogvryn Evans o'i flaen ni rydd Thomas Parry goel ar y gred mai yn llaw Dafydd ap Gwilym y mae cywyddau'r llawysgrif hon. Cytunir hefyd nad yw'r llawysgrif yn gynharach na 1450 ac, yn garn i'r dybiaeth honno, y mae'n ymddangos bod tudalennau 1, 2, a 19 yn perthyn i gyfnod Harri VII.<sup>94</sup>

Yn ei bennod ar gasgliadau cynnar o waith Dafydd ap Gwilym cyflwynir Pen 48 i'w drafodaeth fel hyn gan Daniel Huws:

NLW, Pen 48, an eight-leaf fragment on parchment, contains seven *cywyddau* attributed to Dafydd ap Gwilym. The script is careful but irregular; several of the poems, as is evident from changes of pen and ink, were written one by one on different occasions. The impression given is of an amateur scribe, a bard perhaps, collecting texts from various sources, probably oral.<sup>95</sup>

---

<sup>92</sup> MWM, tt. 93–5.

<sup>93</sup> GDG, t. cix.

<sup>94</sup> J. Gwenogvryn Evans, *Report on Manuscripts in the Welsh Language: Volume 1* [= RMWL I] (Llundain, 1899), t. 382. Ni roddir sylw yn yr ymdriniaeth hon i'r cywydd sydd yn dechrau â'r llinell gyntaf 'Pan êl y neidr pa wnawn'. Y mae'r cywydd mewn llaw wahanol a diweddarach a thestun Pen 48 yw'r unig fersiwn ohoni sydd ar glawr, gw. RMWL I, t. 382.

<sup>95</sup> MWM, t. 93. Am ddisgrifiad byr o'r llawysgrif hon gw. RMWL I, t. 382 a GDG, tt. cix–cx.

Deallodd Thomas Parry bwysigrwydd Pen 48 yng nghanon gwaith Dafydd ap Gwilym. Dywed yn ei olygiad cyntaf o waith y bardd fod y llawysgrif yn cynnwys nifer o ddarlleniadau sydd yn annibynnol ar bob llawysgrif arall a dywed na ellir ‘ond gofidio na bai mwy o gopiâu fel hyn ar gael.’<sup>96</sup> Y mae’n llawysgrif, meddai, sydd yn cynnwys darlleniadau “diamheuol gywir”, ac sydd yn cadw ffurfiau gwerthfawr a mwy hynafol na’i gilydd.<sup>97</sup> Er enghraifft, ceir ‘nychdaith’ yn Pen 48 lle y ceir ‘wychdaith’ mewn llawysgrifau eraill. Yn Pen 48 yn unig y ceir y darlleniad ‘niw kenyw’, a cheir ‘niw gwyl’ gan Pen 48 lle y ceir (o ddiweddarau’r orgraff) ‘ni’ m gwyl’ neu ‘dienwog wyl’ mewn fersiynau eraill.<sup>98</sup> O bosibl hefyd, y mae ‘ym pericl’ yn dynodi orgraff hyn nag eiddo Pen 49 lle y ceir ‘ym mherigl’.

Ond oherwydd bod y cywyddau sydd yn Pen 48 yn ymddangos gyda’i gilydd fel grŵp o gerddi mewn llawysgrifau eraill diweddarach, a oedd wedi eu dosbarthu a’u galw gan Thomas Parry yn llawysgrifau a berthynai i Gynsail y Gogledd, tybiodd o’r herwydd fod Pen 48 yn yr un modd yn ddisgynnydd i ‘Gynsail y Gogledd’. Fodd bynnag, y mae lle bellach i amau’r teitl ‘Cynsail y Gogledd’, ac y mae’r amheuaeth honno’n seiliedig ar dystiolaeth yn ymwneud â’r newid mewn inc yn ôl Daniel Huws ac yn ôl tystiolaeth cynnwys y copiâu (camrannu geiriau, camsillafu, olion tafodiaith ayb).<sup>99</sup>

Deallodd Thomas Parry felly fod i Pen 48 werth arbennig iawn yng nghyswllt barddoniaeth Dafydd ap Gwilym. Ond, o bosibl, gwnaeth gam â’r llawysgrif hon

---

<sup>96</sup> GDG, t. cix.

<sup>97</sup> Ibid., t. cx.

<sup>98</sup> Ibid.

<sup>99</sup> MWM, t. 93.

drwy fynnu yn ei ddisgrifiadau a'i ddarlun o gydberthynas y prif lawysgrifau â'i gilydd ei bod yn perthyn yn ei chrynswth i 'Gynsail y Gogledd', chwedl yntau, a'i bod yn tarddu o un ffynhonnell yn unig.<sup>100</sup> Y mae'n rhaid bellach fod yn amheus o'r casgliad hwnnw gan fod perthynas y *Vetustus* â Pen 48, er enghraifft, yn fwy cymhleth nag y tybiwyd gynt, a chan fod Pen 48 yn cynnwys nodweddion deheuol (a hyd yn oed dafodiaith de-orllewin Cymru). Y mae sylwadau Daniel Huws ar y cywyddau sydd yn Pen 48—sef eu bod wedi eu codi ar wahanol adegau, gan ysgrifydd amatur neu fardd o bosibl, ac o nifer o wahanol ffynonellau—yn bwrw amheuaeth gref ar y dyb mai'r un berthynas a oedd gan bob cywydd yn Pen 48 â llawysgrifau eraill.<sup>101</sup> Fel mewn achos llawer o gasgliadau llawysgrifol yr oedd nifer o ffynonellau ganddynt ac, o bosibl, yr oedd rhai o'r ffynonellau hynny'n rhai llafar.

Gwyddys i'r traddodiad llafar chwarae rhan allweddol yn y traddodiad barddol yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Ys dywed Dafydd Johnston:

It is by now generally recognized that oral or memorial transmission played a significant part in the preservation of the poems of the early *Cywyddwyr*, particularly during the gap of at least a hundred years between their composition in the mid-fourteenth century and their earliest manuscript copies in the second half of the fifteenth century.<sup>102</sup>

Gwaetha'r modd, ni nodwyd amrywiadau mewn trefn cwpledi yng ngolygiad Thomas Parry (sy'n un ffordd hwylus o weld olion y traddodiad llafar), felly y mae'n anodd, wrth astudio *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, inni'n awr olrhain y traddodiad

---

<sup>100</sup> Ibid., rhwng tudalennau clxviii a clxix.

<sup>101</sup> MWM, t. 93.

<sup>102</sup> Dafydd Johnston, 'Dafydd ap Gwilym and oral tradition', 143.

llafar.<sup>103</sup> Dyna un o'r rhesymau pam y mae'n rhaid dychwelyd at y llawysgrifau eu hunain.

Nodweddion eraill sydd yn dynodi trosglwyddiad llafar yw hyd llinellau, colli llinellau neu ychwanegu llinellau, a darlleniadau amrywiol (yn enwedig lle y defnyddir geiriau cyfystyr neu fân amrywiadau).<sup>104</sup> Gwelir hyn ar waith yn Pen 48. Yn fersiwn Pen 48 o 'Farwnad Gruffudd Gryg', er enghraifft, ceir 'Ni bu ddigrifwch na byd' ond yn fersiwn Hafod 26 o'r cywydd, ceir 'Ni bu digrifwch o'r byd' ac yn y llinell nesaf ceir 'Ni bu edn glân a ganai' yn Pen 48 ond 'Nid byw edn glân a ganai' mewn fersiynau eraill.

Wrth gopïo o *exemplar* ysgrifenedig dywed Dafydd Johnston y byddai ysgrifwyr weithiau yn newid darlleniad ac yn hepgor ambell linell ond go brin y byddent yn newid trefn y llinellau mewn unrhyw fodd arwyddocaol. Er bod amrywiadau yn nhrefn llinellau yn dangos trosglwyddiad llafar nid yw'n hawdd bob amser inni wybod pa un o ddau gopi cynnar sydd yn dangos dylanwad llafar. Weithiau bydd llinellau coll yn fwy o gymorth wrth geisio pennu'r fersiwn llafar. Ond nid yw'n amhosibl bod y copïydd wedi cynnwys llinellau o lawysgrif arall. Felly, weithiau nid oes gan y golygydd modern ddewis ond dibynnu ar ystyriaethau eraill, fel arddull a chyd-destun.<sup>105</sup>

Tramgwyddus hefyd yw'r cysyniad o destun gwreiddiol yn yr Oesoedd Canol yng Nghymru, gan fod cyfle i ddatgeiniaid gynnwys amrywiadau llafar mewn llinell o gynghanedd draws, er enghraifft, lle y ceir un neu ragor o eiriau heb swyddogaeth

---

<sup>103</sup> Ibid.

<sup>104</sup> Ibid.

<sup>105</sup> GDG, tt. lxxx–xc.

fydryddol bendant. Tyn Dafydd Johnston sylw at linell o eiddo Dafydd ap Gwilym i ddangos yr amrywio hwn ar waith. Yn ‘Marwnad Gruffudd Gryg’ y llinell agoriadol yng ngolygiad Thomas Parry yw ‘Trist oedd ddwyn, trais cynhwynawl’ ond ‘Tost’ yw’r hyn a geir yn Pen 48.<sup>106</sup> Dadl Dafydd Johnston yw na ddylid gorfod pennu pa un sydd yn gywir, a pha un sydd yn wreiddiol. Oni all ‘trist’ a ‘tost’ fod yn gynnyrch dau berfformiad llafar gwahanol? Dylid cofio bod yr amrywiaeth hwn yn rhan o’r traddodiad llafar. Yn ôl Nicolas Jacobs gellir ystyried hyn yn enghraifft o’r datgeiniad neu’r ysgrifydd yn cynnig gwelliant ac yn hyrwyddo ei fersiwn ei hun o’r gerdd.<sup>107</sup> Yng ngwaith Lewys Glyn Cothi ceir enghraifft o gwpled yn Pen 70 sydd wedi ei newid gan y bardd ei hun heb newid yr ystyr ryw lawer er gwaethaf cyfyngiadau’r gynghanedd.<sup>108</sup>

Yn Pen 48 ceir enghreifftiau yn y testunau o’r hyn sydd o bosibl yn dynodi ynganiad yr ysgrifydd ac yn dadlennu natur ei dafodiaith. Defnyddir ‘gore’ yn lle ‘goreu’ neu ‘gorau’ yn gyson yn Pen 48; ceir ‘mowrson’ yn lle ‘mawrson’ yn ‘Cusan’; ‘gayr’ yn lle ‘ger’ yn gyson; ‘myrchnadoedd’ yn lle ‘marchnadoedd’ yn ‘Merch Fileinaidd’; yn ‘Cyngor gan Frawd Llwyd’ ceir ‘bie’ yn lle ‘biau’; ‘ynylais’ yn lle ‘anelais’ yn ‘Y Llwynog’; ‘iownwedd’ yn lle ‘iawnwedd’ ac ‘iowngar’ yn lle ‘iawngar’, ‘gavos’, ‘ddyar’ a ‘gore’ yn ‘Lluniau Crist a’i Apostiolion’. Er gwaethaf hynny, ni ellir gwybod i ba raddau y mae’r amrywiadau tafodieithol hyn yn ddrych i draddodiad llafar. Bu’r llaw yn Pen 48 yn llai gofalus nag eiddo Pen 49 ac weithiau camrennir

---

<sup>106</sup> Ibid., cerdd 20.1; Pen 48, t. 4.

<sup>107</sup> Nicolas Jacobs, ‘Regression to the commonplace in some vernacular textual traditions’, yn A. J. Minnis a C. Brewer (gol.), *Crux and Controversy* (Woodbridge, 1992), tt. 61–70. Codwyd y cyfeiriad hwn yn Dafydd Johnston, ‘Dafydd ap Gwilym and oral tradition’, 150.

<sup>108</sup> Dafydd Johnston, ‘Dafydd ap Gwilym and oral tradition’, 150.

geiriau a all fod yn awgrym pellach mai ar lafar y codwyd y testun gan gopydd cymharol ddibrofiad. Er enghraifft, ceir 'pantec' yn lle 'pand teg' neu 'panid teg', 'a iaswd' yn lle 'a iaswyd', a 'chech' yn lle 'chwech'. Ond gall ffurfiau llafar, wedi'r cyfan, adlewyrchu testun ysgrifenedig arall a godwyd ar lafar.

Yn ogystal â hynny camrennir rhai geiriau yn Pen 48 sydd yn awgrymu nad oedd yr ysgrifydd yn brofiadol iawn. Yn fersiwn Pen 48 o 'Cusan', er enghraifft, ceir 'nidoyd' yn lle 'nid oedd'; ym 'Marwnad Gruffudd Gryg' ceir 'y gwyddor' yn lle 'ygwyddor' neu 'egwyddor'; 'ymewn' yn lle 'y mewn' neu 'i mewn'; 'y gorai' yn lle 'ygorai' neu 'agorai'; 'i ddayth' yn lle 'ydd aeth'; yn 'Merch Fileinaidd' ceir 'odaf' yn lle 'od af'; 'a garwydd' yn lle 'ag arwydd' neu 'ac arwydd'; yn 'Amau ar Gam' ceir 'nawir' yn lle 'na wir' ac 'Eto n wyf' yn lle 'Eto o nwyf'; ac yn 'Y Llwynog' ceir 'ari' yn lle 'ar [e]i'; 'yny dolwg' yn lle 'yn ydolwg' neu 'yn adolwg'. Ceir camgymeriadau eraill gan yr ysgrifydd hefyd yn Pen 48 sydd yn awgrymu ei fod yn ddibrofiad neu'n esgeulus. Yn 'Merch Fileinaidd', er enghraifft, ceir 'mo' yn lle 'mor' a 'bryais' yn lle 'brydais'; yn 'Lluniau Crist a'i Apostolion' ceir 'd gabl' yn lle 'digabl' a 'chech' yn lle 'chwech'. Diddorol hefyd yw'r modd y ceir 'trais gynhwynawl' yn llinell gyntaf 'Marnwad Gruffudd Gryg' Pen 48 ond yn y drydedd linell newidir cenedl yr enw a cheir 'trais diarw'.

Er gwaethaf hynny, ymddengys ar yr olwg gyntaf fod Thomas Parry wedi rhoi cryn bwys ar y darlleniadau a geir yn Pen 48, er bod digon o fersiynau eraill ar gael o'r cywyddau hyn. Yn yr ail gywydd sydd ar glawr yn Pen 48, sef y cywydd sy'n dwyn y

teitl ‘Marwnad Gruffudd Gryg’ yng ngolygiad Thomas Parry,<sup>109</sup> gwelir yr un patrwm o olygu ag a gafwyd ar gyfer y cywydd cyntaf sydd yn y llawysgrif honno.<sup>110</sup> Ni cheir ond mân wahaniaethau rhwng golygiad Thomas Parry a’r hyn a geir yn Pen 48. Fel y gwelwyd uchod yng nghyswllt y llinell gyntaf a’r amrywiad rhwng ‘trist’ a ‘tost’ ceir ambell amrywiad sydd o bosibl yn datgelu traddodiad llafar annibynnol. Ceir hefyd ambell amrywiad mewn llafariaid. Yn llinell 5 ceir ‘ledchwolan’ gan Pen 48, a ‘ledchwelan’ yn y fersiwn golygedig. Ond, ar y cyfan, nid yw’r gwahaniaethau hynny’n sylfaenol. Y mae’n wir dweud bod ambell gwpled yn brin yn Pen 48, o’i gymharu â fersiwn Thomas Parry, ond y mae’n deg dweud hefyd fod y cywydd fel y’i gwelir yn y llawysgrif hon yn cynnwys darlleniadau da a dibynadwy.

Y mae’r trydydd cywydd o eiddo Pen 48, sef ‘Merch Fileinaidd’ yng ngolygiad Thomas Parry,<sup>111</sup> wedi ei ddilyn yn fanwl ganddo yn ei fersiwn golygedig.<sup>112</sup> O gymharu’r hyn a geir yn Pen 48 â golygiad Thomas Parry gwelir nad oes cymaint ag un cwpled yn brin. Rhaid casglu, gan hynny, fod Thomas Parry yn gwbl fodlon ar fersiwn Pen 48 yn yr achos hwn. At hynny, gwelir cymaint yw dibyniaeth ymddangosiadol Thomas Parry ar Pen 48 pan gymherir pedwerydd cywydd Pen 48 â’r cywydd sy’n dwyn y teitl ‘Amau ar Gam’ yng ngolygiad Thomas Parry.<sup>113</sup> Er bod ambell gwpled o wahaniaeth y mae’n eithaf amlwg fod testun cyfansawdd Thomas Parry yn debyg iawn i’r hyn a geir yn Pen 48.<sup>114</sup> Er mor fyr yw’r cywydd hwn fel y mae yn Pen 48 ni chaiff yr agwedd honno ar y cywydd ei chrybwyll o gwbl gan

---

<sup>109</sup> GDG, cerdd 20.

<sup>110</sup> Pen 48, tt. 4–7.

<sup>111</sup> GDG, cerdd 101.

<sup>112</sup> Pen 48, tt. 7–10.

<sup>113</sup> GDG, cerdd 77.

<sup>114</sup> Pen 48, tt. 10–11.

Thomas Parry yn y cyswllt hwn. Ceir fersiwn ohono yn Wynnstay 2.<sup>115</sup> Y mae'n debyg fod y llawysgrif hon yn dwyn perthynas â Llyfr Gwyn Hergest.<sup>116</sup> Yn ôl y fersiwn sydd yn Wynnstay 2 dylid cynnwys o leiaf ddeg llinell yn ychwanegol at y fersiwn a geir yn Pen 48 ac yng ngolygiad Thomas Parry. Felly, ar ôl y ddeunawfed llinell yn 'Amau ar Gam' ceir yn Wynnstay 2 yr hyn a ganlyn:

dy di or dyn du dewr doeth  
am gwr or anwr anoeth  
dy di ywr korff am gorffen  
ynte ywr kysgod hynod hen  
y fo ywr briddell ddichellddu  
dithe om henaid kannaid ku  
y migel yw magal arw  
dithe om llo doeth om llw  
koelia dan goed a ddoedais  
nag amme y geirie ar gais<sup>117</sup>

Fodd bynnag, llwgr yw llawer o ddarlleniadau Wynnstay 2 a byddai'r copïydd weithiau yn ychwanegu llinellau o'i ben a'i bastwn ei hun.<sup>118</sup> Y mae'r llinell uchod 'y migel yw magal arw' yn amheus iawn ei chynganeddiad ac ni cheir enghraifft arall yng ngwaith Dafydd ap Gwilym o odli 'coed' â 'doedais' mewn cynganedd lusg. Byddai'n rhaid wrth astudiaeth fanwl o'r llawysgrifau eraill lle y digwydd y testun hwn cyn y gellir torri'r ddadl ynghylch dilysrwydd llinellau ychwanegol Wynnstay 2.

O astudio'r cywydd nesaf yn Pen 48, sef 'Cyngor gan Frawd Llwyd' yng ngolygiad Thomas Parry, sylwir ar unwaith ar ba mor fyr ydyw.<sup>119</sup> Fel y mae'n digwydd eto, y mae gan Wynnstay 2 ryw ddeg llinell ar hugain yn ychwanegol sydd wedi eu hepgor

---

<sup>115</sup> GDG, tt. cxxxvii–cxlii.

<sup>116</sup> Ibid., tt. cxxxvii–cxlii.

<sup>117</sup> Wynnstay 2, t. 78.

<sup>118</sup> GDG, t. cxl.

<sup>119</sup> GDG, cerdd 136.

gan Thomas Parry. Ar ôl llinell 14, sef ‘Cais ar Mair casâu’r medd’, ceir yr hyn a ganlyn yn Wynnstay 2:

mogel draws magal draserch  
a mogel mwy magal a merch  
gochel dafarn difarn don  
a gochel merched gwchion  
tri pheth a bair y methu  
ir dyn ai dilyn oi duy  
Gwin, merch drwch, a gwchder  
myn fenaïd gwiw afraid ger  
Attebais pan gefais gwr  
er hyn eiriau yr henwr  
pa fodd gwel i gochela  
magl serch yr orddercha  
a minnau y gwr mwyniaith  
ynddi n gweiddi yn gaeth.<sup>120</sup>

Ni cheir enghraifft arall o gynghanedd lusg rhwng ‘drwch’ a ‘gwchder’ nac ychwaith o’r ffurf ‘gwchder’ yng ngwaith Dafydd ap Gwilym. Wedyn ar ôl y llinell olaf yn fersiwn Thomas Parry ceir gan Wynnstay 2 y llinellau hyn i gloi’r cywydd:

ni cha ochlyd hefyd hawl  
gan dauri y gwr durawl  
rhaid rhoi draw o daw hi o dal  
groeso i ddauliw r grisial  
llenwi mewn gwinduy lawen  
sywgr a gwin i ddyn segr wen  
os heibio i rho dan glo o gler  
gwasgwechdon gwisgo gwchder  
ni fyn Morfydd ddaurydd dda  
aulod main weled Monna  
ni thal dy gyngor o forwyn  
garre i mi y gwr mwyn.<sup>121</sup>

O safbwynt arddull y mae’r llinellau diwethaf hyn yn cloi’r cywydd yn fwy boddhaol na’r hyn a geir yng ngolygiad Thomas Parry. Ond ychwanegiadau diweddarach ydynt. Sylwer, er enghraifft, ar gynghanedd ddiffygiol ‘gan dauri y gwr durawl’ a ‘llenwi

---

<sup>120</sup> Wynnstay 2, t. 82.

<sup>121</sup> Ibid., tt. 82–3.

mewn gwinduy lawen'. Nid hyd y cywydd yw'r unig ystyriaeth, bid sicr, wrth baratoi golygiad: rhaid pwysleisio hyn hefyd yng nghyswllt 'Credaf i Naf y nefoedd'.

## 7. 'Credaf i Naf y nefoedd' yn Peniarth 48

Troir yn awr at yr wythfed cywydd sydd yn Pen 48 sydd yn ymddangos fel a ganlyn:

kredaf i naf y nevoydd  
kredo gwyh kyredic oydd  
Dor am keidw rrac direidchayn  
Dawn y blid a duw ny blayn  
Rodded ym vaith berffaith bor  
Rac angen y rryw gyngor  
I volanv n gv gywair  
Iesu a molianv mair  
Iewn i bawb enw heb awbrim  
Molianv duw ymlayn dim  
Da vv iesu ddewisiad  
A da oydd i vam ai dad  
Gore tad llathr di athrist  
o dadav kred vv dad krist  
Gwerin nef an kartrevo  
Gore mam oydd i vam vo  
Gwarant vydd i bob gwirair  
Gore vn mab yw mab mair  
Gore merch dan aur goron  
tekaf a haylaf yw hon  
Da oydd ddwyn deddf ddayoni  
Gwr o nef yn gar ini  
Hwn vv ddewis yr israyl  
Hen vv a iyuank a hayl  
Ganed oi vodd ir goddef  
Yn ddyn aur ac yn dduw nef  
Gwnayth iesu ner oi geraint  
Swrn yn ebysdl a sant  
Gwnayth bader ac efferen  
Gwnayth oriav a llyvrvav llen  
Roys gred ir bobl gyffr[ ]  
Roys yw plyth gwenith[ ]  
Roys i gorff heb ddim fforfed  
[ ]r bren kroys i brynv kred<sup>122</sup>

---

<sup>122</sup> Pen 48, ff. 17–18.

**Priodoliad ‘Credaf i Naf y nefoedd’**

Ceir mwy nag un fersiwn o'r cywydd hwn mewn llawysgrifau ac fe'i priodolir i feirdd eraill heblaw am Ddafydd ap Gwilym, gan gynnwys Ieuan Llwyd Brydydd, Dafydd Llwyd Mathafarn, Huw Arwystli a Dafydd Trefor, mewn rhai llawysgrifau. O chwilio'r *Mynegai i Farddoniaeth Gymraeg y Llawysgrifau* ar gyfer y cywydd sydd yn cychwyn â'r llinell 'Kredaf i naf o nefoedd', 'Credaf i Naf o'r nefoedd', 'Credaf i'r Naf o nefoedd' neu amrywiad ar y llinell honno gwelir bod yn rhaid ystyried chwe chywydd posibl.

Y mae'r posibilrwydd cyntaf yn ymwneud â chywydd sydd yn gorffen â'r llinell 'Fry'r elom i'w fro yr eilwaith'. Fe'i priodolir i Huw Arwystli mewn wyth llawysgrif ond copi anghyflawn a geir yn Pen 326, v, 69 ac, fel y dywed Gwenogvryn Evans, 'The fragments are of various sizes and range in time from 1460 to 1750'.<sup>123</sup> Bardd o'r unfed ganrif ar bymtheg oedd Huw Arwystli (a pherthyn testun Pen 48 i'r bymthegfed ganrif) ac nis trafodir yn benodol yn nhraethawd ymchwil J. Afan Jones.<sup>124</sup> Y tebyg yw fod 'Credaf i Naf y nefoedd' wedi ei gymysgu yn y llawysgrifau â chywydd gan Huw Arwystli i Dduw sydd yn cychwyn â'r llinell 'Daear gynt o'r dŵr a gad'.<sup>125</sup>

Priodolir y cywydd â'r llinell gyntaf 'Credaf i Naf o nefoedd' sydd yn gorffen ag 'Y cyfodes cof ydyw' i Ieuan Llwyd Brydydd ond ni cheir ond dau fersiwn o'r cywydd hwn ac y maent yn ymddangos mewn llawysgrifau diweddar. Fe'i priodolir i Ieuan

---

<sup>123</sup> RMWL I, t. 1124. Gw. <URL: <http://maldwyn.llgc.org.uk/chwilio.php?BRN=9755>> [cyrchwyd 15 Ionawr 2005]. Mewn rhai llawysgrifau cambriodolwyd ambell gwpled o eiddo 'Credaf i Naf y nefoedd' i'r cywydd 'Lluniau Crist a'i Apostolion', gw. GDG, cerdd 4.

<sup>124</sup> J. Afan Jones, 'Gweithiau Barddonol Huw Arwystli' (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru, 1926).

<sup>125</sup> Ibid., tt. 347–9.

Llwyd Brydydd yn Caerdydd 4.10, 585 a Llansteffan 117, 20 ond ceir nifer fawr o gwpledi ychwanegol a darlleniadau llwgr. Yn ymdriniaeth Paul Bryant-Quinn â gwaith Ieuan Llwyd Brydydd dywedir mai “natur ddigon carbwl” sydd gan destunau’r ddwy llawysgrif a chesglir eu bod “yn amlwg yn tarddu o’r un gynsail wallus wreiddiol” ac, o’r herwydd, nis cynhwysir yn y golygiad safonol o waith Ieuan Llwyd Brydydd.<sup>126</sup>

Mewn fersiwn arall o’r cywydd y llinell gyntaf yw ‘Credaf i’r Naf o nefoedd’ a’r llinell olaf yw ‘Oes i’n plith wenith a gwin’. Ond nid oes ond dwy enghraifft mewn llawysgrifau ac ni cheir priodoliad yn Llansteffan 165, 30 a LIGC 13079B, 56. Yng nghopi Llansteffan 165, sydd yn llawysgrif gymharol ddiweddar, ni cheir ond y cwpled agoriadol sydd yn perthyn i’r cywydd a briodolir i Ddafydd ap Gwilym mewn llawysgrifau eraill. Perthyn y ddau gwpled arall i gywydd arall.

Cynrychiolir y cywydd, sydd â’r llinell gyntaf ‘Credaf i’r Naf o’r nefoedd’ ac sydd yn gorffen â’r llinell olaf ‘Amaw ac nid rhaid mwy’, mewn tair llawysgrif ddiweddar. Yn un ohonynt, sef Cwrwmawr 454, ceir cryn ansicrwydd am ei awduraeth. Y cynnig cyntaf ar briodoliad yw ‘Dafydd Llwyd ap Llewel:n ap Gruffudd ai cant 1450’. Oddi tano nodir ‘Dafydd ap Gwilym ai cant medd eraill’. Fe’i priodolir i Ddafydd Llwyd ap Llywelyn ap Gruffydd o Fathafarn ac fe ddigwydd yn Cwrwmawr 454, 150; Gwyneddon 2, 129 ac yn Llansteffan 155, 89. Yng nghopi Llansteffan 155, 89, a berthyn i’r unfed ganrif ar bymtheg, fe’i priodolir i Ddafydd Llwyd ap Llywelyn ap Gruffydd ond fe’i dyddir i 1490 sydd yn ddiweddarach na Pen 48. Gwrthodwyd

---

<sup>126</sup> M. Paul Bryant-Quinn, *Gwaith Ieuan ap Llywelyn Fychan, Ieuan Llwyd Brydydd a Lewys Aled* (Aberystwyth, 2003), t. 79.

derbyn bod y cywydd yn perthyn i Ddafydd Llwyd gan ei olygydd.<sup>127</sup> Yn ei ymdriniaeth â thestunau Dafydd Llwyd dywed Leslie Richards ei fod wedi canolbwyntio ar Llansteffan 155 ac fe'i gwrthodir ganddo gan ddweud: “Yn ôl rhyw 26 o gopiâu Dafydd ap Gwilym a'i piau”.<sup>128</sup>

Mewn fersiwn arall o'r cywydd sydd â'r llinell gyntaf 'Da yw Iesu dewisiad' (sydd yn digwydd yng nghanol fersiwn Pen 48 o'r cywydd) ac â'r llinell olaf 'Amen, ni ddymuna mwy' fe'i priodolir mewn dwy llawysgrif i Ddafydd Trefor.<sup>129</sup> Er bod Irene George yn derbyn y cywydd hwn fel gwaith Syr Dafydd Trefor, yn seiliedig ar destun un llawysgrif yn unig, nid yw ond dryll o'r cywydd 'Credaf i Naf y nefoedd' ac fe'i gwrthodir fel gwaith Dafydd Trefor yn y golygiad safonol diweddar o'i waith gan Rhiannon Ifans.<sup>130</sup>

Yn y cywydd lle y ceir y llinell gyntaf 'Credaf i'm Naf yn ufydd' sydd yn gorffen â 'Dduw dad, ddyn f'enaid i' fe'i priodolir i fardd o'r enw Harri ap Rhys ap Gwilym ac fe ddigwydd copi o'r cywydd hwn mewn saith llawysgrif.<sup>131</sup> Fodd bynnag, cywydd cwbl wahanol ydyw hwn, fel y prawf y testunau sydd yn Llansteffan 133 lle y priodolir 'Credaf i Naf y nefoedd' i Ddafydd ap Gwilym a lle y priodolir 'Credaf i'm Naf yn ufydd' i Harri ap Rhys ap Gwilym.

### ***Casgliadau yn ymwneud â phriodoliad***

---

<sup>127</sup> W. Leslie Richards, *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn* (Caerdydd, 1964), tt. 16–17.

<sup>128</sup> Idem, *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn* (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru, 1947), t. cxxxiii.

<sup>129</sup> Ceir ffynhonnell brint o'r fersiwn hwn yn Irene George, *Syr Dafydd Trefor: Ei Oes a'i Waith* (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru, 1929), t. 216.

<sup>130</sup> Ibid; gw. hefyd Rhiannon Ifans, *Gwaith Dafydd Trefor* (Aberystwyth, 2005), tt. 14–15.

<sup>131</sup> Gw. <URL: <http://maldwyn.llgc.org.uk/chwilio.php?maes=Bardd&ID=7935>> [cyrchwyd 10 Medi 2005].

O'r holl fersiynau lled gynnar a geir o 'Credaf i Naf y nefoedd' nid oes yr un ohonynt yn ei briodoli i na Huw Arwystli, na Dafydd Llwyd, nac ychwaith Ieuan Llwyd Brydydd. Dichon gan hynny fod Thomas Parry wedi dibynnu ar fersiynau diweddarach mewn llawysgrifau mwy llwgr am ei dystiolaeth yn ymwneud â phriodoliad. Fodd bynnag, er i'r golygyddion Paul Bryant-Quinn, Leslie Harries, Rhiannon Ifans a J. Afan Jones oll wrthod derbyn mai gwaith y beirdd o dan eu gofal hwy yw 'Credaf i Naf y nefoedd' nid yw awduraeth ddiffygiol eu testunau hwy yn golygu o reidrwydd mai Dafydd ap Gwilym yw awdur 'Credaf i Naf y nefoedd', gan ei bod yn bosibl fod y llawysgrifau sydd yn ei briodoli iddo ef yn ddiffygiol yn ogystal. O'r herwydd, y mae'n ofynnol inni bwysu a mesur y prif lawysgrifau sydd yn priodoli'r cywydd i Dafydd ap Gwilym yn ogystal.

### **Thomas Parry yn Gwrthod y Cywydd**

Rhydd Thomas Parry nifer o resymau am beidio â derbyn bod 'Credaf i Naf y nefoedd' yn waith dilys Dafydd ap Gwilym.<sup>132</sup> Yn yr adran 'Cerddi Amheus ac Annilyd' a geir yn yr argraffiad cyntaf o *Gwaith Dafydd ap Gwilym* dywed fod 41 o lawysgrifau yn priodoli'r cywydd sy'n cychwyn â'r llinell 'Credaf i Naf y nefoedd' i Dafydd ap Gwilym, ac o blith y rheiny y mae rhai ohonynt yn llawysgrifau da, gan gynnwys Pen 48.<sup>133</sup> Cymaint oedd ei barch tuag at Pen 48 fel y dywedodd, wrth olygu 'Cyngor gan Frawd Llwyd': "Nid oes dystiolaeth gref i'r cywydd hwn yn y llsgrau.,

---

<sup>132</sup> Pan roddir y disgrifiad "y cywydd olaf yng nghasgliad Pen 48" y mae'n bosibl nad yw hynny'n gwbl gywir oherwydd, fel y mae Thomas Parry ei hun yn ei gydnabod (ac fel y sylwodd Timothy Lewis a wnaeth gopi o Pen 48), y mae diwedd y cywydd hwn ar goll; ac felly y mae'n bosibl fod Pen 48 yn llawysgrif lawer mwy sylweddol ar un adeg nag ydyw erbyn hyn ac yn cynnwys casgliad cynhwysfawr o waith Dafydd ap Gwilym. Gw. Timothy Lewis, 'The oldest known MS. of the poetry of Dafydd ap Gwilym—Peniarth MS. 48', *Aberystwyth Studies*, 14 (1936), 35–51.

<sup>133</sup> GDG, t. clxxiv.

ac oni bai ei gael yn P 48 gellid ystyried ei wrthod.”<sup>134</sup> Fodd bynnag, dywed Thomas Parry nad yw'r cywydd yn gyflawn yn y llawysgrif dda honno, ac nad oes yr un enw wrtho. Awgrymir ganddo na ellir derbyn y cywydd hwn yn rhan o waith Dafydd ap Gwilym oherwydd na chaiff ei briodoli i Ddafydd ap Gwilym yn Pen 48. Ond, ar y llaw arall, nis priodolir i neb na dim yn y llawysgrif honno oherwydd bod ei diwedd ar goll. Nid yw'r diffyg hwnnw gan hynny'n dystiolaeth bendant o blaid ei wrthod. Yn ogystal â hynny, dywed nad yw'n bosibl ei gynnwys mewn unrhyw olygiad modern o waith Dafydd ap Gwilym oherwydd ei fod wedi ei briodoli i Huw Arwystli, Ieuan Llwyd Brydydd a Dafydd Llwyd. Yr hyn sy'n ategu'r farn honno, yn ôl Thomas Parry, yw fod enghraifft o odli 'gwedi' â'r gair 'cyfodi' yn digwydd yn y cywydd, heb sôn am yr arddull ddisangiad a'r cyfartaledd isel o gynganeddion sain sy'n awgrymu'n gryf mai cynnyrch cyfnod diweddarach nag eiddo Dafydd ap Gwilym ydyw. Eir i'r afael â'r rhesymau hyn o gam i gam yn y fan.

### ***Tystiolaeth y Llawysgrifau o Blaid Awduraeth Dafydd ap Gwilym***

Yn ei lyfr nodiadau, a gedwir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gellir gweld bod Thomas Parry yn defnyddio Hafod 26, ii, 110 fel sail i'w olygiad o 'Credaf i Naf y nefoedd'.<sup>135</sup> At hynny, rhestrir ganddo nifer fawr o lawysgrifau a ddefnyddiwyd i nodi'r amrywiadau ar y testun a godwyd yn Hafod 26.<sup>136</sup> O'r rhestr hir hon, fodd

---

<sup>134</sup> Ibid., t. 540

<sup>135</sup> *Papurau Thomas Parry* (heb eu catalogio).

<sup>136</sup> Dyma'r rhestr gyflawn: Llansteffan 169, 27; Llansteffan 173, 120; BL Add 14,965, 185a; BL Add 15010 cerdd 54; BL Add 14966, 44b (Gwysaney 25); BL Add 14977, 73b; Llansteffan 134, 11; Llansteffan 53, 6; LIGC 970, 23(Merthyr Tudful 23); J 12, 129; LIGC 5283, 23; Brogyntyn 1, 319; LIGC 435, 20b; LIGC 16, 202; Llansteffan 47, 64; Hafod 17, 86; LIGC 873, 12 (Aberdâr 2, 12); LIGC 873, 41(Wrecsam 2, 41); LIGC 832, 24; LIGC 695, 63; LIGC 719, 5a; LIGC 5272, 46b; Caerdydd 2.114; BL Add 14906, 22b; BL Add 14885, 39; LIGC Cwrtmawr 207, 2; Pen 93, 271; Pen 108, 5; LIGC 3066, 87 (Mostyn 212, 87); LIGC 3049, 17 (Mostyn 146, 17); Cwrtmawr 5, 504; Panton 45, 1 [ond Panton 46, 1, sef LIGC 9096, 1, a geir yn *Y Mynegai i Farddoniaeth Gymraeg y Llawysgrifau*];

bynnag, y mae enw un llawysgrif amlwg ar goll, sef Pen 48. Pan aeth ati i baratoi ei lyfr nodiadau gyntaf ysgrifennodd ‘P 48, 17’ ar frig dwy golofn, y naill golofn ar gyfer 32 llinell gyntaf y cywydd a’r ail golofn ar gyfer llinellau 33–50. Ond, yn ddiweddarach,—efallai oherwydd iddo sylweddoli bod diwedd y cywydd hwn ar goll yn Pen 48—dilewyd y pennawd ac ysgrifennwyd yn ei le ‘Cw 207, 2’ lle y ceir fersiwn cyflawn (ond diweddarach) o’r cywydd. Y mae hepgor Pen 48 yn gyfan gwbl fel hyn yn awgrymu na roddwyd ystyriaeth lawn i union arwyddocâd tystiolaeth y llawysgrif hon a thrwy hynny ni roddwyd y sylw dyladwy ganddo i’r holl dystiolaeth a oedd ar glawr.

Fodd bynnag, y mae deall arwyddocâd Pen 48 yn allweddol yng nghyswllt ‘Credaf i Naf y nefoedd’. Yr un llaw a fu’n gyfrifol am ‘Credaf i Naf y nefoedd’ yn Pen 48 ag a fu’n gyfrifol am rai o’r cywyddau eraill (os nad y cwbl oll) yn y llawysgrif honno. Barn Daniel Huws yw fod y cywyddau wedi eu hysgrifennu gan yr un llaw ar wahanol adegau er i’r ysgrifydd ddefnyddio gwahanol inc.<sup>137</sup> Nid yw hyn o reidrwydd yn profi dim byd arwyddocaol. Ond petai llaw arall, boed honno yn llaw ddiweddarach neu’n llaw gynharach, wedi ychwanegu’r cywydd hwn at y llawysgrif wreiddiol byddai’r cysylltiad testunol rhwng ‘Credaf i Naf y nefoedd’ â’r cywyddau eraill yn Pen 48 yn wannach. O’r hyn lleiaf, gellir casglu mai’r un ysgrifydd (sydd yn gyfarwydd ag o leiaf rai o gywyddau eraill Dafydd ap Gwilym) a gopiodd ‘Credaf i Naf y nefoedd’.

---

BL Add 14997, 217; BL Add 12230, 239b; BL Add 14870, 109b; Llansteffan 133, 1124; Thelwall 3b; LIGC 560, 139; BL Add 31060, 110; LIGC 5273, 27 a Tan-y-bwlch i, 150.

<sup>137</sup> MWM, t. 93.

O ran nifer y copïau a'r fersiynau sydd ar gael o'r cywydd hwn, pan oedd Thomas Parry wrthi yn paratoi'i olygiad ni ddaeth o hyd i ddim ond un copi a deugain o'r cywydd hwn. Fodd bynnag, yn *Y Mynegai i Farddoniaeth Gymraeg y Llawysgrifau*, nodir bod dros ddeg a thrigain o gopïau ohono bellach ar gael, er bod llawer o'r rheiny yn gopïau sâl sydd yn ddiwerth o ran creu testun cyfansawdd.<sup>138</sup>

### **Pen 49**

Un o'r llawysgrifau pwysicaf ymhlith y casgliadau mawr yw Pen 49, sef un o gampweithiau Dr John Davies o Fallwyd. Fel y nodwyd eisoes ceir nifer o ffynonellau llawysgrifol i'r casgliad mawr hwn a dibynnodd Thomas Parry yn helaeth iawn arno am ei olygiad o waith Dafydd ap Gwilym fel y tystia ei lyfrau nodiadau helaeth. Ymddengys priodoliad 'Credaf i Naf y nefoedd' yn llaw Dr John Davies o Fallwyd mewn rhan o'r llawysgrif a gysylltir â Llyfr Gwyn Hergest.<sup>139</sup> Gwaetha'r modd, yn achos y cywydd 'Credaf i Naf y nefoedd' ni cheir ond y llinell gyntaf (Credaf i Naf o nefoedd), priodoliad i Ddafydd ap Gwilym a'r nodyn a ganlyn: 'cais yn y llyfr arall C. 1' gydag enw Dafydd ap Gwilym oddi tano. Ni wyddom bellach pa un o'i llawysgrifau oedd C. 1.<sup>140</sup> Y mae'n bosibl mai Llyfr Gwyn Hergest, Pen 48 neu ffynhonnell arall anhysbys oedd cysail copi C. 1, ond ni ellir ond dyfalu ar y pen hwn. Ffynhonnell bosibl arall yw llyfr coll Wiliam Mathew o Landaf, sef llyfr a oedd yn dwyn

---

<sup>138</sup> *Y Mynegai i Farddoniaeth Gymraeg y Llawysgrifau*, gw.

<URL:<http://maldwyn.llgc.org.uk/chwilio.php?BRN=1108>> [cyrchwyd 1 Mai 2005]. Dyma restr o'r testunau na welwyd ganddo: BL Add 14977, 73b; Caerdydd 5.11, 96; Cwrtmawr 200, 141; Cwrtmawr 454, 150; LIGC 873, 41; LIGC 5475, 12; LIGC 6735, 106; LIGC 13061, 150; LIGC 13072, 191; LIGC 15543, 31b; LIGC 21700, 175a; Panton 46, 1.

<sup>139</sup> Pen 49, ff. 47<sup>r</sup>.

<sup>140</sup> Daniel Huws, 'John Davies and his manuscripts', yn Ceri Davies (gol.), *Dr John Davies of Mallwyd* (Caerdydd, 2004), t. 101.

perthynas agos â Llansteffan 6.<sup>141</sup> Amcangyfrifir bod y llyfr coll hwn yn perthyn i gyfnod cyn 1550.<sup>142</sup> Mewn rhan arall o Pen 49 ceir y nodyn canlynol:

Allan o'r llyfr gwynn o Hergest y copiwyd a ganlyn hyd y 75 dalenn<sup>143</sup> Gan fod 'Credaf i Naf y nefoedd' yn cael ei briodoli i Ddafydd ap Gwilym ar dudalen 71<sup>v</sup> a chan nad oes sôn am 'ex<sup>r</sup> per vetust' nac unrhyw nodyn cyffelyb yng nghyswllt y cywydd hwn yn Pen 49 gellir dadlau mai o Lyfr Gwyn Hergest y cafodd Dr John Davies o Fallwyd ei dystiolaeth am briodoliad y cywydd. Os felly y mae lle i gredu bod mwy nag un traddodiad testunol cynnar (yn ychwanegol at yr hyn a gynigir gan lawysgrifau sydd yn deillio o'r *Vetustus*) yn priodoli'r cywydd i Ddafydd ap Gwilym. Dywed y nodyn o dan y priodoliad yn ddigon eglur fod copi ohono ar gael mewn llyfr arall, hynny yw, llyfr sydd, yn ôl pob golwg, yn wahanol i ffynhonnell y cerddi blaenorol (a daw cerddi 44–70 Pen 49 o Lyfr Gwyn Hergest) ac felly y mae'n debygol fod y cywydd yn Llyfr Gwyn Hergest fel y cerddi eraill a berthyn i'r un adran yn Pen 49.

### ***Vetustus Codex***

Dywed Daniel Huws yn ei ymdriniaeth â llawysgrifau cynnar lle y digwydd cerddi Dafydd ap Gwilym fod hanes y '*Vetustus*' yn allweddol wrth fynd i'r afael â hanes trosglwyddo cerddi Dafydd ap Gwilym o genhedlaeth i genhedlaeth:

Nothing would help give a clearer sight of the textual issues than a reconstruction of the *vetustus* archetype.<sup>144</sup>

---

<sup>141</sup> MWM, t. 97.

<sup>142</sup> Ibid., tt. 97–8.

<sup>143</sup> Pen 49, ff. 71<sup>v</sup>.

<sup>144</sup> MWM, t. 102.

Credai Thomas Parry fod yr ail-greu hwn yn bosibl drwy astudio'r mân wahaniaethau rhwng Pen 49D, Mostyn 212, Hafod 26, Bodley e. 1 a Llansteffan 133.<sup>145</sup> Ond ni chrybwyllir Pen 48 yn y cyswllt hwn ganddo.<sup>146</sup> Fel y gwelir uchod wrth gymharu rhai o gywyddau Pen 48 a Pen 49 gwyddys bellach fod y Vetustus yn perthyn i gylch Pen 48, ond y mae'n llawysgrif gynharach na'r Vetustus (er nad yw'r naill yn ffynhonnell uniongyrchol i'r llall) ac y mae'n llawysgrif ddeheuol—o bosibl yn perthyn i dde-orllewin Cymru.

### ***Llawysgrifau Eraill***

Ni cheir copi o 'Credaf i Naf y nefoedd' mewn llawysgrifau a berthyn i ogledd-ddwyrain Cymru yn ystod hanner cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg ac nid oes perthynas rhwng y llawysgrifau hyn—sef Pen 184 (a gysylltir â Huw Pennant), BL Add 14967 (sydd yn cynnwys nifer o ddarlleniadau o eiddo'r bardd Gutun Owain yn ôl Daniel Huws), Caerdydd 3.4 (yn llaw'r croniclydd Elis Gruffydd) a BL Add 14997 sydd yn flodeugerdd o gerddi serch—a'r 'Vetustus'.<sup>147</sup> Fodd bynnag, erbyn diwedd y bymthegfed ganrif yr oedd copïau o wyth a thrigain o gerddi a briodolwyd i Ddafydd ap Gwilym ac nid oedd ond chwech o'r rheiny yn digwydd mewn mwy nag un casgliad (sy'n dadlennu natur wasgaredig y trosglwyddo testunol a pha mor ddamweiniol oedd y broses honno). Ni fyddai o bwys felly pe na bai 'Credaf i Naf y nefoedd' yn digwydd mewn mwy nag un llawysgrif sydd wedi goroesi o'r cyfnod cyn dechrau'r unfed ganrif ar bymtheg. Y mae'n briodol inni ddwyn i gof hefyd na chodwyd ond ychydig o gywyddau Dafydd ap Gwilym (ac ychydig iawn o waith

---

<sup>145</sup> GDG, t. cxxxv.

<sup>146</sup> Ibid., rhwng tudalennau clxviii ac clxix.

<sup>147</sup> MWM, t. 99.

cywyddwyr eraill yn ogystal) cyn 1450.<sup>148</sup> Os oes mwy nag un traddodiad cynnar yn cadarnhau mai Dafydd ap Gwilym yw awdur 'Credaf i Naf y nefoedd', y mae hynny'n well tystiolaeth llawysgrifol nag a geir am lawer o gywyddau eraill canon Thomas Parry o waith Dafydd ap Gwilym.

### ***Hafod 26 a 'Credaf i Naf y nefoedd'***

Llawysgrif yw Hafod 26 sydd yn perthyn i chwarter olaf yr unfed ganrif ar bymtheg. Yn llaw'r geiriadurwr Thomas Wiliems ceir copi o 'Credaf i Naf y nefoedd' a chynigir ganddo fersiwn pur debyg i'r hyn a geir yn Pen 48. At hynny, dylid nodi bod Thomas Parry wedi dibynnu'n drwm ar Hafod 26 yn ei lyfr nodiadau.<sup>149</sup> Os nad oedd testun ar gael yn Pen 49 tueddai i ddefnyddio testun Hafod 26 yn ei lyfrau nodiadau fel sail i'w olygiad testunol ac wrth gymharu amrywiadau a darlleniadau llawysgrifau eraill.<sup>150</sup> Nid yw'n syndod fod testunau Hafod 26 a Pen 48 yn debyg i'w gilydd gan fod y ddwy llawysgrif yn perthyn i gylch y Vetustus.

### ***Llyfr Ficar Woking, BL Add 14886***

Yr oedd David Johns yn gyfarwydd â Llyfr Ficar Woking ac ef a ysgrifennodd BL Add 14886 ond ni ddigwydd 'Credaf i Naf y nefoedd' yn BL Add 14886 (er bod copi o'r cywydd yn Caerdydd 2.114).<sup>151</sup> Yr oedd gan Owen Wynn o Wydir ddiddordeb mawr yng ngwaith Dafydd ap Gwilym a bu mewn gohebiaeth â John Davies o Fallwyd. Y mae'n bosibl bod Bodley e.1, a ysgrifennwyd gan Huw Machno ac Ifan John, yn gasgliad ar gyfer Owen Wynn o Wydir. Yn y llawysgrif honno daw llawer

---

<sup>148</sup> Ibid., t. 95.

<sup>149</sup> *Papurau Thomas Parry* (heb eu catalogio).

<sup>150</sup> Ibid.

<sup>151</sup> MWM, t. 100.

o'r darlleniadau o'r 'Vetustus'.<sup>152</sup> At hynny, ar gyfer cefnder i Owen Wynn o Wydir y lluniwyd Mostyn 212 ac y mae'r casgliad hwnnw hefyd yn tarddu o'r 'Vetustus'.<sup>153</sup> Perthyn i'r grŵp hwn o llawysgrifau y mae Llansteffan 133. Perthyn i gylch y Vetustus y mae Pen 48 a'r clwstwr hwn o llawysgrifau yn ogystal.

### ***Llawysgrifau Llywelyn Siôn***

Copiïdd toreithiog iawn ym Morgannwg oedd Llywelyn Siôn ac erys tri chasgliad o'i eiddo sydd yn cynnwys cryn swrn o waith Dafydd ap Gwilym. Y mae'r llawysgrifau canlynol o eiddo Llywelyn Siôn yn cynnwys 'Credaf i Naf y nefoedd': Llansteffan 47, 64; Llansteffan 134, 11; a LIGC 970E, 23 (sef Merthyr Tudful 23). Perthyn y rhain i'r hyn a eilw Thomas Parry yn 'Cynsail Morgannwg' a dywed fod perthynas agos rhwng llawysgrifau Llywelyn Siôn, Llansteffan 6 a Llyfr Wiliam Mathew. Dywed eu bod yn ffurfio un grŵp pendant sydd yn cynnwys darlleniadau cwbl wahanol i Pen 49C, Mostyn 212, a Hafod 26. At hynny, myn fod y grŵp hwn yn cynrychioli "stoc cywyddau copiïwyr Morgannwg" sydd yn cynnwys nifer o gerddi "na wyddai copiïwyr y Gogledd ddim amdanynt."<sup>154</sup> Y mae'n rhaid bod yn ochelgar yng nghyswllt y cyffredinoli hwn. Yn ddiau, y mae llawysgrifau Llywelyn Siôn yn ffurfio grŵp gan mai copiïdd wrth broffes ydoedd yn cynhyrchu nifer o gopiau o destunau ar yr un pryd. Ond cynnwys Llansteffan 6, er enghraifft, rai darlleniadau sydd yn wahanol yng nghyswllt 'Credaf i Naf y nefoedd' i eiddo casgliad Llywelyn Siôn. Carlamus o gasgliad fyddai tybio mai traddodiad unffurf heb amrywiadau yw 'Cynsail Morgannwg'.

---

<sup>152</sup> Ibid., t. 101.

<sup>153</sup> Ibid.

<sup>154</sup> GDG, t. cxlvi.

### **Llansteffan 6**

Lluniwyd Llansteffan 6, sef llawysgrif o dde Cymru a ysgrifennwyd oddeutu 1520, gan ysgrifydd profiadol. Wrth droed ei fersiwn o ‘Credaf i Naf y nefoedd’ priodolir y gerdd i Ddafydd ap Gwilym.<sup>155</sup> Barn Gwenogvryn Evans am y llawysgrif yn gyffredinol yw a ganlyn:

The style of the writing points to an earlier period, and the orthographical habit of, for example, ‘kaid’ to rhyme with ‘eneid’ (p. 73 &c.), belongs to the second half, if not the last quarter of the xvth century.<sup>156</sup>

Ni cheir copi o un o’r cywyddau eraill sydd yn Pen 48 yn Llansteffan 6 a cheir nifer o amrywiadau yn y cywydd ‘Credaf i Naf y nefoedd’ yn ogystal â dau gwpled coll (sef llinellau 17–18 a 25–6 yn nhestun Pen 48) sydd yn awgrymu na welwyd Pen 48 (neu o’r hyn lleiaf na ddefnyddiwyd y llawysgrif hon) gan gopiydd Llansteffan 6.

### **Gwyneddion 3**

Perthyn testunau Gwyneddion 3, sydd yn llaw Jaspar Gryffyth, i gylch y Vetustus. Y mae’n debyg fod Dr John Davies wedi cychwyn ar ei gasgliadau yn nawdegau’r unfed ganrif ar bymtheg,<sup>157</sup> ac o’r un cyfnod y daw copi Jaspar Gryffyth o’r cywydd sydd yn digwydd yn Gwyneddion 3, 1<sup>r</sup> ac yn Gwyneddion 3, 66<sup>r</sup>.<sup>158</sup> Tarddu o’r ‘Vetustus’ y mae’r rhan fwyaf o waith Thomas Wiliems a Jaspar Gryffyth yn ôl Daniel Huws.<sup>159</sup> Fodd bynnag, y mae astudiaeth o amrywiadau testunol ‘Credaf i Naf y nefoedd’ Gwyneddion 3 yn dangos nad yw’r berthynas honno yn agos iawn yn yr achos arbennig hwn. Yn y drydedd linell, er enghraifft, ceir ‘Ior’ gan Gwyneddion 3, 1<sup>r</sup> ond

---

<sup>155</sup> Llansteffan 6, ff. 234: ‘dd ap Glm ai kant’.

<sup>156</sup> J. Gwenogvryn Evans, *Report on Manuscripts in the Welsh Language: Volume II* [= RMWL II] (Llundain, 1902), t. 428.

<sup>157</sup> MWM, t. 99.

<sup>158</sup> Am gopi print, gw. Ifor Williams (gol.), *Gwyneddion 3* (Caerdydd, 1931); gw. hefyd R. Ovenden, ‘Jaspar Gryffyth and his books’, *British Library Journal*, 20 (1994), 107–39.

<sup>159</sup> MWM, t. 100.

‘Dor’ a geir mewn grŵp arall o lawysgrifau. Y mae’r hyn a gynigir gan Gwyneddion 3 ar gyfer llinell 9—‘Iawn vwch y pridd nid diddim’ yn Gwyneddion 3, 1<sup>r</sup> ac ‘Iawn oedd obrŷ yn ddibrin’ yn Gwyneddion 3, 66<sup>r</sup>—yn awgrymu bod cynsail wahanol gan y copïydd i eiddo’r Vetustus a Pen 48.

### **Wynnstey 2**

Er i Lyfr Gwyn Hergest (casgliad cynnar a gwerthfawr a oedd yn cynnwys o leiaf 36 o gerddi gan Dafydd ap Gwilym) gael ei golli mewn tân yn 1810 cadwyd copïau o’i gynnwys yn Pen 49 ac yn Wynnstey 2.<sup>160</sup> Ni cheir copi o ‘Credaf i Naf y nefoedd’ yn Wynnstey 2. Ni cheir ychwaith gopi o’r cywydd ‘Lluniau Crist a’i Apostolion’ ac y mae’r copïau o ‘Cusan’, ‘Marwnad Gruffudd Gryg’, ‘Merch Fileinaidd’, ‘Amau ar Gam’, ‘Cyngor gan Frawd Llwyd’ a’r ‘Llwynog’ yn bur wahanol i’r hyn a gynigir gan Pen 48. Trwy hyn, ni ellir ond casglu na welwyd Pen 48 gan William Bodwrda neu gan y sawl a fu’n cynnull ei gynsail.<sup>161</sup> A ellir mentro awgrymu hefyd ar bwys hyn nad oedd Llyfr Gwyn Hergest yn cynnwys copi o ‘Credaf i Naf y nefoedd’?

### **Lewis Morris a Dafydd ap Gwilym**

Digwydd ‘Credaf i Naf y nefoedd’ yng nghasgliad mawr Lewis Morris o gywyddau Dafydd ap Gwilym, sef BL Add 14870. Fe’i codwyd o BL Add 14906, 22b, a gopiwyd gan Lewis Morris yn 1726. Nid yw’n syndod bod y ddau gopi hyn yn debyg iawn i’w gilydd. Y mae’r darlleniadau amrywiol a nodir uwchben y llinellau yn y llawysgrif hon yn tarddu o Llansteffan 169, 27, a fu’n eiddo i Lewis Morris.<sup>162</sup> Yn ôl

---

<sup>160</sup> Ibid., t. 147.

<sup>161</sup> Gw. y testunau yn Wynnstey 2; GDG, t. cxxxvii. Diolch i Daniel Huws am ei sylwadau ar hyn.

Dylid nodi wrth gwrs fod gan lawysgrifau yn aml fwy nag un ffynhonnell.

<sup>162</sup> Gw. GDG, t. clx.

ei addefiad ei hun, dechreuodd Lewis Morris gasglu deunydd Dafydd ap Gwilym yn ystod ei ugeiniau cynnar pan oedd “yn ieuanc ac yn ddigon diwybodaeth”.<sup>163</sup> Nid oes amheuaeth ychwaith fod edmygedd Lewis Morris o waith Dafydd ap Gwilym yn fawr. Yn ei ‘Dafol Brydyddol’ cafwyd bod Dafydd ap Gwilym o’r pwys mwyaf (yn llawn cystal â Goronwy Owen).<sup>164</sup> Wrth ymrysona ym Môn aeth Lewis Morris ati i fireinio ei grefft gan ddatgan: “myfi a fenthyciaf hen ysbryd Dafydd ab Gwilym ac a ganaf iddynt gida’r fath egni hyd na syrthio eu mân fynyddoedd hwynt am eu pennau i’r pentydd.”<sup>165</sup> Yr oedd dylanwad Dafydd ap Gwilym ar Lewis Morris yn drwm, a daw’r dylanwad hwnnw i’r amlwg yng ngherddi natur Lewis Morris ond, gwaetha’r modd, nid yw ei gopïau o ‘Credaf i Naf y nefoedd’ yn ychwanegu dim at y dystiolaeth destunol, fel llawer o gopïau diweddar eraill yn eu tro, at y fersiynau llawysgrifau cynharach, ac ni chynhwysir ei amrywiadau yn rhan o’r testun cyfansawdd a gynigir ar ddiwedd y bennod hon.<sup>166</sup>

### ***Tystiolaeth y Llawysgrifau: Rhai Casgliadau***

O’r 72 copi a restrir yn *Y Mynegai i Lawysgrifau Cymraeg y Llawysgrifau* y mae llawer ohonynt yn ddi-werth gan nad ydynt yn ychwanegu dim at hanes trosglwyddiad llawysgrifol y cywydd, ac yn atgynhyrchu copïau cynharach sydd eisoes ar glawr. At hynny, y mae rhai o’r copïau diweddar yn amlwg lwgr ac nid oes rheswm dros eu hystyried wrth geisio llunio testun.<sup>167</sup> Fodd bynnag, o ddiidoli’r us oddi wrth y grawn erys cnewyllyn o gopïau da o’r cywydd ‘Credaf i Naf y nefoedd’ a

---

<sup>163</sup> Alun R. Jones, *Lewis Morris* (Caerdydd, 2004), t. 17.

<sup>164</sup> *Ibid.*, t. 217.

<sup>165</sup> *Ibid.*, t. 21.

<sup>166</sup> *Ibid.*, tt. 64–5.

<sup>167</sup> Gellir gweld enghraifft o’r llawysgrifau hyn ymhlith casgliad Lewis Morris y ceir trafodaeth arnynt uchod.

chynigir testun cyfansawdd ar ddiwedd y bennod hon sydd yn seiliedig ar y copïau gorau hyn. Yn eu plith y mae Hafod 26, llawysgrifau Llywelyn Siôn, Llansteffan 6, Llansteffan 133, Gwyneddon 3, 1<sup>r</sup>, Caerdydd 2.114, Mostyn 212 ac, wrth gwrs, Pen 48.

Un o'r problemau a gyfyd wrth sefydlu testun cyfansawdd yw ei bod yn ofynnol i'r golygydd modern benderfynu pa amrywiad sydd orau ac y mae hynny'n gofyn am ddealltwriaeth drylwyr o hanes a chyd-destun y llawysgrifau. Lle y mae mwy nag un testun cynnar yn cynnig mwy nag un amrywiad da y mae'r broblem yn anodd iawn ei datrys. Yng nghyswllt 'Credaf i Naf y nefoedd', fodd bynnag, nid yw'r broblem honno yn codi. Y mae gennym nifer o destunau da a chymharol gynnar ac y mae rhai ohonynt fel Pen 48 a Llansteffan 6 yn cynnwys darlleniadau anodd ac felly yn cynnig arweiniad pendant i'r golygydd modern. Gellir casglu hefyd fod testun y cywydd yn digwydd mewn o leiaf ddau draddodiad llawysgrifol, sef 'Cynsail Morgannwg' a Pen 48 (heb sôn am Gwyneddon 3 a'r priodoliad sydd yn Pen 49). Nid tystiolaeth llawysgrifol dila yw hyn ac, ar ei sail, dylid ystyried o ddifrif y posibilrwydd bod 'Credaf i Naf y nefoedd' yn un o gywyddau Dafydd ap Gwilym.

### ***leithwedd, Geirfa ac Arddull 'Credaf i Naf y nefoedd'***

Pan draddodwyd ffurf ar yr ymdriniaeth hon yn y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn Aberystwyth yn 1998 codwyd nifer o amheon parthed awduraeth Dafydd ap Gwilym o'r cywydd ar dir ieithwedd a geirfa'r cywydd hwn.<sup>168</sup> Dadleuwyd, yn unol â'r ddrwgdybiaeth a fwriwyd ar y cywydd gan Thomas Parry,

---

<sup>168</sup> Owen Thomas, 'Rhai agweddau ar y canon o waith Dafydd ap Gwilym a sefydlwyd gan Thomas Parry', darlith a draddodwyd yng Nghanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Aberystwyth (Hydref 1998).

fod yr ieithwedd yn rhy ddealladwy i'r darllenydd modern a'r eirfa yn anghymharus â barddoniaeth y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yr ail ddadl a gyflwynwyd yn erbyn ei awduraeth oedd nad yw'r cywydd hwn yn gweddu o ran dull a thestun i'r gweddill o waith eos Dyfed. Yn y cyswllt hwn, fodd bynnag, y mae'n werth dyfynnu casgliadau Huw Meirion Edwards am dduwiolfrydigrwydd Dafydd ap Gwilym (sef gwedd ar ei waith nas trafodir yn fynych) yng nghyswllt ei gerddi natur:

The *cywydd* to the lark... is one of the finest illustrations of Dafydd ap Gwilym's deep religious reverence for the natural world as God's creation and a manifestation of God on earth. It is a feeling which pervades his nature poetry, and the view that a poem such as GDG 122 ('Offeren y Llwyn') is, as Ifor Williams suggested long ago, an irreverent parody of the established religion comparable with the outrageous burlesques of the Latin scholars cannot, I think, be justified.<sup>169</sup>

Treiddia credoau ac arferion yr Eglwys drwy ei holl waith, hyd yn oed ei gywyddau serch. Yn 'Gofyn Cymod', er enghraifft, erfynnir am faddeuant drwy ddatgan:

Nid oes bechawd, methlgnawd maith,  
Marwol mwy ei oferwaith  
No thrigo, mawr uthr ogan,  
Mewn lliid, eiliw Enid lân.<sup>170</sup>

Oherwydd bod gafael ieithwedd yr Eglwys mor gadarn ynddo ni all Dafydd ap Gwilym ymatal rhag ebychu'n dduwiol ac yn yr un cywydd ceir ganddo'r sangiad 'er buchedd Gybi'.<sup>171</sup>

Priodol yn y cyswllt hwn yw dwyn i gof gysylltiadau Dafydd ap Gwilym â Pharchrhydderch, Llawysgrif Hendregadredd ac Ystrad Fflur. Gellir dadlau erbyn hyn fod llaw Dafydd ap Gwilym yn digwydd, o bosibl, yn nhrydedd haen Llawysgrif

---

<sup>169</sup> Huw M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues*, t. 245.

<sup>170</sup> GDG, cerdd 52.47–50.

<sup>171</sup> *Ibid.*, ll. 27.

Hendregadredd, lle y ceir cerddi confensiynol eu mawl a'u crefydd ochr yn ochr â cherddi cleraidd eu naws. Erbyn cyfnod Dafydd ap Gwilym ymddengys fod lle i fwy nag un math o ganu, hyd yn oed mewn llyfr llys:

The material added in Stratum III is not anything that  $\alpha$  or the scribes of Stratum II could have foreseen, let alone approved of. It is material which jars, in the manner of later altars and monuments disturbing the architectural unity of an old church. On the other hand, from the standpoint of Ieuan Llwyd, the edifice produced by  $\alpha$  and the scribes of Stratum II was a memorial to a bardic order that had vanished. Here was the generation of a new order. In its third Stratum, H is a contemporary witness to the poetry of this generation.<sup>172</sup>

Dealodd Dafydd ap Gwilym fod mwy nag un ffordd farddol i amddiffyn crefydd. Nid moesoli oedd yr unig gyfrwng posibl.<sup>173</sup> Dewisodd ei hamddiffyn drwy gyfrwng adloniant amrywiol ei gywyddau, a oedd weithiau'n storïol, weithiau'n barodiol ac weithiau ar ffurf troeon trwstan. Hyd yn oed mewn cywyddau sydd yn ymddangosiadol gableddus fel 'Merched Llanbadarn' gellir dehongli'r disgrifiad o fardd yn edrych dros ei blu ar draws ei blwyf fel beirniadaeth ar hunanfalchder anfoesol.<sup>174</sup> Yn ddiau, dylid ymatal rhag bod yn rhy haearnaidd ein dealltwriaeth o ddulliau llenyddol cerddi'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Gellir dadlau bod pedwar math o gerdd grefyddol ar glawr yn ystod oes y cywyddwyr, sef cerddi defosiynol, cerddi pregethwrol, cerddi myfyriol a cherddi sydd â rhyw gysylltiad â chrefydd gan gynnwys cerddi serch lle, yng ngeiriau Eurys Rowlands, "use—or misuse—is frequently made of images from religion".<sup>175</sup> Nid eithriad yn hyn o beth oedd Dafydd

---

<sup>172</sup> MWM, t. 219.

<sup>173</sup> Barry J. Lewis, 'Trafod barddoniaeth yn yr Oesoedd Canol: Y traddodiad mawl a chrefydd', *Dwned*, 8 (2002), 33.

<sup>174</sup> Bleddyn O. Huws, "'Dros fy mhlw ar draws fy mhlwyf': Golwg newydd ar "blu" Dafydd ap Gwilym', *Dwned*, 10 (2004), 33–55.

<sup>175</sup> E. I. Rowlands, 'Religious poetry in late medieval Wales', *BBGC*, 30 (1983), 3.

ap Gwilym a bu ei feiddgarwch wrth gyplysu byd yr Eglwys a byd lleygwyr yn ddylanwad mawr ar gywyddwyr diweddarach.<sup>176</sup>

At hynny, dylid crybwyll bod cywyddau fel ‘Y Bardd a’r Brawd Llwyd’ yn ddadl yn erbyn math arbennig o grefydda hunanymwadol ac nid yn ymosodiad ar gyfundrefn yr Eglwys a’i chyffes ffydd.<sup>177</sup> Gan hynny, ni ddylid ystyried Dafydd ap Gwilym yn ddim byd ond “gwir fab yr Eglwys”.<sup>178</sup> Byddai Dafydd ap Gwilym yn llwyr gyfarwydd hefyd â’r syniad fod yr awen yn tarddu o’r Ysbryd Glân a bod ar y bardd ddyletswydd i gyfansoddi cerddi crefyddol. Atgyfnerthu’r syniad hwnnw a wna *Gramadegau’r Penceirddiaid*, yn enwedig y *prydlyfr*.<sup>179</sup>

Mynd i’r afael â’r ddyletswydd hon yn uniongyrchol a wnaeth Dafydd ap Gwilym yn ei awdl i Iesu Grist, yn ei englynion i’r offeren, yn ei gywydd i’r Drindod a’i gywydd i luniau Crist a’i apostolion, sef y cerddi crefyddol a dderbyniwyd i ganon barddoniaeth Dafydd ap Gwilym gan Thomas Parry.<sup>180</sup> Erbyn hyn, wrth gwrs, y mae’n rhaid ychwanegu’r awdl ‘I’r Grog o Gaer’ at y rhestr uchod o gerddi crefyddol gan Ddafydd ap Gwilym, sef cerdd sydd o bosibl yn ei law ei hun.<sup>181</sup> Yn y pum cerdd hyn ceir rhychwant o gyweiriau, sydd yn amrywio o arddull ffurfiol â chyffyrddiadau Lladinaidd (er enghraifft, yr awdl ‘I Iesu Grist’) i arddull gypledol ac uniongyrchol y cywydd ‘Da fu’r Drindod’ lle y ceir ailadrodd syml ar y gair ‘da’ ar gychwyn pob

---

<sup>176</sup> Gilbert E. Ruddock, ‘Genau crefydd a serch’, *Ysgrifau Beirniadol*, 10 (Dinbych, 1977), 230–1.

<sup>177</sup> GDG, cerdd 137; Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues*, tt. 245–50.

<sup>178</sup> Gilbert E. Ruddock, ‘Genau crefydd a serch’, 231.

<sup>179</sup> Barry J. Lewis, ‘Trafod barddoniaeth yn yr Oesoedd Canol: Y traddodiad mawl a chrefydd’, 15; Williams a Jones (gol.), *Gramadegau’r Penceirddiaid*, tt. 25 (llau. 23–6).

<sup>180</sup> GDG, cerddi 1–4.

<sup>181</sup> Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill* (Aberystwyth, 1996); A. Parry Owen, ‘Englynion Dafydd Llwyd ap Gwilym Gam i’r grog o Gaer’, *Ysgrifau Beirniadol*, 21 (Dinbych, 1991), 15–36; id., ‘Golwg byr ar fydryddiaeth englynion Dafydd ap Gwilym i’r grog o Gaer’, *Dwned*, 1 (1995), 41–53.

cwpled, sef dull a ddefnyddir yn helaeth mewn llenyddiaethau llafar a dull a fyddai hefyd, wrth gwrs, o gymorth mawr i'r cof.<sup>182</sup> Fe geir awgrym yma hefyd fod y dull llenyddol, sef *genre*'r cywydd crefyddol, yn arddel arddull sy'n symlach na'r rhelyw o'r dulliau llenyddol gan gynnwys y cywydd gofyn a'r cywydd mab.

Y mae englynion Dafydd ap Gwilym i'r offeren yn ddadlennol iawn yng nghyswllt y cywydd 'Credaf i Naf y nefoedd' oherwydd eu bod, fel y cywydd, yn fath ar weddi a oedd yn boblogaidd o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg ymlaen.<sup>183</sup> Sylwodd golygydd diweddar yr englynion hyn hefyd fod peth amheuaeth ynghylch techneg olygyddol Thomas Parry wrth olygu'r gerdd hon. Yn lle troi at fersiwn da Thomas Wiliems o'r englynion defnyddiwyd copi rhannol lwgr John Jones, Gellilyfdy a'r copi anghyflawn a geir yn LIGC 1578B, 466.<sup>184</sup> At hynny, y mae'n rhaid cytuno bod "olion brys ar yr amrywiadau" ac nid oes sail lawysgrifol gwbl i'r llinell 'Can wyd fyw, cadw yn fyw fi'.<sup>185</sup> Y mae'n bosibl hefyd nad Thomas Parry a gododd y testun, ond un o'i gynorthwywyr

Yn 'Englynion yr Offeren' ceir enghreifftiau o linellau heb gynghanedd ac ymadroddi mwy rhyddieithol na'r hyn a geir yn ei awdlau ond, fel y dywed Paul Bryant-Quinn:

nid yw'n annichonadwy, wrth gwrs, y gallai'r bardd ei hun fod wedi dewis canu'n llai ffurfiol ar gyfer cynulleidfa neu amgylchiadau penodol.<sup>186</sup>

---

<sup>182</sup> Sioned Davies, *Crefft y Cyfarwydd* (Caerdydd, 1995), tt. 40–2.

<sup>183</sup> M. Paul Bryant-Quinn, 'Ailystyried "Englynion yr Offeren" gan Dafydd ap Gwilym', *Dwned*, 7 (2001), 27 a gw. y llyfryddiaeth yn n.2.

<sup>184</sup> *Ibid.*, 33. Anodd yn y cyswllt hwn yw peidio â meddwl am orddibyniaeth Thomas Parry ar Pen 49 a Hafod 26 ar draul Pen 48 wrth bwysu a mesur 'Credaf i Naf y nefoedd'.

<sup>185</sup> *Ibid.*

<sup>186</sup> *Ibid.*, 34.

Tynnir ein sylw gan amrywiad yn llinell 14, sef ‘croes newydd’ ac awgryma Paul Bryant-Quinn fod hyn yn cynnig cyd-destun posibl i’r englynion, sef cysegru crog newydd.<sup>187</sup> Y mae’n awgrym gogleisiol ac yn tanlinellu swyddogaeth gymdeithasol canu crefyddol Dafydd ap Gwilym fel llawer o ganu crefyddol yr oes.

O ran beirniadaeth ar hyd y cywydd ‘Credaf i Naf y nefoedd’ nid oes raid ond dwyn i gof ‘Da fu’r Drindod’, sef y drydedd gerdd yng ngolygiad Thomas Parry o waith Dafydd ap Gwilym, lle y dywed Thomas Parry fod modd ei derbyn fel gwaith Dafydd ap Gwilym er ei fod yn gywydd byr iawn a syml ac uniongyrchol ei ieithwedd a’i arddull:

Da fu’r Drindod heb dlodi  
A wnaeth nef a byd i ni.  
Da fu’r Tad yn anad neb  
Roi Anna ddiwair wyneb.  
Da fu Anna dwf uniawn  
Ddwyn Mair, forwyn ddinam iawn.  
Da fu Fair ddiwair eiriawl  
Ddwyn Duw i ddiwyno diawl.  
Da fu Duw Iôr, dioer oroen,  
A’i groes ddwyn pymoes o’u poen.  
Da y gwnêl Mab Mair, air addef,  
Ein dwyn oll bob dyn i nef.<sup>188</sup>

Gellir dadlau bod ‘Credaf i Naf y nefoedd’ a’r cywydd i’r Drindod yn debyg iawn i’w gilydd mewn nifer o ffyrdd arwyddocaol.<sup>189</sup> Defnyddia’r ddau gywydd ieithwedd seml, a geirfa grefyddol elfennol fel ‘nef’, ‘byd’, ‘Tad’, ‘Duw’, a ‘croes’. Seilir y cywydd i’r Drindod ar ailadrodd yr ymadrodd syml ‘da fu’ fel llafar-gân gan restru rhai o nodweddion y Drindod. Er bod ‘Credaf i Naf y nefoedd’ yn defnyddio cymeriadau llythrennol, cymeriadau geiriol, cymeriadau cynganeddol a chymeriadau

---

<sup>187</sup> Ibid.

<sup>188</sup> GDG, cerdd 3.

<sup>189</sup> Ibid.

synhwyrol efallai ei bod yn wir dweud nad oes cynifer o sangiadau yn y cywydd sydd yn golygu nad yw llif yr ystyr mor herciog â rhai o gywyddau eraill Dafydd ap Gwilym lle y ceir mwy o dorymadroddi.<sup>190</sup> Ond llyfn iawn hefyd yw rhythm a llif ‘Da fu’r Drindod’. Dylid nodi hefyd fod nifer y llinellau sydd yn y ddau gywydd hyn yn fychan. Yn wahanol i rai beirdd diweddarach, fel Lewys y Glyn a oedd yn cynnwys rhwng 56 a 66 o linellau yn ei gywyddau bron bob amser heb fawr o amrywio o ran hyd llinellau, yr oedd syniad Dafydd ap Gwilym am hyd cywydd yn llawer llai pendant: wedi’r cyfan y mae ar ei enw gerddi sydd yn llai nag 20 llinell o hyd yn ogystal â cherddi hwy na 70 llinell.<sup>191</sup> Y mae’n arwyddocaol hefyd fod canran uchel o’r cerddi byrion ar enw Dafydd ap Gwilym yn digwydd yn y llawysgrifau a berthyn i’r cyfnod cyn diwedd y bymthegfed ganrif.<sup>192</sup> Ni ddylid synnu felly fod ‘Credaf i Naf y nefoedd’ yn eu plith. Y mae’n rhaid cofio hefyd yng nghyswllt hyd cywyddau Dafydd ap Gwilym fod y rhan fwyaf o lawysgrifau yn cynnig testun 50 llinell iddo. Er bod modd pwysleisio’r tebygrwydd rhwng rhai agweddau ar y ddau gywydd crefyddol hyn nid yw hyn ychwaith ar ei ben ei hun yn profi mai Dafydd ap Gwilym o reidrwydd yw awdur ‘Credaf i Naf y nefoedd’. O’r hyn lleiaf, fodd bynnag, ni ddylid diystyru’r posibilrwydd fod Dafydd ap Gwilym yn canu cerddi syml a chymharol ddiaddurn yn ogystal â chywyddau cain eu plethwaith.

O ran gwrthwynebiadau Thomas Parry ar dir ei arddull y mae’n rhaid holi ar dir rhesymeg wrth fynd heibio sut y mae modd i ysgolhaig o’r ugeinfed ganrif benderfynu beth yw natur barddoniaeth y bedwaredd ganrif ar ddeg cyn sefydlu’n

---

<sup>190</sup> Gweler, er enghraifft, GDG, cerdd 87, sef ‘Hwsmonaeth mewn Cariad’.

<sup>191</sup> Dafydd Johnston, ‘Dafydd ap Gwilym and oral tradition’, 151.

<sup>192</sup> MWM, t. 97.

gadarn y testunau a berthyn i un o brif feirdd y ganrif honno. Onid ydyw hi'n bosibl y gall mwy nag un arddull ddigwydd mewn *œuvre* neu hyd yn oed yn yr un gerdd? Ac onid oedd yr amrywiol arddulliau hyn yn cyflawni gwahanol swyddogaethau? Gallai'r amrywiaeth arddulliol hwn adlewyrchu gofynion penodol y gwahanol ddulliau llenyddol yn ogystal ag awgrymu bod arddull y bardd wedi datblygu ac wedi aeddfedu yn ystod ei yrfa. Fel y dywed Dafydd ei hun:

Nid ar un bwyd ac enllyn  
Y mae Duw yn porthi dyn.  
Amser a rodded i fwyd,  
Ac amser i olochwyd,  
Ac amser i bregethu,  
Ac amser i gyfanheddu.  
Cerdd a genir ymhob gwledd  
I ddiddanu rhianedd,  
A phader yn yr eglwys  
I geisio tir Paradwys.<sup>193</sup>

Hynny yw, yng nghyswllt swyddogaeth gymdeithasol barddoniaeth y mae gwahanol fathau o ganu yn gweddu i wahanol fathau o achlysuron a chyd-destunau. Yng ngwaith Dafydd ap Gwilym ceir ystod eang o arddulliau ar waith. Nid oes ond rhaid cymharu, er enghraifft, ei farwnad ddwys i Lywelyn ap Gwilym â'i gywydd digrif 'Trafferth mewn Tafarn' i glywed lleisiau tra gwahanol i'w gilydd ond, a benthg term o eiddo Bobi Jones, yr un yw'r tafod.<sup>194</sup>

### ***Odlau 'Credaf i Naf i nefoedd'***

O ran gwrthwynebiad Thomas Parry i 'Credaf i Naf y nefoedd' ar dir odli 'gwedi' a 'cyfodi' dylid nodi bod y bardd weithiau'n hepgor y gynghanedd yn gyfan gwbl o'i

---

<sup>193</sup> GDG cerdd 137.61–70.

<sup>194</sup> Gw., er enghraifft, GDG cerddi 137 a 48.

linellau, mewn traethodlau ac mewn cywyddau.<sup>195</sup> Fodd bynnag, er bod odli geiriau fel ‘gwedi’ a ‘cyfodi’ yn dderbyniol yn y Gymraeg er y ddeuddegfed ganrif, ni ddigwydd enghreifftiau eraill o’r ffurf ‘gwedi’ (yn lle ‘gwedy’) yng ngwaith Dafydd ap Gwilym yn ôl Thomas Parry, ac o’r herwydd erys amheuaeth am ddilysrwydd y llinell.<sup>196</sup>

Yn llinell 3 ceir ‘dor am keidw rrac direidchayn’ yn nhestun Pen 48. Er bod ‘direidchayn’ yn cynnal y brifodl â ‘blayn’ y llinell ddilynol y mae’r gynghanedd lusg yn ddiffygiol oherwydd nad atebir ‘ceidw’ yn llawn gan ‘direidchayn’. Ar lafar, byddid yn disgwyl i’r gynghanedd lusg weithio’n foddhaol gan mai’r ynganiad fyddai ‘Dôr a’*m* **ceidw** rhag **direidchaen**’ ond yn ôl rheolau’r gynghanedd y mae’n rhaid ateb yr ‘w’ dawel. O’r herwydd, cynigir peidio â dilyn darlleniad Pen 48 yn union yn y testun golygedig, ond gellir dadlau bod darlleniad Pen 48 yn amrywiad llafar iawn ac yn ddarn pwysig o dystiolaeth o blaid credu bod olion llafar yn y llawysgrif honno.

### ***Cynghanedd ‘Credaf i Naf y nefoedd’***

Cwyn arall o eiddo Thomas Parry yn erbyn y cywydd hwn yw’r cyfartaledd isel o gynganeddion sain a geir ynddo a dadleuir ganddo fod cyfartaledd isel o’r cyfryw gynganeddion yng ngherddi’r bedwaredd ganrif ar ddeg. Dywed Thomas Parry:

os yw cyfartaledd y cynganeddion Sain mewn cywydd arbennig yn is  
na 25 y cant, yna nid i’r 14g. y mae’n perthyn<sup>197</sup>

Ond yn ‘Credaf i Naf y nefoedd’ y mae 28% o’r llinellau yn gynganeddion sain, yn ôl dadansoddiad cyfrifiadurol Terence Crawford.<sup>198</sup> At hynny, y mae dau gywydd a

---

<sup>195</sup> Ibid., cerdd 124; Thomas Parry, ‘Datblygiad y cywydd

<sup>196</sup> John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Caerdydd, 1980), tt. 245–6.

<sup>197</sup> GDG, tt. xcvi–xcviii.

dderbyniwyd i'r canon gan Thomas Parry â llai na chwarter o'u llinellau yn gynghanedd sain felly ni fu Thomas Parry ei hun yn gwbl gyson wrth drin y maen prawf arbennig hwn o'i eiddo.<sup>199</sup> Yn y golygiad diweddaraf o 'Y Llwynog', er enghraifft, ni cheir ond 19% o linellau'r cywydd â chynghanedd sain ynddynt, ac nid oes dadl o gwbl ynghylch ei ddilysrwydd.<sup>200</sup> Yn y golygiad diweddaraf o waith Dafydd ap Gwilym ceir nifer fawr o gywyddau sydd â llai na 30% o'i llinellau yn gynghanedd sain a swrn go dda hefyd sydd â llai na 25% o'i llinellau yn gynghanedd sain: 'Caru yn y Gaeaf' (19%); 'Ei Gysgod' (19%); 'Y Cloc' (18% ond erys amheuaeth ynghylch ei ddilysrwydd); 'Y Mwdwl Gwair' (24%); 'Y Wawr' (19%); 'Difrawd' (22%); 'Dagrau Serch' (16%); 'Taith i Garu' (20%); 'Gofyn Cymod' (23%); 'Dan y Bargod' (17.5%); 'Gerlant o Blu Paun' (20% ond o bosibl y mae'r testun yn llwgr gan mai un fersiwn yn unig sydd ar gael); 'Merch o Is Aeron' (20%); 'Merched Llanbadarn' (23%); 'Amnaid' (12% er bod nifer o gynganeddion pengoll yn y cywydd hwn); 'Taeru' (13% ond 16 llinell yn unig sydd yng ngolygiad newydd y cywydd hwn); 'Merch Gyndyn' (20% er bod nifer o linellau digynghanedd ym mreichiau cyntaf y cwpleidi); 'Gwadu' (14% ond cywydd byr iawn yw hwn â 22 llinell yn unig); 'Cyngor gan Frawd Llwyd' (15% er mai 20 llinell o gywydd yn unig ydyw); ac ambell gywydd amheus ei awduraeth fel 'Penwisg Merch' (18%), 'Y Fun o Eithinfynydd' (23%), 'Y Ceiliog Du' (15%), ac 'Y Frân' (24%).<sup>201</sup> Er bod rhai o'r cywyddau a grybwyllwyd yma yn amheus eu hawduraeth a rhai eraill braidd yn fyr ni

---

<sup>198</sup> Terence Crawford, 'Cyfartaledd y gynghanedd sain yng nghywyddau Dafydd ap Gwilym', *Ysgrifau Beirniadol*, 12 (Dinbych, 1982), 135.

<sup>199</sup> *Ibid.*, 131.

<sup>200</sup> Gw. <http://www.dafyddapgwilym.net/AnaServer?dafydd+125977+printPoem.anv+poem=60%20-%20Y%20Llwynog> (cyrchwyd 6 Ebrill 2007) a olygyd gan Huw Meirion Edwards.

<sup>201</sup> Gw. <http://www.dafyddapgwilym.net> [cyrchwyd 10 Ebrill 2007].

ddylai canran y cynganeddion sain yn ‘Credaf i Naf y nefoedd’ fod yn broblem i ddilysrwydd y cywydd.

O safbwynt testunol, y mae disgwyl i olygyddion modern wrth baratoi testunau cyfansawdd ddilyn trywydd y dystiolaeth llawysgrifol gynnar a da, i ba gyfeiriad cynganeddol bynnag y myn ein tywys. Wedi’r cyfan, fel y dywedodd un ysgolhaig am ddulliau dadansoddi Terence Crawford o’r gynghanedd, nid peiriant yw bardd yn cyfansoddi cywyddau yn ôl cyfartaleddau a chanrannau cynghanedd. Un maen prawf yn unig o blith lliaws ydyw cyfartaledd y cynganeddion sydd mewn cerdd.<sup>202</sup> Hyd yn oed os mynnir bod yn haearnaidd yn hyn o brawf y mae ‘Credaf i Naf y nefoedd’ yn llwyddo gan fod mwy na digon o ganran o gynganeddion sain yn digwydd ynddo. Yn y golygiad cyfansawdd a gynigir isod gwelir bod 14 llinell o’r 52 llinell yn gynganeddion sain, sef 27% o’r cyfanswm (neu 29.4% yn ôl dadansoddiad Peredur Lynch o’r cywydd fel y mae’n digwydd yn Pen 48).<sup>203</sup> Yn eu plith ceir dwy enghraifft o gynghanedd sain drosgl, sef ‘Iesu a moliannu Mair’ ac ‘Wedi cyfodi o’n câr’, sef y math o gynghanedd sain a oedd yn un o nodau amgen barddoniaeth y bedwaredd ganrif ar ddeg (er ei bod yn digwydd o bryd i’w gilydd yng nghanu’r bymthegfed ganrif yn ogystal).

O safbwynt dilysrwydd y cywydd hwn, fe ddylai dadansoddiad o’r gynghanedd lusg beri inni amau awduraeth y cywydd hwn yn fwy na’r dadansoddiad o’i gynghanedd sain. Ceir 15 llinell o gynghanedd lusg ynddo, sef 29% o’r cywydd, sydd yn ganran

---

<sup>202</sup> Terence Crawford, ‘Cyfartaledd y gynghanedd sain yng nghywyddau Dafydd ap Gwilym’, 131–42; Thomas Parry, ‘Dafydd ap Gwilym a’r cyfrifiadur’, *Ysgrifau Beirniadol*, 13 (Dinbych, 1985), 120.

<sup>203</sup> Peredur Lynch, ‘Cynghanedd cywyddau Dafydd ap Gwilym: Tystiolaeth y llawysgrifau cynnar’, yn R Iestyn Daniel, Marged Haycock, Dafydd Johnston a Jenny Rowland (gol.), *Cyfoeth y Testun: Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 2003), 109–147.

anarferol o uchel mewn cywydd (er bod 25% o gywydd ‘Y Drindod’ yn gynghanedd lusg ond cywydd byr iawn yw hwnnw).

Nid yw’r gynghanedd gytseiniol bob amser yn foddhaol yn ‘Credaf i Naf y nefoedd’ ychwaith. Ceir enghraifft o’r draws fantach yn y cywydd: ‘Swrn yn ebystyl a saint’, ac fe geir nifer o linellau gwan eu cynganeddiad: ‘Hen yw a ieuanc a hael’; ‘I gyrchu pawb o’i garchar’ ac ‘Amen ac nid addunwn mwy’.<sup>204</sup> Ceir hefyd ddwy enghraifft o gynghanedd draws gyferbyn: ‘Gwarant fydd i bob gwirair’, a ‘Goreu merch dan aur goron’. Nid yw’r enghreifftiau hyn yn wallus, wrth gwrs, a cheir enghreifftiau ddigon o’r draws fantach yng nghywyddau eraill Dafydd ap Gwilym—a rhai ohonynt yn llinellau trawiadol iawn (e.e. ‘Haul yr ellyllon yw hi’ yn ‘Noson Olau’, GDG 70.32). Ond y mae’r cyfuniad o gynganeddu gwan (a chynganeddu geiriau) ynghyd â’r nifer uchel o gynganeddion llusg yn y cywydd hwn yn codi cwestiwn ynghylch dilysrwydd y cywydd.

### ***Cwpledi Ychwanegol***

Yn gynnar iawn yn hanes trosglwyddo’r testun hwn dryswyd diwedd ‘Lluniau Crist a’i Apostolion’ â diwedd ‘Credaf i Naf y nefoedd. Yn nhestun Pen 48 o ‘Lluniau Crist a’i Apostolion’ ceir pedwar cwpled ychwanegol sy’n perthyn i ‘Credaf i Naf y nefoedd’. Digwydd yr un pedwar cwpled yn nhestun Hafod 26 o ‘Lluniau Crist a’i Apostolion’ a thri chwpled ychwanegol yn nhestun Pen 49, 131<sup>r</sup> o ‘Lluniau Crist a’i Apostolion’. Ni wyddys, wrth gwrs, beth oedd diweddglo testun Pen 48 o’r cywydd hwnnw gan fod y ddalen honno ar goll. Ni olyga hynny o reidrwydd fod ‘Credaf i Naf

---

<sup>204</sup> Gwan hefyd yw llinell 16 lle y mae’r brifodl yn disgyn ar y rhagenw ôl: ‘Goreu mam oedd ei fam fo’.

y nefoedd' yn gywydd annilys gan fod enghreifftiau lawer o gopiwyr yn cymysgu cwpledi a darnau helaeth o gywyddau yn y llawysgrifau. Ond os yw perthynas Pen 48 â'r Vetustus yn agos, a'r testun a godwyd o'r Vetustus yn Pen 49 yn cynnig yr un diweddglo, beth tybed oedd y diweddglo yn Pen 48? Gan fod y ddau gywydd ar yr un pwnc y mae'n bosibl eu bod wedi'u copïo gyda'i gilydd ar yr un pryd a bod y tebygrwydd rhwng diwedd y ddau gywydd wedi arwain at gymysgu cwpledi. Yng nghwpled clo 'Lluniau Crist a'i Apostolion' ceir y sangiad 'gair o gariad' a diau bod hynny wedi drysu'r cof wrth gopïo diweddglo 'Credaf i Naf y nefoedd' lle y ceir nifer o gyfuniadau sydd yn cynnwys 'gair': 'gair lles', 'goreu un gair', 'gair cariad', 'a gad o'r gair', 'Duw yw'r gair', ac yn cwpled olaf ond un 'a'r gair yw Duw'.

### **Gwerthoedd Llenyddol yr Oesoedd Canol**

Ond beth am werthoedd llenyddol cyffredinol 'Credaf i Naf y nefoedd'? A ydyw'r cywydd yn dramgwyddus ar y pen hwnnw? Yng Nghymru'r Oesoedd Canol un o'r ffynonellau gorau sydd ar glawr i ddeall gwerthoedd llenyddol yw'r llyfrau gramadeg a elwir 'Gramadegau'r Penceirddiaid'.<sup>205</sup> Ceir copïau o'r gramadegau hyn yn Pen 20

---

<sup>205</sup> Gw. Williams a Jones (gol.), *Gramadegau'r Penceirddiaid*. Ymhlith y ffynonellau eilaidd pwysicaf y mae R. Geraint Gruffydd, 'Wales's second grammarian: Dafydd Ddu o Hiraddug', *Proceedings of the British Academy*, 90 (1996), 1–28; Bobi Jones, 'Pwnc mawr beirniadaeth lenyddol Gymraeg', *Ysgrifau Beirniadol*, 3 (1967), 253–88; J. T. Jones, 'Gramadeg Einion Offeiriad', *BBGC*, 2 (1925), 184–200; Ceri W. Lewis, 'Einion Offeiriad and the Bardic Grammar', yn A. O. H. Jarman a G. Rees Hughes (gol.), *A Guide to Welsh Literature, II: 1280 – c. 1500* (Abertawe, 1979), tt. 58–87. Arg. adol. gan D. Johnston (Caerdydd, 1997); Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* (Caerdydd, 1932); Williams a Jones (gol.), *Gramadegau'r Penceirddiaid*; A. T. E. Matonis, 'A case study: Historical and textual aspects of the Welsh Bardic Grammar', *CMCS*, 41 (2001), 24–36; A. T. E. Matonis, 'The concept of poetry in the Middle Ages: The Welsh evidence from the Bardic Grammars', *BBGC*, 36 (1989), 1–12; A. T. E. Matonis, 'Later medieval poetics and some Welsh Bardic Debates', *BBGC*, 29 (1980–2), 635–65; A. T. E. Matonis, 'Literary taxonomies and genre in the Welsh Bardic Grammars', *ZCP*, 47 (1995), 211–34; A. T. E. Matonis, 'Problems relating to the composition of the Welsh Bardic Grammars', yn A. T. E. Matonis a D. F. Melial (gol.), *Celtic Language, Celtic Culture: A Festschrift for Eric P. Hamp* (Van Nuys, CA, 1990), tt. 273–9; A. T. E. Matonis, 'The Welsh Bardic Grammars and the Western grammatical tradition', *Modern Philology*, 79 (1981), 121–45; Thomas Parry, 'Statud Gruffudd ap Cynan', *BBGC*, 5 (1929–31), 25–33; Thomas Parry, 'The Welsh metrical

(c. 1330), yn Llyfr Coch Hergest (c. 1400), Llansteffan 3 (c. 1425) ac yn Bangor 1 (c. 1450), ond ceir cryn debygrwydd rhwng fersiynau'r Llyfr Coch, Llansteffan 3 a Bangor 1 a'r Llyfr Coch a gynrychiola'r fersiwn cynharaf o'r gramadeg. Er mai Pen 20 sydd yn cynrychioli'r fersiwn diweddaraf o'r gramadeg hi yw'r llawysgrif Gymraeg gynharaf sydd yn trafod gramadeg yn y dull hwn. Bu cryn drafodaeth ynghylch union berthynas Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug â'r gramadegau ond, o'r hyn lleiaf, y mae'n deg casglu bellach fod gan grefyddwr ryw gysylltiad â'r gwaith. Yn y gramadegau cyfunir dysg ramadegol â dysg farddol, ac y mae'r adran ar ramadeg yn drwm o dan ddylanwad gramadegau Lladin Donatus a Priscian. Ond, yn bwysicaf oll o safbwynt ein hymdriniaeth â barddoniaeth yr Oesoedd Canol, cynulleidfa darged y gramadegau fwy na thebyg oedd beirdd dan hyfforddiant a beirdd proffesiynol.

Disgrifir barddoniaeth yn y gramadegau fel a ganlyn:

kyuansodyat ymadrodyon kyfyawn o eireu adurn arderchawc, a  
deckaer o eireu gwann adwyn, kymeredic, a arwydockaont molyant  
neu ogan, a hynny ar gerd dafawt ganmoledic<sup>206</sup>

O'i aralleirio gellir dweud mai gwaith geiriol cain sydd yn dilyn rheolau mydr a gramadeg ac yn perthyn i ddull llenyddol pendant oedd barddoniaeth yn nhyb awdur neu awduron y gramadegau. At hynny, ceir ymdriniaeth â thair cangen y farddoniaeth

---

treatise attributed to Einion Offeiriad', *Proceedings of the British Academy*, 47 (1961), 177–95; Erich Poppe, 'The figures of speech in *Gramadegau'r Penceirddiaid*', *BBGC*, 38 (1991), 102–4; Erich Poppe, 'Latin grammatical categories in the vernacular: The case of declension in Welsh', *Historiographia linguistica*, 18 (1991), 269–80; Erich Poppe, 'Tense and mood in Welsh Grammars, c. 1400 to 1621', *CLIGC*, 29 (1995–6), 17–38; Paul Russell, 'Gwr gwynn y law: Figures of speech in *Gramadegau'r Penceirddiaid* and Latin Grammarians', *CMCS*, 32 (1996), 95–104; J. Beverley Smith, 'Einion Offeiriad', *BBGC*, 20 (1962–4), 339–47; G. A. Williams, 'Later literary criticism in Wales', yn Alastair Minnis ac Ian Johnson, *The Cambridge History of Literary Criticism[:] Volume II[:] The Middle Ages* (Caergrawnt, 2005), tt. 549–57.

<sup>206</sup> Williams a Jones (gol.), *Gramadegau'r Penceirddiaid*, t. 6.

hon (a manylir ar y tair cangen yn fersiynau Llansteffan 3 a Pen 20 o'r testun): *klerwryaeth*, sy'n cynnwys dychan a pharodi; *teuluwryaeth*, sy'n cynnwys canu serch ac amwysedd; a *prydydyaeth*, sydd yn ymwneud â mydryddiaeth (englynion, awdlau a chywyddau) ac yn gymhleth ei ffurf a'i dychymyg. Perthyn i brydyddiaeth felly y mae'r cywydd 'Credaf i Naf y nefoedd'.

Yn y gramadegau ceir dosbarthiad o'r gwahanol fydrau ac enghreifftiau ohonynt a nodir bod pedwar mesur ar hugain, ond ffug o beth yw'r rhif hwn (e.e. y cywydd llosgyrnog sy'n ffurf ar emyn Lladin), ac ni ddefnyddid rhai o'r mesurau gan y prif feirdd o gwbl. Rhestrir wedyn y beiau neu'r camweddau cynganeddol, ieithyddol a synhwyrol. Yn arwyddocaol iawn, ni cheir trafodaeth lawn yn y gramadegau ar gynghanedd sy'n awgrymu naill ai, o bosibl, fod y gramadegau yn geidwadol ac yn cynnig darlun anghyflawn o natur barddoniaeth Gymraeg dechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg neu —a dyma sydd fwyaf tebygol gan fod rhyw lun ar gynghanedd ar gael cyn y bedwaredd ganrif ar ddeg—adlewyrchu ac atgyfnerthu y maent yr arfer mai ar dafod leferydd yn unig y dysgid rheolau a phatrymau'r gynghanedd.<sup>207</sup> Nid dysg llawysgrif a llyfr oedd barddoniaeth i feirdd proffesiynol ond proffesiwn a dulliau i'w harddel a'u hymarfer (ac nid i'w hastudio mewn llyfr) oedd crefft cerdd dafod iddynt, fel yr edliwiodd Wiliam Cynwal i Edmwnd Prys ddwy ganrif yn ddiweddarach.<sup>208</sup> Un o ganlyniadau'r olygwedd hon yw fod modd i arferion cynghanedd ddatblygu a newid o oes i oes heb hualau'r gair ysgrifenedig i'w rhwystro.

---

<sup>207</sup> Thomas Parry, 'Twf y gynghanedd', *THSC* (1936), 143–60.

<sup>208</sup> Williams a Jones (gol.), *Gramadegau'r Penceirddiaid*, t. xiii; Gruffydd Aled Williams, *Ymryson Edmwnd Prys a Wiliam Cynwal* (Caerdydd, 1986), tt. clxxvi–clxxviii.

Diau mai'r adran bwysicaf yn y gramadegau, o safbwynt synied am ddilysrwydd 'Credaf i Naf y nefoedd', yw'r *prydlyfr* lle y pwysleisir mor allweddol a blaenllaw yw mawl mewn barddoniaeth Gymraeg. O bosibl, ymgais ar ran awdur neu awduron y gramadegau oedd y pwyslais hwn i wrthweithio twf a phoblogrwydd dychan yn y bedwaredd ganrif ar ddeg y ceir cip ar ei ddylanwad yn y corff hynod o ganu dychan a ddiogelwyd yn Llyfr Coch Hergest.<sup>209</sup> Ond erys corff mawr iawn o farddoniaeth—dros dair mil o gywyddau marwnad yn ôl amcangyfrif Dafydd Elis Thomas—sydd yn dangos mor ganolog oedd mawl i'r traddodiad barddol.<sup>210</sup> Yn y *prydlyfr* hefyd ceir disgrifiad manwl o sut y dylid mynd ati i foli pob gwrthrych. Yn Llansteffan 3 nodir y dylid moli'r priodoleddau canlynol a berthyn i fodau ysbrydol:

Duw a volir o ddwyolder, a medyant, a holl-allu, a holl-ddaioni, a holl-ddoethinab, a holl-drugared, a haelyoni, a gw[a]rder, a dosparth barneu kyuyawn, a chryedigaeth nef a dayar, a phetheu ereill dwyuol anrydeddus. Meir a volir o'e gwyrdawt, a'e glendit, a'e santeidrwyd, a'e thrugared, a'e haelyoni, a'e thegwch, a phetheu ereill nefolyon y moler y Mab onadunt.<sup>211</sup>

Nid yw'r cywydd 'Credaf i Naf y nefoedd' yn torri'n groes i'r un o'r argymhellion barddol hyn ac y mae'n cyflawni un o ddyletswyddau'r bardd i ganu cerdd grefyddol Gristnogol a chadarnhau'r gred fod "yr awen yn tarddu o'r Ysbryd Glân".<sup>212</sup> Y mae ei gwerthoedd llenyddol, felly, yn gydnaws ag eiddo'r bedwaredd ganrif ar ddeg.

---

<sup>209</sup> Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues*, tt. 38–66; Dylan Foster Evans, 'Goganwr am Gig Ynyd': *The Poet as Satirist in Medieval Wales* (Aberystwyth, 1996); Twm Morys, 'Chwedleu chwydyd: Golwg ar ganu dychan Llyfr Coch Hergest', *Barddas*, 135–7 (Gorffennaf/Awst/Medi 1988), 32–4; Huw Meirion Edwards (gol.), *Gwaith Prydydd Breuan a Cherddi Dychan Eraill o Lyfr Coch Hergest* (Aberystwyth, 2000).

<sup>210</sup> Huw Meirion Edwards, 'Murnio marwnadau: Golwg ar y ffug-farwnad yng nghyfnod y cywydd', *Dwned*, 5 (1999), 47.

<sup>211</sup> Williams a Jones (gol.), *Gramadegau'r Penceirddiaid*, t. 34.

<sup>212</sup> Barry J. Lewis, 'Trafod barddoniaeth yn yr Oesoedd Canol: Y traddodiad mawl a chrefydd', *Dwned*, 8 (2002), 15.

## 8. Casgliadau

Y mae Daniel Huws wedi amlinellu'r broblem sydd yn ein hwynebu mewn perthynas â Pen 48 yn gryno ac yn gynhwysfawr:

An eighth poem lacks its end and attribution. It may well have been attributed to Dafydd in this manuscript, though Thomas Parry rejects it.<sup>213</sup>

Wrth gwrs, y mae'n rhaid cofio hefyd fod ystyriaethau mwy cyffredinol yn codi wrth geisio golygu gwaith bardd fel Dafydd ap Gwilym. Un o'r prif broblemau yw ei boblogrwydd ymhlith cynifer o gopiŵyr llawysgrifau er y cyfnod cyn y Dadeni Dysg ac ar ôl hynny. Pan fo cynifer o gopïau a fersiynau da ymddengys fod cysyniadau golygyddol traddodiadol, pan y'u cymhwysir at fardd a fu mor boblogaidd â Dafydd ap Gwilym, yn annigonol ac yn anfoddhaol. Erys rhai cerddi, a dadogir ar Ddafydd ap Gwilym gan lawysgrifau cynnar weithiau, tu allan i'r canon awdurdodol ac felly yn bell o'r sylw sy'n ddyladwy iddynt. Fel y dywedodd Dafydd Johnston yn ei adolygiad o *Dafydd ap Gwilym: Apocrypha* Helen Fulton:

Y mae'n deg dweud mai un o sgil-ffeithiau anffodus sefydlu canon awdurdodol yw bod y cerddi 'annilys' yn cael eu gadael ar yr ymylon a'u hanghofio, er eu bod yn aml yn haeddu sylw llawn cymaint â'r rhai a dderbyniwyd i'r gorlan.<sup>214</sup>

Er hynny, ni olyga amheuaeth am ein dulliau traddodiadol o olygu cerddi canoloesol fod yn rhaid cynnwys y cyfan o'r 177 o gerddi a farnodd Thomas Parry yn annilys mewn canon estynedig. Ni olyga ychwaith fod yn rhaid wrth ddileu pob rhan o swyddogaeth y golygydd modern o ran barn a chwaeth. Ond y mae'n rhaid i'r testunau cynharaf gorau gael cyfle i ddylanwadu ar farn y golygydd modern. Ni

---

<sup>213</sup> MWM, t. 93, n.19.

<sup>214</sup> (Adolygiad) Dafydd Johnston, '*Dafydd ap Gwilym: Apocrypha*, golygwyd gan Helen Fulton', *Llên Cymru*, 21 (1998), 202.

ddigwyddodd hynny, gwaetha'r modd, yng nghyswllt Pen 48 pan aeth Thomas Parry ati i olygu barddoniaeth Dafydd ap Gwilym. Yn lle hynny, rhoddwyd gormod o bwys ar ddarlleniadau Pen 49 nid yn unig wrth benderfynu ar awduraeth 'Credaf i Naf y nefoedd' ond hefyd yng nghyswllt rhai o gywyddau eraill Pen 48. Er bod Pen 48 yn llawysgrif sydd yn cynnig tystiolaeth bwysig nid yw hyd yma wedi derbyn y sylw sydd yn ddyladwy iddi. Petai testun llawn o 'Credaf i Naf y nefoedd' wedi ymddangos yn Pen 49, yn lle priodoliad yn unig, mentraf awgrymu na fyddai Thomas Parry wedi bod mor barod i'w wrthod. Hyd yn oed os nad oes modd profi'n ddigamsyniol bod 'Credaf i Naf y nefoedd' yn waith dilys Dafydd ap Gwilym, o'r hyn lleiaf gellir dadlau bod yr astudiaeth hon o gywyddau Pen 48 yn dangos ei bod yn briodol ailystyried hyd a lled y gorlan a grewyd gan Thomas Parry, gan greu cilfach neu loc atodol i'r brif gorlan, fel y gwnaethpwyd eisoes ar wefan dafyddapgwilym.net, lle y gall cerddi fel 'Credaf i Naf y nefoedd' ymgartrefu.

*I Dduw*<sup>215</sup>

Credaf i Naf y nefoedd,  
Credo gwych, caredig oedd.  
Dôr a'm ceidw rhag direidwaen,  
4 Dawn y blaid a Duw'n y blaen.  
Rhodded im faith, berffaith Bôr,  
Rhag angen y rhyw gyngor  
I foliannu'n gu gywair  
8 Iesu a moliannu Mair.  
Iawn yrhawg ar bob awgrim  
Moliannu Duw ymlaen dim.  
Da fu Iesu, ddewisiad,  
12 A da oedd ei fam a'i dad.  
Goreu tad, llathr diathrist,  
O dadau Cred fu Dad Crist.  
Gwerin nef a'n cartrefo!  
16 Goreu mam oedd ei fam fo.  
Gwarant fydd i bob gwirair,  
Goreu un mab yw Mab Mair.  
Goreu merch dan aur goron,  
20 Tecaf a haelaf yw hon.  
Da oedd ddwyn, deddf ddaioni,  
Gŵr o nef yn gân i ni.  
Hwn fu ddewis yr Israel,  
24 Hen yw a ieuanc a hael.  
Ganed o'i fodd er goddef  
Yn ddyn aur ac yn Dduw nef.  
Gwnaeth Iesu Nêr o'i geraint  
28 Swrn yn ebystyl a saint.  
Gwnaeth bader ac efferen,  
Gwnaeth oriau a llyfrau llên.  
Rhoes gred i'r bobl gyffredin  
32 Rhoes i'w plith gwenith a gwin.  
Rhoes ei gorff heb ddim fforfed  
Ar bren croes i brynu Cred.  
Deugeinawr, Duw gogonedd,  
36 Hael Iesu, y bu'n y bedd.  
Wedi cyfodi o'n câr  
I gyrchu pawb o'i garchar  
Ac yn ôl ei farwolaeth,  
40 Y Naf fry, i nef yr aeth.  
Lle dodder, medd Sain Sieron  
Croes Duw a henwi Crist Iôn.  
Ni ddaw er diffwythaw ffrwyth  
44 Na Diawl nag un o'i dylwyth.  
Gair lles yw d'wedyd Iesu,  
Goreu un gair gan Fair fu.  
Gair cariad yw o'r gadair  
48 A'r Mab rhad a gad o'r gair.

---

<sup>215</sup> Nid yw'r teitl hwn yn digwydd yn Pen 48.

Duw yw'r gair, di-wyr gariad,  
A'r gair yw Duw a'r gwir Dad.  
Duw fo'n porth a'n cynhorthwy,  
Amen, nid addunwn mwy.

*Ffynonellau*

A—Caerdydd 2.114, 937 B—Caerdydd 4.330 [= Hafod 26], 379 B1—Caerdydd 4.330 [= Hafod 26], 379 'Lluniau Crist a'i Apostolion' C—LlGC 970E [= Merthyr Tudful], 23 D—LlGC 13066E [= Mostyn 212], 87 E—Llansteffan 6, 233 F—Llansteffan 47, 64 G—Llansteffan 133, 1124 H—Llansteffan 134, 11 I—Pen 48, 17 I<sup>2</sup> Pen 48, 16 'Lluniau Crist a'i Apostolion' J—Gwyneddon 3, 1<sup>r</sup>

*Amrywiadau*

1 *ABDEFHJ* o nefoedd; *G* Credu wnafl i'm naf nefoedd [*cywiriad*: Credaf i naf o nefoedd]. 2 *AC-HJ* gall; *B* gwiw. 3 *AFHJ* Ior; *ABDG* an ceidw; *AE* direidwen; *BCDJ* direidchwaen; *I* direidchaen. 4 *C-H* Iawn [*G cywiriad*: down]; *C* yw blaid; *D* blaid y; *E* blaid os; *FH* down i blaid o; *I* Dawn y blid; *J* Down iw blaid. 5 *A* Roed yn nerth; *CEGH* Rhoddes; *BF* i nerth burwerth; *D* i nerth brydferth; *J* i'n iaith; *E* nerth byfyrnerth; *G* nerth brydferth; *H* nerth berwerth. 6 *A* ag angel yn i; *CFH* ag angel ym yn; *D* ym; *E* ag angel o ryw; *G* un rhyw; *J* rywioc angel ryw. 7 *A* a moliannu; *EF* voliany gy; *J* i foliannu gu [*G cywiriad*: gad o'r fad Fair]. 9 *CFH* yw r hawg; *I* i bawb; *BDGIJ* heb enw; *I* awbrim; [*G cywiriad*: o brin]; *J* iawn uwch y pridd nid diddim. 10 *ACFGHJ* foliannu duw o flaen; *E* voliany. 11 *AG* oedd [*G cywiriad*: fu]; *CEFHJ* yw; *BDG* deddf oesiad; *E* adewisiad; *ACFHJ* dewisiad. 13 *BDEFH* gorau. 14 *A* yw tad; *B* Christ; *CEFHJ* oedd [*G cywiriad*: oedd]. 15 *CFGHJ* gwr o nef [*G cywiriad*: gwr o nef]. 16 *A* yw; *CH* un fam oedd fam; *DEGJ* un fam. 17–18 [*EJ*]. 17 *A* [fydd] ar; *BCDFGH* yw ar. 18–26 [*A*]. 18 *BFH* gorau. 19 *BEF* gorau; *J* doe ddaioni. 20 *C* glanaf a. 21 *CEFH* fu; *E* deddef. 23 *CFH* oedd; *J* a ddewis [*G cywiriad*: dewis]. 24 *ABDHI* fu; *G* oedd ac [*cywiriad*: fu]; *BD* ag ifanc. 25–6 [*CEFH*]. 26 *D* o dduw; *J* yn ddyn ac yn dduw o. 27 *A* yn geraint [*G cywiriad*: iw geraint]. 28 *ACFHJ* bostolion; *E* vostolion; *G* ei ebystl; *CEFH* yn saint; *G* ai saint [*cywiriad*: yn saint]. 29 *E* pader; *G* osber [*cywiriad*: bader]; *AE* yfferen; *BCFHJ* offeren. 30 *CFH* oi oirau; *D* oriau'n llyfrau; *J* eiriau. 31 *E* kred; *I* gyffr[ ]. 32 *ACDF* in plith; *B* oi plith; *I* gwenith[ ]. 33 *D* [heb]; *G* am y fforded. 34 *FH* i bren; *I* [ ]r bren. 35–52 [*AI*]. 35 *BDG* deg; *J* ogonedd. 36 *BD* mewn; *J* Iesu bu yn y bedd. 37 *BDGH* gwedi; *CF* a chwedi; *CFH* cwnnu; *J* ac wedi codi. 38 *DG* o garchar. 39 *BG* yna n ol i farwolaeth [*G cywiriad*: ar ol ei holl farwolaeth]; *D* yna ar i ol; *E* yno yn ol; *J* ac ar ol ei holl farwolaeth. 40 *BDG* ir nef fry fy naf yr aeth [*G cywiriad*: yn fyw]; *CFH* i nef fry yn fyw yr aeth; *E* naf ry; *J* fry i nef yn fyw'r aeth. 41 *G* rhodder; *CH* Sant; *DGJ* Saint; *J* Ieron. 42 *B* Christ; *CEFGHJ* ac enwi; *G* ar enw [*cywiriad*: a henwi]. 43 *BD* ddifrydiaw; *G* er diffrydaw [*cywiriad*: cyffrydiaw]; *J* i ddiffrwythaw. 44 *BD* na neb; *EI* na'r diawl. 45 [*G cywiriad*: ddwedyd]. 46 *B* a gorau; *D* [gan]. 47–8 [*BCDEFGH*]. 47 *JY* gair yw'r Tad. 48 *EI*<sup>2</sup> o r mab. 49 *BCDEFHJ* dioer; *C* dioer i gariad. 50 *BD* yn gwir; *G* ein gwir [*cywiriad*: a r gwir]. 51 *E* y fo n. 52 *CEFHJ* A Mair; *D* ac ni ddunaif mwy [*G cywiriad*: A Mair ni ddymunai mwy]; *BCFGHJ* ac nid rhaid; *E* nydtraid; *BFH* ini; *C* ym; *EGJ* in.

*Teitl*

*B* Ko yr Iesu; *D* K I Dduw; *G* Cywydd i Dduw; *H* Llyma gywydd i Dduw ac i Fair.

*Priodoliad*

*B* David ap Gwilym; *CFH* Davydd ap Gwilym ai kant; *D* dd ap Gwilym; *E* dd ap Glm ai kant; *G* DG ai cant; ; *J* Dafydd ap Gwilym.

*Trefn y llinellau*

*A* 1–6, 27–34, + i, 9–10, 7–8, 11–17, [18–26], [35–52].

*BD* 1–46, [47–8], 49–52.

*B<sup>l</sup>* [1–44], 45–52.

*CFH* 1–24, [25–6], 27–44, +ii, 45–6, [47–8], 49–52.

*E* 1–16, [17–18], 19–24, [25–6], 27–46, [47–8], + ii, 49–52.

*G* 1–16, 19–20, 17–18, 21–46, [47–8], 49–52.

*I* 1–26, [27–8], 29–32, [33–52].

*I<sup>2</sup>* 45–52.

*J* 1–16, 19–46, 49–50, 47–48, 51–2.

i

Duw a roes i waed oi fru  
ni roe was er y riesu  
Ni doedd rad iddo n bridwerth  
pan fai gorff ar werth

ii

arver o alw r eyr vab  
ac ar bob gair mair a i mab

---

## PENNOD 2

---

### Darfod a Wna Tafod Dyn<sup>1</sup>

Ym mhob enghraifft bron o ieithoedd byw, siarad a gwranddo'r ieithoedd hynny a wneir. Y mae'r elfen lafar hon yn drech na phob elfen arall a berthyn i ieithoedd. O'r miloedd o ieithoedd a siaradwyd yn ystod hanes y ddynoliaeth ni chofnodwyd ond 106 ohonynt i'r graddau lle y gellir dweud bod ganddynt lenyddiaeth ysgrifenedig. Y mae'r rhan fwyaf ohonynt o ddigon heb lenyddiaeth. O'r tair mil o ieithoedd a siaredir heddiw nid oes ond 78 ohonynt yn meddu ar yr hyn y gellid ei alw yn llenyddiaeth ysgrifenedig.<sup>2</sup> Hyd yn oed yn y dwthwn hwn y mae cannoedd o ieithoedd na chawsant eu cofnodi o gwbl. Gan hynny, gellir casglu bod yr agwedd lafar ar ieithoedd yn greiddiol i'w bodolaeth.

Y mae ysgrifennu yn helaethu potensial ieithoedd tu hwnt i bob mesur, yn ailstrwythuro'r meddwl, ac ar yr un pryd yn troi tafodiaith yn 'graffolect'.<sup>3</sup> Hynny yw, y mae gan 'graffolect' (sef y cyfrwng ysgrifenedig a darllenadwy) y gallu a'r grym tu hwnt i unrhyw dafodiaith lafar i gadw mewn cof gannoedd ar filoedd o ystyron geiriau o'r gorffennol a'r presennol lle nad oes gan y dafodiaith lafar ond y gallu i gadw mewn cof ychydig o filoedd o eiriau.

Ond er cymaint yw grym y gair ysgrifenedig ni all fodoli heb yr iaith lafar. Y mae'n rhaid i bob testun a ddarllenir gael ei drosi i ffurf sain, boed hynny'n ddarllen ar

---

<sup>1</sup> GDG, cerdd 106.10.

<sup>2</sup> Munro E. Edmonson, *Lore: An Introduction to the Science of Folklore and Literature* (Efrog Newydd, 1971), tt. 323 a 332.

<sup>3</sup> Walter J. Ong, *Orality and Literacy* (Llundain, 1982), t. 3.

goedd neu yn ddarllen yn nychymyg y darllenydd, fesul sillaf yn boenus araf neu ar wib (sef y modd y darllenir mewn llawer o ddiwylliannau uwch-dechnolegol). Gan hynny, ni all ysgrifennu byth gael gwared ar yr elfen lafar. Ar y llaw arall, gall yr iaith lafar fyw heb gymorth yr iaith ysgrifenedig ac mewn llawer o achosion dyna sy'n digwydd.

Fodd bynnag, er bod y gwreiddiau llafar hyn i'r testun ysgrifenedig yn amlwg ni roddwyd fawr ddim o sylw academaidd i'r ffurf lafar ar lenyddiaeth tan yn ddiweddar. Ar un olwg, nid yw hyn yn syndod o gofio perthynas astudiaethau ysgolheigion ag ysgrifennu. Y mae pob ffurf ar feddwl, hyd yn oed mewn diwylliannau sylfaenol lafar, yn ddadansoddol. Y mae'n rhannu'r gwahanol elfennau yn wahanol ddsbarthiadau. Ond y mae'r gallu i ymresymu'n haniaethol gronolegol ddsbarthiadol esboniadol archwiliadol ynglŷn â ffenomenâu yn amhosibl heb y gallu i ddarllen ac ysgrifennu. Y mae pobl mewn diwylliannau sylfaenol lafar yn dysgu llawer, ac yn meddu ar gryn wybodaeth a doethineb ond nid ydynt yn astudio fel y cyfryw. Y maent yn dysgu trwy brentisiaeth. Dysgir hela trwy ddilyn yr hyn a wnaethpwyd gan gyndeidiau a thrwy ddyngwared. Dysgir doethineb trwy gyfrwng diarhebion,<sup>4</sup> a thrwy ddwyn y diarhebion hynny ar gof. Trwy hynny gall yr unigolyn gyfranogi o fyfyrion y llwyth.

Pan gyflwynir llythrennedd i ddiwylliant llafar yr hyn a astudir gyntaf yn aml yw'r iaith ei hun. Digwyddodd hyn yn achos y Groegiaid, yn arbennig ym maes rhethreg a barhaodd fel y pwnc academaidd mwyaf cynhwysfawr yng ngorllewin Ewrop am dros ddwy fil o flynyddoedd.<sup>5</sup> Yr ymadrodd Groeg a ddefnyddid ar y pwnc hwnnw oedd

---

<sup>4</sup> Yn yr Wyddeleg, er enghraifft, ceir y ddihareb *As an obair a faightear an fhoghlaím* ('O'r gwaith y daw'r ddysg').

<sup>5</sup> W. J. Ong, *The Presence of the Word* (Minneapolis, 1981), tt. 58–63.

*technē rhētorikē*, sef gwyddor a oedd yn ymwneud yn bennaf ag areithio ar lafar. Eithr fel gwyddor drefnus wedi ei seilio ar fyfyrddodau yr oedd yn rhaid wrth y weithred o ysgrifennu, er enghraifft, yn achos cyfrol *Barddoneg* Aristoteles.<sup>6</sup> Gan hynny, o'r cychwyn cyntaf nid disodli'r cyfrwng llafar a wnaeth ysgrifennu ond ychwanegu ato. Fodd bynnag, yr oedd yr areithiau a astudiwyd yn gorfod bod yn destunau ysgrifenedig. Wedi i'r araith gael ei chyflwyno y byddid yn ei hastudio ac yr oedd yn rhaid wrth destun ysgrifenedig neu ni fyddai dim i'w astudio. O'r herwydd, yr oedd hyd yn oed areithiau ar lafar yn cael eu hastudio fel testunau ysgrifenedig gan y Groegiaid.<sup>7</sup>

Yr oedd arwyddocâd ideolegol i'r pwyslais ysgolheigaidd hwn ar y testun ysgrifenedig. Gyda'u pwyslais ar y testunau ysgrifenedig anwybyddwyd yr agwedd lafar ar eu hastudiaethau a dechreuwyd cymryd yn ganiataol fod y cyfrwng llafar yn meddu ar yr un priodoleddau â'r cyfrwng ysgrifenedig a bod y cyfrwng llafar yn union fel y cyfrwng ysgrifenedig (oni bai am gyflwr digofnod y cyfrwng llafar).

Fodd bynnag, nid oedd pawb yn derbyn y cysyniadau hyn. O'r ail ganrif ar bymtheg ymlaen dechreuwyd synhwyro bod perthynas gymhleth rhwng y llafar a'r ysgrifenedig.<sup>8</sup> Ond, er gwaethaf ambell eithriad, y mae tra-arglwyddiaeth testunau ysgrifenedig yn nychymyg ysgolheigion dros ysgwydd y blynyddoedd wedi golygu na ffurfiwyd hyd heddiw unrhyw theori i esbonio natur llenyddiaeth lafar heb gyfeirio at destunau ysgrifenedig. Y mae hyn wedi digwydd er i lenyddiaeth lafar flodeuo filoedd o flynyddoedd cyn geni'r testun ysgrifenedig.

---

<sup>6</sup> Aristoteles, *Barddoneg*, gol. J. Gwyn Griffiths (Caerdydd, 1978).

<sup>7</sup> W. J. Ong, *The Presence of the Word*, tt. 56–8.

<sup>8</sup> Murray Cohen, *Sensible Words: Linguistic Practice in England 1640–1785* (Llundain, 1977), tt. xxiii–xxiv.

Eithr, y mae sôn am lenyddiaeth lafar drwy gymhariaeth â llenyddiaeth ysgrifenedig mor ddisynnwyr â cheisio trafod priodoleddau ceffyl drwy sôn am wahanol fathau o gerbydau heb olwynion. Er bod modd tynnu sylw at yr holl wahaniaethau rhwng y ddeubeth a chreu catalog o nodweddion drwy'r fath astudiaeth, syniad rhyfedd iawn o'r hyn ydyw ceffyl fyddai gan y darllenydd ar ddiwedd astudiaeth o'r fath. Y mae'r un peth yn wir am astudiaethau sydd yn ceisio rhestru nodweddion y perfformiad llafar o safbwynt llenyddiaeth ysgrifenedig. Mewn gwirionedd, nid oes modd disgrifio ffenomen wreiddiol drwy gyfrwng astudiaeth o ffenomen eilradd heb lurgunio'r darlun a charmarwain y darllenydd yn llwyr ynglŷn â natur y ffenomen wreiddiol honno.

Geill hyd yn oed y gair 'testun' yng nghyswllt astudiaethau ar lafaredd fod yn gamarweiniol oherwydd bod ei darddiad yn ymwneud â'r cyfrwng ysgrifenedig, er mai rheitiach fyddai meddwl am y perfformiad llafar yn nhermau'r gair Groeg *rhapsōidein*, sydd yn golygu 'gweu caneuon ynghyd', sef ystyr a welir yn y gair Cymraeg (ac a ddefnyddir o bryd i'w gilydd gan Ddafydd ap Gwilym i ddisgrifio'r weithred greadigol: 'eilio').<sup>9</sup>

### [Darllen Yn Yr Oesoedd Canol](#)

---

Y mae'n anodd i ddarllenydd ôl-fodern lwyr werthfawrogi effaith llythrennedd ar feddylfryd pobl lafar eu diwylliant oherwydd bod sgiliau'r darllenydd wedi eu llunio i raddau helaeth gan ei ddiwylliant llythrennog yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, er ei bod hi yn anodd ail-greu dulliau cyn-lythrennog o feddwl ar sail y dogfennau hanesyddol sydd ar glawr y mae digon o ddogfennau o'r cyfnod rhwng 1066 a 1307 ar gael i

---

<sup>9</sup> Er enghraifft, GDG, cerdd 32.3.

ffurfio syniad bras am ddylanwad llythrennedd. Casgliad M.T. Clanchy ar feddylfryd y cyfnod hwn yn Lloegr yw a ganlyn:

What is most evident is that literate habits and assumptions, comprising a literate mentality, had to take root in diverse social groups and areas of activity before literacy could grow or spread beyond a small class of clerical writers.<sup>10</sup>

Ond beth yw ystyr 'literate mentality' mewn gwirionedd? A oes modd deall y term hwn heb yn gyntaf gymryd yn ganiataol fod llythrennedd yn gwir ddylanwadu ar ddulliau meddwl yr unigolyn? Er mwyn osgoi dryswch gellid ystyried y meddylfryd hwn fel y casgliad o amrywiol agweddau a goleddid gan bobl lythrennog y cyfnod ac a fynegwyd mewn dogfennau o bob math.

Newid mewn agwedd, a newid cymdeithasol yn bennaf oedd y newid meddylfryd hwn. Un o'r ofnau a oedd yn gysylltiedig â llythrennedd, ac â darllen yn benodol, oedd y byddai'n peri i bobl anghofio ac yn eu rhwystro rhag anghofio'r gwir a oedd yn deillio ohonynt eu hunain fel gwe o fola corryn. Yn ôl y dybiaeth honno, yr oedd ysgrifennu yn allanoli a thrwy hynny yn gweddnewid ac yn gwyro'r gwir.<sup>11</sup> Yn ôl W.J. Ong, 'writing restructures consciousness'.<sup>12</sup> Dyna un o'r rhesymau pam yr oedd cymaint o ffugio dogfennau yn digwydd yn yr Oesoedd Canol. Deallai'r mynaich, a fu'n gyfrifol am ffugio cynifer o siarteri ar draws Ewrop yn y ddeuddegfed ganrif, y byddai'r dogfennau gwyrddroedig hynny yn parhau i ymddangos yn ddilys er gwaethaf eu natur sylfaenol gelwyddog. Gan hynny, nid oedd darllenwyr yr Oesoedd Canol yn gallu llwyr ymddiried yn y testun ysgrifenedig oherwydd nad oeddynt yn gwybod, er

---

<sup>10</sup> M. T. Clanchy, *From Memory to Written Record: England 1066–1307* (Rhydychen, 1993), t. 185.

<sup>11</sup> *Ibid.*, t. 193.

<sup>12</sup> W. J. Ong, *Orality and Literacy*, tt. 78–82.

enghraifft, a oedd Sieffre o Fynwy yn gelwyddgi ai peidio, oherwydd y duedd bryd hynny i ddibynnu ar lw ar lafar i ddod o hyd i'r gwir.<sup>13</sup>

Er mwyn llunio cyfrolau yr oedd rhaid wrth ysgrifennu, wrth gwrs, ond ni fyddai'r gwragedd boneddicaaf yn ymgymryd â'r fath waith. Elwa oddi ar y testun cain ysgrifenedig, er enghraifft, y byddai gwragedd fel Eleanor de Quincy. Yr oedd y llyfrau addurniedig hyn, boed hwy'n cynnwys testunau a dogfennau gwir neu au, yn arwydd o'u llwyddiant a'u statws materol.<sup>14</sup> Ond yr oedd medr darllen y gwragedd hyn yn aml o safon uchel iawn. Nid oedd yn ddigon i allu darllen yr iaith frodorol yn unig. Rhaid oedd wrth Ladin, Ffrangeg a Saesneg. Yn eu defosiwn grefyddol yr oedd disgwyl iddynt allu deall arwyddocâd y delweddau yn ogystal.<sup>15</sup> Rhydd M.T. Clanchy enghraifft ddiddorol o fudd darllen llwyddiannus inni:

In the Lambeth Apocalypse one picture-page illustrates the story of the monk who kept the face of the Virgin Mary so successfully in his mind's eye that the Virgin appeared to come alive and the holy Child gestured towards him. This was a model for the level of concentration that Lady Eleanor should have in her study of the book. People who succeeded in doing this and who became visionaries, like Christina of Markyate, won prestige and wealth.<sup>16</sup>

Gan hynny, gellir casglu mai darllen crefyddol ddefosiynol oedd y math mwyaf gwerthfawr ar ddarllen yn y cyfnod hwn er mai prin iawn oedd yr elw a wnâi ysgrifwyr ac ysgrifenyddwyr fel ei gilydd. Yr oedd ambell eithriad fel Eadwine ond, at ei gilydd, gwaith undonog ac ailadroddus oedd ysgrifennu. Gan fod llyfrau yn brin byddai cryn astudio a myfyrio yn digwydd yng nghwmni pob llyfr yn unigol, sef myfyrdod a gymerai flynyddoedd mewn ambell achos. Defnyddid nifer o wahanol ffyrdd o ddarllen, gan gynnwys gwranddo ar y testun wrth iddo gael ei ddarllen gan

---

<sup>13</sup> M. T. Clanchy, *From Memory to Written Record: England 1066–1307*, t. 193.

<sup>14</sup> *Ibid.*

<sup>15</sup> *Ibid.*, t. 194.

<sup>16</sup> *Ibid.*

rywun tra oedd yn edrych ar y llythrennau a'r delweddu ar y tudalen; ailadrodd y testun yng nghwmni un neu ddau gyfaill hyd nes oedd ar y cof; gwneud synnwyr o'r gramadeg a'r eirfa yn dawel ar ei ben ei hun; cyfieithu'r testun i iaith arall; astudio'r darluniau a'r penawdau ynghyd â'r llythrennau cain fel paratoad ar gyfer dehongli'r delweddu.<sup>17</sup> Yr enw ar y math olaf ar ddarllen oedd myfyrio. Yn y math hwn ar ddarllen byddai'r testun a'r ddelwedd yn cyfuno â theimladau a gweledigaethau'r darllenydd i greu dealltwriaeth oleuedig. Yr oedd y darllenydd canoloesol yn ymdrafferthu mwy am ansawdd ei lythrennedd nag amrywiaeth neu ystod ei ddeunydd darllen. Hynny yw, byddai'n well ganddo fod yn gwbl gyfarwydd ag ambell destun na braswybod a brithgofio ambell fanylyn a ffaith.

### Olion Llafaredd

Wrth i gymdeithas lafar droi'n gymdeithas lythrennog fe welir bod olion llafar ar ei thestunau ysgrifenedig. Un o'r nodweddion llafar hynny yw'r duedd i ailadrodd. Gellir rhannu'r duedd hon yn ddau ddsbarth. Ar y naill law, yr oedd mathau arbennig o ymadroddion i'w defnyddio ar gyfer y perfformiad llafar ac a fyddai'n gyfarwydd i'r gynulleidfa lafar. Byddai'r dosbarth hwn yn cynnwys ymadroddion cyflwyniadol, disgrifiadol, ebychiadol yn ogystal â fformiwlâu. Y mae'r rhain i'w gweld yn amlwg, er enghraifft, yn y Pedair Cainc.<sup>18</sup>

Y mae'r ail ddsbarth o nodweddion a berthyn i'r perfformiad llafar yn ymwneud â symud o'r naill ddarn yn y testun i'r llall, y datganiad cadarnhaol a'r llw. Yr oedd y rhamantau, er enghraifft, yn arbennig o hoff o'i gwneud hi'n gwbl eglur i'r gynulleidfa ym mhle yr oedd y naill bwnc neu ddigwyddiad yn gorffen a'r un nesaf yn

---

<sup>17</sup> Ibid., tt. 194–5.

<sup>18</sup> Sioned Davies, *Crefft y Cyfarwydd* (Caerdydd, 1995), tt. 104–88.

dechrau.<sup>19</sup> Wedi'r cyfan, ni fyddai'r gynulleidfa ganoloesol yn gallu bwrw cip yn ôl os oeddynt wedi colli gafael ar ddilyniant naratifol y stori.

Yr oedd y perfformiwr llafar hefyd yn awyddus i'w gynulleidfa gredu ei stori a dyna pam y ceir cynifer o enghreifftiau yn y rhamantau o'r llw. Nid oedd gwreiddioldeb yn bwysig i'r storiwr canoloesol ac o'r herwydd byddai'n cyfeirio at ffynonellau eraill i gadarnhau ei chwedl. At hynny, y mae'n debyg nad oedd fawr o wahaniaeth rhwng tyngu llw a rhegi yn yr Oesoedd Canol. Fel y dywed Ruth Crosby:

Save for a few rare individuals like Chaucer's parson, the people of the Middle Ages had no scruples about swearing. Perhaps they swore more often than we seem to do because they prayed more, or at least said prayers more often. At any rate, in the romances praying and swearing are not always easy to distinguish.<sup>20</sup>

Defnyddir llwon at amrywiol ddibenion (yn aml yn gellweirus) ym marddoniaeth Dafydd ap Gwilym yn ogystal.<sup>21</sup> Yn y cywydd 'Trafferth mewn Tafarn', er enghraifft, y mae'r ebychiadau sangiadol yn magu mwy o rym wrth i *persona*'r bardd fynd i fwy a mwy o drybini. Rhoddir cychwyn arni gyda'r canlynol:

I fyny, Cymry a'm câr,<sup>22</sup>

Gellid ystyried hwn yn ebychiad diniwed a difalais. Y peth nesaf a geir ganddo yw ebychiad diarhebol ei naws:

Trewais, drwg fydd tra awydd,<sup>23</sup>

Ac ymhen dwy linell ceir braich arall sydd yn ymdebygu i ddihareb:

Mynych dwyll amwyll ymwrdd,<sup>24</sup>

---

<sup>19</sup> Ruth Crosby, 'Oral delivery in the Middle Ages', *Speculum*, 11 (1936), 107.

<sup>20</sup> Ibid.

<sup>21</sup> Gweler, er enghraifft, sangiadau 'Trafferth mewn Tafarn' (GDG, cerdd 124).

<sup>22</sup> Ibid., ll. 34.

<sup>23</sup> Ibid., ll. 35.

<sup>24</sup> Ibid., ll. 37.

## Ystyriaethau Daearyddol a Hanesyddol

---

Gwaetha'r modd, o ran cefndir hanesyddol y mae'r wybodaeth a geir mewn ffynonellau canoloesol Cymreig am y diwylliant trefol a llythrennog yn druenus o brin.<sup>25</sup> Anaml iawn y llwyddodd cofnodion y siarteri bwrgais yng Nghymru i oroesi o gwbl.<sup>26</sup> Rhwystr arall yw prinder cofnodion unigolion a theuluoedd o'r cyfnod hwn.<sup>27</sup> At hynny, dylid cofio bod trwch y dystiolaeth ysgrifenedig sydd ar glawr yn cynrychioli, at ei gilydd, safbwynt Seisnig y weinyddiaeth frenhinol. Ys dywed R. A. Griffiths:

Undoubtedly, the bulk of the written sources for burghal history were produced not in the boroughs ... but by the administrative organizations of royal and seignorial lords. They reflect, therefore, the administrative tradition and interests of English kings, princes and magnates, who invariably retained some degree of control over the boroughs within their territorial domains.<sup>28</sup>

Golyga hyn mai unochrog, o safbwynt y dystiolaeth hon, yw ein golygwedd ar y cyfnod hwn. Yn ôl Helen Fulton, 'The sources represent ... for the most part the point of view of the English ruling bureaucracy.'<sup>29</sup> Dyna paham y mae barddoniaeth y Cywyddwyr ac, yn fwyaf perthnasol yng nghyd-destun y traethawd hwn, farddoniaeth Dafydd ap Gwilym, yn cynnig cyfle inni godi cwr y llen ar natur llythrennedd y cyfnod o safbwynt brodorol. Ond hyd yn oed ym marddoniaeth Gymraeg y cyfnod y mae'r anawsterau deall a dehongli yn rhemp. Yng ngeiriau Higley:

---

<sup>25</sup> R. A. Griffiths, 'The study of the medieval Welsh borough', yn R. A. Griffiths (gol.), *Boroughs of Medieval Wales* (Caerdydd, 1978), tt. 5–7.

<sup>26</sup> *Ibid.*, t. 5.

<sup>27</sup> *Ibid.*, t. 6.

<sup>28</sup> *Ibid.*, t. 7.

<sup>29</sup> Helen Fulton, 'Trading places: Representations of urban culture in medieval Welsh poetry', *Studia Celtica*, 31 (1997), 219.

All written records are to some degree uncooperative. The written utterance does not present the advantages of a spoken utterance and its immediate exchanges. Its voice is silent, it is deaf to our responses. If it is an ancient text, its author has died centuries ago along with the informing discussions that surrounded its original recitation, including a familiar and usable language. The difficult ancient text adds an extra layer to its native uncooperativeness: to all the problems cited above we must add faulty scribal transmission, contextual ellipses, *hapax legomena*, generic anomalies, and (in the case of the hermetic text) the nearly impenetrable ramparts of esoterica and private discourse.<sup>30</sup>

Eithr, nid yw ‘impenetrable ramparts of esoterica and private discourse’ yn gyfyngedig i destunau hermetig yn unig. Y mae’n nodwedd gyffredin mewn barddoniaeth yn ogystal. Fodd bynnag, er mwyn dyfnhau ein dealltwriaeth o gymdeithas a diwylliant yr Oesoedd Canol Diweddar y mae dadansoddiad o natur llythrennedd y cyfnod yn fuddiol (fel y pwysleisiodd Huw Pryce yn ei gyflwyniad i’r gyfrol, *Literacy in Medieval Celtic Societies*).<sup>31</sup> Yr un modd yn achos barddoniaeth Dafydd ap Gwilym. Os ydys am ddeall, er enghraifft, at ba fath ar gynulleidfa yr anelid barddoniaeth y cyfnod a barddoniaeth Dafydd ap Gwilym yn arbennig bydd golwg ar y defnydd a wnaethpwyd o lythrennedd a chyd-destun y defnydd hwnnw yn cynnig cipolwg newydd ar lôn a chymdeithas y cyfnod dan sylw.

### Ar ôl y Goncwest

Y mae natur yr astudiaeth yn y bennod hon parthed gwaith Dafydd ap Gwilym yn mynd yn groes graen i’r pwyslais a fu mewn astudiaethau diweddar ar lenyddiaeth Cymru’r Oesoedd Canol ar un olwg oherwydd y duedd tan yn ddiweddar oedd pwysleisio’r elfen lafar mewn rhyddiaith yn ogystal â barddoniaeth gweithiau Beirdd yr Uchelwyr.<sup>32</sup> Fodd bynnag, dywed yr Athro Patrick Sims-Williams mai rhagfarn

---

<sup>30</sup> Sarah Lynn Higley, *Between Languages: The Uncooperative Text in Early Welsh and Old English Nature Poetry* (University Park, Pa, 1993), t. 4.

<sup>31</sup> Huw Pryce (gol.), *Literacy in Medieval Celtic Societies* (Caergrawnt, 1998), t. 1.

<sup>32</sup> Enghraifft ddiweddar o’r pwyslais ar lafaredd yn y cyd-destun Cymraeg yw cyfrol Sioned Davies, *Crefft y Cyfarwydd*.

ramantaidd ynghylch anllythrennedd y Celtiaid sy'n cyfrif am bwyslais cynifer o ysgolheigion ar eu diwylliant llafar. Dywed yn ddi-flewyn-ar-dafod fel a ganlyn:

By and large, however, the romantic-patriotic vision of lost national manuscript cultures rivalling that of Anglo-Saxon England has long since been replaced by another Romantic culture as peculiarly oral and traditional, untrammelled and unsullied by the prosaic process of writing (despite the contrary epigraphical impression).<sup>33</sup>

Fel yr awgryma'r Athro Sims-Williams y mae'r dystiolaeth ychydig yn wahanol i'r hyn a dybid gynt. Pan gollodd tywysogion Cymru eu grym gwleidyddol arweiniodd hyn at flodeuo ym maes llythrennedd. Neu, o'r hyn lleiaf, y mae modd tybio felly ar sail y lliaws helaeth o lawysgrifau ar glawr o'r cyfnod wedi'r Goncwest:

In Wales ... native literary culture survived the experience of conquest: indeed, production of manuscripts containing Welsh texts blossomed after 1282, in part as a cultural reaction to the end of native political rule.<sup>34</sup>

### Y Cefndir Hanesyddol Cymreig

---

Cyn manylu ar waith Dafydd ap Gwilym dylid cynnig braslun o gefndir cymdeithasol llythrennedd er mwyn cynnig rhyw fath ar gyd-destun i farddoniaeth y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yn ôl Llinos Beverley Smith bu'r bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed yn adeg pan oedd dylanwad llythrennedd yng Nghymru ar gynydd:

By the time of the Edwardian conquest of 1282–3 Wales had already been exposed to the written word and its culture—in both Latin and vernacular forms—for several centuries ...<sup>35</sup>

Sonia Llywelyn Goch ap Meurig Hen, un o gyfoedion hysbys Dafydd ap Gwilym, am ddisgynyddion dysgedig Ynyr Nannau fel a ganlyn:

Darllen cyfraith, rugliaith raid,  
A brut hen y Brytaniaid<sup>36</sup>

---

<sup>33</sup> Patrick Sims-Williams, 'The uses of writing in early medieval Wales', yn Huw Pryce (gol.) *Literacy in Medieval Celtic Societies* (Caergrawnt, 1998), tt. 15–16.

<sup>34</sup> Huw Pryce (gol.), *Literacy in Medieval Celtic Societies*, t. 10.

<sup>35</sup> *Ibid.*, t. 203.

<sup>36</sup> DGG, LXXXV.45–6.

Fodd bynnag, dadleua Beverley Smith fod y cyfnod hwn yn bwysig oherwydd y newid pwyslais a fu o'r llafar i'r ysgrifenedig:

[T]he two and a half centuries which spanned the period between the Edwardian conquest and the Union with England in 1536 did constitute a crucial and distinctive period in the development of a literate mentality in Wales: a process which may, in some ways, be compared with the twelfth and thirteenth centuries in England, when ... literate modes spread both territorially and socially, and when a pronounced shift 'from memory to written record, from sacred script to practical literacy' was witnessed.<sup>37</sup>

Cyfnod o gynnydd aruthrol felly mewn llythrennedd oedd y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed:

the fourteenth and fifteenth centuries in Wales experienced not perhaps the beginning, but a marked intensification, of the process of creating a literate mentality,<sup>38</sup>

Chwiliwyd mewn ewyllysiau, coloffônau testunau sydd wedi eu cadw, yn ogystal â chofnodion llys a dogfennau cyhoeddus eraill er mwyn canfod beth oedd dylanwad testunau ysgrifenedig ar gymdeithas, ac er mwyn cael gwybod i ba fath ar gymdeithas neu *milieux* y byddai llawysgrifau yn debygol o berthyn. Casgliad Llinos Beverley Smith oedd fod rholiau a dail rhydd (*quires*) yn rhan bwysig iawn o'r diwylliant llythrennog yn ystod y ddwy ganrif a fu dan sylw ganddi. Cadarnheir hyn gan Michael Clanchy wrth drafod y dystiolaeth yn Lloegr:

On the threshold of literacy, among knights and minstrels ... writings were perhaps at first more familiar and inviting in the form of rolls containing short, vernacular texts than in the form of weighty Latin books.<sup>39</sup>

Soniodd y bardd, Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys, am y 'llyfrau a rholiau' a oedd ym meddiant Rhys ap Siancyn, Aberpergwm; a chyfeiria llyfr cyfraith o'r bymthegfed

---

<sup>37</sup> Llinos Beverley Smith, 'Inkhorn and spectacles: the impact of literacy in late medieval Wales' yn Huw Pryce (gol.) *Literacy in Medieval Celtic Societies*, t. 203

<sup>38</sup> *Ibid.*, t. 204.

<sup>39</sup> Michael Clanchy, *From Memory to Written Record: England 1066–1307*, t. 143. Codwyd y dyfyniad o erthygl Llinos Beverley Smith.

ganrif at wybodaeth a gafwyd o un o roliau Dafydd Llwyd; yn 1600 crybwyllodd Thomas Wiliems ‘hen rol ar vemrwn wedy’i scrivenu yn Gymraec er concwest Cymru ...’ a oedd yn cynnwys Statud Rhuddlan a’r cyfreithiau a osodwyd ar y Cymry bryd hynny.<sup>40</sup> Dylid cofio hefyd fod Peniarth 48 sy’n cynnwys gwaith Dafydd ap Gwilym yn cynnwys dalen sydd yn cyfeirio at ddyfarniad llys yn sir Gaerfyrddin neu sir Aberteifi sydd fel petai’n gofnod cleric llys wrth fynd heibio.<sup>41</sup>

Nodwedd dra defnyddiol i’r efrdydd modern yw fod modd creu cyswllt pendant rhwng rhai cyfrolau a’u perchnogion yn ystod y cyfnod hwn. Er enghraifft, y mae’n ddigon hysbys fod gan Anian, Esgob Llanelwy (1286–93) lyfrgell fawr (er na ddylai hi fod yn syndod fod eglwyswyr y cyfnod yn berchen ar lyfrau litwrgïol).<sup>42</sup> Ar lawer cyfrif, crefyddwyr oedd y garfan fwyaf llythrennog yng Nghymru’r bedwaredd ganrif ar ddeg. Erbyn canol y bymthegfed ganrif yr oedd nifer o feirdd yn cofnodi eu gweithiau eu hunain yn ogystal â gweithiau beirdd eraill. Er enghraifft, ceir ôl llaw Dafydd Epynt (sef bardd a fu yn ei flodau ganol y bymthegfed ganrif), ym Mheniarth 54, 55 a 60. A cheir llaw Gwilym Tew ym Mheniarth 51 a llaw Dafydd Nanmor ym Mheniarth 52, a llawiau’r ddau ohonynt yn Llyfr Aneirin.<sup>43</sup> Cyfieithiodd Madog ap Selyf Gronicl Twrpin dan nawdd Gruffudd ap Maredudd o Geredigion ac Efa ferch Maredudd a fu’n gyfrifol am noddi cyfieithiad o Gred Athanasius, sef tystiolaeth sydd yn dangos ym marn Beverley Smith fod cryn fynd ar destunau defosiynol ymhlith lleygwyr a bod y cyfieithiadau hynny i’r Gymraeg yn ysgogiad i leygwyr fynd ati i

---

<sup>40</sup> Codwyd yr enghreifftiau hyn o erthygl Llinos Beverley Smith, ‘Inkhorn and spectacles: the impact of literacy in late medieval Wales’, t. 204.

<sup>41</sup> Gw. Pen 48, t. 1; RMWL I, t. 382 a phennod gyntaf y traethawd hwn.

<sup>42</sup> Gweler, er enghraifft, Daniel Huws, ‘The earliest Bangor missal’, CLIGC, 27 (1991–2), 117–18.

<sup>43</sup> Owen Thomas (gol.), *Gwaith Dafydd Epynt* (Aberystwyth, 2002), tt. 22–3.

ddysgu darllen. Yn Llansteffan 2 disgrifir sut y dylai darllenydd fynd ati i ddefnyddio llyfr defosiynol:

Llyvyr y6 h6nn a dysc y dyn pa del6 y dyly gredu y du6 a charu du6 achad6 y deng eir dedyf ac ymoglyt rac y seith pecha6t marwa6l ac erbynneit seith rinwed egl6ys yn enrydedus a gwneuthur seith weithret y drugared er gobr6ya6 nef ida6.<sup>44</sup>

Ym maes y gyfraith enillodd Gwilym Wasta enw iddo ei hun. Dywed Dafydd Jenkins:

Gwilym, whose epithet seems to be *gwas da*, 'good servant', or perhaps 'good lad', had the status of an 'English burgess' of the New Town of Dinefwr at the beginning of the fourteenth century. Writing his manuscripts in a district which had recently come very fully under English administration, he saw that the old laws of court were obsolete and that it would be a waste of ink and parchment to copy them; he boldly cut them out, and so set a pattern for one branch of the manuscript tradition.<sup>45</sup>

Eithr, y mae'n bosibl hefyd fod 'gwas da' yn dwyn arlliw dirmygus arno. Ni wyddom i bwy yr oedd yn was da ond y mae'n bosibl fod llythrennedd yn y cyd-destun hwn ag oblygiadau gwleidyddol iddi yn ogystal.<sup>46</sup>

Ceir cyfeiriadau diddorol eraill at natur llythrennedd y cyfnod yn rhai o ddogfennau cyfreithiol y bedwaredd ganrif ar ddeg. Mewn llys ym mwrdeistref Rhuthun yn 1346 dygwyd achos gan Fleddyn ap Hochkin yn erbyn Adam le Taillour lle yr honnodd Bleddyn ap Hochkin fod llyfr gwerth 10 swllt wedi ei gadw rhagddo gan y diffynnydd. Ceir cyfeiriad at lyfr o hanes Cymru gwerth 6s 8c mewn achos rhwng Ithel ab Einion ac Ednyfed Carwed yn llys cwmwd Llannerch yn 1331 yn Nyffryn Clwyd. Yn ôl Beverley Smith:

---

<sup>44</sup> Gw. RMWL II, t. 421. Noda Gwenogvryn Evans hefyd ar dudalen 422 a ganlyn: 'The Commandments are given in Latin and Welsh, the commentary is extensive.' Awgryma hyn mai at ddiben ymarferol y lluniwyd y llawysgrif hon.

<sup>45</sup> Dafydd Jenkins (gol. a chyf.), *Law of Hywel Dda* (Llandysul, 1990), tt. xxii–xxiii.

<sup>46</sup> Gw., er enghraifft, Stephen J. Williams (gol.), *Ystoria de Carolo Magno* (Caerdydd, 1968), tt. xxix a xxxi; gw. pennod Ceridwen Lloyd-Morgan yn Huw Pryce (gol.), *Literacy in Medieval Celtic Societies*; gw. C.W. Lewis, 'Literary tradition of Morgannwg down to the middle of the sixteenth century', yn T.B. Pugh (gol.), *Glamorgan County History* (Caerdydd, 1971), t. 508.

By the end of the fourteenth century, we may safely assume that primers and missals, sometimes of considerable monetary value, were in lay ownership.<sup>47</sup>

Ategir y farn hon gan Daniel Huws pan ddisgrifia natur llythrennedd yng Nghymru rhwng 1250 a 1400 fel:

an eruption of producing books in Welsh and recording literature.<sup>48</sup>

At hynny, pwysleisia Beverley Smith y graddau yr effeithiodd hynny ar gymdeithas ehangach Cymru'r cyfnod hwn:

[It] had ramifications not only for the copying and conserving of texts but for their dissemination across a broad swathe of late medieval society.<sup>49</sup>

Ar y llaw arall, nid yw perchnogaeth ar lyfr o reidrwydd yn gyfystyr â safon uchel o lythrennedd gan y perchennog. Yr oedd perchen ar lyfrgell yn arwydd o statws noddwr ac yn ffordd hwylus i *nouveaux riches* y bwrdeistrefi, er enghraifft, ennill statws cymdeithasol yn gyflym a dilyffethair. Un o symbolau mwyaf pwerus o fwrgeisiaeth llenyddiaeth y cyfnod yw'r Bwa Bach.<sup>50</sup> Yn 'Y Gwynt', er enghraifft, anogir y negesydd serch, sef y gwynt ei hun, i beidio â chymryd sylw o'r math hwn o fasnachwr:

Nac aro di, nac eiriach,  
Nac ofna er Bwa Bach<sup>51</sup>

Bygythiad i'r negesydd yw'r Bwa Bach a bygythiad i bob math ar wareiddiad os oes coel ar farn Dafydd ap Gwilym. O'r braidd y gall gelu ei ddirmyg tuag ato oherwydd y math hwn ar ŵr sydd wedi trawsfeddiannu gwlad a chariad y bardd:

---

<sup>47</sup> Llinos Beverley Smith, 'Inkhorn and spectacles: the impact of literacy in late medieval Wales', t. 206.

<sup>48</sup> MWM, t. 37.

<sup>49</sup> Llinos Beverley Smith, 'Inkhorn and spectacles: the impact of literacy in late medieval Wales', t. 206.

<sup>50</sup> Gw. Helen Fulton, *Dafydd ap Gwilym and the European Context* (Caerdydd, 1989), tt. 124, 220, 227.

<sup>51</sup> GDG, cerdd 117.43–4.

Cyhuddgwyn wenwyn weini;  
Caeth yw'r wlad a'i maeth i mi.<sup>52</sup>

Fodd bynnag, er gwaethaf presenoldeb gwŷr fel y Bwa Bach nid oes dwywaith y byddai o leiaf rai uchelwyr yn fwy na bodlon ymgymryd â'r gweithgarwch newydd hwn. 'Llythr a ddysgodd', ebe'r bardd Rhisierdyn (fl. c. 1360–1400) am Fyfanwy, gwraig Goronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd. Erbyn y bymthegfed ganrif dengys ewyllysiau a dogfennau gweinyddol fod gwŷr bonheddig a masnachwyr yn medru ysgrifennu dogfennau yn eu llaw eu hunain.<sup>53</sup>

O ran darllen, a barnu wrth dystiolaeth beirdd y cyfnod, byddai'n arfer cyffredin i noddwyr y cyfnod ddarllen hanes, llên a'r gyfraith. Hysbys ddigon (fel y gwelir uchod) yw'r cyfeiriad gan Lywelyn Goch ap Meurig Hen at ddarllen yng nghwmni teulu Nannau hen hanes Prydain a'r llyfrau cyfraith. Gallai'r bardd gynnig ychydig o gymorth a chwmmi i'w noddwr wrth iddo bori drwy ei lyfrgell, ond sylwer yn y dyfyniad mai gweithgarwch cyhoeddus a llafar yw'r 'darllen' hwn sydd yn debycach i adrodd na darllen ymneilltuedig ac unigolyddol:

Fy swydd gyda'm harglwyddi,  
Hyn fydd, a'u câr hen wyf i:  
Darllain cyfraith, rugliaith raid,  
Sifil, i'm cyfneseifiaid;<sup>54</sup>

Eithr, un o'r darnau mwyaf difyr yn y cywydd cynnar hwn yw'r disgrifiad gogleisiol o'r eira yn disgyn ar y bardd ar gychwyn y gerdd wrth geisio ymlwybro trwy'r tywydd garw. Cynigia'r disgrifiad hwn gipolwg inni ar sut yr ymgorfforwyd rhai o nodau amgen llythrennedd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg:

Heiniar adfydig hynwyf,

---

<sup>52</sup> Ibid., llau. 45–6.

<sup>53</sup> Llinos Beverley Smith, 'Inkhorn and spectacles: the impact of literacy in late medieval Wales', t. 206.

<sup>54</sup> Dafydd Johnston (gol.), *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen* (Aberystwyth, 1998), cerdd 8.43–6.

Hyn yw fy nghyngor, hen wyf,  
Tra fo eira yn glo ar glawr  
Daear Wynedd, drwy Ionawr,  
Oerne rhwyf, arnaf y rhed  
Bryfiau mân, brofi myned,  
Os gwir y trig ger brig y bryn,  
Nis gad eiry, caead ceuwyn.<sup>55</sup>

Cyfeiria'r 'bryfiau mân', yn fwy na thebyg, at y ddogfen gyfreithiol honno a ddefnyddiwyd i wysio pobl gerbron llys. Dywed Dafydd Johnston yn ei nodiadau ar y cywydd hwn mai trosiad am blu eira ydyw'r 'bryfiau mân' a oedd fel darnau bychain o bapur yn chwyrllïo trwy'r awyr. Dyma ddefnydd creadigol o lythrennedd yr oes.

O edrych ar yr wyth linell gyntaf yng nghywydd Llywelyn Goch gyda'i gilydd gellir dadlau bod elfen o wawdio cyfraith Lloegr ymhlyg yn nisgrifiad Llywelyn Goch ap Meurig Hen. Cyplysir yr ymadroddion 'fy nghyngor', 'yn glo', 'bryfiau mân', 'brofi myned' â'i gilydd yn ogystal ag ebychiadau megis 'heiniar adfydig', 'oerne rhwyf' a 'caead ceuwyn'. Gellir deall 'bryfiau mân' felly fel beirniadaeth ar gyfraith Lloegr a oedd yn cloi 'clawr Gwynedd'. Y mae'n feirniadaeth hefyd ar fiwrocratiaeth y gyfraith anghyfiaith hon oherwydd ei bod yn 'gaead ceuwyn', hynny yw, yn rhwystr diangen, heb sylwedd o bwys. Cyfeiria ail elfen y gair cyfansawdd 'ceuwyn', yn ôl y dehongliad hwn, at liw'r papur.

Yn englynion Dafydd ap Gwilym 'I'r Grog o Gaer' ceir defnydd o 'bryf':

Gofwy aur [     ]fawl deisyf—y grog  
O groywgaer galchliw nyf,  
Gwedy maddeuaint, braint bryf,  
Gwawdaml seilm gwiwdeml Selyf.<sup>56</sup>

Cyfeiriad prin at ddogfen yng ngwaith Dafydd ap Gwilym yw 'bryf' ac y mae'n ddiddorol sylwi ei fod yn digwydd (er nad yw'r defnydd yn drosiadol fel yn achos

---

<sup>55</sup> Ibid., llau. 1–8.

<sup>56</sup> Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill* (Aberystwyth, 1996), cerdd 4.85-8.

Llywelyn Goch) ar ôl disgrifio muriau gwyn fel eira (a defnyddir cyd-destun yr eira gan Lywelyn Goch yntau).<sup>57</sup>

Erbyn y bymthegfed ganrif ceir nifer o gyfeiriadau at lythrennedd. Yn achos Lewys Glyn Cothi yn ei foliant i Wilym Siôn o Lanegwad (neu ‘Wiliam’ fel y’i gelwir gan Lewys):<sup>58</sup>

Y mae dysg i mi a dyf  
Ym mhlas Wiliam, mal Selyf.  
Iolo’n wir, yng Nglyn Aeron,  
A wnaeth wers yn yr iaith hon;  
Eithr y mab oedd athro mawr,  
Ac i Rydderch yn gerddawr.  
Wiliam, f’aur es talm yw fo,  
Mi i Wiliam yw Iolo.  
A’m swydd, gyda’m arglwydd mên,  
Oedd ddeall iddo awen;  
Darllein art arall yn well,  
Darllein ystoriâu wellwell  
Siensis, drwy’r siens a drig,  
Achau’r ynys a’i chronig,  
A’r hen gerdd, er hyn o gof,  
A rhieingerdd o’r hengof.<sup>59</sup>

Y mae’r cyfeiriad at gyd-ddarllen croniclau, achau ac ystoriâu yn ddiddorol oherwydd awgryma hynny y gallai darllen fod yn gyfle cymdeithasgar, ac yn llai o weithgaredd unigolyddol fel y mae mewn cymdeithas fodern.

Yn ôl Beverley Smith nid oedd astudio personol mewn cartref yn gyffredin. Er bod tai yng Nghymru wedi gwella yn gyflym yn ystod y bymthegfed ganrif gyda simneiau a ‘dais canopies’ yn ogystal â’r newid a fu o’r neuadd un-gell i’r strwythur aml-gell gydag ystafelloedd mewnol nid oedd darllen eto wedi troi’n weithgaredd unigolyddol.<sup>60</sup> Y mae astudiaethau o’r cyfnod yn dangos i raddau ei fod yn

---

<sup>57</sup> *cf* Ibid., cerdd 4.87n.

<sup>58</sup> GLGC, cerdd 58.

<sup>59</sup> Ibid., llau. 19–34.

<sup>60</sup> Peter Smith, *Houses of the Welsh Countryside* (Llundain, 1988), tt. 37–71.

weithgaredd cymdeithasgar a gâi gyfeiliant offerynnol yn aml.<sup>61</sup> Fodd bynnag, trwy gyfrwng y ‘cymunedau testunol’ hyn, fel y’u gelwir gan Brian Stock, bu modd i wŷr a gwragedd o bob dosbarth gyfranogi o ddiwylliant byd llythrennog.<sup>62</sup>

### Cysylltiad Llythrennedd â Dinasyddiaeth

Yr oedd cysylltiad rhwng twf llythrennedd a thwf y trefydd ar draws Ewrop. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg dechreuodd y profiad trefol dyfu’n fwyfwy cyffredin yng Nghymru. Dyma’r adeg hefyd y dechreuodd y profiad trefol gael gwir fynegiant mewn barddoniaeth Gymraeg, ac nid oedd barddoniaeth Dafydd ap Gwilym yn eithriad yn hyn o beth, fel y dengys astudiaeth D.J. Bowen ac, yn ddiweddarach, erthygl gan Helen Fulton.<sup>63</sup>

Y mae’r myth a seiliwyd ar farn Gerallt Gymro fod bywyd y dref yn wrthun i’r Cymro ac nad oedd ganddo unrhyw le ym mywyd y Cymry yn dal ei dir o hyd ymhlith haneswyr, ond noda R. A. Griffiths mai’r gwrthwyneb i hynny a oedd yn digwydd mewn gwirionedd:<sup>64</sup>

---

<sup>61</sup> P. Saenger, ‘Silent reading: its impact on late medieval script and society’, *Viator*, 13 (1982), 367–414; W. J. McCann, ‘Adeiledd y Tair Rhamant: Gereint, Owein, Peredur’, *YB*, 13 (1985), 123–33; Sioned Davies, ‘Llafar v. ysgrifenedig yn *Culhwch ac Olwen*’, *YB*, 19 (1993), 46–53; Sioned Davies, ‘Written text as performance: the implications for Middle Welsh prose narratives’, yn *Literacy in Medieval Celtic Societies*, tt. 133–48.

<sup>62</sup> Brian Stock, *Implications of Literacy* (Princeton, 1983); Brian Stock, *Listening for the Text: On the Uses of the Past* (Baltimore a Llundain, 1990).

<sup>63</sup> D.J. Bowen, ‘Dafydd ap Gwilym a’r trefydd drwg’, *YB*, 10 (1977), 190–220; Helen Fulton, ‘Trading places: Representations of urban culture in medieval Welsh poetry’, 219–30.

<sup>64</sup> J. Dimock (gol.), *Giraldi Cambrensis Opera*, VI (Llundain, 1868), tt. 200–1.

[T]he cultural dichotomy between English and Welsh in the middle ages was by no means synonymous with the distinction between town and country. Many mediaeval Welshmen were fully prepared to engage in trade at market centres, and in the crafts and industries in towns and boroughs, even to occupy tenements in native settlements which were regarded as indistinguishable from burgages by English administrators familiar with boroughs and burgage tenure at the close of the thirteenth century. Then and later, many Welshmen moved into the boroughs, were allowed to establish themselves as self-respecting—and respected—burgesses, served the borough community as officials and jurors, and accumulated urban and rural estates in exactly the same way as their English neighbours.<sup>65</sup>

Fodd bynnag, carlamus fyddai gorgyffredinoli ynglŷn â natur trefydd yr Oesoedd Canol yng Nghymru, gan eu bod yn aml yn wahanol iawn i'w gilydd. Ar un llaw, gellir ystyried Aberystwyth, Caerffili, a Biwmares yn wladychfeydd trefedigaethol. Ond yn achos Caerfyrddin, Caerdydd, Aberhonddu ac Abertawe twf graddol ac organig a gafwyd. Mewn llefydd fel Nefyn, Pwllheli, Llanfaes a Llanbedr Pont Steffan bu canolfannau marchnata yno er oes y Tywysogion Cymreig. Un nodwedd a oedd yn gyffredin i'r bwrdeistrefi yn ystod yr Oesoedd Canol, fodd bynnag, oedd eu bod oll yn cynnal eu llysoedd hwndrwd eu hunain a oedd yn gyfrifol am holl faterion yn ymwneud â'r fwrdeistref, a thrwy hynny dynodwyd yn eglur y ffin rhwng y wlad a'r dref ym meddylfryd y cyfnod. Y mae'r pwynt hwn yn arbennig o bwysig yn achos barddoniaeth Dafydd ap Gwilym, yn enwedig mewn perthynas â'r modd y delweddir y dref ganddo.

Yr oedd gan y fwrdeistref ei swyddogion gweinyddol ei hun hefyd, a châi bwrdeisiaid freintiau a hawliau nad oedd ar gael i drigolion y wlad. Er enghraifft, gallai'r bwrdeisiaid werthu eu heiddo, eu rhoi ar forgais neu ar brydles heb orfod gwneud dim ond cofnodi hynny yn y llys hwndrwd.<sup>66</sup>

---

<sup>65</sup> R. A. Griffiths, 'The study of the medieval Welsh borough', t. 13.

<sup>66</sup> Ibid.

Wrth gwrs, yr oedd trefydd wedi eu sefydlu yng Nghymru cyn dyfodiad Edward I a'i fyddin. Yn ôl R. A. Griffiths, yn ystod y cyfnod rhwng 1050 a 1300 y sefydlwyd 90% o'r trefydd bwrdais a oedd yn bodoli yn yr Oesoedd Canol.<sup>67</sup> Dechreuwyd eu sefydlu gyda dyfodiad y Normaniaid a blannodd gymunedau bychain yng nghysgod eu cestyll yn y Gororau ac ar hyd yr arfordir deheuol.<sup>68</sup> Ond, at ei gilydd, o'u cymharu â'r trefydd a sefydlwyd yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg, bychan oeddynt ac ni chynrychiolent ormes estron imperialaidd yn llygaid y brodorion i'r un graddau ag y gwnâi trefydd a chestyll y cyfnod Edwardaidd.<sup>69</sup> Un o'r rhesymau am hyn oedd y duedd i'r trefydd bychain Normanaidd droi'n drefydd Cymreig cyn pen fawr o dro. Yn achos Croesoswallt (a dderbyniodd ei siartr yn 1189), er enghraifft, nid oedd ond ychydig o fwrdeisiaid Cymreig yn perthyn iddi cyn y drydedd ganrif ar ddeg ond erbyn y bymthegfed ganrif Cymry canhwynol oedd trwch ei bwrdeisiaid.<sup>70</sup> Yn achos Trefýclo, sydd erbyn heddiw am y ffin â Lloegr, Cymry canhwynol oedd dros 60% o'i threthdalwyr erbyn diwedd y drydedd ganrif ar ddeg.<sup>71</sup> Eithr, gyda dyfodiad y trefydd Edwardaidd cafwyd twf mawr yn nifer y bwrdeisiaid yng Nghymru. Erbyn 1300 amcangyfrifir bod dros 40,000 o fwrdeisiaid yng Nghymru (gydag oddeutu 17% yn unig ohonynt yn Gymry canhwynol).<sup>72</sup>

## Yr Ysgrifenywyr

Os oedd darllen yn perthyn i haen arbennig o gymdeithas yr oedd y gallu i ysgrifennu yn fwyfwy cyfyngedig i ychydig iawn o wŷr yn yr Oesoedd Canol. Y mae Llyfr

---

<sup>67</sup> Ibid., t. 11.

<sup>68</sup> Ian Soulsby, *The Towns of Medieval Wales* (Chichester, 1983), tt. 7–12; M. Beresford, *New Towns of the Middle Ages* (Llundain, 1967), tt. 340–6.

<sup>69</sup> D. J. Bowen, 'Dafydd ap Gwilym a'r trefydd drwg', 196–8.

<sup>70</sup> Llinos Beverley Smith, 'Oswestry', yn R. A. Griffiths, 'The study of the medieval Welsh borough', t. 233.

<sup>71</sup> Ian Soulsby, (gol.), *The Towns of Medieval Wales*, t. 155.

<sup>72</sup> Ibid., t. 24.

Taliesin (Peniarth 2) a Llawysgrif Hendregadredd (LIGC 6680B) yn dangos i ba raddau yr oedd y *scriptoria* mynachaid yn bwysig (ac y mae Llawysgrif Hendregadredd yn awgrymu i sawl llaw gyfrannu at greu'r llawysgrif ac i'r llawysgrif fod yn ffrwyth gweithgarwch ar y cyd).

Yn ddiweddar nodwyd pa mor bwysig oedd gwaith y copïwyr a fu'n gweithio y tu allan i'r gyfundrefn fynachaid ac eglwysig. Enghraifft o un o'r copïwyr llygol hyn oedd Gwilym Wasta neu Hywel Fychan o Lanfair ym Muallt a fu yn gyfrifol am ran o Lyfr Coch Hergest ac a fu yn gweithio o dan aden Hopcyn ap Tomas.<sup>73</sup> At hynny, yn ôl Christine James, y mae'n bosibl fod ysgrifydd BL. Add. 22356 yn glerc i lys llygol.<sup>74</sup> Y mae'r cysylltiad hwn â maes y gyfraith unwaith eto yn dwyn i gof y cyfeiriad at 'bryfiau mân' a grybwyllir gan Lywelyn Goch ap Meurig Hen.

Ond heblaw am gopïwyr llawysgrifau ceinaf y cyfnod yn ogystal â 'notaries public' y byddai llygwyr yn gallu cael mynediad atynt, yr oedd llu o 'scriveners' a oedd wrthi yn llunio mân ddogfennau'r bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed. Mewn cyfnod diweddarach nag eiddo Dafydd ap Gwilym, y mae'r bardd Lewys Môn yn sôn am arbenigedd Robert ap Rhys fel 'noter' yn ei foliant iddo:

Mastr Ropert, moes droi aberth,  
Mae oen Duw'n wir mewn dy nerth.  
Batsler, noter, awn atoch:  
Be gwelych le, bagl a chloch.<sup>75</sup>

---

<sup>73</sup> Marged Haycock, 'Llyfr Taliesin', CLIGC, 25 (1987–8), 366–7, er nad yw'r awdur yn bendant ynghylch tarddiad y llawysgrif; Daniel Huws, 'Llawysgrif Hendregadredd', CLIGC, 22 (1981–2), 1–26; G. Charles-Edwards, 'Scribes of the Red Book', CLIGC, 21 (1979–80), 246–56; Daniel Huws, 'Llyfr Coch Hergest' yn Iestyn Daniel, Marged Haycock, Dafydd Johnston a Jenny Rowland (gol.), *Cyfoeth y Testun* (Caerdydd, 2003), 1–30.

<sup>74</sup> Christine James, 'Llyfrau cyfraith o Ddyffryn Teifi: disgrifiad byr o BL. Add. ', CLIGC, 27 (1991–2), 390–1.

<sup>75</sup> Eurys I. Rowlands, *Gwaith Lewys Môn* (Caerdydd, 1975), cerdd 50.19–22.

Yn ei nodiadau dadleua Eurys Rowlands mai cyfeirio at y gair Saesneg ‘notary’ (sef ysgrifennydd) a wna’r gair ‘noter’ yn hytrach na ‘noter’ (sef ‘a writer of the musical score in Mss.’).<sup>76</sup> Un enghraifft yn unig o ‘noter’ a geir gan Ddafydd ap Gwilym:

Noter wybr natur ebrwydd,  
Neitiwr gwiw dros nawtir gŵydd.<sup>77</sup>

Nid oes raid mai ‘cerddor’ neu ‘ysgrifennwr nodiant cerdd’ yw ystyr ‘noter’ y cwpled hwn, ond yr un yw’r ergyd, o safbwynt llythrennedd, sef ei fod yn gyfeiriad at ryw fath o gofnodwr. Erys cryn waith i’w wneud eto, yn ôl Beverley Smith, ar enwau’r llu o gopiŵyr a fu wrthi yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg a’r bymthegfed. Fodd bynnag, yr ydym eisoes yn gwybod pwy oedd rhai ohonynt. Perthynai Henry a Dennis (Dionysius), ‘scriveners’ Rhuthun, a Richard Pygot, ‘scriptor’ yn Ninbych i gymunedau dinesig y cyfnod.<sup>78</sup> Yr oedd llawer o’r ysgrifenywyr mwyaf adnabyddus a thoreithiog yn perthyn i linach hir o ysgrifwyr, a drosglwyddai’r grefft o genhedlaeth i genhedlaeth (fel y gwnâi llawer o feirdd gyda’u crefft hwythau). Enghraifft o deulu o ysgrifwyr o’r fath oedd y Foxwists o Gaernarfon. Bu’r tad Richard Foxwist ynghyd â dau o’i feibion, Rowland a John, wrthi yn llunio nifer o gofnodion ystadau pwysig sydd yn arddangos eu doniau ysgrifol eang yn ogystal â’u diddordebau daearyddol eang.<sup>79</sup> Enw ysgrifwr arall o’r cyfnod hwn oedd Morgan Williams, a enillodd ei blwyf yn Llundain ond a faged yn Llandybïe ac a adawodd i’w was, William Goldyng, ugain marc ‘so that he contynue at his lernyng ... and all my books of law and also of presidents belongyng to myn occupacyon of scryvener.’<sup>80</sup> Cofnodwyd genedigaeth

---

<sup>76</sup> Ibid., 456.

<sup>77</sup> GDG, cerdd 117.23–4.

<sup>78</sup> Llinos Beverley Smith, ‘The impact of literacy in late medieval Wales’, *Literacy in Medieval Celtic societies*, t. 207.

<sup>79</sup> Ibid., tt. 207–8.

<sup>80</sup> Ibid.

John Walwyn yn y Gelli Gandryll yn 1329 yn sallwyr mawr yr eglwys.<sup>81</sup> Cofnodwyd genedigaeth Roger Puleston mewn llyfr offeren yn eglwys Y Gwyrddymp.<sup>82</sup> Cofnodid dyddiadau marwolaethau ac angladdau ar freferïau weithiau, ac weithiau cerfid enwau'r meirw ynghyd â dyddiad eu marwolaeth ar eu beddau.

O ran siarteri, ystyrir hwythau yn gyffredinol yn ddogfennau pwysig dros ben. Yn ôl Llinos Beverley Smith:

Moreover, regardless of the status of the deed at law, it is clear that in people's perceptions, the charter embodied the title to land, and was in itself a potent symbol of ownership ... People were reposing their trust in the written word and responding to the need to produce formal documentation when such was required.<sup>83</sup>

### Llythrennedd yn Lloegr

Y mae oddeutu 2000 o writiau a siarteri ar glawr o gyfnod yr Eingl-Sacsoniaid yn Lloegr; ond y mae degau o filoedd o ddogfennau tebyg ar glawr o gyfnod y drydedd ganrif ar ddeg. Er nad oes modd gwybod yn bendant, wrth gwrs, faint o ddogfennau gwreiddiol sydd wedi eu dinistrio y mae'n bur amlwg i dwf aruthrol ddigwydd mewn llythrennedd yn Lloegr yn ystod y cyfnod hwn.

Erbyn cyfnod Edward I yr oedd gwritiau brenhinol ac arglwyddiaethol yn cyrraedd pob beili a phob pentref yn Lloegr. Trwy hynny daeth llythrennedd yn fwy cyffredin yn Lloegr benbaladr. Erbyn cyfnod Edward I yr oedd yr arfer o ddefnyddio siarteri ar gyfer sefydlu hawl ar dir yn gyffredin ymhlith hyd yn oed taeogion cymdeithas. Ni olyga hyn, fodd bynnag, fod pob un aelod o'r gymdeithas yn medru ysgrifennu. Ond y mae'n amlwg bod pob haen o gymdeithas yn gyfarwydd â'r cyfryngau llythrennog ar ryw ffurf neu'i gilydd. Nid oedd raid bod yn eglwyswr neu'n glerig i gyfranogi o'r

---

<sup>81</sup> Ibid., t. 211.

<sup>82</sup> Ibid.

<sup>83</sup> Ibid., t. 213.

diwylliant newydd hwn. Erbyn cyfnod teyrnasiad Edward I yr oedd gan nifer fawr o daeogion eu sêl (*signum*) eu hunain, a oedd yn caniatáu iddynt dorri eu henwau eu hunain.

Yn ystod yr Oesoedd Canol byddai trwch helaethaf y boblogaeth yn darllen gyda'u clustiau ac nid gyda'u llygaid, drwy wrando ar eraill yn darllen neu yn adrodd ar goedd. Oherwydd y duedd hon, tyfodd yr arfer yn yr Oesoedd Canol cynnar i ysgrifenyddwyr gyflwyno eu gweithiau i'r gwrandawr yn ogystal â'r darllenwyr:

Sive enim historia de bonis bona referat, ad imitandum bonum auditor sollicitus instigatur; seu mala commemorat de pravis, nihilominus religiosus ac pius auditor sive lector devitando quod noxium est ac perversum, ipse sollicitus ad exsequenda ea quae bona ac Deo digna esse cognoverit, accenditur.

[Should history tell of good men and their good estate, the thoughtful listener is spurred on to imitate the good; should it record the evil ends of wicked men, no less effectually the devout and earnest listener or reader is kindled to eschew what is harmful and perverse and himself with greater care pursue those things which he has learned to be good and pleasing in the sight of God.]<sup>84</sup>

Ond un o brif nodweddion dogfen y bwriadwyd ei datgan neu ei darllen ar goedd oedd y cyfarchiad nid i'r darllenydd ond i'r bobl a oedd yn bresennol yn y gwrandawriad. Ni ddigwydd yr enghreifftiau cynharaf o'r cyfarchiad i'r darllenydd (yn lle'r gwrandawr) yn Lloegr tan ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg.<sup>85</sup> Yn llinellau cychwynnol y rhamantau a'r croniclau Saesneg a Ffrangeg yr oedd yr arfer o gyfarch y gwrandawr presennol yn gyffredin iawn.<sup>86</sup> Y mae'r defnydd o'r arfer hwn yn Lloegr a Ffrainc ym mucheddau'r Saint a gwyrthiau'r Wryf yn dangos mai llenyddiaeth i'w hadrodd, yn

---

<sup>84</sup> Bertram Colgrave ac R. A. B. Mynors (gol.), *Bede's Ecclesiastical History of the English People* (Rhydychen, 1969), t. 3.

<sup>85</sup> Ruth Crosby, 'Oral delivery in the middle ages', 100, n. 3.

<sup>86</sup> *Ibid.*, 101.

aml mewn eglwys, oedd y rhain hefyd.<sup>87</sup> Gan hynny, o ran natur y cyfrwng, yr oeddynt yn ymdebygu i bregethau'r cyfnod.

Nodwedd bwysig arall ar y math hwn ar lenyddiaeth oedd yr arfer o ailadrodd parhaus. Yn ôl Ruth Crosby:

Perhaps the constant repetition of words, phrases, situations, and ideas is one of the most striking differences between the work of mediæval and of modern poets.<sup>88</sup>

Cynyddodd nifer y dogfennau yng Nghymru yn yr un modd ag y cynyddwyd nifer y dogfennau yn Lloegr, yn gyntaf o gylch biwrocratiaeth frenhinol ac yna yn ei dro daeth mwyfwy o fiwrocratiaeth i ran gweinyddiaeth tiroedd yr uchelwyr. Wrth adeiladu'r cestyll yng Nghaernarfon a Chonwy rhoes y brenin gychwyn ar archwiliadau a fyddai'n arwain at stent Môn a Dinbych yn 1334 a Bromfield ac Iâl yn 1391 ymhlith arglwyddiaethau lleygol a chynhaliwyd arolwg o diroedd eglwysig Tyddewi yn 1326. Hawdd felly inni ddychmygu y byddai cysylltiad cryf ym meddyliau'r Cymry rhwng codi a chynnal castell a biwrocratiaeth lythrennog. Tua diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg cynhaliwyd arolwg o diroedd y Waun a nodwyd ar ddail ac a ddygwyd ynghyd mewn un llyfr ('in uno libro'). Yn ôl Beverley Smith:

Documents such as these were conserved, examined and scrutinized and became authoritative statements of services, customs and status. Thus a bondman claiming free status had his claim overturned because the name of his grandfather was to be found written among the names of the bondmen of the lordship of Bromfield and Yale ... Everywhere reliance on and dominance of the written word were growing apace.<sup>89</sup>

---

<sup>87</sup> Ibid.

<sup>88</sup> Ibid., 102.

<sup>89</sup> Llinos Beverley Smith, 'The impact of literacy in late medieval Wales', tt. 210–11.

## Rhybudd yn Erbyn Gorbwysleisio Llythrennedd y 14g

Wrth amlinellu twf llythrennedd yng Nghymru a Lloegr y bedwaredd ganrif, rhy hawdd fyddai anghofio bod defodau ac arferion llafar y cymdeithasau hyn yn parhau'n rym gweithredol yn y tir. O ran y dogfennau a gynhyrchwyd ar gyfer gweinyddu'r gyfraith, er enghraifft, byddai siarteri yn dal i'w cyfeirio at y sawl a oedd wedi eu clywed neu eu gweld, ac yn amlach na pheidio byddai'r hyn a gofnodwyd yn cael ei gyhoeddi ar lafar. Ys dywed Llinos Beverley Smith:

Nor had written, documentary proof supplanted the force of common remembrance or the importance of gesture and symbol in the theatre of memory. The 'informacions of old men' or the appraising eye of the judge and the court in proving the age of a child, remained firmly entrenched, as did the bestowal of silk purses or arrows, or the holding of banquets, help to fix notable events in the men's minds. Nor did the prevalence of the written arbitration award undermine completely the gestures of conciliation, such as the kiss or the public, visible act of contrition. Despite the increasing use of conditional bonds, the oral agreement remained central to the formation of covenants.<sup>90</sup>

Er nad oedd llysoedd Brenin Lloegr yn caniatáu i weithredoedd cyfamodi fynd gerbron llys heb fod dogfennau ysgrifenedig dan sêl yn cael eu cyflwyno nid oedd gofyn cyflwyno dogfennau o'r fath o gwbl i awdurdodau lleol. Byddai cytundebau yn aml yn cael eu selio drwy ddefod neu gyda symbol o ryw fath, er enghraifft, y ddiod ddefodol (sef y *beveragium*).

Y mae'r ail rybudd ynglŷn â chredu mai diwylliant cwbl lythrennog oedd eiddo Cymru'r Oesoedd Canol Diweddar yn ymwneud â'r gwahaniaethau mawr rhwng gwahanol ardaloedd Cymru. Ychydig iawn, iawn o ddogfennau ysgrifenedig sydd ar glawr erbyn heddiw ar gyfer trosglwyddiadau tiroedd yn siroedd Caerfyrddin a Cheredigion yn ystod yr Oesoedd Canol Diweddar. Yn ôl yr hynafiaethydd, George Owen, yr oedd hi'n arfer i holl diroedd yr ardaloedd hyn fynd gerbron y llys yn ôl

---

<sup>90</sup> Ibid., t. 214.

Cyfraith Hywel Dda, fel nad oes modd erbyn hyn inni ddod o hyd i ddogfennau ysgrifenedig yn ymwneud â thiroedd yn yr ardaloedd hyn cyn 1536.<sup>91</sup> Ceir tystiolaeth helaethach sydd yn dangos olion traddodiad llafar yn Nyffryn Clwyd ac ym Mrycheiniog. Ym Mheniarth 67 disgrifir ‘dadl croes’ mewn perthynas â Chyfraith Tir ym Mrycheiniog y bymthegfed ganrif ac yn y dryll hwnnw traddodiad hynafol a llafar a ddisgrifir.<sup>92</sup> Yn Nyffryn Clwyd yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg a’r bymthegfed trosglwyddid tiroedd trwy gael eu ‘hildio i’r llys’ ac yna eu hailgyflwyno gan y llys,<sup>93</sup> sef arfer a gadwyd yn y llysoedd trefol yn ogystal â’r rhai gwledig.

Er nad yw’n gywir inni haeru mai diwylliant llafar oedd un yr Oesoedd Canol Diweddar yng Nghymru gellir dadlau nad yr un oedd eu llythrennedd hwy ag eiddo llythrennedd Cymru fodern. Er bod gan nifer mawr ryw gysylltiad neu’i gilydd â dogfennau ysgrifenedig cyfran fechan iawn o’r gymdeithas honno a feddai ar sgiliau llythrennedd yn llawn. Er gwaethaf hynny, yr oedd llythrennedd yn ymledu yn ystod oes Dafydd ap Gwilym ac yr oedd hi’n anochel y byddai gan y broses honno ddylanwad ar waith beirdd y cyfnod.

### Ewythr Dafydd ap Gwilym

Un o’r dylanwadau mawr a fu ar Ddafydd ap Gwilym o ran datblygiad ei lythrennedd oedd ei deulu a’i gylch llenyddol. Yn ei awdl foliant i’w ewythr Llywelyn ap Gwilym, a fu’n gwnstabl yng Nghastellnewydd Emlyn, geilw Dafydd ef yn ‘Llyfr dwned Dyfed’ a chydabyddir mai ar ei aelwyd y cafodd Dafydd ei fagu: ‘Llywodraeth a

---

<sup>91</sup> H. Owen (gol.), *The Description of Pembrokeshire by George Owen of Henllys*, cyf. 1 (Llundain, 1892), tt. 169–70.

<sup>92</sup> Sara Elin Roberts, ‘Legal practice in fifteenth-century Brycheiniog’, SC, 35 (2001), 307–23. Gw. hefyd T. Jones Pierce, ‘The law of Wales: the last phase’, THSC (1963), 1–32.

<sup>93</sup> Llinos Beverley Smith, ‘The impact of literacy in late medieval Wales’, t. 214.

wnaeth, a maeth i mi.’<sup>94</sup> Yn ei farwnad i’w ewythr, codir cwr y llen ar gefndir addysgol Dafydd.<sup>95</sup> Gelwir Llywelyn yn ‘praff awdur’,<sup>96</sup> ac yn ‘prydydd, ieithydd’.<sup>97</sup> Mynnir gan Ddafydd iddo ddysgu wrth draed ei ewythr: ‘ys difai y’ m dysgud’,<sup>98</sup> ‘pob meistrolrwydd a wyddud’,<sup>99</sup> ‘cyweirdant y cywirdeb’,<sup>100</sup> ac mewn esgyll disgrifir Llywelyn fel a ganlyn:

Llai yw’r dysg, medd llawer dyn  
Llwfr i’th ôl, llyfr a thelyn.<sup>101</sup>

Mewn marwnadau ceir tuedd i ddefnyddio gormodiaith ac ni ellir ond dyfalu i ba raddau y bu Llywelyn ap Gwilym yn ddylanwad ar ei nai, ond y mae’r cyfeiriad at lyfr yng nghyswllt dysg yn ddadlennol. Yn ddiau, byddai Dafydd wedi gweld dogfennau ysgrifenedig yng nghartref ei ewythr, Llywelyn ap Gwilym, yn rhinwedd ei swydd fel cwnstabl, ond fe geir awgrym yn yr awdl hon hefyd fod llyfrau o fath arall yn y catref hwnnw. Nid rhywbeth a oedd yn gyfyngedig i fynachlog felly oedd llythrennedd i Ddafydd a’i deulu.

### Ffrangeg Dafydd ap Gwilym

Ychydig llai uniongyrchol yw’r dystiolaeth ynghylch gallu Dafydd ap Gwilym i ddarllen. Fel y mae Th. M. Chotzen, Rachel Bromwich a Huw Meirion Edwards eisoes wedi dangos y mae nifer o gerddi Ffrangeg a gynnwys ddeunydd sy’n debyg i’r hyn sydd gan Ddafydd ap Gwilym. Er enghraifft, yn achos ‘Offeren y Llwyn’ ceir cerdd hir o’r enw, ‘La Messe des Oiseaux’ gan Jean de Condé sydd yn sôn am adar yn

---

<sup>94</sup> GDG, cerdd 12.11 a 12.16.

<sup>95</sup> R. Geraint Gruffydd, ‘*Athro Pawb Oedd*’: *Golwg ar Ddafydd ap Gwilym* (Aberystwyth, 1992), t. 7.

<sup>96</sup> GDG, cerdd 13.9.

<sup>97</sup> *Ibid.*, ll. 12.

<sup>98</sup> *Ibid.*, ll. 18.

<sup>99</sup> *Ibid.*, ll. 19.

<sup>100</sup> *Ibid.*, ll. 115.

<sup>101</sup> *Ibid.*, ll. 67–8.

canu offeren a digwydd hyn oll ym mreuddwydion y bardd. Â Rachel Bromwich mor bell â dweud y gallai Dafydd wedi darllen rhai o'r cerddi Ffrangeg hyn.<sup>102</sup>

Yn ystod y drydedd ganrif ar ddeg a'r bedwaredd ganrif ar ddeg cyfieithiwyd rhai o destunau Ffrangeg i'r Gymraeg am y tro cyntaf. Noddodd Hopcyn ap Tomas gyfieithiad o'r *Seint Greal* tua diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yn ne-ddwyrain Cymru byddai'r Gymraeg, Ffrangeg a Saesneg i'w clywed yn fuan wedi dyfod yr Eingl-Normaniaid. Yn y ddeuddegfed ganrif yng Nghân Dermot a'r Iarll clodforir concwerwyr Cymreig Iwerddon mewn cerdd Ffrangeg.<sup>103</sup> Ond erbyn y bedwaredd ganrif ar ddeg yr oedd Eingl-Normaneg fel iaith gymunedol ar drai yn Lloegr ac yng Nghymru ac, fel y dengys Ceridwen Lloyd-Morgan yn ei hastudiaeth o gyfieithiadau, yr oedd yn rhaid wrth werslyfrau i ddysgu Ffrangeg i blant uchelwyr yn Lloegr.<sup>104</sup> Yr oedd y gwerslyfrau hynny yn frith o gamgymeriadau ac nid oedd y fath beth â geiriaduron Eingl-Normaneg ar gael.<sup>105</sup> O bosibl, yr oedd hyd yn oed gyfieithwyr testunau o'r testun Ffrangeg gwreiddiol i'r Gymraeg â gafael ddiffygiol ar eu hail neu drydedd iaith ac nid oedd pob un ohonynt yn gyfarwydd â thraddodiadau llenyddol Ffrainc.<sup>106</sup> Gan hynny, dylid bod yn ochelgar iawn cyn tybio bod ambell gyfeiriad at gerdd Ffrangeg yn golygu bod Dafydd yn rhugl ei Ffrangeg neu'n llwyr gyfarwydd â

---

<sup>102</sup> Rachel Bromwich, *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym*, tt. 87–88. Gw. hefyd Helen Fulton, *Dafydd ap Gwilym and the European Context*, t. 128. Y mae Huw Edwards yn fwy amheus o arwyddocâd y dystiolaeth hon, gw. Huw M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues* (Rhydychen, 1986), tt. 202–3.

<sup>103</sup> Goddard Henry Orpen (gol), *The Song of Dermot and the Earl* (Rhydychen, 1892).

<sup>104</sup> Ceridwen Lloyd-Morgan, 'Rhaid agweddau ar gyfieithu yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol', YB, 13 (1985), 134–5; gw. hefyd Th. M. Chotzen, *Recherches sur la poésie de Dafydd ab Gwilym* (Amsterdam, 1927), tt. 144–8.

<sup>105</sup> Ibid.

<sup>106</sup> Ibid., 137.

thraddodiau llenyddol Ffrainc.<sup>107</sup> Fel y dywed Huw M. Edwards wrth drafod datblygiadau yn Ffrainc:

There is, of course, no question of their seeking, in the manner of their contemporary Chaucer, to translate, to adapt, or even to imitate closely whole works or even whole passages by the celebrated poets of France and Italy; and it would be absurd to imply that the influence of the troubadours and the trouvères on the *cywydd serch* was as immediate or as formative as it was, for instance, on the Italian or German love-poets.<sup>108</sup>

Ni raid inni dybio felly fod Dafydd wedi darllen testunau Ffrangeg o gwbl (er bod modd dadlau iddo gael ei ddylanwadu gan elfennau o'r llenyddiaeth honno).

### Englynion i'r Grog o Gaer: Llawysgrif Hendregadredd

Yn Llawysgrif Hendregadredd, sef y brif ffynhonnell sydd ar glawr o farddoniaeth Beirdd y Tywysogion, y ceir y copi cynharaf o'r englynion 'I'r Grog o Gaer' gan Ddafydd ap Gwilym. Yn y llawysgrif hon ceir cyfres o englynion i Syr Rhys ap Gruffudd, dychan i'r Gŵr Eiddig, ynghyd â chanu maswedd (gan gynnwys maswedd sydd o bosibl yn dychanu Ieuan Llwyd)—sef y mathau o ganu a gâi eu datblygu gan Ddafydd yn y man.

Cynnwys y llawysgrif dair haen i gyd. Ysgrifennwyd yr haen gyntaf tua 1300 ym mynachlog Sistersiaidd Ystrad Fflur gan law *alpha*.<sup>109</sup> Ysgrifennwyd yr ail haen gan bedair ar bymtheg o lawiau *textura* yn ystod chwarter cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg. Y mae'r drydedd haen yn cynnwys dros ugain o lawiau, a digwydd 'I'r Grog o Gaer' mewn gofod a adawyd rhwng llaw *alpha* a'r ail haen. Cofnodwyd yr englynion hyn mewn llaw sydd, yn ôl Daniel Huws, yn perthyn o bosibl i Ddafydd ap Gwilym ei

---

<sup>107</sup> Cf. Ifor Williams, 'Dafydd ap Gwilym a'r glêr, THSC (1913–14), 127.

<sup>108</sup> Huw M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues*, tt. 202–3.

<sup>109</sup> *Ibid.*, tt. 193–226.

hun.<sup>110</sup> Y mae natur y llaw a gopïodd ‘I’r Grog o Gaer’ yn ddadlennol hefyd, fel yr esbonia Daniel Huws:

*Textura* yw hi. *Textura* y disgwyliem ei dysgu o hyd gan ddisgybl yn ysgol fynachlog Ystrad Fflur o gwmpas 1330, a barnu wrth lawiau haen II. Mae’r llaw yn un ofalus ac eglur, heb fod yn ystwyth nac yn rheolaidd iawn, nid llaw sgrifennwr cyson. Os oes enghraifft o’i law ar glawr, awgrymaf mai llaw Dafydd ap Gwilym yn ifanc yw hon.<sup>111</sup>

Cadarnhau’r awgrym hwn a wna Ann Parry Owen:

Ni chredir bod dim yn y testun [sef ‘I’r Grog o Gaer’] a fyddai’n peri anghytundeb â’r awgrym hwn; cynigir dau neu dri diwygiad i’r testun, ond manion ydynt, a gellid yn hawdd eu hesbonio fel llithriadau. Ni welir yma olion camgopïo o gynsail arall. Mae peth anghysondeb yn y system orgraffyddol—yn arbennig felly wrth gofnodi’r seiniau ‘dd’, ‘d’ ac ‘w’—ond mae’n debygol fod hyn yn unwaith eto yn arwydd o law nad yw’n gwbl sicr o’i chreffft, yn hytrach na’i bod yn cael trafferth diweddarau orgraff ei chynsail.<sup>112</sup>

Yng Nghaerfyrddin yr oedd y grog y canodd Dafydd iddi, ac nid yng Nghaerlleon fel y tybiwyd gan Thomas Parry, sef camdybiaeth sydd yn rhannol esbonio pam y gwrthodwyd y gerdd hon o’i gasgliad o waith Dafydd ap Gwilym yn y lle cyntaf.<sup>113</sup> Y mae Ann Parry Owen, gyda diolch i J. Lloyd Jones, yn sicr o leoliad y gerdd hon oherwydd i dref Caerfyrddin gael ei henwi ddwy neu o bosibl dair gwaith yn ystod y gerdd. At hynny, ceir sôn am y llanw heli yn Afon Tywi.<sup>114</sup> ‘Ile lleinw heli Dywi daer’.<sup>115</sup> O ran dyddio’r gerdd hon dadleua Ann Parry Owen yn argyhoeddiadol iawn mai i’r flwyddyn 1335 y mae’n perthyn oherwydd yn y flwyddyn honno y bu Rhys ap

---

<sup>110</sup> MWM, t. 218.

<sup>111</sup> Daniel Huws, ‘Llawysgrif Hendregadredd’, CLIGC, 22 (1981–2), 18.

<sup>112</sup> Ann Parry Owen, ‘Englynion Dafydd Llwyd ap Gwilym Gam i’r grog o Gaer’, YB, 21 (1996), 18.

<sup>113</sup> Thomas Parry, ‘Hendregadredd’, *Y Casglwr*, 15 (1981), 5.

<sup>114</sup> Ann Parry Owen, ‘Englynion Dafydd Llwyd ap Gwilym Gam i’r grog o Gaer’, t. 16; J. Lloyd Jones (gol.), *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg* (Caerdydd, 1931–63), 95 d.g. *Caer, Kaer* (2).

<sup>115</sup> Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Llywelyn Brydydd Hodnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill*, cerdd 4.12.

Gruffudd, sef un o noddwyr (sydd yn hysbys inni) i waith Dafydd ap Gwilym, yn gwnstabl ar gastell Caerfyrddin.<sup>116</sup>

### Dafydd Llwyd fab Gwilym Gam

Un wedd bwysig ar yr englynion ‘I’r Grog o Gaer’, yw ffurf y priodoliad, sef ‘dauid llwyd uab gwilim gam’. Gallai ‘llwyd’ yn yr Oesoedd Canol gyfeirio at ŵr crefyddol, neu at liw golau gwallt llefnyn neu at wallt brith henwr, sef amwysedd sydd mor nodweddiadol o ganu Dafydd ap Gwilym (fel y trafodir yn y bennod olaf).<sup>117</sup> Ni cheir y ffurf hon ar ei enw yn un o’r llawysgrifau eraill lle y mae copïau o’i gerddi ar glawr.

Yn englynion y gerdd hon ceir cyfeiriadau diamwys at lythrennedd yr oes. Yn llinell 33 ceir:

Y grog hon loywfron lyfr Biblglær<sup>118</sup>

Ac yn llinell 114 cyfeirir at yr un peth:

Pibl eirglær, pybl erglyw,<sup>119</sup>

Esbonia Ann Parry Owen yn ei nodiadau fod gan rai o Feiblau’r cyfnod ‘gloriau aur ysblennydd yn greirfâu i destunau sanctaidd, efengylau bron yn ddieithriad, yng Nghymru yn ogystal ag Iwerddon a’r Cyfandir.’<sup>120</sup> Dengys hyn fod Dafydd yn sylwgar parthed trwsiad a diwyg llyfrau’r cyfnod.

Mewn llinell arall yn y gerdd anghyflawn hon ceir a ganlyn:

Dygaf (dogn beraf burair)

Dwygerdd groyw i’ m digardd grair.<sup>121</sup>

---

<sup>116</sup> Ann Parry Owen, ‘Englynion Dafydd Llwyd ap Gwilym Gam i’r grog o Gaer’, 36.

<sup>117</sup> T.J. Morgan a Prys Morgan, *Welsh Surnames* (Caerdydd, 1985), tt. 151–2.

<sup>118</sup> Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill*, cerdd 4.33.

<sup>119</sup> *Ibid.*, ll. 114.

<sup>120</sup> *Ibid.*, t. 69, n. 33.

<sup>121</sup> *Ibid.*, cerdd 4.67–8.

Anodd yw gwybod beth yw union arwyddocâd y ddwy linell hyn fel y cyfeddyf Ann Parry Owen.<sup>122</sup> Ond y mae'n bosibl eu bod yn cynodi i Ddafydd ganu dwy gerdd o fawl i'r grog hon. Ni cheir un enghraifft arall yng ngwaith Dafydd ap Gwilym lle mae'r berfenw 'dwyn' yn cael ei ddefnyddio'n gyfystyr â 'c[h]reu, cyfansoddi neu lunio barddoniaeth'. Er enghraifft, yn ei awdl i Iesu Grist ceir:

Dugant dair anrheg, diwgus—roddi,  
O rym Mair a Thi, aur, myrr a thus.<sup>123</sup>

Yn y cyd-destun hwn yr ystyr yw 'cludo'. Ceir enghraifft arall o waith Dafydd gydag ystyr debyg:

Dugost lid a gwrid i'm grudd,  
Dyn fawrfalch, da iawn Forfudd.<sup>124</sup>

Ac un arall sydd yn debyg:

Gwan y bardd sytharodd seithug,  
Gwawn Geredigiawn a'i dug.<sup>125</sup>

Yn y cywydd 'Dagrau Serch' ceir esiampl gyffelyb:

Dugum yt well no deugae,  
Dogn mul, da y gwn y mae.<sup>126</sup>

Yn yr enghraifft a ganlyn defnyddir 'dwyn' i olygu lladrata, sef ystyr addas iawn yng nghyd-destun y cywydd sy'n dwyn y teitl 'Lladrata Merch':

Mai degwech, mi a'i dugum,  
Ym delw Fair fyw, dilwfr fûm.<sup>127</sup>

Gellir dyfynnu rhagor o enghreifftiau i gadarnhau na ddefnyddir 'dwyn' i olygu 'cyfansoddi' o gwbl gan Ddafydd ap Gwilym.<sup>128</sup> Cynigiaf yn betrus gan hynny mai'r un ystyr ag a gyfleir yng nghywydd 'Y Carw' sydd yn yr englynion 'I'r Grog o Gaer':

---

<sup>122</sup> Ibid, llau. 67–8n.

<sup>123</sup> GDG, cerdd 1.11–12.

<sup>124</sup> Ibid., cerdd 77.19–20.

<sup>125</sup> Ibid., cerdd 88.3–4.

<sup>126</sup> Ibid., cerdd 95.13–14.

<sup>127</sup> Ibid., cerdd 135.33–4.

Fy llatai wyd anwydael,  
A'm bardd at Ddyddgu hardd hael.  
Dwg dithau, deg ei duthiad,  
Y daith hon i dŷ ei thad.<sup>129</sup>

Neu yn 'Athrodi ei Was' lle bytheiria Dafydd ei was:

Dos, was, o'r mygr gwmpas mau;  
Dwg hyn i'r ferch deg gynnau.<sup>130</sup>

Sef yr ystyr 'cludo'. Golyga hyn y geill fod Dafydd yn cyfeirio at gludo dwy gerdd fawl i'r grog sydd yn awgrymu hefyd nad un gerdd yn unig a gopiwyd ganddo yn ystod ei einioes. Wrth gwrs, geill mai 'dwyn ar lafar' yw'r ystyr. Ond ni cheir enghraifft arall o'r ystyr honno yn digwydd yng ngherddi eraill Dafydd.

### 'Yr Grog yng Nghaer'

Yn ôl Daniel Huws, y ddolen gyswllt rhwng cerddi'r drydedd haen yw'r noddwr adnabyddus Ieuan Llwyd ab Ieuan o Lyn Aeron.<sup>131</sup> Tra dadlennol yw'r berthynas a fu rhwng Ieuan Llwyd a'i deulu a Dafydd ap Gwilym. Uchelwr a noddwr amlwg oedd Ieuan Llwyd. Yn nhrydedd haen Llawysgrif Hendregadredd ceir awdl foliant ac englynion o fawl gan Lywelyn Brydydd Hoddnant i Ieuan ap Gruffudd Foel o Lyn Aeron (sef tad Ieuan Llwyd), a cheir awdl foliant i fam Ieuan Llwyd yn y drydedd haen yn ogystal.<sup>132</sup> Yn yr un haen bwysig honno ceir tri englyn o bosibl i Ieuan Llwyd ac englyn gan yr un bardd sydd yn gŵyn gan fynach o fynachlog Cymer, dwy gerdd o fawl i Ieuan Llwyd gan Hillyn ac, o bosibl gan yr un bardd, englyn i ddathlu codi tŷ

---

<sup>128</sup> Er enghraifft, GDG, cerdd 4.51; Ibid., cerdd 76.12; Ibid., cerdd 77.19; Ibid., cerdd 88.4; Ibid., cerdd 113, llau. 2, 24; Ibid., cerdd 116.3; Ibid., cerdd 142.12; Ibid., cerdd 145.43.

<sup>129</sup> Ibid., cerdd 116.29–32.

<sup>130</sup> Ibid., cerdd 128.29–30.

<sup>131</sup> MWM, t. 208.

<sup>132</sup> Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill*, cerddi 1–3.

Ieuan Llwyd.<sup>133</sup> Ceir englyn masweddu i gampau Ieuan (o bosibl, Ieuan Llwyd) yn yr un haen yn ogystal.<sup>134</sup> Canodd Casnodyn i Ieuan Llwyd gan ddatgan:

Llyw a'm dysgawdd hawdd hoddiaw—gerdd berffaith,  
Nid fal sothachiaith beirdd caith Caeaw.<sup>135</sup>

Cyrchfan amlwg i feirdd oedd y cartref diwylliedig hwn yn ôl pob tebyg.

Wrth geisio penderfynu sut y datblygodd perthynas Dafydd ap Gwilym â theulu o noddwyr pwerus yng Nglyn Aeron dywed Ann Parry Owen:

Ond o gofio ei bod yn debygol fod Dafydd wedi derbyn rhywfaint o addysg ym mynachlog Ystrad-fflur, bod cysylltiad clòs rhwng Ieuan Llwyd a'r fynachlog honno, a bod y ddau yn rhannu'r un diddordebau llenyddol, gall mai Ieuan Llwyd ei hun a ddenodd Dafydd i Lyn Aeron.<sup>136</sup>

Ar gam hyn, gellir dadlau wedyn fod Dafydd ap Gwilym yn gyfarwydd â llythrennedd mewn ffordd ddeublyg, ym maes crefydd ac mewn maes seciwlar.

Canodd Dafydd ap Gwilym awdl farwnad i 'hael Angharad', sef gwraig Ieuan Llwyd,<sup>137</sup> ac yn ôl Thomas Parry cyfeirir at yr un Angharad yn y cywydd 'Caer Rhag Cenfigen':<sup>138</sup>

A gofynag yn fagwyr  
O gariad Angharad hwyr;<sup>139</sup>

Eithr, er bod cryn sylw ym marwnad Dafydd iddi yn cael ei roi i'w bro a'i thylwyth ni chrybwyllir Llawysgrif Hendregadredd na Llyfr Gwyn Rhydderch (sef y llyfr a gysylltir ag enw ei mab),<sup>140</sup> ac er y byddid yn disgwyl iddi fod yn uchelwraig

---

<sup>133</sup> Ibid., cerddi 17, 5, 7 a 6.

<sup>134</sup> Ibid., cerdd 16.

<sup>135</sup> Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Casnodyn* (Aberystwyth, 1999), cerdd 1.7–8.

<sup>136</sup> Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill*, tt. 52–3.

<sup>137</sup> GDG, cerdd 16.

<sup>138</sup> Ibid., cerdd 140; GDG, t. xxxix.

<sup>139</sup> Ibid., cerdd 140.31–2.

<sup>140</sup> Ibid., cerdd 16.

ddysgedig nid oes ond cyfeiriad wrth fynd heibio yn y farwnad at ei doniau ymenyddol ac ni roddir odid ddim sylw i'w diddordebau diwylliannol:

Hoen ffysg, da ddysg, nid oedd un,  
Huan wybr, â hi nebun.<sup>141</sup>

Y mae'n bosibl mai confensiynau marwnadau gwragedd y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed sydd yn cyfrif am y diffyg sylw hwn yn anad dim ac ni ddylid dehongli'r diffyg sylw dyladwy fel arwydd o ddiffyg parch neu edmygedd Dafydd ap Gwilym o'i dysg.

Barn Lesley Smith a Jane Taylor am natur llythrennedd gwragedd yr Oesoedd Canol yn Lloegr ac ar y Cyfandir oedd eu bod yn fwy cyfyngedig yn amlach na pheidio i fyd y gair llafar:

Solid archival research offers convincing and depressing evidence of a female oral world and a male textual world, where women listened rather than read, heard rather than preached.<sup>142</sup>

Fel y dywed Ceridwen Lloyd Morgan am wragedd Cymru:

Welsh women are highly visible in Middle Welsh poetry and prose, but almost invariably as characters or subjects.<sup>143</sup>

Y mae'n ymddangos ar yr olwg gyntaf mai goddefol yn unig oedd swyddogaeth gwragedd ym myd llythrennedd yn ystod yr Oesoedd Canol Diweddar. Crynhoir yr argraff hon yn gofiadwy gan Ceridwen Lloyd-Morgan:

---

<sup>141</sup> Ibid., llau. 31–2.

<sup>142</sup> Codwyd y dyfyniad o erthygl Ceridwen Lloyd-Morgan, 'More written about than writing? Welsh women and the written word', yn Huw Pryce (gol.), *Literacy in Medieval Celtic Societies*, t. 149.

<sup>143</sup> Ibid.

The poetry of both the *Gogynfeirdd*, the poets of the princes, and the later *cywyddwyr* includes songs for and about real women. There, however, women were often portrayed by these male poets as lovers, such as Dafydd ap Gwilym's Dyddgu and Morfydd, or potential lovers, whilst women from noble families are commemorated in elegies, when their importance may often be identified as their lineage, their suitability as someone's wife, or their capacity to bear sons, only very rarely for their learning.<sup>144</sup>

Y mae'r cyfeiriadau at ddysg gwagedd yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg yn brin iawn. Ceir cyfeiriad gan Risierdyn at Fyfanwy, gwraig Goronwy ap Tudur o Benmynydd fel gwraig a oedd wedi dysgu darllen ('Llythyr a ddysgodd'),<sup>145</sup> ond at ei gilydd y mae'r dystiolaeth yn denau dros ben.<sup>146</sup> Ar y llaw arall, dylid cofio ar yr un pryd fod dystiolaeth ar gyfer dysg a llythrennedd noddwyr yn tueddu i fod yn brin o'i chymharu â'r hyn a ddilynodd yn y bymthegfed ganrif. Gan hynny, dylid bod yn ochelgar cyn casglu fod y ffin rhwng y ddeuryw mor bendant ag yr awgryma crynodeb cofiadwy Lesley Smith a Jane Taylor, sef: 'a female oral world and a male textual one'.<sup>147</sup>

Gogleisiol o gyfeiriad yn y cyswllt hwn yw eiddo Dafydd ap Gwilym yn 'Yr Wylan' lle y disgrifir yr wylan (yn ôl golygiad newydd o waith Dafydd ap Gwilym) fel a ganlyn:

Llythr unwaith lle'th ariannwyd,  
Lleian ym mrig llanw môr wyd.<sup>148</sup>

Yn ôl y golygiad newydd hwn, disgrifio'r wylan fel llythyren mewn llawysgrif a wneir yn y fraich gyntaf. Y mae'n drosiad hynod o addas—danfon gair a wneir o hyd yn Gymraeg wrth ddanfon neges—sydd yn deillio'n uniongyrchol o ddiwylliant

---

<sup>144</sup> Ibid., tt. 149–50.

<sup>145</sup> Nerys Ann Jones ac Erwain Rheinallt (gol.), *Gwaith Sefnyn, Rhisierdyn ac Eraill* (Aberystwyth, 1996), cerdd 5.13.

<sup>146</sup> Ibid., cerdd 5.9

<sup>147</sup> Gw. Ceridwen Lloyd-Morgan, 'More written about than writing? Welsh women and the written word', t. 149.

<sup>148</sup> Gw. <http://www.dafyddapgwilym.net> (cerdd 45.9–10) [cyrchwyd 18 Ebrill 2007].

llawysgrifol yr oes. Ond o ddanfon y gair disglair hwn (sef y llatai o wylan) y mae'r trosiad yn tybio y gall y derbynnydd, sef y ferch, ei ddarllen a'i ddeall. Yn y ddelwedd ddisglair o drawiadol hon y ceir enghraifft arall o symbolaeth lythrennog Dafydd ap Gwilym ar waith.

### Marwnad Angharad

Cedwir y copi cynharaf o awdl farwnad Dafydd i Angharad yn Llawysgrif Hendregadredd. Er nad yw'n debygol fod ei farwnad i Angharad, gwraig Ieuan Llwyd ab Ieuan, yn ei law ei hun yn Llawysgrif Hendregadredd dengys yr awdl orchestol o gain hon, ar yr olwg gyntaf, gymaint oedd gafael arddull y Gogynfeirdd ar ei grefft, er enghraifft yn y pennill dau doddaid a ganlyn lle y crybwyllir gŵr Angharad.<sup>149</sup>

Gwrygiant urdduniant eurddoniaid—facwy,  
Gwreigaidd olywy, gwagedd leuad.  
Gweddeiddbar gymar geimiad—yng ngharthan  
Gwayw awchdan Ieuan, cyflafan cad.<sup>150</sup>

Ar yr un pryd, dylid cofio bod yr arfer o ddwyn dau doddaid at ei gilydd mewn pennill yn arfer lled ddiweddar. Yn ôl John Morris-Jones, y tro cyntaf (sydd ar glawr) i hyn ddigwydd oedd yn 1322 pan ganodd Gwilym Ddu o Arfon i Syr Gruffudd Llwyd yng ngharchar Rhuddlan.<sup>151</sup> Gan hynny, hyd yn oed wrth ymddangos yn gonfensiynol ei gynnwys yr oedd Dafydd ap Gwilym yn mabwysiadu dulliau mynegiant newydd. Er na cheir ond un cyfeiriad uniongyrchol at ddysg Angharad ym marwnad Dafydd ni ellir amau bod lle ei theulu yng Nglyn Aeron yn nhwf

---

<sup>149</sup> MWM, t. 89

<sup>150</sup> GDG, cerdd 16.57–60.

<sup>151</sup> John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Caerdydd, 1980), tt. 339–40 ond, yn ôl Iestyn Daniel, canwyd awdl Gwilym Ddu o Arfon rhwng 1316 a 1318, gw. N. G. Costigan, R. Iestyn Daniel a Dafydd Johnston (gol.), *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli* (Aberystwyth, 1995), cerdd 6; sylwer hefyd fod Iorwerth Beli wedi defnyddio'r mesur pur anghyffredin hwn oddeutu'r un adeg yn ystod chwarter cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg yn ei gŵyn yn erbyn Esgob Bangor, gw. *ibid.*, cerdd 15.

llythrennedd Gymraeg yn gwbl ganolog, fel y tystia Llyfr Gwyn Rhydderch a Llawysgrif Hendregadredd.<sup>152</sup>

Ar y llaw arall, gwelir yn eglur yn yr awdl hon mai datgan cerdd a wnâi'r bardd:

Gwedy hoedlddwyn gwyn wyf geiniad—bronddellt,<sup>153</sup>

Yr oedd 'ysgrifennu cerdd', yn ystyr fodern yr ymadrodd, felly, yn beth dieithr yr adeg hon.<sup>154</sup> Y mae'r awdl hon yn cynnig dau ddryll tystiolaeth sydd yn ymddangos yn gyferbyniol eu harwyddocâd a'i gilydd. Gwelir yn y man mai dyna yw natur y dystiolaeth mewn llawer o gerddi eraill Dafydd ap Gwilym a bod y tyndra rhwng y ddeufyd yn ffynhonnell cregarwch iddo.

### [Lleianod](#)

---

Diddorol yng nghyswllt gwraig uchelwrol yw'r cyfeiriad at y lleian yn 'Yr Wylan' lle y ceir 'lleian ym mrig llanw môr wyd'.<sup>155</sup> Gwisg wen a wisgid gan leianod yn yr Oesoedd Canol, ond geill hefyd fod yn gyfeiriad at swyddogaeth y lleian fel negesydd ar ran Duw ymhlith dynion. Er bod Tadau'r Eglwys Fore a thestunau hagiolegol canoloesol yn pwysleisio gwryfydod y lleian yn anad dim arall,<sup>156</sup> ac er bod Gramadegau'r Penceirddiaid yn datgan mai moli'r lleian fel y molir crefyddwyr eraill sydd yn briodol i'r bardd ei wneud nid felly y gwnaeth y beirdd yn ôl y dystiolaeth sydd ar gadw gennym.<sup>157</sup> Perthyn i fyd canu serch y mae llawer o'r cerddi sydd yn

---

<sup>152</sup> GDG, cerdd 16.31; MWM, t. 88.

<sup>153</sup> GDG, cerdd 16.69.

<sup>154</sup> MWM, t. 89.

<sup>155</sup> GDG, cerdd 118.10.

<sup>156</sup> Jane Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod* (Caerdydd, 1999), t. 134.

<sup>157</sup> G. J. Williams ac E. J. Jones (gol.), *Gramadegau'r Penceirddiaid* (Caerdydd, 1934), t. 56.

ymwneud â lleianod yng ngwaith y Cywyddwyr.<sup>158</sup> Ys dywed Helen Fulton amdanynt:

[T]he poems are apparently not intended as satires on the formal praise songs to nuns; they appear to function as genuine love poems in their own right. The virtues of the nuns, in their role as holy women, are more or less ignored; they are praised for their virtues as chaste women, in the same language that Dyddgu and other noblewomen are praised.<sup>159</sup>

Efallai na ddylid synnu at hynny gan fod disgwyl i wragedd uchelwrol fod yn wryfol yn y gymdeithas hon beth bynnag. Yn ôl Helen Fulton:

At a time when chastity was strictly imposed on all aristocratic women, there seems little difference between praising a nun's beauty and inviting her into the woodland, and doing the same thing to any other well-born girl, as Dafydd ap Gwilym does in 'Penwisg Merch' (GDG 44), where he describes the girl's forehead beneath her headdress, or in 'I Wahodd Dyddgu' (GDG 119), where he invites Dyddgu to a woodland tryst. The poems to nuns function in much the same way as other love poems, that is, primarily as praise poems to noble women who represent the values of *uchelwyr* society, women whose beauty and accomplishments serve to enhance the prestige of the men who own them.<sup>160</sup>

Cynigia Helen Fulton hefyd fel ateg i'r hyn a ddadleuwyd gan Saunders Lewis mai cynulleidfa o grefyddwyr a mynaich (sef cynulleidfa lythrennog) a fyddai wedi gwerthfawrogi cerddi i leianod fwyaf neu'r teuluoedd yr oedd un o'u merched yn perthyn i gwffaint.<sup>161</sup>

## Rhydderch

---

Mab Angharad ac Ieuan Llwyd oedd Rhydderch.<sup>162</sup> Yr oedd ef yn arbenigwr ym maes y gyfraith a bu'n ddosbarthwr yng Ngheredigion a sir Gaerfyrddin rhwng 1380 a

---

<sup>158</sup> Catrin T. B. Davies, 'Cerddi'r Tai Crefyddol' (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru, 1973), t. xiv; Helen Fulton, 'Medieval Welsh poems to nuns', CMCS, 21 (1991), 87–112.

<sup>159</sup> Helen Fulton, 'Medieval Welsh poems to nuns', 88.

<sup>160</sup> Ibid, 98.

<sup>161</sup> Ibid.

<sup>162</sup> GDG, cerdd 16.

1392.<sup>163</sup> Yn ei ffug-farwnad iddo gellir ymglywed â naws y canu serch ac odid nad yw hyn yn adlewyrchu diddordebau Dafydd a Rhydderch yn y llenddull newydd hwnnw:

Pregeth ryfedd oedd weddu  
Dan hyn o dywerchyn du  
Gwybodau, synhwyrâu serch,  
Gwmpas rodd, gampus Rydderch,<sup>164</sup>

O ran ei naws, y mae'n gywydd a ganwyd i gyfaill yn hytrach nag i noddwr. Os felly y bu, treuliodd Dafydd gryn amser yn ei gwmmi a thrwy hynny y mae'n bosibl y byddai wedi dod ar draws dogfennau cyfreithiol ysgrifenedig (yn yr un modd ag yn achos ei ewythr).

### Y Ceiliog Bronfraith a'r Gyfraith

Hawdd dychmygu bod cywydd Dafydd ap Gwilym i'r Ceiliog Bronfraith (GDG 123) wedi'i ganu yng Nglyn Aeron gerbron Rhydderch, yn wir yn fawl i Rydderch.<sup>165</sup> Cyplysir y gyfraith a barddoniaeth gan Ddafydd a chydgerddant law yn llaw â'i gilydd yn y cywydd:

Ceiliog teg, rheg rhag organ,  
Bronfraith drwy *gyfraith* a gân.<sup>166</sup>

Cyn hynny, disgrifir y ceiliog bronfraith fel cerddor proffesiynol:

Cantor hydr ar gaer wydr gyll,  
Esgud dan wyrddion esgyll.<sup>167</sup>

Bron na ellir synhwyro mai cyfarch Rhydderch (neu noddwr tebyg iddo) y mae Dafydd yn y cwpledi canlynol:

---

<sup>163</sup> R. A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Late Middle Ages, vol. 1, South Wales 1277–1536* (Caerdydd, 1972), t. 117.

<sup>164</sup> GDG, cerdd 17.31–4.

<sup>165</sup> Trafodir yr elfennau cyfreithiol sydd yn 'Y Ceiliog Bronfraith' yn R. Geraint Gruffydd, 'A glimpse of Welsh medieval court procedure', yn Isobel Harvey a Colin Richmond (gol.), *Recognitions: Essays Presented to Edmund Fryde* (Aberystwyth, 1996), tt. 165–178.

<sup>166</sup> GDG, cerdd 123.5–6.

<sup>167</sup> *Ibid.*, llau. 3–4.

Pregethwr maith pob ieithoedd,  
Pendefig ar y goedwig oedd;  
Siryf fydd ym medw-wydd Mai,  
Saith ugeiniaith a ganai;  
Ustus gwiw ar flaen gwaiail,  
Ystiwart llys dyrys dail;  
Athro maith fy nghyweithas,  
Ieithydd ar frig planwydd plas;<sup>168</sup>

Wedi creu'r cyd-destun hwn ceir nifer o gyfeiriadau at ddogfennau'r oes:

Dangos a wnaeth, cydfaeth cant,  
Y gwir yn ei lythr gwarant.  
Darlleoedd ymadrodd mydr,  
Deg lwyswawd, o'i dŷ glaswydr,  
Gelwis yn faith gyfreithiol  
Arnaf, ddechrau haf, o'r rhòl.  
Collais, ni ddymunais ddig,  
Daered rym, dirwy dremyg.  
Cyd collwn, gwn o gynnydd,  
Dirwyon dan wyrddion wŷdd,  
Ni chyll traserch merch i mi,  
(Cain nerthoedd) na'm cwyn wrthi.<sup>169</sup>

Cyfeiriadau at fyd llythrennog y gyfraith a geir yn 'lythr gwarant', 'yn faith gyfreithiol', 'rhol',<sup>170</sup> 'dirwy dremyg' a 'dirwyon' a geill 'gwir' hyd yn oed fod yn derm cyfreithiol (sef 'hawl, hawl gyfreithiol', yn ôl GPC 1666) sydd yn cyfoethogi ystyr y llinell. Wrth gwrs, ni ellir profi mai Rhydderch oedd gwrthrych y cywydd hwn gan nad enwir ef ond wrth feddwl am gynulleidfa bosibl i'r cywydd byddai Rhydderch—o gofio'r swydd a fu ganddo, ei gyswllt â Llawysgrif Hendregadredd (a'r cerddi a geir yn y drydedd haen yn arbennig) a Llyfr Gwyn Rhydderch ynghyd â'r ffug-farwnad a ganodd Dafydd iddo—yn wrthrych posibl.<sup>171</sup>

---

<sup>168</sup> Ibid., llau. 7–14.

<sup>169</sup> Ibid., llau. 29–40.

<sup>170</sup> Yn ei farwnad i Ddafydd ap Gwilym defnyddir y term 'rhol' gan Fadog Benfras: 'Rhoes broses fal Taliesin,/ Rhol o wawd, rhy hael o win.' Gw. GDG, t. 425.

<sup>171</sup> Ceir nifer o ddelweddau cyfreithiol yn 'Cywydd y Gal' yn ogystal, gw. Dafydd Johnston (gol.), *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol* (Pen-y-bont ar Ogwr, 1998), cerdd 1, sef 'Cywydd y Gal', llau 7 a 41 lle y sonnir am dditio, gwrit a thitmant.

## Llawysgrifau, Memrwn, Rholiau

Yng nghywydd ‘Y Niwl’ ceir nifer o gyfeiriadau pendant at lythrennedd ac at ymwybyddiaeth Dafydd ap Gwilym o lythrennedd. Wrth ddisgrifio’r niwl yn disgyn ar y tir yn gyfryngwr i’r glaw dywed:

Pan ddaeth yn wir ar hirros  
Niwl yn gynhebyg i nos;  
Rhol fawr a fu’n glawr i’r glaw,  
Rhestri gleision i’r rhwystraw;<sup>172</sup>

Y mae’r elfen weledol yn llinell olaf y dyfyniad uchod yn hynod o drawiadol ac yn tystio i Ddafydd fod yn gyfarwydd â rhol a ddefnyddid i gofnodi achau neu achosion llys. Y ddelwedd lythrennog hon yw’r ddelwedd gyntaf yn y gyfres o ddyfaliadau a geir yn y cywydd. Ymwneud y mae’r delweddau eraill ag arfau, adeiladau dyn ac â’r is-fyd: ‘rhidyll ystaen’, ‘rhwyd adar’, ‘cae anghlaer’, ‘carthen anniben’, ‘cwfl llwyd’, ‘cwfert’, ‘clwydau uchel’, ‘clais mawr’, ‘cnu tewlwyd’, ‘coetgae’, ‘codarmur’, ‘toron gwrddonig’, ‘tyrau uchel’, ‘tylwyth Gwyn’, ‘torsedd’, ‘delli’, ‘llydanwe’, ‘rhaff’, ‘gwe adrgop’, ‘Ffrengigsiop ffrwyth’, ‘Gwaun dalar Gwyn’, ‘mygedorth’, ‘ennaint gwrachïod’ a ‘habrsiwn’.<sup>173</sup> Ar un olwg y mae’r fath gyfuniad yn gwbl annisgwyl ac yn rhan o asbri disgrifiadol y dyfalu yn nwylo Dafydd ap Gwilym. Er hynny, gellir tynnu sylw at ambell nodwedd sydd yn gyffredin rhwng y gwahanol ddisgrifiadau hyn. Osgoir delweddau sy’n ymwneud â byd natur i ddisgrifio ffenomen a berthyn i fyd natur, fel petai Dafydd yn ceisio dadgyfarwyddo’r niwl i’w wrandawyr. Y mae’r delweddau a ddewiswyd yn ymwneud yn bennaf â phethau arwynebol (h.y. yn bod ar yr wyneb) neu artiffisial (o wneuthuriad dyn) neu arallfydol ac, o weld ei gyfeiriad at rol yn y cyd-destun hwn, dichon fod cyfeiriad Dafydd ati yn gweddu i’r dim.

---

<sup>172</sup> GDG, cerdd 68.13–16.

<sup>173</sup> Ibid., cerdd 68.13–46.

Diamwys o gyfeiriad at fyd llythrennog yw cyfeiriadau at lawysgrifau, ond prin yw'r cyfeiriadau hynny. Ni cheir ond dwy enghraifft o'r enw 'memrwn', er enghraifft, yng nghanu Dafydd ap Gwilym. Digwydd y naill yn ei gywydd ymryson cyntaf â Gruffudd Gryg lle y ceir 'cwrrach memrwn, wefldwn waith',<sup>174</sup> a'r ail yn 'Hudoliaeth Merch' lle y disgrifir prydfferthwch y ferch (o bosibl Dyddgu neu Forfudd): 'gwedd memrwn gwiw'.<sup>175</sup>

### Ymryson Dafydd ap Gwilym a Gruffudd Gryg

Yn y cywyddau ymryson rhwng Gruffudd Gryg a Dafydd ap Gwilym ymddengys fod Gruffudd Gryg yn lladmerydd ar ran yr hen do o feirdd ceidwadol a Dafydd yn cynrychioli math newydd o farddoniaeth.<sup>176</sup> Yn ei gywydd cyntaf dywed Dafydd fel hyn:

Cwrrach memrwn, wefldwn waith,  
I'r dom a fwrid ymaith,  
Diddestl wrth ei fedyddiaw  
Ei bennill ef, bin a llaw,  
A geisir â'i ddyir ddail  
A'i bensiwn serch heb unsail.

Bustl a chas y barnasam  
Beio cerdd lle ni bo cam.<sup>177</sup>

Neu yn ôl y golygiad diweddaraf:

Cwrrach memrwn, wefldwn waith,  
I'r dom a fwrid ymaith,  
A geisir, â'i ddyir ddail,  
A'i bensiwn serch, heb unsail;  
Diddestl fydd o'i fedyddiaw  
Ei bennill ef, bin a llaw.  
Bustl a chas y barnasam  
Beio cerdd lle ni bo cam.<sup>178</sup>

---

<sup>174</sup> Ibid., cerdd 148.21.

<sup>175</sup> Ibid., cerdd 84.9–10.

<sup>176</sup> Ibid., cerdd 148; Eurys I. Rowlands, 'Bardic lore and education', 143–55.

<sup>177</sup> Ibid., cerdd 148.21–8.

<sup>178</sup> Gw. <http://www.dafyddapgwilym.net> (cerdd 24.21–8) [cyrchwyd 18 Ebrill 07].

Y mae'r sôn am 'cwrrach memrwn' ac 'a'i bensiwn serch' yn arwyddocaol gan eu bod yn cadarnhau bod cerddi serch (sef cywyddau serch yn fwy na thebyg) yn cael eu cofnodi mewn llawysgrifau yn ystod oes Dafydd ap Gwilym.

Disgrifiad dilornus o Ruffudd Grug (yn ogystal â chyflwr hadl y llawysgrif) yw'r sangiad 'wefldwn waith'. Yn yr ymryson, ni chyll Dafydd ap Gwilym yr un cyfle i wawdio'r nam ar leferydd Gruffudd Gryg. Yng nghyswllt y pedwar cwpled hyn, dweud y mae Dafydd y gall rhinwedd berthyn i gywydd hyd yn oed os yw'r allanolion mewn cyflwr truenus. Ar yr un pryd, yn ystod y cywydd ymryson hwn, ceir awgrym gan Ddafydd fod barddoniaeth Gruffudd Gryg yn ddiwerth oherwydd nad yw Gruffudd ei hun yn ddigon o feistr ar y cyfrwng: 'Gwyrodd â'i ben gerdd y byd'. Felly, er bod cyfeiriad amlwg at un o nodau amgen llythrennedd yr oes—sef memrwn neu llawysgrif—ni ellir gwerthfawrogi gwir werth cywydd, yn ôl Dafydd ap Gwilym oni bai bod y cywydd hwnnw yn cael ei lunio gan feistr a'i ddatgan mewn modd priodol, sy'n awgrymu bod adrodd cerdd, yng ngolwg Dafydd ap Gwilym, lawn mor bwysig â—os nad yn bwysicach na—llunio cerdd ar ffurf ysgrifenedig.

### Llyfr Gwyn Rhydderch

Fel 'llyfr gwyn i Rydderch' y cyfeiriodd Dr John Davies o Fallwyd at Lyfr Gwyn Rhydderch ac, er nad oes sicrwydd pendant ynghylch union ddyddiadau pob rhan o Lyfr Gwyn Rhydderch, ni leisiwyd dadleuon yn erbyn haerriad Daniel Huws mai oddeutu 1350 yr ysgrifennwyd y llawysgrif hon ar gyfer Rhydderch ab Ieuan Llwyd.<sup>179</sup> Y mae ôl pum llaw yn y llawysgrif a gellir cymharu'i llawiau ag eiddo ail haen Llawysgrif Hendregadredd, er bod llawiau'r Llyfr Gwyn yn ddiweddarach na

---

<sup>179</sup> Daniel Huws, 'Llyfr Gwyn Rhydderch', CMCS, 21 (1991), 2 a 18–22.

dyddiadau Llawysgrif Hendregadredd.<sup>180</sup> Yn Ystrad-fflur, fwy na thebyg, y cynhyrchwyd y ddwy llawysgrif.<sup>181</sup> Llyfr Gwyn Rhydderch yw'r llawysgrif gynharaf ar glawr sydd yn cynnwys casgliad o chwedlau brodorol—neu “Welsh belles-lettres” ys dywed Daniel Huws.<sup>182</sup> Yn seiliedig ar Lyfr Gwyn Rhydderch ac ar statws a swyddi Rhydderch yn ei gymdeithas gellir dadlau ei fod yn medru Ffrangeg a Saesneg (yn ogystal â'r Gymraeg) ac, o bosibl, yr oedd wedi gweld casgliadau o ramantau Ffrangeg mewn llysoedd ffasiynol eraill. Fel y dywed Daniel Huws:

[W]hile it seems highly improbable that any manuscript in English influenced the making of the White Book, as a parallel contemporary development we might notice that new popularity of anthologies, exemplified by the Harley Lyrics manuscript and the Auchinleck Manuscript of romances, both dating from the 1330s, the one representing provincial culture, from the Welsh marches, the other probably a London product.<sup>183</sup>

### Rhydderch y Noddwr Cerddi

Rhydderch oedd un o noddwyr beirdd amlycaf Ceredigion yn y bedwaredd ganrif ar ddeg yn ôl y dystiolaeth sydd gennym.<sup>184</sup> Canodd Dafydd ap Gwilym iddo gan dynnu sylw yn edmygus at ei ddysg:

A'i gampau, chwedl doniau dawn,  
A'i loywdysg a'i oleuddawn,  
A'i ras, gyweithas ieithydd,  
A'i glod, och ddyfod ei ddydd!<sup>185</sup>

Gan mai ffug-farwnad ydyw ceir elfen o ormodiaith ynddi—yr un math o ormodiaith ag a geir yn y cellwair defodol yn nefod y cyff clêr.<sup>186</sup> Defod a gynhelid ymhlith beirdd oedd y cyff clêr, ac efallai bod defnydd Dafydd o un o'r confensiynau hwyliog

---

<sup>180</sup> Ibid., 8.

<sup>181</sup> Ibid.

<sup>182</sup> Ibid., 17.

<sup>183</sup> Ibid.

<sup>184</sup> D. Hywel E. Roberts, ‘Noddwyr y beirdd yn Sir Aberteifi’, LIC, 10 (1968–9), 83–8; ac idem, ‘Noddi beirdd yng Ngheredigion—rhai agweddau’, *Ceredigion*, 7 (1972–5), 14–39.

<sup>185</sup> GDG, cerdd 17.37–40.

<sup>186</sup> H. M. Edwards, ‘Murnio marwnadau: Golwg ar y ffug-farwnad yng nghyfnod y cywydd’, *Dwned*, 5 (Hydref 1999), 53.

ar gyfer Rhydderch yn dangos bod y noddwr hwnnw yn gyfarwydd ddigon ag arferion y beirdd, a bod Dafydd ei hun yn gyfarwydd â disgwyliadau Rhydderch.

Yn ffug-farwnad Dafydd ap Gwilym cyfeirir at Rydderch fel “ieithydd” ac at ei “loywddysg a’i oleuddawn”, a chyfeirir at ei ddiddordeb mewn serch:

Pan gaewyd, saith guddiwyd serch,  
Gwin roddiad, genau Rydderch,<sup>187</sup>

Ac yn y llinellau canlynol:

Pregeth ryfedd oedd weddu  
Dan hyn o dywerchyn du  
Gwybodau, synhwyrâu serch,  
Gwmpas rodd gampus Rydderch,<sup>188</sup>

Yn awdl foliant Llywelyn Goch ap Meurig Hen a’i berthynas Llywelyn Fychan sonnir amdanynt fel “brenhinedd y serch” ac fel noddwyr deallus:

Ynifer o glêr a eglurynt,  
Awen yn llawen iawn y’i llywynt.<sup>189</sup>

A

Deallu barddlyfr da a ellynt,<sup>190</sup>

Yn ogystal â’u dealltwriaeth o farddoniaeth yr oeddent yn hyddysg yn y gyfraith:

Dechrau a chanawl hawl a holynt,  
Na diwedd cyfraith nid edewynt.<sup>191</sup>

Daw’r un cyfuniad i’r golwg yng ngherdd foliant Dafydd y Coed i Rydderch:

Croyw Rydderch, pab geirserch pob gorsedd,<sup>192</sup>

Ac fe’i gelwir yn “eneitserch” gan Ddafydd y Coed, a honnir bod Rhydderch yn dysgu’r beirdd.<sup>193</sup>

---

<sup>187</sup> GDG, cerdd 17.21–2.

<sup>188</sup> Ibid., llau 31–4.

<sup>189</sup> Dafydd Johnston (gol.), *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, cerdd 4.45–6.

<sup>190</sup> Ibid., ll. 49.

<sup>191</sup> Ibid., llau 51–2.

<sup>192</sup> Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Dafydd y Coed a Beirdd Eraill o Lyfr Coch Hergest* (Aberystwyth, 2002), cerdd 1.12.

Ceir cyfeiriadau at Rydderch gan Iolo Goch yn ogystal. Er nad oes un gerdd wedi'i chanu gan Iolo Goch i gyfarch Rhydderch yn benodol wedi goroesi fe'i crybwyllir yn y gerdd sy'n disgrifio ymddiddan rhwng yr enaid a'r corff yn ystod cylch clera:

Deffro, oddyno ydd awn  
Ger dugiaeth Geredigiawn,  
Doniog yw'r oludog wlad,  
Ac annerch Rhydderch rhoddiad  
Ab Ieuan Llwyd, annwyd arth,  
Probost, hoywbost Deheubarth.<sup>194</sup>

Cadarnhau'r ddelwedd hon o uchelwr tra hyddysg, pwerus a diwylliedig a wna Gruffudd Llwyd yn ei awdl i Rydderch, lle y cyfeirir at ei allu cyfreithiol: "Cyfraith trwy bob iaith o'i ben", "Wythrym dadl, ieithrym didwyll,/ Athro i bawb, uthr ei bwyll", "Capten mad, ceimiad cymen,/ Cyfraith drwy bob iaith o'i ben" a "Cannwyll disbwyll a dosbarth".<sup>195</sup> Cyfeirir at ei hoffter o farddoniaeth a chanu serch: "Paun y glod, penwn y glêr", "Compod y gerdd a'r campau,/ Capelau saint, cwplau serch," ac yn un o'r llinellau gorau a gyfansoddwyd i gyfarch Rhydderch cyfunir ei ddau brif ddiddordeb yn gelfydd: "Brawdwr cyfiawn ar brydydd".<sup>196</sup>

Yr oedd Dafydd, felly, drwy'i gysylltiad ag Ieuan Llwyd, ei wraig Angharad a'u mab Rhydderch, yn cadw cwmni teulu dysgedig iawn a oedd yn gyfarwydd â llawysgrifau canoloesol ac yn eu noddi, ac yn deulu a oedd yn cymryd rhan weithredol yn nhraddodiad llenyddol eu gwlad. At hynny, dylid ychwanegu nad ceidwadaeth oedd eu hunig gymhelliad, gan fod cynnwys Llawysgrif Hendregadredd—llyfr llys Ieuan Llwyd—yn cynnwys yr hen a'r newydd ac yn estyn ffiniau barddoniaeth drwy fod

---

<sup>193</sup> Ibid., llau 31–33.

<sup>194</sup> GIG, cerdd XIV.73–8.

<sup>195</sup> Rhiannon Ifans (gol.), *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill* (Aberystwyth, 2000), cerdd 13.63–4, llau 65–6 a ll.70.

<sup>196</sup> Ibid., llau 20, 72–3 a 58.

yn effro i ddylanwadau newydd a thrwy groesawu a meithrin math newydd o gywydd, sef y cywydd serch.<sup>197</sup>

## Y Trioedd

---

Rhan annatod o gynhysgaeth pob bardd, gan gynnwys Dafydd ap Gwilym, oedd y Trioedd.<sup>198</sup> Digwydd casgliad o drioedd yn Llyfr Gwyn Rhydderch.<sup>199</sup> Yr oedd y trioedd hyn ar glawr yn gynnar iawn, a gellir dyddio'r casgliad cynharaf, sef Pen 16, i'r drydedd ganrif ar ddeg. Rhydd Rachel Bromwich dystiolaeth inni fod traddodiad ysgrifenedig yn perthyn iddynt er cyfnod cynnar iawn:

There is evidence also which suggests that a common *written* original may lie behind all the extant versions of certain individual triads.<sup>200</sup>

Nodwyd un o'r trioedd gan ysgrifydd a fu'n gweithio mewn mynachdy rhwng 1120 a 1150.<sup>201</sup> Yn ôl E. I. Rowlands yr oedd i'r trioedd arwyddocâd arbennig:

On considering the evidence of the extant texts we must conclude that the transmission of the triads, from the twelfth century onwards, was written not oral. It is interesting to note that one copy of the triads is in the hand of a mid-fifteenth-century bard, Gwilym Tew, and that he betrayed some ignorance and some lack of understanding when copying the material. This fact surely indicates that late medieval Welsh bards were heavily dependent on written forms of learning and had lost much of the background of orally transmitted learning.<sup>202</sup>

Gan ei bod yn bur debyg i Ddafydd ap Gwilym fod yn gyfarwydd â Llyfr Gwyn Rhydderch y mae'n dilyn gan hynny y byddai wedi bod yn gyfarwydd â nifer o drioedd yn eu ffurf ysgrifenedig.

---

<sup>197</sup> Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill*, tt. 11–12.

<sup>198</sup> Rachel Bromwich, 'Tradition and Innovation in the Poetry of Dafydd ap Gwilym,' *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym*, t. 86.

<sup>199</sup> TYP<sup>3</sup>, t. xi.

<sup>200</sup> *Ibid.*, t. xc.

<sup>201</sup> *Ibid.*, t. xci.

<sup>202</sup> Eurys I. Rowlands, 'Bardic Lore and Education', 151–2.

## Englynion i'r Cusan yn Llyfr Gwyn Rhydderch

---

Ceir copi o un o gerddi Dafydd ap Gwilym yn Llyfr Gwyn Rhydderch, sef 'Englynion i'r Cusan', a luniwyd o bosibl pan oedd Dafydd ap Gwilym yn fardd ifanc.<sup>203</sup> Yn un o'r englynion ceir paladr sydd yn adleisio term a berthyn i fyd y gyfraith:

Gwn awdliath ddysgraith weddusgroyw – yn rhodd:  
Gwell no rhuddaur otoyw;<sup>204</sup>

Tybiodd y golygydd cyntaf mai gair cyfansawdd yw 'dysgraith' ('dysg' + 'rhaith' = 'cyfraith').<sup>205</sup> Dyma gysylltu byd y gyfraith â dysg (sydd yn briodol iawn yng nghyswllt y noddwr adnabyddus Rhydderch). Ond y mae pwyslais y golygiad newydd o waith Dafydd ap Gwilym ychydig yn wahanol a chynigir dehongli 'rhaith' fel 'deddf' neu 'rheol' ac felly gellir dadlau nad yw ystyr y gair cyfansawdd yn ddim mwy na 'rheolau dysg', sef yng nghyd-destun y llinell hon, 'awdl sy'n dilyn y rheolau' (o bosibl, rheolau Gramadeg Einion Offeiriad).<sup>206</sup> Ar y llaw arall, hawdd dadlau o hyd fod blas y gyfraith ar air fel 'rhaith' yn anodd ei ddiystyru'n llwyr.

## Gramadeg Einion Offeiriad

---

Er nad oes sicrwydd digamsyniol ynghylch awduraeth Gramadeg Einion Offeiriad cytunir yn gyffredinol fod gan ŵr o'r enw Einion Offeiriad gysylltiad agos â'r fersiwn a geir yn Llyfr Coch Hergest a luniwyd yn ystod chwarter cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yr oedd gan y Gramadegau gysylltiad â Cheredigion, a derbyniodd yr awdur nawdd gan Syr Gruffudd Llwyd a chan Syr Rhys ap Gruffudd.<sup>207</sup> Canodd Einion

---

<sup>203</sup> R. Geraint Gruffydd, 'Englynion y Cusan', CMCS, 23 (1992), 3: 'Their [*yr englynion*] syntactic awkwardness, together with their strong tendency towards metrical experiment, may suggest that they are the work of a relatively young poet.'

<sup>204</sup> *Ibid.*, 4.

<sup>205</sup> *Ibid.*, 5.

<sup>206</sup> Gw. <http://www.dafyddapgwilym.net> (cerdd 84.13) [cyrchwyd 18 Ebrill 2007].

<sup>207</sup> J. Beverley Smith, 'Einion Offeiriad', BBGC, 20 (1962–4), 339–47; R. Bromwich, 'Gwaith Einion Offeiriad a barddoniaeth Dafydd ap Gwilym', YB, 10 (1977), 157–80; D. Huws, 'Llawysgrif Hendregadredd', CLIGC, 22 (1981–2), 1–26.

Offeiriad awdl i'r uchelwr pwerus Syr Rhys ap Gruffudd (a oedd yn gefnder i dad Dafydd ap Gwilym) ac, yn ôl Robert Vaughan, “yr ynrydedd a moliant iddo [sef Syr Rhys ap Gruffudd]” yr ysgrifennwyd y Gramadegau gan Einion.<sup>208</sup> Canodd Iolo Goch gywydd marwnad cofiadwy i Syr Rhys ap Gruffudd lle y cyfunir llenddull newydd y cywydd â rhai o *topoi* cyfarwydd y canu mawl traddodiadol â'i bwyslais ar filwriaeth.<sup>209</sup> Yn nhrydedd haen Llawysgrif Hendregadredd ceir cyfres o bedwar englyn unodl union i Syr Rhys ap Gruffudd (o bosibl gan Einion Offeiriad),<sup>210</sup> ac yn ei gywydd ‘I Ddymuno Boddi’r Gŵr Eiddig’ cyfeirir ato gan Ddafydd ap Gwilym yn ogystal.<sup>211</sup>

Yng Ngramadeg Einion Offeiriad ceir nifer o gyfeiriadau mewn cerddi enghreifftiol at Angharad, gwraig Ieuan Llwyd, yn ogystal â chanu serch i uchelwragedd, englyn sydd yn cyfuno serch a natur ac awdl-gywydd sy'n dadlau o blaid goruchafiaeth yr ysgolhaig neu'r clerwr ar y llafurwr.<sup>212</sup> Ceir nifer o adleisiau o gyfuniadau geiriol ac ymadroddion (ac yn sicr themâu) rhai o'r enghreifftiau a ddefnyddir yn y Gramadegau ym marddoniaeth Dafydd ap Gwilym. Ymhlith y cerddi enghreifftiol a geir yn y Gramadegau y mae englyn i'r fwyalchen (a adleisir yn ‘Rhag Hyderu ar y Byd’, GDG, rhif 76.23–30). Mewn englyn enghreifftiol arall crybwyllir Creirwy, y cyfeiria Dafydd ap Gwilym ati yn ‘Y Ceiliog Bronfraith’ (GDG 123). Crybwyllir oed mewn coed mewn englyn enghreifftiol arall ac ymhlith y cywyddau enghreifftiol canu serch

---

<sup>208</sup> R. Geraint Gruffydd a Rhiannon Ifans (gol.), *Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug* (Aberystwyth, 1997), cerdd 1; Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300–1525* (Caerdydd, 2005), t. 25.

<sup>209</sup> GIG, cerdd I.

<sup>210</sup> Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hilynn ac Eraill*, cerdd 9; am grynodedd o gynnwys trydydd haen Llawysgrif Hendregadredd gw. *ibid.*, tt. 1–4.

<sup>211</sup> GDG, cerdd 75.2.

<sup>212</sup> Rachel Bromwich, *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym*, tt. 105–31; Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hilynn ac Eraill*, cerddi Atodiad C, cerddi 11, 12, 28, 29, 36 ac Atodiad D, cerdd 10.

yw pwnc tri ohonynt.<sup>213</sup> At hynny, o gofio cysylltiad Dafydd ap Gwilym ag Ieuan Llwyd ac Angharad a'u mab Rhydderch (a'u cysylltiad hwythau â'r enghreifftiau a geir yn y Gramadegau) y mae'n debygol y byddai Dafydd wedi gweld y Gramadegau drosto'i hun. Fel y pwysleisia Rachel Bromwich:

Dafydd ap Gwilym discovered *in writing* for the first time in the Bardic Grammar excerpts from the kind of popular poetry to whose influence he was peculiarly susceptible.<sup>214</sup>

Nid dadlau yn erbyn gwreiddioldeb Dafydd ap Gwilym yw amcan y sylwadau, eithr tynnu sylw at ei gyd-destun llenyddol.

### Ieuan ap Rhydderch

Er nad oedd Ieuan ap Rhydderch yn gyfoeswr i Ddafydd ap Gwilym, y mae cyfeiriadaeth ddysgedig yr ŵyr hwn, a fynychodd Brifysgol Rhydychen, yn atgyfnerthu'r dybiaeth fod y teulu diwylliedig wedi dylanwadu'n gryf ar Ddafydd o safbwynt hybu ei ymwybod ag arferion llythrennog y cyfnod. Yn ei gywydd i Ddewi Sant dywed Ieuan ap Rhydderch fel a ganlyn:

Wrth glybod chwedl tafod Dyfr,  
A darllain pob awdurlyfr  
O lyfr eurllythyr loywfraint,  
A sôn am fucheddau saint,<sup>215</sup>

Hysbys ddigon hefyd yw fod Ieuan ap Rhydderch yntau'n gyfarwydd ag Ofydd neu o'r hyn lleiaf y mae'r bardd yn honni gwybod amdano:

Da yw 'nghof am lyfr Ofydd:  
Dynion serchogion y sydd,<sup>216</sup>

---

<sup>213</sup> Ibid., 109–27.

<sup>214</sup> Ibid., t. 130.

<sup>215</sup> Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Ieuan ap Rhydderch* (Aberystwyth, 2003), cerdd 8.1–4.

<sup>216</sup> Ibid., cerdd 2.1–2; cf. GDG, cerdd 50.1.

Ymddengys o bryd i'w gilydd fod Ieuan ap Rhydderch yn adleisio barddoniaeth Dafydd ap Gwilym. Yn 'Cywydd y Cnau i'm Llaw' dywed:

Cynnydd serch, eurferch erfai,  
Cwrel irgyll mentyll Mai,  
Calennig fonheddig fwyn,  
Coelfain gan firain forwyn,<sup>217</sup>

Yn ei gywydd i'r adfail cân Dafydd ap Gwilym:

Forwyn, bonheddig fwyn fu,  
Hoywdwf yn ymgwyhydu,<sup>218</sup>

Ond hwyrach fod adleisiau Ieuan ap Rhydderch o gywydd Dafydd ap Gwilym i fis Mai yn amlycach:

Dan esgyll dail mentyll Mai.<sup>219</sup>

Yn ogystal â'r llinell hon:

Mygr irgyll mân defyll Mai.<sup>220</sup>

### Dafydd ap Gwilym a'r Eglwys

Un o sefydliadau mwyaf llythrennog yr Oesoedd Canol yng Nghymru, wrth gwrs, oedd yr Eglwys a cheir nifer o gyfeiriadau gan Ddafydd ap Gwilym sy'n deillio o'i ymwneud â'r sefydliad hwnnw. Ceir cyfeiriad ganddo at 'organ' yn 'Marwnad Madog Benfras' a 'Marwnad Gruffudd ab Adda'.<sup>221</sup> Mewn cywyddau serch hefyd, fe geir nifer o gyfeiriadau at yr offeryn.<sup>222</sup>

---

<sup>217</sup> Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Ieuan ap Rhydderch*, cerdd 2.29–32.

<sup>218</sup> GDG, cerdd 144.13–14.

<sup>219</sup> Ibid., cerdd 23.16.

<sup>220</sup> Ibid., ll. 42.

<sup>221</sup> Ibid., cerdd 19.33–4: 'Pefr organ, degau digeirdd/ Pennaeth barddoniaeth beirdd'; Ibid., cerdd 18.33–4: 'Ac organ dra diddan draidd/ Ac aur eos garuaidd'.

<sup>222</sup> Ibid., cerdd 29.17–18; Ibid., cerdd 123.5–6; Ibid., cerdd 71.19–22; Ibid., cerdd 45.53–4; Ibid., cerdd 34.3–4; Ibid., cerdd 28.15–16.

Fe'i cysylltir â'r offeryn hwnnw gan un o'i gyfoeswyr. Yn ei ymryson â Dafydd dywed Gruffudd Gryg fod barddoniaeth Dafydd ap Gwilym fel organ Bangor:

Ail yw'r organ ym Mangor;  
Rhai a'i cân er rhuo côr.  
Y flwyddyn, erlyn oerlef,  
Daith oer drud, y doeth i'r dref.  
Pawb o'i goffr a rôl offrwm  
O'r plwyf er a ganai'r plwm.<sup>223</sup>

Y feirniadaeth dan sylw gan Ruffudd Gryg yn y darn hwn yw mai sioe un-nos heb werth parhaol yw barddoniaeth Dafydd ap Gwilym, ac nad oes un rhinwedd arhosol iddi heblaw am newydd-deb y pwnc. Cyfeddyf Dafydd yn ei ail gywydd ymryson â Gruffudd i fardd arall o'r enw Tudur ap Cyfnerth dynnu ei sylw at y gymhariaeth honno rhwng ei farddoniaeth ac organ:

Llyma'r dyst, lle mae'r destun,  
Gwardd hir, yn ei gerdd ei hun.  
Cynt i'n gŵydd y cant yn gerth  
Cefnir Dudur ap Cyfnerth  
Ym, a'r march gwŷdd, hydd hoywddaint,  
Ac i'r organ, simpian saint,<sup>224</sup>

Tybed nad oes cyfaddefiad o hyn yng ngeiriau Dafydd ei hun yn y cywydd 'Talu Dyled'?<sup>225</sup> Ceir adlais o'r *ennui* a deimla'r bardd pan ddisgrifia'r modd yr aeth ei ganu yn dôn gron i'w glust ei hun:

Unllais wyf, yn lle y safai,  
Â'r gog, morwyn gyflog Mai.  
Honno ni feidr o'i hannwyd  
Eithr un llais â'i thoryn llwyd.  
Ni thau y gog â'i chogor,  
Crygu mae rhwng craig a môr;  
Ni chân gywydd, lonydd lw,  
Nag acen onid 'Gwcw.'<sup>226</sup>

---

<sup>223</sup> Ibid., cerdd 149.35–40.

<sup>224</sup> Ibid., cerdd 150.13–18.

<sup>225</sup> Ibid., cerdd 34.

<sup>226</sup> Ibid., llau. 31–8.

Pwysodd Saunders Lewis ar y dystiolaeth fewnol a gynigia cywyddau Dafydd ap Gwilym i ddangos ei fod yn gyfarwydd â'r eglwys.<sup>227</sup> Tynnir sylw at yr ysgol gân (*schola cantorum*) yn Llanbadarn Fawr a dyfynnir o gywydd Dafydd i'r ehedydd:

Cantor o gapel Celi,  
Coel fydd teg, celfydd wyd di.  
Cyfan ffraint, aml gywraint gân,  
Copa llwyd yw'r cap llydan.<sup>228</sup>

Prawf y llinellau hyn ym marn Saunders Lewis fod Dafydd yn gyfarwydd â champau cantor yng nghân yr offeren a'r *opus Dei*. Geilw Dafydd y cantor hwn 'fy mrawd awdurdawd'. Eithr, yr hyn sydd yn garn i'r ddadl dros gynefindra Dafydd ap Gwilym â'r Eglwys yw'r nifer o dermau cerddorol technegol a geir gan Dafydd yn ei gywyddau. Er enghraifft, yn ei gywydd 'I'r Gainc' dywed:

Dysgais ryw baradwysgainc  
Â'r dwylo mau ar dâl mainc  
A'r dysgiad, diwygiad dyn,  
Eurai dalm ar y delyn.<sup>229</sup>

Ond mwy arwyddocaol o ran dylanwad amlwg yr Eglwys ar farddoniaeth Dafydd ap Gwilym yw'r cwpled a ganlyn:

Solffeais o'm salw ffuaint  
Salm rwydd, ys aelaw fy mraint,<sup>230</sup>

Os yw'r gair 'ffuaint' yn gysylltiedig â'r gair 'hocet', gyda'r ystyr 'llais uwch yn torri ar y motet', y mae'n derm cerddorol eglwysig eithaf technegol.<sup>231</sup> At hynny, arddengys Dafydd ap Gwilym gryn feistrolaeth arbenigol pan ddisgrifia ferch yn ei gywydd 'Y Gwayw':

Yn gwarando salm balchnoe

---

<sup>227</sup> Saunders Lewis, 'Dafydd ap Gwilym', *Meistri'r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973), tt. 45–55.

<sup>228</sup> GDG, cerdd 114.27–30.

<sup>229</sup> Ibid., cerdd 142.1–4

<sup>230</sup> Ibid., llau. 13–14.

<sup>231</sup> Saunders Lewis, 'Dafydd ap Gwilym', tt. 48–9.

Yng nghôr Deinioel Bangor doe.<sup>232</sup>

Cyfeirio y mae 'salm Balchnoe', yn ôl Saunders Lewis, at naill ai pennod 54 o Lyfr Eseia neu at enw ar dôn y cenid y salmau arni, sydd yn dadlennu gwybodaeth gerddorol arbenigol Dafydd ap Gwilym.<sup>233</sup> Ar y llaw arall, y mae J.E. Caerwyn Williams wedi dadlau'n argyhoeddiadol mai 'arch Noa' yw ystyr yr ymadrodd, a'i bod yn bosibl bod y cwpled yn gyfeiriad at ddrama'r Dilyw a welodd Dafydd ap Gwilym yn yr eglwys, sef y math o gyfeiriadaeth yn ôl J.E. Caerwyn Williams sydd yn brawf o wir ddiddordeb y bardd yn yr Eglwys.<sup>234</sup> Yn y cywydd 'Cyngor gan Frawd Llwyd' gwelir rhagor o dystiolaeth o gynefindra Dafydd ap Gwilym â'r Eglwys:

Doe ym mherigl y ciglef  
Englyn aur angel o nef,  
Ac adrodd pynciau godrist,  
Ac adail gron, ac awdl Grist.<sup>235</sup>

Nid yw'r dystiolaeth hon yn profi bod Dafydd ap Gwilym yn glerigwr ond fe ddengys ei ddefnydd o eirfa arbenigol yn ei farddoniaeth fod defodau'r Eglwys yn rhan annatod o'i gynhyrsgaeth a'i ddychymyg. Yn 'Y Bardd a'r Brawd Llwyd' gwelir Dafydd yn myfyrio ar arferion addoli ei gyfnod ac yn gweld cyffelybiaethau rhwng byd y bardd a'r Eglwys:

Pand englynion ac odlau  
Yw'r hymnau a'r segwensiau?  
A chywyddau i Dduw lwyd  
Yw sallwyr Dafydd Broffwyd.<sup>236</sup>

Y mae'n anodd peidio â meddwl mai bardd sydd wedi dwys ystyried mydrau canu eglwysig a lleygol sydd yn canu mewn cwpledi o'r fath.<sup>237</sup> Ar ben hynny, canodd

---

<sup>232</sup> GDG, cerdd 111.5.

<sup>233</sup> Saunders Lewis, 'Dafydd ap Gwilym', tt. 48–9.

<sup>234</sup> J. E. Caerwyn Williams, 'Balchnoe', *Y Traethodydd*, 134 (1979), 139–141. Gw. hefyd T. M. Chotzen, 'Balchnoe', *Revue celtique*, 44 (1927), 68–75) ac Enid Roberts, 'Dafydd ap Gwilym a Bangor', *Yr Haul a'r Gangell* (1982), 14–21.

<sup>235</sup> GDG, cerdd 136.1–4.

<sup>236</sup> *Ibid.*, cerdd 137.57–60.

Dafydd ap Gwilym ar yr hyn a elwir yn ‘gynllun trop neu segwens’ yn ei englynion ar weddi a adroddid yn ystod yr offeren gan gychwyn ag:

Anima Christi, sanctifica me.  
Enwog, trugarog, annwyd Tri—ac Un,<sup>238</sup>

Gweddi breifat oedd yr *Anima Christi* a ddaeth yn boblogaidd o’r drydedd ganrif ar ddeg ymlaen.<sup>239</sup> Fe’i cofnodwyd mewn gwahanol fersiynau ar draws Ewrop, ond englynion Dafydd ap Gwilym yw’r ffurf gynharaf ar glawr yng Nghymru. Gweddi lafar breifat oedd yr Anima Christi ac, o bosibl, achlysur ei chanu yn ôl un dehongliad diweddar oedd gŵyl arbennig neu achlysur eglwysig arbennig.<sup>240</sup> Yr unig gerdd arall y daethpwyd ar ei thraws hyd yma wedi ei seilio ar y weddi yw cywydd Ieuan Brydydd Hir i’r grog yn Aberhonddu.<sup>241</sup> Yn ôl disgrifiad Tudur Penllyn o Ieuan Brydydd Hir yr oedd Ieuan yn fardd ‘o fryd crefyddol anghyffredin.’<sup>242</sup> Prawf o’i anian yw canran y cerddi crefyddol sydd ar ei enw o’u cymharu â’i gerddi eraill.<sup>243</sup> Er nad ystyrir Dafydd ap Gwilym yn fardd crefyddol fel y cyfryw gan lawer o feirniaid llenyddol erys swrn o gyfeiriadau at fyd crefydd yn ei waith. Un o’r cywyddau lle y ceir tyndra rhwng crefydd a serch yw ‘Gwadu Iddo Fod yn fynach’.<sup>244</sup> Ceir cwpledi mor uniongyrchol â’r hyn a ganlyn ynddo:

Ni bydd dy Ofydd difai,  
Ni bûm nofis un mis Mai;  
Ni wisgais, dileais lid,

---

<sup>237</sup> Gweler hefyd erthygl Morgan Thomas Davies, ‘Dafydd ap Gwilym and the friars: The poetics of antimendicancy’, *SC*, 29 (1995), 237–55.

<sup>238</sup> GDG, cerdd 2. 1–2.

<sup>239</sup> Brynley F. Roberts, ‘Tri chyfieithiad Cymraeg o’r weddi “Anima Christi”’, *BBGC*, 16 (1954–6), 268–71.

<sup>240</sup> Paul Bryant-Quin, ‘Ailystyried “Englynion yr Offeren” gan Ddafydd ap Gwilym’, *Dwned*, 7 (2001), 35.

<sup>241</sup> Idem, ‘Enaid y Gwir Oleuni’: Y Grog yn Aberhonddu’, *Dwned*, 2 (Hydref 1996), 51–93; Idem, *Gwaith Ieuan Brydydd Hir* (Aberystwyth, 2000), cerdd 12.

<sup>242</sup> *Ibid.*, 3.

<sup>243</sup> *Ibid.*, *passim*.

<sup>244</sup> GDG, cerdd 35.

Na gwiwben gwfl nac abid;<sup>245</sup>

Myn y bardd hefyd yn blwmp ac yn blaen na dderbyniodd fawr o addysg ffurfiol:

Ni ddysgais, gwbl drais o drin,  
Ar wiw ledr air o Ladin.<sup>246</sup>

Fodd bynnag, dylid bob amser drin datganiadau moelion o'r fath gan Ddafydd ap Gwilym yn ofalus iawn. Ef yw awdur 'Englynion yr Offeren' (neu englynion yr *Anima Christi* i fod yn fanwl gywir) lle yr arddangosir cynefindra pur drylwyr ag ystyron geiriau Lladin y weddi honno.<sup>247</sup>

Creadigaeth farddol ydyw'r sgwrs rhwng Dafydd a'i gariad yn 'Gwadu Iddo Fod yn Fynach', ac efallai mai testun digrifwch mawr i'r gynulleidfa fyddai clywed Dafydd yn taeru du yn wyn er mwyn ennill ffafr Morfudd. Ceir enghreifftiau eraill o'r math hwn o chwarae â disgwyliadau'r gynulleidfa yn 'Merched Llanbadarn', er enghraifft, lle y ceir dau ddarlun cwbl gyferbyniol i'w gilydd o'r un gŵr, sef Dafydd. Yn y lle cyntaf, dywed Dafydd:

Nid oedd gywilydd iddi  
Yng ngwâl dail fy ngweled i.<sup>248</sup>

Fodd bynnag, pur wahanol yw barn aelodau'r rhyw deg amdano:

Y mab llwyd wyneb mursen  
A gwallt ei chwaer ar ei ben,<sup>249</sup>

Sylwer hefyd ar yr ansoddair 'llwyd' a ddefnyddir, a eill fod yn gyfeiriad at gysylltiadau eglwysig Dafydd, sydd yn amwys gan y gallai gyfeirio at liw afiach ei groen.

---

<sup>245</sup> Ibid., llau. 43–6.

<sup>246</sup> Ibid., llau. 47–8.

<sup>247</sup> GDG, cerdd 2. Paul Bryant-Quin, 'Ailystyried "Englynion yr Offeren" gan Ddafydd ap Gwilym', 27–42.

<sup>248</sup> GDG, cerdd 48.11–12.

<sup>249</sup> Ibid., llau. 27–8.

At hynny, rhaid ystyried yr hyn a ddywed Dafydd ar gychwyn y cywydd ‘Gwadu Iddo Fod yn Fynach’ lle yr holir Morfudd ai gwir y sibrydion ei bod hi am ymadael ag ef:

Gwawr eurner, ai gwir arnad  
Ddywedud na fynnod, fun,  
Oer chwarae, wŷr â chorun.<sup>250</sup>

Dengys hyn fod moelni o ryw fath ar gorun Dafydd, pa un ai moelni a berthyn i urdd eglwysig, neu’r corun a oedd gan fyfyrwyr israddedig yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg a’r bymthegfed ydyw ynteu ai colli gwallt yn naturiol ydyw: amwysedd bwriadol sydd yma.<sup>251</sup> Efallai mai ergyd gellweirus yr ymadrodd ‘wŷr â chorun’ yw bod Dafydd ap Gwilym yn dechrau colli’i wallt, ac wedi troi hyn yn destun digrifwch drwy awgrymu ei fod bellach yn grefyddwr, er y byddai’r gynulleidfa yn llawn sylweddoli na fu’r un *persona* barddol llai tebyg i fynach ar glawr daear. Yn y cwpledi a ganlyn ymddengys fod Dafydd ap Gwilym yn gwahaniaethu rhyngddo ef a ‘gŵr o grefydd’:

Os gwrthod, ffyrf amod ffydd,  
Gorug rwyf, gŵr o grefydd,  
Er gemau, aur ac owmal,  
I ti, fy nyn euraid dâl,  
Bodlon wyf is bedwlwyn ir,  
Eto fun, yty feinir.<sup>252</sup>

Wedyn geilw Dafydd ei foelni yn ‘aur gorun’, sy’n ddisgrifiad gorawenus a hunanwawdiol o’i wallt golau neu ei foelni:

Os tremyg, hoen lathrfrig haf,  
Fy nghrair, neu ornair arnaf,  
Forfudd hael fwyarael fun,  
Fu’r gair am fy aur gorun,  
Rhyddwys, fy mun rieiddawg,  
Y rhoist y destun yrhawg.<sup>253</sup>

---

<sup>250</sup> Ibid., 35.8–10.

<sup>251</sup> D.J. Bowen ‘Nodiadau ar waith y cywyddwyr’, BBGC, 25 (1973–4), 22–3.

<sup>252</sup> GDG, cerdd 35.13–18.

<sup>253</sup> Ibid., llau. 19–24.

Yn ôl golygiad Thomas Parry, gwadu a wna Dafydd ap Gwilym ei fod yn destun dirmyg yn y cwpledi hyn:

Nid oes testun, fun feinael,  
Ar brydydd hoyw Forfudd hael,  
Er syrthio o'r gwallt, cwnsallt cur,  
I ar fy iad, erfai awdur.<sup>254</sup>

Ni cheir ymgais o gwbl yn y cywydd i wadu fod ei gorun fel eiddo mynach. Ond yn ôl golygiad newydd o waith Dafydd ap Gwilym ceir:

Nid nes testun fun feinael,  
Ar brydydd hoyw Forfudd hael,  
Er syrthio, breuddwydio brad,  
Wyth gur, ei wallt o'th gariad.<sup>255</sup>

Ceir y darlleniadau hyn yn Llyfr Wiliam Mathew, y ceir copi ohono yn Pen 49, ac y maent yn ddadlennol oherwydd bod Dafydd ap Gwilym yn datgan yn blwmp ac yn blaen ei fod wedi colli'i wallt yn sgil ei berthynas helbulus â Morfudd (ac nid oherwydd iddo ymuno ag urdd eglwysig).

Y mae 'Rhybudd Brawd Du', fodd bynnag, yn gywydd lle y mae gan Ddafydd lai o gydymdeimlad ag achos y brawd nag oedd ganddo yn 'Cyngor gan Frawd Llwyd'.<sup>256</sup>

Y mae ei ddisgrifiad o'r brawd yn llai parchus y tro hwn. Bellach nid 'Mab Mair' mohono eithr 'padriarch' a geilw eu cred yn 'ffydd ffalsddull' sydd wedi ymledu dros 'yr hollfyd yn rhull'.<sup>257</sup> Er hynny, sylwer mai 'ffalsddull' yw dewis ansoddair cyfansawdd Dafydd ac nid 'ffals'. Bron nad oes beirniadaeth ar foddau'r Dominiciaid (y gallai fod wedi dod ar eu traws ym Mangor neu yn wir yng Nghaerdydd<sup>258</sup>). Gellir

---

<sup>254</sup> Ibid., llau. 39–42.

<sup>255</sup> Gw. <http://www.dafyddapgwilym.net> (cerdd 106 sy'n dwyn y teitl newydd 'Gwawd Morfudd'). [cyrchwyd 13 Ebrill 2007]

<sup>256</sup> GDG, cerdd 138.

<sup>257</sup> Ibid., llau. 2–6.

<sup>258</sup> Sonia Dafydd am 'Gaerdyf' yn ei fawl i Fasaleg (GDG, cerdd 8.10).

ymglywed â'r dirmyg sydd ynghlwm wrth ystyr y cwpledi hyn. Dywed Dafydd mai pobl wasaidd a dramwyai'r wlad yn ddiamcan fesul dau fel ychen oeddent:

Bwl gwfaint, bobl ogyfoed,  
Bob dau dan yr iau erioed.<sup>259</sup>

Ceir rhagor o feirniadaeth *ad hominem* ganddo:

Yna y cefais druth atgas  
Gan y brawd â'r genau bras ...  
Llyma fel y cynghores  
Y brawd â'r prudd dafawd pres ...  
Yna y dywedais wrthaw,  
'Y brawd du, ie, bry, taw';<sup>260</sup>

Sylwer eto mai'r elfen bregethwrol sydd yn dân ar groen Dafydd. Cyfeiria at 'druth atgas', 'genau bras', 'prudd dafawd pres' (o'u cyferbynnu ag "englynion ac odlau" a "hymnau a segwensiau") hyd nes y bu'n rhaid i Ddafydd ddweud wrtho am gau ei geg. Myn Dafydd fod y brawd yn ceisio gwyrddroi ei 'gredoau':

Yn ceisio, nid cyswllt rhwydd,  
Fy llygru â'i haerllugrwydd.<sup>261</sup>

Y mae'r enw 'haerllugrwydd' yn drymlwythog o ystyr yn y cyd-destun hwn. Ceir ynddo sawr protestiadau'r uchelwr yn erbyn gorfod cymryd cyngor gan ŵr o ychydig ddiwylliant, coethder a statws. Eithr nid oes dim beirniadaeth ar gynnwys pregeth y 'padriarch' hwn oherwydd canolbwynt ei feirniadaeth yw'r dulliau amrwd o bregethwrol—y ffurf ac nid y cynnwys sydd yn dân ar groen Dafydd ap Gwilym.

Canodd Dafydd ap Gwilym hefyd i Hywel ap Dafydd, deon Bangor lle y'i gelwir:

Teyrn llwyd, broffwyd hil Brân,—mae ungwr  
Ym Mangor mewn gŵn pân,<sup>262</sup>

---

<sup>259</sup> Ibid., llau. 7–8.

<sup>260</sup> Ibid., llau. 9–10; 13–14; 27–8.

<sup>261</sup> Ibid., llau. 11–12.

<sup>262</sup> Ibid., cerdd 15.9–10.

‘Llwyd’ yw’r union epithet a ddefnyddir i ddisgrifio Dafydd yn eglwys Llanbadarn, ond y tro hwn y mae’r elfen wawdiol ac ysmala yn absennol.<sup>263</sup> Er bod enghreifftiau lawer gennym mewn barddoniaeth Gymraeg o grefyddwyr yn noddi beirdd nid oes dim tystiolaeth fod beirdd yn derbyn hyfforddiant barddol mewn mynachlogydd.<sup>264</sup> Ar y llaw arall, yr oedd gan grefyddwyr gryn ddylanwad ar addysg y beirdd. Fel y gwelir uchod, priodolir Gramadegau’r Penceirddiaid i grefyddwr o’r enw Einion Offeiriad ac i’r offeiriad Dafydd Ddu Athro o Hiraddug.<sup>265</sup> Felly nid oes amheuaeth y bu crefyddwyr yn ddylanwad amlwg ar farddoniaeth, a hynny yn achos Dafydd ap Gwilym mewn modd uniongyrchol iawn.<sup>266</sup>

## Ystoria

---

Ymateb y bardd i ddarlun yw ‘Lluniau Crist a’i Apostolion’ ac wrth grynhai ei fyfyrion ar ddiwedd y cywydd dywed a ganlyn:

Ystyr doeth ystoria deg  
Dydd y cafas y deuddeg  
Cerdded y byd gyd ag ef,  
Cain dyddyn, cyn dioddef.<sup>267</sup>

Fel yr esbonia Dr Brynley F. Roberts yr oedd gan y gair *ystoria* ystyr benodol yn yr Oesoedd Canol.<sup>268</sup> Fe’i cysylltir â stori o darddiad ysgrifenedig, ac yn aml â chyfieithadau: er enghraifft, *Ystoriaeu Seint Greal* neu *Ystoria Bown de Hamtwn*.<sup>269</sup>

Y tarddiad ysgrifenedig yn achos y cwpled uchod, wrth gwrs, yw’r Beibl.

---

<sup>263</sup> Gw. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill*, cerdd 4.

<sup>264</sup> E. I. Rowlands, ‘Bardic lore and education’, 144.

<sup>265</sup> J. E. Lloyd ac R.T. Jenkins (gol.), *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Caerdydd, 1954), t. 92.

<sup>266</sup> E. I. Rowlands, ‘Bardic lore and education’, 144.

<sup>267</sup> GDG, cerdd 4.41–4.

<sup>268</sup> Brynley F. Roberts, *Studies on Middle Welsh Literature* (Llanbedr Pont Steffan, 1992), t. 11.

<sup>269</sup> Thomas Jones (gol.), *Ystoriaeu Seint Greal* (Caerdydd, 1992); Morgan Watkin (gol.), *Ystoria Bown de Hamtwn* (Caerdydd, 1958).

## Yr Eglwys yn Llanbadarn

---

Nid oedd nac eglwys na chapel ar gael ar gyfer bwrdeisiaid Aberystwyth tan ddiwedd yr Oesoedd Canol. Byddai'n rhaid i'r bwrdeisiaid felly deithio draw i eglwys Llanbadarn Fawr bob bore dydd Sul. Y mae'n debyg fod bwrdeisiaid ymhlith y rhai a ddisgrifir gan Ddafydd ap Gwilym yn ei gywydd 'Merched Llanbadarn'.<sup>270</sup> Yr oedd hi'n bell i gerdded o Aberystwyth i Lanbadarn Fawr ar draws Cwm Rheidol a chyn diwedd canol y bymthegfed ganrif codwyd eglwys i Fair Wryf yn y dref. Fodd bynnag, hyd yn oed ar ôl codi'r eglwys newydd byddai bwrdeisiaid Aberystwyth yn ymfalchïo yn eu heglwys yn Llanbadarn Fawr, gan ei henwoced:

One may well imagine the pride with which Aberystwyth folk cherished the proximity of this ancient shrine and the distinguished tradition it embodied.<sup>271</sup>

Er nad oedd bwriadau Dafydd ap Gwilym yn ddyrchafol iawn, yr eglwys hon yn Llanbadarn oedd llwyfan un o'i gywyddau mwyaf adnabyddus, sef 'Merched Llanbadarn', lle y tybia o leiaf un beirniad llenyddol diweddar fod y bardd yn tynnu sylw at falchder fel un o'r saith pechod marwol.<sup>272</sup>

## Llafaredd Dafydd ap Gwilym

---

Er hynny, hyd yn oed mewn cyd-destun eglwysig pwysleisir y wedd lafar gan Ddafydd ap Gwilym. Ei weld ei hun fel aderyn yn *canu* mawl, er enghraifft, a wna Dafydd yn y cywydd 'Mawl i'r Haf' lle y personolir yr haf sydd yn datgan wrtho:

Taw, fawlfardd, tau ofalfydr,  
Taw, fost feistrawl hudawl hydr.<sup>273</sup>

---

<sup>270</sup> GDG, cerdd 48.

<sup>271</sup> R. A. Griffiths, 'The study of the medieval Welsh borough', t. 21.

<sup>272</sup> Bleddyn O. Huws, "'Dros fy mhlu ar draws fy mhlwyf": Golwg newydd ar "blu" Dafydd ap Gwilym", *Dwned*, 10 (2004), 33–55.

<sup>273</sup> GDG, cerdd 27.31–2.

Yn un o gywyddau Dafydd ap Gwilym i'r ceiliog bronfraith awgrymir bod cymhariaeth rhwng beirdd o'r un anian â Dafydd ag aderyn 'serchog ei sôn'.<sup>274</sup> Dywedir hefyd ei fod yn greadur 'dilediaith' a sonnir am ei chwibaniad bach pêr fel plethiad, hynny yw, fel gwrthrych diriaethol a delweddir llais fel adeiladwaith cain. Ar y llaw arall, er mai ar yr elfen lafar y mae'r pwyslais yn y lle cyntaf buan y try Dafydd ei sylw at gymharu'r ceiliog â chlerigwr:

Plygain y darllain deirllith,  
Plu yw ei gasul i'n plith<sup>275</sup>

Sylwer mai 'darllain' y tair llith a wna'r aderyn. Fodd bynnag, yn y cwpled nesaf gwelir mai 'pell y clywir ... ei lef'. Cyfunir a chymysgir yr elfen lafar a'r elfen ysgrifenedig blith draphlith.

### Aberystwyth Drefol

Law yn llaw â thwf llythrennedd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg âi twf y trefydd. Byth oddi ar gychwyn codi caerau Aberystwyth yn y drydedd ganrif ar ddeg caniatawyd i daeogion ennill eu rhyddid os oeddent yn berchen ar dir ac yn byw am flwyddyn o fewn caerau'r dref. Yr oedd yr arfer hwn yn gyffredin mewn trefydd yn yr Oesoedd Canol er nad oedd hawl i unrhyw Gymro, heb sôn am daeogion o Gymry, drigo yn y dref yng Nghaerfyrddin ac yn Aberteifi. Hyd yn oed yn ystod teyrnasiad Edward I, yr oedd nifer go helaeth o Gymry yn fwrdeisiaid yn Aberystwyth.<sup>276</sup> Yn wahanol i'r drefn yng Nghaerfyrddin ac Aberteifi ni wahaniaethwyd o'r dechrau rhwng Cymro a Sais o safbwynt breintiau gweinyddol ac awdurdodol.<sup>277</sup>

---

<sup>274</sup> Ibid., cerdd 28.1.

<sup>275</sup> Ibid., llau. 7–8.

<sup>276</sup> R. A. Griffiths, 'The Study of the Medieval Welsh Borough', t. 32. Gweler hefyd J. B. Smith, 'The foundation of the borough' yn Ieuan Gwynedd Jones (gol.), *Aberystwyth 1277–1977* (Llandysul, 1977), tt. 14–27.

<sup>277</sup> R. A. Griffiths, 'The Study of the Medieval Welsh Borough', t. 33.

Diogelwyd pwysigrwydd Aberystwyth fel canolfan fasnachol oherwydd bod gan y dref ddalgylch masnachol o bymtheng milltir o 1303 ymlaen. Golygai hyn na allai neb mewn ardal gyfagos werthu na phrynu nwyddau tu allan i'r ffair neu'r farchnad yn Aberystwyth.<sup>278</sup> Yn 1305 gorchmynnodd Edward o Gaernarfon (a fyddai'n cael ei goroni'n Edward II yn ddiweddarach) na ddylid ffeirio nwyddau rhwng afonydd Aeron a Dyfi ac eithrio yn Aberystwyth. Parodd hyn i bwysigrwydd tref Aberystwyth gynyddu'n fawr.

Eithr, dim ond ar 12 Mehefin 1380 y rhoddwyd i'r bwrdeisiaid yr hawliau cyfreithiol a gweinyddol a oedd yn golygu y byddai Aberystwyth yn debycach i fwrdeistrefi brenhinol eraill y cyfnod. Mesurau a hawliau plwyfol a hiliol oedd y rhain yn bennaf. O hynny allan ni allai bwrdeisiaid gael eu cosbi am droseddau yn erbyn dieithriaid neu bobl nad oeddynt yn fwrdeisiaid, sef yn anad neb y Cymry. Hynny yw, byddai bwrdaid o Aberystwyth yn atebol am droseddau a gyflawnwyd ganddo yn erbyn ei gyd-fwrdeisiaid neu yn erbyn Saeson o fwrdeistrefi eraill yn unig. Trwy fesur o'r fath, sicrhawyd bod trwch y Cymry yn aelodau eilradd o gymdeithas yn llygaid cyfraith Lloegr.

Mesur arall a gyflwynwyd ar yr un adeg oedd rhoi'r hawl i swyddogion y dref weinyddu gwritiau'r brenin a olygai y byddai gan y dref rywfaint o annibyniaeth oddi ar swyddogion brenhinol allanol.<sup>279</sup> Ymhlyg yn y mesur newydd hwn y mae'r awgrym fod y bwrdeisiaid wedi bod yn anfodlon ar yr ymyrraeth o du'r swyddogion brenhinol dieithr cyn hynny.

---

<sup>278</sup> Ibid.

<sup>279</sup> Ibid., t. 34.

Yr oedd trefniadau cyfreithiol Aberystwyth yn gymharol syml. Erbyn 1278 penodwyd prif ynad neu feili a thua'r un adeg cynhaliwyd llys i fynd i'r afael â throseddau'r fwrdeistref.<sup>280</sup> Fodd bynnag, yn 1336 penderfynodd Edward, y Tywysog Du, dynhau ei afael ar Aberystwyth drwy fynnu na fyddai cyllid y fwrdeistref yn cael ei rannu ymhlith bwrdeisiaid Aberystwyth. Yn lle hynny byddai'r arian yn mynd i goffrau cwnstabl castell Aberteifi, sef Gilbert de Turberville, fel cyfraniad at ei ffioedd. Bu farw Gilbert Turberville yn 1347 ond yn fuan wedi hynny penderfynodd y Tywysog Du y dylai'r cyllid fynd i goffrau cwnstabl castell Aberystwyth. Y gŵr cyntaf i ddal y swydd honno yn 1352 oedd Robert de Stretton, a oedd hefyd yn rheithor yn eglwys Llanbadarn Fawr. Sicraodd hyn fod cysylltiad pendant a chryf rhwng y fwrdeistref a Llanbadarn Fawr.<sup>281</sup>

Fodd bynnag, y castell oedd *raison d'être* Aberystwyth. Swyddogaeth eilradd a oedd i'r ffair a'r farchnad o'i chymharu â swyddogaeth strategol y castell yn ystod yr Oesoedd Canol. Yn ôl R. A. Griffiths:

The economic activities of the townsmen revolved around the castle, its constable and its garrison, the developing fishing industry and the popularity of the borough's fairs. Tradesmen and craftsmen involved with the building trade were regularly employed in repairing the fabric of both castle and town: merchants and shopkeepers supplied wine and food to the castle's garrison; and carriers and others were available to bring hay and timber from the demesnes belonging to the castle.<sup>282</sup>

Ar y llaw arall, ni fu Aberystwyth erioed yn fwrdeistref fawr nac yn ganolfan o bwys mawr. Gorffennwyd cynnal y Prif Ynadlys yn Aberystwyth yn 1329, a bychan iawn oedd swyddogaeth weinyddol Aberystwyth oherwydd ei bod yng nghysgod Aberteifi

---

<sup>280</sup> Ibid.

<sup>281</sup> Ibid., t. 35.

<sup>282</sup> Ibid.

a Chaerfyrddin a oedd yn ganolfannau brenhinol pwysicach o lawer.<sup>283</sup> Yn sgil hyn, ni thyfodd Aberystwyth nac yn gyflym nac ar raddfa fawr. Nid oes ryfedd felly pan ymwelai Dafydd ap Gwilym â'r fwrdeistref fod y castell yn bwrw cysgod mawr dros y dref fechan hon. Yn ôl R. A. Griffiths:

The town was physically dominated by its castle, capping the headland and hovering above the cliffs.<sup>284</sup>

Nid yw'n syndod felly fod themâu, ieithwedd a geirfa oll yn ymwneud â threfi wedi ymddangos yn helaethach yng ngwaith y Cywyddwyr cynnar nag erioed o'r blaen mewn barddoniaeth Gymraeg, yn enwedig o gofio bod oddeutu wyth mil o'r bwrdeisiaid yng Nghymru erbyn hyn yn Gymry canhwynol. At hynny, yr oedd bywyd masnachol y trefydd yn golygu y byddai hi'n anodd i neb yng Nghymru osgoi eu dylanwad yn gyfan gwbl.

Yn ôl R. A. Griffiths:

The attitude of rural folk to the borough and its inhabitants is revealed somewhat fortuitously by occasional literary remains. These mirror, at least in part, the tensions which existed between burgess and country dweller, tensions which were more pronounced in Wales because of the historical association of the borough with the castle, the conqueror and the alien, privileged migrant.<sup>285</sup>

### 'Athrodi ei Was'

Un enghraifft o fardd y bedwaredd ganrif ar ddeg yn dod wyneb yn wyneb â'r profiad dinesig yw'r cywydd, 'Athrodi ei Was'.<sup>286</sup> Cywydd ydyw sy'n olrhain profiad chwithig a gafodd Dafydd ap Gwilym yn Niwbwrch (er nad enwir Niwbwrch). Rhosyr, sef enw'r lle cyn i'r dref newydd Niwbwrch gael ei chodi ar ei ben, yw'r enw a ddefnyddir gan Ddafydd:

---

<sup>283</sup> Ibid., t. 36.

<sup>284</sup> Ibid.

<sup>285</sup> Ibid., t. 9.

<sup>286</sup> GDG, cerdd 128.

Gŵyl Bedr y bŵm yn edrych  
Yn Rhosyr, lle aml gwŷr gwych,<sup>287</sup>

Gyda'r fath gwpled agoriadol gellir yn hawdd tybio mai cychwyn ar gywydd mawl yr ydys. Â Dafydd yn ei flaen i ddisgrifio rhai o drigolion y dref newydd hon y mae wedi sylwi arnynt:

Ar drwsiad pobl aur drysor,  
Ac ar llu Môn gerllaw môr.<sup>288</sup>

Eithr, daw gwir wrthrych ei sylw i'r golwg yn y cwpledi canmoliaethus dilynol:

Yno 'dd oedd, haul Wynedd yw,  
Yn danrhwyg, Enid unrhyw,  
Gwanddyn mynyglgrwn gwynddoeth,  
A gwych oedd a gwiw a choeth.<sup>289</sup>

Yn wir, mor ysblennydd yw'r ail Enid hon fel y'i cymherir â 'delw Fair fyw'.<sup>290</sup> Anodd, o'r herwydd, yn nhyb y bardd, yw sylwi ar ddim arall yn y dref. Cywesgir ymateb Dafydd ap Gwilym i Niwbwrch i ambell sangiad yma ac acw. Eisoës yr ydym wedi gweld mai lle i 'aml gwŷr gwych' yw Rhosyr/Niwbwrch lle gwisga'r trigolion yn well na'u cymheiriaid yn y wlad, 'pobl aur drysor', ond yr hyn sydd fwyaf cyson yn nisgrifiadau Dafydd o'r dref yw'r torfeydd sy'n tramwyo trwyddi. Sonia am 'y byd' yn chwennych 'Enid unrhyw' a dywed yn ddiweddarach:<sup>291</sup>

Rhyfedd fu gan y lluoedd<sup>292</sup>

Yn y tafarn neu'r gwesty rhoddir amcanrif ar y nifer o bobl o'i amgylch:

Troes ugain i'm traws ogylch  
O'm cyd-wtreswyr i'm cylch.<sup>293</sup>

Gwedd arall ar ei brofiad yw dieithrwch y dref a fynegir gan eilun ei addoliad:

---

<sup>287</sup> Ibid., llau. 1–2.

<sup>288</sup> Ibid., llau. 3–4.

<sup>289</sup> Ibid., llau. 5–8.

<sup>290</sup> Ibid., ll. 10.

<sup>291</sup> Ibid., ll. 11.

<sup>292</sup> Ibid., ll. 13.

<sup>293</sup> Ibid., ll. 23.

Pond cyffredin y dinas?  
Paham na'th adwaenam, was?<sup>294</sup>

Gair mwys yw 'cyffredin' y cwpled hwn. Y mae'n bosibl bod y ferch yn defnyddio'r gair fel enw i ddisgrifio'r gwas. Ar y llaw arall, y mae'n bosibl mai ansoddair sydd dan sylw a ddefnyddir fel ebychnod i ddisgrifio cyflwr moesol y dref (gan awgrymu'r gwahaniaethau rhwng y dref a'r wlad). Byd prysur a thrysfawr sydd yn y dref hon, a byd lle y mae'r rhuthr wedi creu dieithrwch ac amheuan lu. Wrth ymateb i gais llatai Dafydd dywed y ferch:

Pell ynfyd yw, pwyll anfoes,  
Pei rhôn, gofyn pwy a'i rhoes.<sup>295</sup>

Byd llafar ydyw hefyd. Wrth fynnu cael y gwir gan y gwas dywed y ferch:

Pei rhôn, gofyn pwy a'i rhoes<sup>296</sup>

Neu yn ôl y golygiad newydd:

Pei rhôn, dywaid pwy a'i rhoes<sup>297</sup>

Dyma bwysleisio'r llafaredd fwyfwy. Pan glyw'r ferch pwy sydd wedi anfon y llatai â pethau'n flêr iawn er i'r llatai wneud ei orau i wneud yn fawr o enw da Dafydd:

'Dafydd, awenydd wiwnwyf,  
Lwytu wr, a'i latai wyf.  
Clod yng Ngwynedd a eddyw;  
Clywwch ef; fal sain cloch yw.'<sup>298</sup>

Pan arllwysa'r ferch win dros ben gwas Dafydd ceir awgrym arall fod moesau ac arferion y wlad a'r ddinas yn wahanol i'w gilydd, ac ar amrantiad try'r bardd yn chwerw:

Cael y claerwin o'r dinas,  
A'i dywallt yng ngwallt fy ngwas!

---

<sup>294</sup> Ibid., llau. 39–40.

<sup>295</sup> Ibid., llau. 41–2.

<sup>296</sup> Ibid., ll. 42.

<sup>297</sup> Gw. <http://www.dafyddapgwilym.net> ('Sarhau ei Was', cerdd 74.42) [cyrchwyd 19 Ebrill 2007].

<sup>298</sup> GDG, cerdd 128.43–6.

Amarch oedd hynny ymy;  
Amorth Mair i'm hoywgrair hy.<sup>299</sup>

Sylwer mai 'claerwin o'r dinas' a ddefnyddir i sarhau gwas Dafydd ap Gwilym, fel petai hynny'n rhoi halen ym mriw'r uchelwr o'r wlad. Y mae hyn i'w gyferbynnu â'r moethusrwydd a grybwyllir yn sangiadol gan Ddafydd yn ystod y cywydd hwn. Y mae'n amlwg nad oedd prinder diod yn Niwbwrch yr adeg hon:

Prid i'r unben a'i chwennyech,  
Profais y gwin, prif was gwych,  
Prynu, gwaith ni bu fodlawn,  
Ar naid ddau alwynaid lawn.<sup>300</sup>

At hynny, disgrifir gwisg werthfawr y ferch fel 'asur a chadas gasul'.<sup>301</sup> Eithr arwynebol yw'r moethusrwydd hwn. Yn ei ateb chwyrn i sarhad y ferch dengys Dafydd ap Gwilym ei fod yn ymwybodol o ochr lai llewyrchus Niwbwrch pan sonia am Fadog Hir ac Einion Dot, sef o bosibl rai o adar brith y dref:

Bei gwypwn, gwpl diletpai,  
Madog Hir, fy myd, a'i câi.  
Hwyr y'i gwnâi, hagr westai hy,  
Einion Dot yn un diawty.<sup>302</sup>

Y mae amheuaeth ynghylch parchusrwydd y ferch hon hefyd, a ddaw i'r amlwg mewn ambell sangiad. Pan y'i gwelir yn y tafarn neu'r gwesty dywedir:

Prid i'r unben a'i chwennyech<sup>303</sup>

Tybed nad yw hyn yn awgrym cryf fod yn rhaid talu am ei chwmni? Awgrymir hefyd ei bod yn cael ei harddangos o gwmpas y dref, fel yr arferid gwneud â delw:

Ac unsut fy nyn geinsyw  
Yn y ffair â delw Fair fyw,  
A'r byd, am ei gwynbryd gwiw,  
Ar ei hôl, eiry ei heiliw;

---

<sup>299</sup> Ibid., llau. 49–52.

<sup>300</sup> Ibid., llau. 25–8.

<sup>301</sup> Ibid., ll. 55.

<sup>302</sup> Ibid., llau. 57–60.

<sup>303</sup> Ibid., ll. 25.

Rhyfedd fu gan y lluoedd,  
Rhodd o nef, y rhyw ddyn oedd.<sup>304</sup>

Yn gymysg â'r darlun o butain yn tynnu sylw ati ei hun ar hyd strydoedd a thafarnau'r dref ceir cymariaethau gan Dafydd ei hun sydd yn tarddu o arferion ac eiconograffi'r Eglwys Gatholig.<sup>305</sup> Efallai bod hyn yn dadlennu amwysedd agwedd Dafydd tuag at y trefydd, heb sôn am ei agwedd tuag at fenyweidd-dra a thuag at yr Eglwys.

Adlewyrchir amwysedd agwedd Dafydd ap Gwilym tuag at y trefydd newydd hyn mewn llinellau unigol ac mewn nifer o gywyddau. Er enghraifft, fel y dangosodd Helen Fulton wrth drafod 'Niwbwrch',<sup>306</sup> y mae Dafydd fel petai'n ganmoliaethus iawn o'r bwrdeisiaid a hyd yn oed o'r castell sy'n taro ei gysgod ar y dref:

Cystedlydd nef o'r trefi,  
Castell a meddgell i mi.  
Llwybrau'n henw, lle brenhinawl,  
Llu mawr o bob lle a'i mawl.<sup>307</sup>

Rhydd y dref newydd hon gyfle newydd i feirdd ymelwa a phoblogeiddio eu caneuon:

Lle diofer i glera,  
Lle cywir dyn, lle y ceir da.  
Lle rhwydd beirdd, lle rhydd byrddau,  
Lle ym yw, ar y llw mau.<sup>308</sup>

Fodd bynnag, yr hyn sydd yn llai amlwg yw cysylltiad y profiad trefol newydd hwn a'i gysylltiad ym meddylfryd y cyfnod â thwf llythrennedd mewn cymdeithas. Er i dwf y trefydd fynd law yn llaw â thwf llythrennedd yng Nghymru'r Oesoedd Canol, nid dyna yw'r argraff a grëir yng nghanu Dafydd ap Gwilym.

---

<sup>304</sup> Ibid., llau. 9–14.

<sup>305</sup> Jane Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod*, t. 20; GDG, cerdd 128.10, 'delw Fair fyw.'

<sup>306</sup> Helen Fulton, 'Trading paces: Representations of urban culture in medieval Welsh poetry', 226–7.

<sup>307</sup> GDG, cerdd 134.13–16.

<sup>308</sup> Ibid., llau. 17–20.

## Dysg y Beirdd

---

Y mae cywreinrwydd arddull Dafydd ap Gwilym, er enghraifft, yn ei ganu mawl a marwnad, yn dangos ei fod yn hyddysg yng nghreffft draddodiadol beirdd Cymru.<sup>309</sup> Y mae'n rhesymol casglu, gan hynny, y byddai dysg farddol yn rhan o gynhysgaeth addysgol Dafydd. Yn wir, defnyddir y term 'ysgolion beirdd Cymru' (ar lun yr ysgolion beirdd yn Iwerddon) gan G. J. Williams ac E. J. Jones.<sup>310</sup> Ni cheir dim tystiolaeth fod Dafydd ap Gwilym wedi mynychu un o'r 'ysgolion' hyn ond ni ellir gwadu ei fod wedi derbyn hyfforddiant manwl yng nghelfyddyd cerdd dafod pan ddygir i gof er enghraifft ei ddefnydd o doddeidiau yn ei farwnad i Angharad.<sup>311</sup> Os oes cysylltiad rhwng *Gramadeg* y Llyfr Coch, Rhydderch ab Ieuan Llwyd a Dafydd ei hun,<sup>312</sup> ac os derbynnir bod hybu mesur newydd y cywydd a'i gymhwyso at ddibenion newydd yn adlewyrchu ymrwymiad wrth ffurf a chynnwys cerdd dafod y mae'n deg tybio bod Dafydd ap Gwilym wedi astudio'i grefft yn ofalus. Fel bardd pencerddaidd y syniai ei gyfoeswyr amdano wrth ei farwnadu, hynny yw fel lladmerydd y traddodiad barddol a'i fesurau cydnabyddedig ac yn sicr nid fel tanseiliwr traddodiad neu fandal diwylliannol a dynnai'n groes i bob rheol.<sup>313</sup>

## Awgrym, Awgrim

---

Yn 'Merch yn Edliw ei Lyfrdra' daw cregarwch dysgedig Dafydd ap Gwilym i'r golwg:

Ystyr, Eigr ystôr awgrym,  
Is dail ir, a oes dâl ym,<sup>314</sup>

---

<sup>309</sup> Ibid., cerddi 11–16.

<sup>310</sup> G.J. Williams ac E.J. Jones (gol.), *Gramadegau'r Penceirddiaid*, t. xiii.

<sup>311</sup> GDG, cerdd 16.

<sup>312</sup> Rachel Bromwich, 'Gwaith Einion Offeiriad a barddoniaeth Dafydd ap Gwilym', YB, 10 (1977), 179.

<sup>313</sup> D.J. Bowen, 'Dafydd ap Gwilym a Cheredigion', LIC, 14 (1981–4), 167.

<sup>314</sup> GDG, cerdd 58.3–4.

Ceir nifer o enghreifftiau yng ngwaith Dafydd ap Gwilym o ddefnyddio gair newydd neu gymharol newydd yn y Gymraeg mewn trosiad, ac yma y mae ‘awgrym’ yn gyfeiriad at un o’r ffurfiau ar gyfenw’r rhifyddwr o Arab, Al-Khowarazmi Abu Ja’far Mohammed Ben Musa a oedd yn ei flodau yn y nawfed ganrif. Ef a fu’n gyfrifol am sefydlu gwyddor alsoddeg (neu algebra) a thrwy hynny y daeth rhifnodau Arabaidd yn wybyddus drwy Ewrop. Cerrig awgrym oedd y cerrig a ddefnyddid i rifo ac y mae’n debyg mai cyfeiriad trosiadol at ‘ystôr’ o’r arwyddion hynny a oedd dan sylw gan Ddafydd pan bwysa ar y ferch i ystyried pa faint o dâl sydd arni am yr holl gywyddau a gyfansoddwyd gan Ddafydd erddi.<sup>315</sup> Yn ddiweddarach mabwysiadodd y gair ‘awgrym’ fwy o ystyron gan gynnwys ‘rhifyddiaeth’. Ond yn y cywydd hwn defnyddir yr ystyr wreiddiol yn drosiadol, gan gyfoethogi ergyd y gyfeiriadaeth.<sup>316</sup> Ychydig yn wahanol yw’r ystyr yn ei englynion ‘I’r Grog o Gaer’:

Arail dalm o’ m salm, na sawdd—ferw awgrim<sup>317</sup>

Erfyn ar y grog y mae Dafydd i warchod ei salm a’i awen ac nid yw’r ystyr ‘rhifau’ neu ‘rhifyddiaeth’ ar gyfer ‘awgrim’ yn taro deuddeg; o bosibl, cyfeiriad at nodau ysgrifenedig yw ‘awgrim’ (hynny yw, barddoniaeth ar femrwn).

### Awduron/Awduraeth

Ceir saith cyfeiriad at ‘awdur’ yng ngwaith Dafydd ap Gwilym ac un at ‘awduriaid’. Yn ‘Y Ceiliog Bronfraith’ (GDG 28) gelwir yr aderyn yn ‘awdur’,<sup>318</sup> ac yn ‘bencerdd’ ac yn broffwyd.<sup>319</sup> Dyma enghraifft o’r gair ‘awdur’ yn digwydd cyn i syniadau ynglŷn ag awduraeth fagu cyswllt â’r cyfrwng ysgrifenedig yng Nghymru: y mae’r

---

<sup>315</sup> Ibid., t. 491, n. 3.

<sup>316</sup> Am enghraifft arall o ‘awgrim’ gw. ‘Credaf i Naf y nefoedd’, ll. 9, ym mhennod gyntaf y traethawd hwn.

<sup>317</sup> Gw. <http://www.dafyddapgwilym.net> (cerdd 1.149) [cyrchwyd 23 Ebrill 2007].

<sup>318</sup> GDG, cerdd 28.11. Dylid trin GDG 28 yn ochelgar gan fod peth amheuaeth am ei awduraeth ar dir ei arddull syml, gw. <http://www.dafyddapgwilym.net> (cerdd 159) [cyrchwyd 23 Ebrill 2007].

<sup>319</sup> GDG, llau. 11–12.

ystyr yn agosach i gyfansoddwr nag i lenor. Diddorol yw nodi hefyd fod ‘awdur’ yn digwydd ddwywaith yn y gerdd fel petai’r cysyniad hwnnw’n cael ei bwysleisio. Digwydd ‘awdur’ yng nghywydd Dafydd i’r ‘Cae Bedw’ yn ogystal:

O’r unlle, cariadwe cur,  
A edy Madog awdur  
Ar Ierwerth gerddgerth gyrddgun,  
Ac ar bawb o garu bun.<sup>320</sup>

Digwydd ‘awdur’ mewn cywydd llatai i’r ehedydd:

Modd awdur serch, mae ’dd ydwyd?  
Mwyngroyw y llais mewn grae llwyd.<sup>321</sup>

Er bod Huw Meirion Edwards wedi tynnu ein sylw at y tebygrwydd rhwng y cywydd hwn a’r hyn a ganwyd gan Baudouin de Condé i’r ehedydd (er nad yw hyn yn golygu o reidrwydd fod y naill yn gyfarwydd â gwaith y llall wrth gwrs), y mae’n bosibl fod yr ymadrodd ‘awdur serch’ yn dwyn i gof rai o gyfeiriadau eraill Dafydd ap Gwilym at Ofydd.<sup>322</sup> Ond ni ellir bod yn sicr pa un ai awdur geiriau llafar sydd dan sylw ganddo yn y cwpled hwn ynteu ai geiriau ysgrifenedig brawd llwyd (‘mewn grae llwyd’, chwedl y bardd).

Dylid sylwi mai’r un cyfuniad o enw ac ansoddair a geir gan Ddafydd yn ei farwnad i’w ewythr, Llywelyn ap Gwilym:

Pryd glwys prudd dadwys, prif dud,—praff awdur  
Proffwydair, balchsyth, drud,<sup>323</sup>

Sylwer hefyd ar y gair cyfagos, ‘proffwydair’ lle y ceir ‘Proffwyd rhiw, praff awdur hoed’, sy’n awgrymu peth cyfochredd o bosibl rhwng y ddwy gerdd. Yn yr englyn lle digwydd ‘praff awdur’ fel disgrifiad o ewythr Llywelyn ap Gwilym sonnir am y

---

<sup>320</sup> Ibid., cerdd 31.29–32.

<sup>321</sup> Ibid., cerdd 114.23–4.

<sup>322</sup> Huw M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues*, tt. 242–4.

<sup>323</sup> GDG, cerdd 13.9–10.

noddwr grymus hwnnw fel ‘prydydd’ ac fel ‘ieithydd’.<sup>324</sup> Yn ei awdl i Ieuan Llwyd o Enau’r Glyn ceir:

Da y ceidw awdur, deg geidwadaeth,  
Da a fyn ym, gnawd diofn y’ m gwnaeth;<sup>325</sup>

Y mae cyd-destun y dyfyniad hwn yn debyg i’r hyn a folir yn ‘Yr Ehedydd’. Tynnir sylw at y delweddu crefyddol yn ogystal ag at elfennau sydd yn amlwg farddol ac awgrymir bod y ddau yn gydgysylltiedig. Cysylltir y ceiliog bronfraith â nifer o elfennau barddol, er enghraifft, ‘proffwyd rhiw’,<sup>326</sup> neu ‘pencerdd gloyw’<sup>327</sup> yn ogystal â’i alw yn ‘pregethwr’<sup>328</sup> ac yn ‘primas mwyn’<sup>329</sup>. Ond crybwyllir ‘darllain’ hefyd yng nghyd-destun ‘y praff awdur hoed’ hwn. Gelwir y ceiliog bronfraith yn ‘llywr llên’,<sup>330</sup> sef y sawl a ddarllenai fucheddau’r saint ar goedd mewn mynachlog.<sup>331</sup> Yn wir, yn y cywydd hwn bron na chysylltir y darllen cyhoeddus y buasid yn ei ddisgwyl mewn eglwys neu fynachlog ag adrodd barddoniaeth. Mewn un cwpled, er enghraifft, cyfosodir y delweddu crefyddol lenyddol hwn:

Prydydd cerdd Ofydd ddifai,  
Primas mwyn prif urddas Mai.<sup>332</sup>

Yn ‘Y Ceiliog Bronfraith’ disgrifir yr aderyn fel ‘Prydydd cerdd Ofydd ddifai’.<sup>333</sup> Yn y cwpled nesaf ceir:

Adwaen ef o’i fedw nwyfoed,  
Awdur cerdd adar y coed,<sup>334</sup>

---

<sup>324</sup> Ibid., ll. 12.

<sup>325</sup> Ibid., cerdd 14.33–4.

<sup>326</sup> Ibid., cerdd 28.11.

<sup>327</sup> Ibid., ll. 12.

<sup>328</sup> Ibid., ll. 19.

<sup>329</sup> Ibid., ll. 22.

<sup>330</sup> Ibid., ll. 19. Dylid nodi mai Llst 6 yw’r unig lawysgrif sydd yn cynnig y darlleniad ‘llywr’.

<sup>331</sup> Rachel Bromwich, *Dafydd ap Gwilym: A Selection of Poems*, t. 92, n.19.

<sup>332</sup> GDG, cerdd 28.21–2.

<sup>333</sup> Ibid., ll. 21.

<sup>334</sup> Ibid., llau. 23–4.

Dug hyn ni yn ôl at gychwyn ein trafodaeth ar ‘Yr Ehedydd’ lle y digwydd ‘modd awdur serch’. Yn y cywydd ‘Gwadu Iddo Fod yn Fynach’ hefyd dywed Dafydd ap Gwilym fel a ganlyn:

Nid oes testun, fun feinael,  
Ar brydydd hoyw Forfudd hael,  
Er syrthio o’r gwallt, cwnsallt cur,  
I ar fy iad, erfai awdur.

Ni bydd dy Ofydd difai,  
Ni bûm nofis un mis Mai;<sup>335</sup>

Yr awdur gwych hwn, wrth gwrs, yw Dafydd ap Gwilym (er nad yw hynny’n golygu mai awdur testunau ysgrifenedig ydyw). Ffurf arall ar y gair yw ‘awduriaid’ sy’n digwydd yn englynion Dafydd ‘I’r Grog o Gaer’ ac y mae’r ystyr yn bur annisgwyl:

Awduriaid cerdd a’i clyw<sup>336</sup>

Go brin mai cyfeiriad at feirdd neu gerddorion sydd yn y llinell hon oherwydd gwrandu y mae’r awduriaid yn y cyd-destun hwn a chynigir mai ‘awdurdodau’ neu ‘noddwyr’ sy’n gweddu orau.

Yn ‘Y Gwynt’ pwysleisio’r elfen lafar yn y gair ‘awdur’ neu ‘awdr’ a wneir:

Huawdl awdr, hudol ydwyd,  
Hewr, dyludwr dail wyd.<sup>337</sup>

Cymysglyd yw’r dystiolaeth ynghylch defnydd Dafydd ap Gwilym o’r gair ‘awdur’. Er ei bod hi’n anodd gwadu bod Dafydd weithiau yn defnyddio’r gair ‘awdur’ neu ‘awdr’ yn gyfystyr â ‘bardd’—gweler, er enghraifft, ‘Cae Bedw Madog’ lle y ceir yr

---

<sup>335</sup> Ibid., cerdd 35.39–44. Yn lle ‘Er syrthio o’r gwallt, cwnsallt cur,/ I ar fy iad, erfai awdur’ ceir ‘er syrthiaw breuddwydiaw brat/ wyth gur y wallt oth gariat’ yn Pen 49, a ddilynir mewn golygiad newydd o’r cywydd (<http://www.dafyddapgwilym.net> (cerdd 106 ‘Gwawd Morfudd’) [cyrchwyd 23 Ebrill 2007]).

<sup>336</sup> Gw. <http://www.dafyddapgwilym.net> (cerdd 1.106) [cyrchwyd 23 Ebrill 2007].

<sup>337</sup> GDG, cerdd 117.35–6. Yn y golygiad newydd defnyddir y ffurf ‘hyawdr’ a cheir y ffurf honno gan Ruffudd Gryg yn ei farwnad i Ddafydd ap Gwilym, gw. <http://www.dafyddapgwilym.net> (cerdd 47.43–4) [cyrchwyd 23 Ebrill 2007] a GDG, t. 427.

ymadrodd ‘Madog awdur’<sup>338</sup>—y mae’n digwydd hefyd fel y dyfynnwyd uchod mewn cyd-destunau eraill lle mae awgrym o lyfr (yn achos Ofydd) neu ddogfennau mwy swyddogol (yn achos ei ewythr).<sup>339</sup>

### Ofydd ac Ofyddiaeth

Ceir nifer fawr o gyfeiriadau at Ofydd neu ofyddiaeth yng nghanu Dafydd ap Gwilym: 14 cyfeiriad at Ofydd (o gynnwys y ddau gyfeiriad a geir mewn cerddi apocryffaidd) a dau gyfeiriad at ofyddiaeth. Ar yr olwg gyntaf, gellir dadlau bod cyfeiriadau bardd canoloesol at y bardd Lladin Publius Ovidius Naso yn awgrymu ei fod yn gyfarwydd â’r *Amores* neu’r *Ars Amatoria*.<sup>340</sup>

Yn ‘Y Llwynog’ lleolir Ofydd yng nghanol byd natur ac ar yr un pryd yng nghanol canu serch Dafydd ap Gwilym:

Gorsefyll dan gyrs Ofydd<sup>341</sup>

Cyfeirir at Ofydd hefyd yng nghyswllt llawenydd yr haf:

Dyn Ofydd, hirddydd harddaf,  
A draidd, gair hyfaidd, yr haf.<sup>342</sup>

Yn y cywydd ‘Taith i Garu’ edrydd Dafydd hanes ei siwrneiau seithug pan fu’n cyfarfod â Morfudd yng Ngwern-y-Talwrn yn ei fro enedigol.<sup>343</sup> Rhestrir yr enwau lleoedd yn y cywydd ac fe’n darbwyllir ei fod yn gwbl gyfarwydd â phob modfedd o’r daith i ymweld â Morfudd yn sgil ei fynych fwhwman. Buasai’n croesi afonydd er ei mwyn:

---

<sup>338</sup> GDG, cerdd 31, ll. 30.

<sup>339</sup> Yn y cyd-destun hwn diddorol yw’r defnydd o’r gair ‘graiff’ (pin ysgrifennu) wrth gyfeirio at Ruffudd Gryg yn ail gywydd ymryson Dafydd ap Gwilym, gw. GDG, cerdd 150.1 Yng nghywydd ymryson cyntaf Gruffudd Gryg sonnir hefyd am ‘llechau caeth’ (?llechi i ysgrifennu), gw. GDG, cerdd 147.8.

<sup>340</sup> Rachel Bromwich, *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym*, t. 71.

<sup>341</sup> GDG., cerdd 22.3.

<sup>342</sup> Ibid., cerdd 24.29–30.

<sup>343</sup> Ibid., cerdd 83, ll. 44.

Mynych iawn, er ei mwyn hi,  
Y treiddiwn beunydd trwyddi.<sup>344</sup>

Y ddyfais rethregol a ddefnyddir ganddo i gyfleu ei wybodaeth ddaearyddol a'i rwystredigaeth â'r siwrneia diffaith yw cyferbyniad â llyfr:

Nid oes dwyn na dwys dyno  
Yn neutu glyn Nant-y-glo  
Nas medrwyf o'm nwyf a'm nydd  
Heb y llyfr, hoywbwyll Ofydd.<sup>345</sup>

Er bod Ofydd wedi ei gyfosod ochr yn ochr â 'llyfr' gellir dadlau nad yw'n gysylltiedig â chyfrolau Ofydd. Cynoda'r ddau gwpled fod gan Ddafydd gryn grap ar ei fro a'i fod yn llwyr gyfarwydd â'r ardal drwy ddibyniaeth ar ei gof yn unig (ac nid ar gofnod ysgrifenedig). Y mae'r cyfeiriad sangiadol 'hoywbwyll Ofydd' yn ddisgrifiad o synnwyr sionc y bardd—yn gyfeiriad efallai at gof y bardd ac nid at ei lyfr. Rhyw fath o enw cyfeiriadol at fardd serch yn gyffredinol yw Ofydd yn y cyddestun hwn, yn hytrach na phrawf fod Dafydd ap Gwilym wedi astudio'r *Amores*.<sup>346</sup> Yr un yw'r ergyd yn achos rhai o gywyddau eraill Dafydd ap Gwilym: yn 'Y Ceiliog Bronfraith' (GDG 28.21–2); 'Gwadu Iddo Fod yn Fynach' (GDG 35.43–4) lle y cyferbynnir y bardd serch â mynach; 'Y Cleddyf' (GDG 143.51–2) ac yn ei gywydd ymryson cyntaf defnyddir Ofydd yn gyfystyr â chywydd serch (GDG 148.8). Y mae'r cyfeiriad yn ei farwnad i Ruffudd Gryg yn fwy diddorol: 'Gwawd graffaf gwedy Gruffudd/ Gwaethwaeth heb ofyddiaeth fydd' gan fod Dafydd yn defnyddio'r ffurf 'ofyddiaeth', ond yng nghyd-destun y cwpledi uchod cyfeiriad at ganu serch yn gyffredinol ydyw. Yn 'Cae Bedw Madog' cyfeirir at Fadog Benfras fel 'Digrifaf dyn deigr Ofydd' wrth ddisgrifio canu serch.<sup>347</sup>

---

<sup>344</sup> Ibid., llau. 17–18.

<sup>345</sup> Ibid., llau. 39–42.

<sup>346</sup> Am fersiwn Saesneg gw. Peter Green (gol.), *Ovid: The Erotic Poems* (Llundain, 1982).

<sup>347</sup> GDG, cerdd 31.59–60.

Ceir cyfeiriad tebyg yn y cywydd ‘Merch yn Edliw ei Lyfrdra’ lle y mae’r bardd yn ceisio dwyn perswâd ar ferch fod bardd yn well cariad na milwr:

Nid gwas, lle bo gwyrddlas gwŷdd,  
Llwfr wyf ar waith llyfr Ofydd.<sup>348</sup>

Y mae hon yn ddelwedd gyffrous oherwydd bod Dafydd yn awgrymu ei fod yntau ar ryw fath ar groesgad, fel y milwr ifanc, i ledaenu’r efengyl ynglŷn â’r grefydd serch newydd. Digwydd cerdd ar thema debyg yn nhrydedd haen Llawysgrif Hendregadredd ac y mae’n fwy tebygol fod Dafydd ap Gwilym wedi gweld y testun ysgrifenedig hwnnw na chopi o’r *Ars Amatoria*.

Cynnwys ‘Chwarae Cnau i’r Llaw’ gyfeiriad mwy pendant at lythrennedd, sef ‘Salm yw ’nghof o lyfr Ofydd’,<sup>349</sup> ac â rhagddo i esbonio’r salm (er na cheir cyngor o’r fath yn *Amores* nac yn *Ars Amatoria*):

Serchog anniferiog fydd,  
Heb gael cydymddaith dan llaw  
I addef pob dim iddaw.<sup>350</sup>

Sonia Dafydd am lyfr cariad yn ‘Llw Morfudd’ lle y delweddir y llw fel ‘llyfr cariad’,<sup>351</sup> a chyfeirir at lyfr Ofydd gan Ieuan ap Rhydderch a chan feirdd eraill.<sup>352</sup> Fodd bynnag, nid yw’r cyfeiriadau hynny hyd yn oed, yn arddangos gwybodaeth fanwl, benodol o waith Ofydd.

Yn ‘Noson Olau’, sydd yn un o gywyddau rhwystr Dafydd ap Gwilym, cynrychioli’r carwr a wna Ofydd: ‘Ni lefys dyn hael Ofydd,/ Ei brawd wyf, i’w bro y dydd.’<sup>353</sup> Yn

---

<sup>348</sup> Ibid., cerdd 58, llau. 19–20.

<sup>349</sup> Ibid., cerdd 50. 2. Geill llyfr Ofydd, fodd bynnag, fod yn gyfeiriad at bob math o lyfr serch.

<sup>350</sup> Ibid., llau. 3–4.

<sup>351</sup> Ibid., cerdd 43.45.

<sup>352</sup> Gw. yr ymdriniaeth uchod ac Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Ieuan ap Rhydderch*, cerdd 2.1 ‘Da yw ’nghof am lyfr Ofydd’; gw. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (gol.), *Gwaith Sefnyn, Rhisierdyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch* (Aberystwyth, 1995), cerdd 11.55 lle y ceir ‘Salm o hen gof llyfr Ofydd’.

<sup>353</sup> GDG, 70.9–10.

‘Y Carw’ yr ymadrodd a ddefnyddir yw ‘dull Ofydd’: eto, cynrychioli’r carwr a wna Ofydd.<sup>354</sup> Er mai mawl yw prif nod ‘Englynion i Ifor Hael’ gellir dadlau mai ‘serch’ yw ystyr Ofydd yng nghyswllt yr englyn sy’n disgrifio perthynas agos noddwr—‘A charu ei brydydd’—â bardd y canu serch.<sup>355</sup>

Gwyddys mai Dafydd ap Gwilym yw’r bardd Cymraeg cyntaf y ceir sicrwydd iddo gyfeirio at y bardd Lladin Ofydd.<sup>356</sup> Er hynny, fel y dengys yr ymdriniaeth â’r cyfeiriadau uchod, nid oes raid fod Dafydd wedi darllen y testunau ysgrifenedig hyn ac fe eill mai cyfeiriadaeth hwylus yn seiliedig ar wybodaeth ail-law yw ei unig arwyddocâd yng nghanu serch Dafydd ap Gwilym.

I gloi, gellir crynhoi’r ymdriniaeth â llythrennedd drwy nodi ei bod yn ffenomen a oedd ar gynnydd law yn llaw â thwf trefydd yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg mewn nifer o beuoedd. Yn achos Dafydd ap Gwilym ei hun daeth i gysylltiad â llythrennedd ym maes yr Eglwys, ym maes y gyfraith drwy’i ewythr, ac ym maes llawysgrifau drwy ei gysylltiad â Glyn Aeron a Llyfr Gwyn Rhydderch ac, o bosibl, drwy Lawysgrif Hendregadredd er na cheir tystiolaeth uniongyrchol bendant yn ei ganu o ddylanwad llythrennedd arno yn sgil datblygiad trefol yng Nghymru. Nid yw’r dystiolaeth sydd ar glawr parthed ei gynefindra â *Roman de la Rose* neu â chyfrolau Ofydd mor argyhoeddiadol. Bu’r diwylliant llythrennog yng Nghymru’r bedwaredd ganrif ar ddeg yn ddylanwad ar farddoniaeth Dafydd ap Gwilym fel y gwelir mewn nifer o gyfeiriadau, trosiadau a dyfaliadau yn ei gerddi. Ys dywed Walter Ong am y

---

<sup>354</sup> Ibid., 116.34.

<sup>355</sup> Ibid., 6.16 a 6.14; amheus yw’r darlleniad a geir yn GDG 6.23, sef ‘Ofydd cad’, gan mai ‘O faedd cad’ neu ‘faedd cad’ neu amrywiad ar hynny a rydd y llawysgrifau gorau, gw. <http://www.dafyddapgwilym.net> (cerdd 12.23) [cyrchwyd 23 Ebrill 2007].

<sup>356</sup> Rachel Bromwich, *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym*, t. 71.

newid diwylliannol a ddigwydd mewn cymdeithas wrth droi fwyfwy o'r llafar i'r ysgrifenedig:

Oral cultures indeed produce powerful and beautiful verbal performances of high artistic and human worth, which are no longer even possible once writing has taken possession of the psyche. Nevertheless, without writing, human consciousness cannot achieve its fuller potentials, cannot produce other beautiful and powerful creations. In this sense, orality needs to produce and is destined to produce writing. Literacy ... is absolutely necessary for the development not only of science but also of history, philosophy, explicative understanding of literature and of any art, and indeed for the explanation of language (including oral speech) itself.<sup>357</sup>

Yn achos barddoniaeth Dafydd ap Gwilym bu llythrennedd yn ddylanwad ar ei farddoniaeth, yn enwedig ar ei drosiadau a'i stôr o ddyfaliadau a chyffelybiaethau, a bu'n un o'i ffynonellau creadigol ac yn rhannol gyfrifol am iawnalw eos Dyfed yn 'newydd ei gywydd gynt'.

---

<sup>357</sup> Walter J. Ong, *Orality and Literacy*, tt. 14–15.

---

## PENNOD 3

---

### Trwy Lygaid Peniarth 52<sup>1</sup>

Mewn ymdriniaeth â natur cyfieithiadau llenyddol yn ddiweddar honnwyd nad yw cyfieithu yn weithgarwch diduedd ac, yn achos cyfieithiad y barnwr Arthur James Johnes o waith Dafydd ap Gwilym, honnwyd i'w drosi o'r naill iaith i'r llall droi'n gyfle i guddio llestri bryntion y diwylliant Cymreig o dan ridens yr iaith Saesneg. Yr oedd mwy na chwilio am eiriau cyfatebol mewn geiriadur yn digwydd yng nghyfieithiadau'r Eglwyswr pybyr hwnnw o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ôl Dafydd Johnston:

Selective translation is one of the strategies [Arthur James] Johnes adopts in order to defuse the sexuality of Dafydd ap Gwilym's poetry.<sup>2</sup>

Wrth gloi ei bennod ar gyfieithiadau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg o waith Dafydd ap Gwilym, sef cyfieithiadau sydd o dan ddylanwad ffugiadau eneiniedig Iolo Morganwg, cynigir casgliad trawiadol am natur testunau cerddi Dafydd ap Gwilym:

The canon was still unstable and hybrid, unbeknown to the translator, and indeed the creative additions to it were crucial in enabling him to produce a version of Dafydd ap Gwilym which was acceptable and meaningful to a nineteenth-century readership.<sup>3</sup>

Yn y bennod hon cedwir mewn cof y casgliad fod y canon yn endid 'unstable and hybrid'—ac y gall yr hyn a ystyrir yn greiddiol i ganon bardd gan un genhedlaeth o

---

<sup>1</sup> Y mae'r bennod hon yn seiliedig yn fras ar bapur a draddodwyd yn '*Cerrig Milltir: Cynhadledd Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru*', Aberystwyth (Mehefin, 2005) a chyhoeddwyd fersiwn ohono yn Owen Thomas (gol.), *Llenyddiaeth mewn Theori* (Caerdydd, 2006). Diolch i'r Athro Thomas Charles-Edwards, Coleg Iesu, Prifysgol Rhydychen, Dr Jane Cartwright, Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan, Dr Ann Parry Owen, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd ac i Mr Daniel Huws, Aberystwyth am eu sylwadau.

<sup>2</sup> Dafydd Johnston, 'Early translations of Dafydd ap Gwilym', yn Alyce von Rothkirch a Daniel Williams (gol.), *Beyond the Difference: Welsh Literature in Comparative Contexts* (Caerdydd, 2004), t. 164.

<sup>3</sup> *Ibid.*, t. 170.

olynwyr fod yn wahanol i eiddo cenhedlaeth arall—wrth godi cwr y llen ar ddau gywydd a briodolir i Ddafydd ap Gwilym (y ceir copïau ohonynt yn llawysgrif Pen 52) a’u cydberthynas â Dafydd Nanmor. Trwy hyn, cynigir rhai sylwadau ar natur dylanwad Dafydd ap Gwilym ar fardd canoloesol diweddar fel Dafydd Nanmor. Trafodir y llawiau sydd yn Pen 52 a deuir i’r casgliad fod mwy nag un llaw yn gyfrifol am drawsysgrifio’r cynnwys, sef barn sydd yn tynnu’n groes i’r hyn a dybid gynt am y llawysgrif ac sydd yn taflu goleuni cwbl newydd ar statws y llawysgrif hon. Bydd y bennod hon felly yn cwmpasu mwy nag astudiaeth o farddoniaeth Dafydd ap Gwilym yn unig drwy roi sylw i waith Dafydd Nanmor ac i’r llawysgrif ei hun. O ran methodoleg, cymerir y cam ceiliog cyntaf tuag at gyfuno beirniadaeth destunol â gwaith theoretig cynnar Harold Bloom, a alwyd yn “antithetical criticism”.<sup>4</sup>

Os ydyw trafod dylanwadau ar lenorion yr ugeinfed ganrif yn faes astrus a niwlog ac os ydyw mesur dylanwad, neu hyd yn oed y graddau y mae testun yn ffrwyth llên-ladrad yn beth anodd ei bennu (fel y gwelwyd yn ddiweddar yn un o brif gystadlaethau Eisteddfod yr Urdd) mae’n saith gwaeth yn achos y Cywyddwyr.<sup>5</sup> Fodd bynnag, rhagdybiaeth gyffredin gymharol ddiweddar ydyw mynnu ei bod yn anodd, onid amhosibl, mesur hyd a lled dylanwad barddoniaeth. Nid oedd ein cyndadau ar y llaw arall mor gyndyn o amharod i gynnig llinyn mesur. Yn ei ragair i’w olygiad o waith Dafydd Nanmor honnir gan Thomas Roberts:

---

<sup>4</sup> Harold Bloom, *The Anxiety of Influence* (Efrog Newydd, 1973); Idem, *Kabbalah and Criticism* (Efrog Newydd, 1975); Idem, *A Map of Misreading* (Efrog Newydd, 1975); Idem, *Poetry and Repression: Revisionism from Blake to Stevens* (New Haven, 1976); Idem, *Ruin the Sacred Truths: Poetry and Belief from the Bible to the present* (Llundain, 1989). Disgrifir “antithetical criticism” gan Bloom fel a ganlyn: “[It] begins when we measure the first *clinamen* against the second. Finding just what the accent of deviation is, we proceed to apply it as corrective to the reading of the first but not the second poet or group of poets.” Ystyr *clinamen* yn y cyddestun hwn, yn ôl Bloom, yw “poetic misreading or misprision proper ... A poet swerves away from his precursor’s poem as to execute a *clinamen* in relation to it”, gw. Bloom, *The Anxiety of Influence*, tt. 93–4 a 14.

<sup>5</sup> Gw. ‘Llinos yn ildio’r Goron’, *Golwg*, 17 (16 Mehefin 2005), 5.

It was not until the period under consideration [namely the mid-fifteenth-century] that the literary creed of Dafydd ap Gwilym, the religion of nature and of love, ‘crefydd y gwŷdd a’r gog,’ obtained its true devotees, and the ‘cult’, if one may call it so, of Dafydd ap Gwilym, as the first apostle of that creed, was instituted. For worship him these enthusiasts did as truly as any saint has been worshipped by the devotees of the church.<sup>6</sup>

Fodd bynnag, yn ôl Saunders Lewis, o’r 38 awdl a chywydd a briodolir i Ddafydd Nanmor, ni ellir ond ystyried pump ohonynt yn gerddi serch.<sup>7</sup> Nid yr oed yng nghanol y goedwig, yn ôl yr olwg gyntaf beth bynnag, a apeliai at Ddafydd Nanmor.<sup>8</sup> Myn Saunders Lewis roi hwrdd pellach i’r pendil a bychanu gafael barddoniaeth Dafydd ap Gwilym ar ddychymyg ei olynwyr yn llwyr. Wrth drafod Dafydd Nanmor dywed nad oedd ei ddyled i Ddafydd ap Gwilym ‘ond dyled ei oes, sef defnyddio’r cywydd, mesur y bu gan ap Gwilym brif ran yn ei ddyfeisio. A dyna’r cwbl.’<sup>9</sup> Ei gor-ddweud hi’n ddybryd a wna Saunders Lewis yn y dyfarniad hwn ac, yn y bennod hon, dadleuir ar sail cynnwys Pen 52 nad oes modd ymfodloni bellach ar gasgliad mor ysgubol o gollfarnus o ddylanwad Dafydd ap Gwilym ar feirdd fel Dafydd Nanmor yn y bymthegfed ganrif.

## Peniarth 52

---

Llawysgrif sydd heb dderbyn ei sylw dyladwy hyd yma yw Pen 52. Yn ei astudiaeth feistraidd o’r llawysgrifau cynnar lle y cofnodir cerddi Dafydd ap Gwilym dyddir Pen 52 gan Daniel Huws i ail hanner y bymthegfed ganrif. Wrth gasglu ynghyd ei ysgrifau ar gyfer *Medieval Welsh Manuscripts* ni fu’n barod i ddatgan yn gwbl bendant mai llaw Dafydd Nanmor sydd ynddi (o’i gyferbynnu â’r hyn a wnaeth Gwenogvryn Evans o’i flaen).<sup>10</sup> Y mae Pen 52, fodd bynnag, yn llawysgrif bwysig. Yn ogystal â Pen 48, Llawysgrif Hendregadredd, Llyfr Gwyn Rhydderch, Pen 57 rhan i (sef Hengwrt 261

---

<sup>6</sup> PWDN, tt. xii–xiii.

<sup>7</sup> Gwyddys bellach fod mwy o gywyddau serch na hyn gan Ddafydd Nanmor. Fe’u trafodir isod.

<sup>8</sup> Cf. Saunders Lewis, ‘Dafydd Nanmor’, *Meistri’r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973), t. 83.

<sup>9</sup> *Ibid.*, t. 84.

gynt) a Pen 54 (a Llyfr Gwyn Hergest coll yn fwy na thebyg) cynrychiola Pen 52 un o'r ymdrechion cyntaf, sydd yn hysbys inni, i lunio casgliadau llawysgrifol o farddoniaeth Dafydd ap Gwilym. Ar yr un pryd, y mae Dafydd Nanmor, ynghyd â Lewys Glyn Cothi, Gwilym Tew, Hywel Dafî, Hywel Swrdwal, Huw Cae Llwyd a Dafydd Epynt, ymhlith y beirdd cynharaf i geisio gwneud casgliadau o'u barddoniaeth eu hunain ac, am y rheswm hwnnw yn unig, haeddant ystyriaeth fanwl gan efrydwyr barddoniaeth yr Oesoedd Canol. Haedda'r casgliadau cynnar o waith Dafydd ap Gwilym sylw hefyd yng nghyswllt y gwaith sydd yn mynd rhagddo ar destunau barddoniaeth Dafydd ap Gwilym, gan gynnwys gwaith dadleuol Helen Fulton ac, yn fwy diweddar, y prosiect dan nawdd yr AHRC yn Abertawe i ddigideiddio barddoniaeth Dafydd ap Gwilym.<sup>11</sup> Yn achos Pen 52 ceir gorgyffwrdd rhwng y ddau ddatblygiad neu ddwy duedd hyn, sef 'casgliad o waith Dafydd ap Gwilym' (os gellir galw dau gywydd yn gasgliad) a chasgliad o waith Dafydd Nanmor yn ei law ei hun.

O ran manylion palaeograffyddol Pen 52, memrwn bychan sydd yn mesur pum modfedd a hanner wrth bedair modfedd a hanner yn unig ydyw ac y mae'n dwyn i gof rai o lyfrau Cyfraith Hywel, a oedd hefyd o faint hylaw a hwylus o fwriad, i'w defnyddio fel rhyw fath o *vade mecum* i'w cludo o le i le a'u defnyddio yn ôl y galw ymarferol a oedd arnynt. Nid yw'n rhy ffansiol hyd yn oed inni dybio bod Dafydd Nanmor ei hun wedi cludo'r llawysgrif hon o le i le yn ystod y bymthegfed ganrif (os gellir profi bod ei law ef ynddi).

Hyd yma, tybiwyd gan balaeograffwyr a beirniaid llenyddol fel ei gilydd mai olion un llaw yn unig sydd yn Pen 52. Fodd bynnag, fe wyddys bellach fod ôl pedair llaw yn y

---

<sup>10</sup> MWM, tt. 61 a 97.

llawysgrif hon. Y mae'r llaw gyntaf yn gyfrifol am awdl gan Ddafydd Nanmor ar dudalennau 8–12, yr ail law yn gyfrifol am gywydd i ddiolch am fenig gan Ddafydd ap Gwilym ar dudalennau 12–14, y llaw nesaf yn gyfrifol am 'Y Ceiliog Bronfraith' (GDG 123) gan Ddafydd ap Gwilym ar dudalennau 15–18 a llaw Dafydd Nanmor sydd rhwng tudalen 20 a 44, sydd yn cynnwys llythyr Saesneg o Feddgelert.<sup>12</sup> Bu peth trafod am lawiau'r llawysgrif hon a bwriwyd amheuan ar gysylltiad Dafydd Nanmor â'r llawysgrif, ond y mae'n deg dweud bod y gamdybiaeth hon wedi digwydd i raddau yn sgil tuedd i synied mai ôl un llaw yn unig sydd yn y llawysgrif.<sup>13</sup>

Trafodir llaw Dafydd Nanmor gan Robin Flower mewn perthynas ag *Itinerarium Cambriae* a *Descriptio Cambriae* Gerallt Gymro yn LIGC 3024 a dywed:

On p. 150 (reversed) appears in an engrossing script with an elaborate form of capital G, the name 'Geraldus' followed by the scribal inscription: 'Quod Dauyd Nan[mor]', and on p. 130 the name 'Gwen Or dol' written in the same elaborate script.<sup>14</sup>

Ar sail hyn, ybia Robin Flower mai llaw Dafydd Nanmor sydd yn Pen 52.

A comparison of the scribal inscription on p. 150 with the script of the poems of Dafydd Nanmor and Dafydd ap Gwilym in Peniarth MS. 52 which has been claimed as in the autograph of the poet definitely establishes this claim ... Dafydd was clearly a practised scribe and his fancy for decorative writing may suggest that he had some training as a scrivener.<sup>15</sup>

---

<sup>11</sup> Helen Fulton, *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha* (Llandysul, 1996); gw. hefyd Gw. <URL: <http://www.dafyddapgwilym.net>> [Cyrchwyd 1 Mai 2007]

<sup>12</sup> Y mae Daniel Huws yn cytuno â mi mai Dafydd Nanmor biau'r bedwaredd law ac yn ei fersiwn drafft nesaf o'r *Repertory of Welsh Manuscripts* (i ymddangos) fe fydd yn nodi yn ei nodiadau ar Pen 52, 'D', pp. 21–44, the hand of Dafydd Nanmor, autograph *cywyddau* signed "Nanmor", and, on pp. 40–44, *Compod manuel*, much of it damaged. On pp. 1–7 are pentrials and *englynion* of s.xvi. On p. 20, as a pentrial apparently in the hand of Dafydd Nanmor, is the opening of a letter in English, written at Beddgelert.' Am ymdriniaeth lawn â rhan Dafydd Nanmor yn Pen 52, gw. Owen Thomas, 'Trwy lygaid Peniarth 52' yn Owen Thomas (gol.), *Llenyddiaeth mewn Theori* (Caerdydd, 2006), tt. 73–112.

<sup>13</sup> Er enghraifft, Gilbert Ruddock, *Dafydd Nanmor* (Caerdydd, 1992), tt. 24–6 a G. A. Williams, 'The literary tradition to c. 1560; the native poets of Merioneth from the Glyndŵr Revolt to c. 1560', yn J. B. ac Ll. B. Smith (gol.), *History of Merioneth II: The Middle Ages* (Caerdydd, 2001), t. 574.

<sup>14</sup> Robin Flower, 'Richard Davies, William Cecil, and Giraldus Cambrensis', CLIGC, 3 (1943–44), 11. Cytunir yn gyffredinol mai llaw Dafydd Nanmor sydd yn LIGC 3024.

<sup>15</sup> *Ibid.*

Â Robin Flower rhagddo i gadarnhau mai'r un llaw sydd yn gyfrifol am y dryll o lythyr Saesneg ar dudalen 20:

It is interesting in this connection to observe that in Peniarth MS. 52, p. 20, he has written in a decorated hand the following letter form in English: 'Trusty and wellbelouyd Cosyn I hertele recomende me vnto you Desyryng to here of youre Velfare &c the Cause of my Wrytyng vnto you. Wrytyn at Bethkel[art].'<sup>16</sup>

Y mae'r dryll Saesneg hwn yn hynod o ogleisiol gan fod tystiolaeth o ruglder beirdd Cymraeg y bymthegfed ganrif mewn Saesneg yn brin. Ceir tystiolaeth hefyd, drwy gymharu'r gwahanol enghreifftiau o olion ei law, fod Dafydd Nanmor yn hyddysg mewn Lladin. Yn ôl Robin Flower:

Dafydd's possession of this MS. of Giraldus may be taken, in conjunction with his englynion in Llanstephan MS. 118, based upon the Latin prognostic: 'Clara dies Pauli bona tempora denotat anni', and the Latin crossword puzzles figured opposite p. 120 in *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, as evidence that he knew Latin, an accomplishment probably rare among Welsh bards.<sup>17</sup>

At hynny, y mae Syr Ifor Williams yn nodi yn *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* fod y *Compod Manuel* hefyd yn llaw Dafydd Nanmor, sef yr un llaw ag a fu'n gyfrifol am y cerddi o dudalen 21 ymlaen yn Pen 52.<sup>18</sup>

At hynny, ar un o dudalennau llawysgrif Mostyn 117, sydd yn cynnwys copi o *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy, ceir enghraifft o lofnod Dafydd Nanmor.<sup>19</sup> 'Nanmor' yw hyd a lled y lofnod hwn.<sup>20</sup> Derbynnir gan Daniel Huws yn ogystal mai llaw Dafydd Nanmor sydd yn BL Add 14912.<sup>21</sup> Y mae'r llaw hon yn cyfateb yn union i

---

<sup>16</sup> Ibid., 11.

<sup>17</sup> Ibid.

<sup>18</sup> Lloyd, J.E. a Jenkins, R. T. (gol.), *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953), t. 95.

<sup>19</sup> Mostyn 117, 181.

<sup>20</sup> Cadarnheir hyn gan Daniel Huws mewn nodyn drafft.

<sup>21</sup> BL Add 14912, 16, 61 a 91.

un o'r llawiau a geir yn Pen 52, sef y llaw a fu'n gyfrifol am drawsysgrifio tudalennau 20–44 yn Pen 52.<sup>22</sup>

Un o'r beirniaid llenyddol a wnaeth astudiaeth fanwl o waith Dafydd Nanmor, gan gynnwys ei gerddi yn Pen 52, oedd Gilbert Ruddock. At ei gilydd, yr oedd yn amheus a oedd llaw Dafydd Nanmor yn y llawysgrif o gwbl gan fod rhai o'r darlleniadau a gynnigir yn y llawysgrif yn cynnwys camgymeriadau cynganeddol a mydryddol, sef y math o gamgymeriadau na fyddid yn disgwyl i awdur ei wneud yn ei waith ei hun. Awgrymu hynny'n gryf a wna Ruddock wrth ddatgan:

Os DN oedd yr awdur, ac yntau'n ysgrifennwr profiadol, credaf fod modd dadlau na wnaeth gyfiawnder â rhai o'i gerddi ei hun yma, a bod ôl diofalwch—neu ôl diffyg crefft ysgrifennu—ar ei gynnyrch. Ac ystyried rhai nodweddion, efallai fod yma enghraifft o bencerdd yn copïo ei waith ei hun oddi ar lafar.<sup>23</sup>

Wrth fwrw golwg dros bapurau drafft Gilbert Ruddock gwelir mai cadarnhau ei gyhoeddiadau ysgrifenedig a wnânt hwythau.<sup>24</sup> O ran y gwallau yn Pen 52 y tynnir sylw atynt gan Gilbert Ruddock y mae'r gwall cyntaf, er enghraifft, yn cyfeirio at linell sydd yn brin o sillaf. Y llinell yw:

Lludd di y rhain y rhod a Chaer-ludd<sup>25</sup>  
a berthyn i awdl Dafydd Nanmor i Rys o'r Tywyn.<sup>26</sup> 'Y rheini' a geir mewn llawysgrifau eraill. Gellid dadlau mai llithriad pur ddistadl a diarwyddocâd ydyw'r

---

<sup>22</sup> Diolch i Daniel Huws, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth am gadarnhau hyn â mi.

<sup>23</sup> 'Sylwadau ar sefydlu testun newydd o waith Dafydd Nanmor', LIC, 13 (1974–81), 175.

<sup>24</sup> Diolch i E. Wyn James, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd am drefnu caniatâd imi gael gweld papurau gwerthfawr y diweddar Gilbert Ruddock a diolch i Peter Keelan, Llyfrgellydd Prifysgol Caerdydd, am ei gymorth.

<sup>25</sup> Pen 52, t. 33; cf. PWDN, cerdd III.43.

<sup>26</sup> Pen 52, t. 33. Gw. PWDN, cerdd III.43. Nodir y gwall hwn gan Gilbert Ruddock yn ei erthygl, 'Sylwadau ar sefydlu testun newydd ...', 177 ac yn ei astudiaeth o waith y bardd, *Dafydd Nanmor*, t. 25. Ceir cryn orgyffwrdd rhwng y ddau gyhoeddiad hyn wrth drafod darlleniadau Pen 52 ond mae'r erthygl a gyhoeddwyd yn *Llên Cymru* yn drylwyrach trafodaeth destunol.

gwahaniaeth rhwng ‘yr hain’ ac ‘yr haini’.<sup>27</sup> Ond y mae fersiwn Pen 52 o linell 23 yn brin o ddwy sillaf:

Over dann i vynnod Gwladoydd<sup>28</sup>

Yn llinell 46 awdl arall Dafydd Nanmor i Rys ap Maredudd ceir:

Nev wrth y Galais er nerth gelyn<sup>29</sup>  
sydd yn brin o sillaf.<sup>30</sup>

Y mae’r awdl i Ddafydd ab Ieuan ab Einion yn cynnwys nifer o wallau a oedd yn peri i Gilbert Ruddock fwrw amheuaeth ar y gred mai llaw Dafydd Nanmor sydd yn y llawysgrif.<sup>31</sup> Yn y llinell gyntaf, er enghraifft, ceir ‘A’ ddiangen ar gychwyn y llinell:

A dewis wyd wr llwyd ar holl wyr Brytaen<sup>32</sup>

Y mae llinell 10 yn rhy hir o sillaf a llinell 41 yn rhy fyr o sillaf a cheir ‘g’ ynddi heb ei hateb.<sup>33</sup> Y mae llinell 43 hithau’n brin o sillaf ac mae llinell 47 yn rhy fyr oherwydd bod gair wedi ei hepgor sy’n awgrymu bod y copiyydd wedi camgopïo’i *exemplar*. Y mae llinell 63 yn rhy fyr hefyd ac y mae angen y ffurf luosog ar y gair ‘gamp’ o ran y mydr a’r ystyr.<sup>34</sup>

Ar y llaw arall, yr oedd rhannau eraill o Pen 52, yn ôl addefiad Gilbert Ruddock, yn fwy nodweddiadol o waith awdur yn ei law ei hun. Wrth drafod y llawysgrif dywed:

Yn sicr, testun hen a gwerthfawr o rai o gerddi DN yw hwn, a’i ddarlleniadau yn aml yn rhagori ar ddarlleniadau ffynonellau eraill.<sup>35</sup>

---

<sup>27</sup> Pen 52, t. 33.

<sup>28</sup> Ruddock, ‘Sylwadau ar sefydlu testun newydd ...’, 168.

<sup>29</sup> PWDN, cerdd II.46; Pen 52, t. 35.

<sup>30</sup> Ruddock, ‘Sylwadau ar sefydlu testun newydd ...’, 166.

<sup>31</sup> PWDN, cerdd XXIII.

<sup>32</sup> Pen 52, t. 8. Ruddock, ‘Sylwadau ar sefydlu testun newydd ...’, 177.

<sup>33</sup> Ruddock, ‘Sylwadau ar sefydlu testun newydd ...’, 178.

<sup>34</sup> Ibid. Am ragor o drafodaeth gw. Owen Thomas, ‘Trwy lygaid Peniarth 52’, tt. 73–112.

<sup>35</sup> Ruddock, ‘Sylwadau ar sefydlu testun newydd ...’, 175.

Y mae'r 'yn aml' yn awgrymu'n gryf fod Gilbert Ruddock ei hun yn synhwyro bod cryn anghysonder yn safon y trawsysgrifo yn Pen 52 a chadarnhau hynny y mae ei sylwadau golygyddol manwl ar y testun. Dro ar ôl tro, felly, ceir darlleniadau llwgr yn y copïau sydd yn ymddangos cyn tudalen 20 yn Pen 52 ond ar ôl hynny, yn ôl y disgwyl o wybod mai llaw Dafydd Nanmor sydd ar dudalennau 20–44, y mae'r darlleniadau a gynigir yn rhagori ar eiddo ffynonellau eraill.

### [Cywyddau Dafydd ap Gwilym yn Pen 52](#)

---

Y mae'r gerdd gyntaf sy'n perthyn i Ddafydd ap Gwilym yn ymddangos ar dudalennau 12–14 y llawysgrif fel a ganlyn:

Ivor ydoedd ovrodavr  
oi lys nidai bys heb aur  
doe ir oeddwn ar giniaw  
iw lys yn kael gwin oi law  
Gore gwraic hyt ar geri  
Gorav gwr yw dywr di  
Tra vv yn travaelv trwy vodd  
trwy voliant itravaelodd  
y dydd yddevthvm oi dai  
Ai venic dwbl ovwnai  
Aur yn ynaill dyaill dav  
Arwydd oedd or llaw orav  
Ac ariant moliant milioedd  
ovewn yllall vynill oedd  
Merchet avydd avydd ynerchi  
benthic vymenic i mi  
Nichae verch er iherchi  
Mwy no gwr vymenici  
Niwisgaf vanec megys  
o groen mollt igrino mys  
Gwisgaf nivynaf ivar  
hyddgen ygwr gwahodd gar  
Menic gwyl am yn wylaw  
ni bydd mynych igwych glaw  
bendith taliessin wingost  
abery byth heb air bost  
ar benn y bwrdd erbyn bwyt  
yno irel yn yr aelwyt  
lle trossaf ran ym annerch  
lle dewr mab lle diwair merch

Ile tric y benndevigaeth  
yn wleddav yn vwythav yn vaeth  
yn wragedd tec ihegin  
yn weilch yn vilgwn yn win  
nidoes brenn yn ywennallt  
nabo yn wyrdd i ben ai wallt  
Gwaith digrif yw i brifardd  
Gwelet hoyw geniret hardd  
Arglwyddiaeth dugiaeth dec  
A seiliwyt wrth vysalec  
Menic om tref agevais  
nid val menic sarvc sais  
Menic pvr gylenic por  
mwyn gyfoeth menic Ivor  
vymendith wedir nithiaw  
i dai Ivor hael ydaw

Dyma un o gywyddau mwyaf adnabyddus Dafydd ap Gwilym i Ifor Hael sydd yn diolch  
am fenig ac wrth droed y cywydd ceir y priodoliad ‘dd’ ap Gwilym ai kant’.<sup>36</sup>

Ar dudalen 15–18 gwelir y cywydd i ‘Y Ceiliog Bronfraith’ fel a ganlyn:

y mae pob mai diveioed  
ar vlaenav kanghennav koed  
kantor hydr ar gaer wydr gyll  
Esgud dann wyrddion esgyll  
keilioc tec rrec rrac organ  
bronnvraith drwy gyvraith agan  
pregethwr maith pob ieithoedd  
penndevic ar goedwic oedd  
sierru vydd ymedwydd mai  
saith vgeiniaith a ganai  
Evstus gwiw ar vlaen gwiaill  
Estiwart llys dyrys dail  
athro maith vynghyweithas  
ieithydd ar vric plannwydd plas  
kywirwas ar vriglas vry  
kydymaith mewn koed ymy  
keiniad yw gorevryw gan  
A gynnvll pwyll ac annian  
ll[ ]wy kreirwy kred  
am yvvn a mi vyned  
hyder a balch ehedec  
a wnaeth a dewiniaeth dec  
o blas iblas drwy draserch

---

<sup>36</sup> Pen 52, t. 14 a gw. GDG, cerdd 9.

o lwyn ilwyn er mwyn merch  
Dysc annerch a discynnv  
lle roedd y vvn llariaidd vv  
dwedud yn dec vy neges  
Diwyd vydd penn llywydd lles  
D[ ]ngos a wnaeth kydvaeth kant  
ygwir yni lythr gwarant  
darlleodd ymadrodd mydr  
dec lwysawd oi dy glaswydr  
Gelwis yn vaith gyvreithiol  
Arna ddechre r haf or rrol  
kollais ni dda[ ]  
daered rym dirwy dremic  
kyd kollwn gwnn o gynnydd  
dirwyon dann wyrddion wydd  
nichyll traserch merch imi  
kain nerthoedd nam kwyn  
o bydd kymen ygennad  
o brudd ef a gais i brad  
Duw a wnel gel i gofec  
Erovi a dewi dec  
amod rrywydd ymyd rryddoeth  
am y gennad geinwad goeth  
I adael ef ai lef lwys  
brydydd serch i baradwys  
ynad mygr gannheiliad  
Enw gwiwddoeth yno i gweddai

Ceir yr un math o briodoliad wrth ei droed ag a geir wrth y cywydd blaenorol, sef ‘Dd Ap Gwilym Ai kant’.<sup>37</sup> Dyma un o gywyddau Dafydd ap Gwilym i’r ceiliog bronfraith, sef rhif 123 yng ngolygiad Thomas Parry.<sup>38</sup> Ceir dau gywydd arall ganddo sy’n cyfarch y ceiliog bronfraith,<sup>39</sup> a chrybwyllir enw’r aderyn mewn pum cywydd arall, sef ‘Marwnad Gruffudd Gryg’, ‘Yr Haf’, ‘Cyngor y Biogen’, ‘I Wahodd Dyddgu’ ac ‘Offeren y Llwyn’.<sup>40</sup>

---

<sup>37</sup> Pen 52, t. 18.

<sup>38</sup> GDG, cerdd 123.

<sup>39</sup> Ibid., cerddi 28 a 36.

<sup>40</sup> Ibid., cerddi 20.33; 24.28; 63.8; 119.16; 122.4. Bu peth amheuaeth ynghylch dilysrwydd GDG, cerdd 28 ar sail ei arddull sy’n gymharol ddisangiad, gw. sylwadau Thomas Parry yn GDG, t. 470.

## Perthynas Thomas Parry â Pen 52

---

Dadlennol yw agwedd Thomas Parry tuag at Pen 52. Yn ddiau, y mae'r cerddi a briodolir i Ddafydd ap Gwilym yn y llawysgrif honno ychydig yn wahanol i'r hyn a geir yng ngolygiad terfynol Thomas Parry.<sup>41</sup>

Yr oedd 34 o gopïau llawysgrifol o'r cywydd 'Diolch am Fenig' yn hysbys i Thomas Parry pan aeth ati i olygu *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, er bod y *Mynegai i Farddoniaeth Gymraeg* bellach yn nodi bod hyd at 42 o gopïau yn hysbys (er bod llawer o'r copïau ychwanegol hyn yn ddiwerth oherwydd eu bod yn gopïau diweddar iawn o un neu ragor o'r 34 copi arall).<sup>42</sup>

O bwys llawer mwy arwyddocaol yw'r modd yr anghytunodd Thomas Parry â rhai o'r darlleniadau a geir yn Pen 52. Ymhlith y prif wahaniaethau ceir yr hyn a ganlyn. Yn y llinell gyntaf ceir: 'Ifor ydoedd afradaur' gan GDG ond 'o'i frodaur' yn ôl Thomas Parry a rydd Pen 52 (er mai 'ovrodavr', sef amrywiad ar 'afradaur' a geir ynddi mewn gwirionedd).<sup>43</sup> Yn llinell 17 yr oedd yn well gan Thomas Parry 'Aur yn y llaill' ar draul 'Aur yn y naill' o Pen 52 sydd yn well darlleniad o ran synnwyr y llinell ac o ran nifer y llawysgrifau eraill sy'n garn i'r darlleniad hwn. Fodd bynnag, yn lle ochri â thystiolaeth copïydd o'r bymthegfed ganrif penderfynodd Thomas Parry ddibynnu ar dystiolaeth Lewis Morris yn BL Add 14870 er nad oedd yn siwr, drwy ei addefiad ei hun, o ba le yr oedd y darlleniad arbennig hwnnw wedi tarddu.<sup>44</sup> Yn llinell 18 rhydd Thomas Parry flaenoriaeth i'r darlleniadau sydd mewn llawysgrifau diweddar.<sup>45</sup> Yn lle 'Pob merch y

---

<sup>41</sup> GDG., cerddi 9 a 123.

<sup>42</sup> Gw. <URL: <http://maldwyn.llgc.org.uk>> [Cyrchwyd 10 Awst 2005].

<sup>43</sup> GDG, cerdd 9.1.

<sup>44</sup> Ibid., t. clxv.

<sup>45</sup> Stowe 959, 238, BL Add 14 938, 127, Caerdydd 3.2, 167, llawysgrifau Llywelyn Siôn, LIGC 162, 100, LIGC 675, 25, LIGC 832, 23 (18g. sef copi William Bulkeley o'r Brynddu ym Môn) a Pen 198, 152 (1693–1701).

sydd yn erchi' llinell 21 ceir 'Merched a fydd yn erchi' yn Pen 52 (er bod y rhan fwyaf o llawysgrifau yn yr achos hwn yn cytuno â darlleniad Thomas Parry).

Y mae'n anos dewis rhwng y gwahanol ddarlleniadau ar gyfer llinell 27. Ceir 'Ni wisgaf fenig nigus' yn llawysgrifau Stowe 959, BL Add 14 938, 127, BL Add 14 966, 272a (o ganol yr 17g.), Caerdydd 2.616, 94 (17g.), Caerdydd 4.156, 622b (un o gasgliadau Margaret Davies o Goetgae-du, Trawsfynydd c. 1736—y mae ei chopïau yn llwgr dros ben yn ôl Thomas Parry, ac mae'n dalcen caled gwybod beth yw 'tarddell ei darlleniadau',<sup>46</sup> Cwrtnawr 5, 251 (17g a'r 18g.), Llansteffan 133, 1016 a Llansteffan 14, 64 (sef dwy llawysgrif o eiddo Samuel Williams), Aberdâr 3, 52b (hanner cyntaf yr 17g.), LIGC 162, 100, LIGC 832, 23 (18g. sef copi William Bulkeley o'r Brynddu ym Môn), LIGC 6706 (heb rif dalen; 17g.), Peniarth 198, 152 (1693-1701) a Thelwall 236 (amryw lawiau o ddiwedd yr 17g a dechrau'r 18g.) tra bo llawysgrifau eraill, gan gynnwys Pen 52, yn cynnig 'Ni wisgaf faneg megys' (< 'Niwisgaf vanec megys'). Cyfeddyf Thomas Parry fod 'amryw o'r llsgau' yn cynnig 'faneg megys',<sup>47</sup> ond ar yr un pryd dywed wrth fynd heibio, 'diau mai nigus sy'n gywir'.<sup>48</sup> Nid oes fawr i'w ddewis rhwng y ddau ddarlleniad felly, ond efallai mai 'nigus' yn yr achos hwn yw'r *lectio difficilior*.

Gwrthodir darlleniad Pen 52 ar gyfer llinell 51 gan Thomas Parry hefyd. Yn lle 'Gwaith digrif yw i brifardd' (sydd yn cadw cymeriad llythrennol y cwpled) dilynir 'Ponid digrif i brifardd' llawysgrifau Stowe 959, 238, BL Add 14 938, 127, Caerdydd 3.2, 167, llawysgrifau Llywelyn Siôn, Aberdâr 3, 52b (hanner cyntaf yr 17g.), LIGC 162, 100, LIGC 675, 25, LIGC 6706 (heb rif dalen; 17g.) a Pen 198, 152 (1693–1701).

---

<sup>46</sup> GDG, t. cxlvii.

Yn llinell 56 ceir darlleniad mwy synhwyrol yn Pen 52 na'r hyn sydd yng ngolygiad terfynol Thomas Parry o'r cywydd. Yn lle 'Nid fal menig Seisnig Sais' (sef yr hyn a ffafriwyd gan Thomas Parry) dylid arddel fersiwn cynharach o'r llinell, sef 'Nid fal menig sarrug Sais' (< 'nid val menic sarvc sais'), sydd yn ddiau yn gwneud gwell synnwyr. Gellid mentro mai gair llanw, chwedl *Cerdd Dafod*, yw 'Seisnig' yn y cyswllt hwn gan nad yw'n ychwanegu fawr ddim at y llinell, heblaw am gwblhau'r gynghanedd sain.<sup>49</sup> O bosibl gwrthodwyd darlleniad Pen 52 gan Thomas Parry am nad yw'n cydymffurfio â'i syniad o gywirdeb mesur a chan fod amheuaeth ynghylch yr odl rhwng 'menig' a 'sarrug'. Fodd bynnag, yn ôl John Morris-Jones, yr oedd y terfyniadau diacen 'yg' ac 'ig' yn meddu ar yr un sain o'r ddeuddegfed ganrif ymlaen, ac felly nid ffrwyth mydryddiaeth lwgr ddiweddar yw'r odl o gwbl.<sup>50</sup>

Yn ogystal ag anghytuno â nifer o ddarlleniadau Pen 52 ychwanegwyd rhai llinellau a chwpledi gan Thomas Parry at yr hyn a oedd yn fersiwn Pen 52 o'r cywydd. Ni cheir yn Pen 52 y cwpled a ganlyn:

Mi a dyngaf â'm tafawd  
Ffordd y try dydd, gwehydd gwawd<sup>51</sup>

Yr un modd, ni cheir yn Pen 52:

Benthyg ei fenig i fardd  
A roes Ifor, ryseifardd;  
Menig gwynion tewion teg,  
A mwnai ym mhob maneg

Ni cheir yn Pen 52 ychwaith y cwpled:

Ni roddaf, dygaf yn deg,  
Rodd Ifor rwydd ei ofeg.<sup>52</sup>

---

<sup>47</sup> Ibid., t. 442.

<sup>48</sup> Ibid.

<sup>49</sup> *Cerdd Dafod*, tt. 81–2.

<sup>50</sup> Ibid., t. 247.

<sup>51</sup> GDG, cerdd 9.5–6.

Yn olaf, ni cheir yn Pen 52:

Rhoddaf i hwn, gwn ei ged,  
O nawdd rugl, neuadd Reged.<sup>53</sup>

Ac yn absennol o Pen 52 y mae'r cwpled canlynol yn ogystal:

Yn ysgarlad rhad rhydeg,  
Yn aur tawdd, yn eiriau teg.<sup>54</sup>

Oherwydd natur y llawysgrifau sydd yn cynnig y deunyddiau ychwanegol hyn dylid bod yn ochelgar iawn wrth eu cynnwys mewn golygiad terfynol o'r cywydd. Ymysg y copiŵyr a fu'n gyfrifol am rai o'r llawysgrifau diweddar hyn y dibynnwyd ar eu tystiolaeth er mwyn llunio testunau cyfansawdd modern y mae Lewis Morris a Llywelyn Siôn ac anodd yw gwybod weithiau beth yn union fu eu ffynonellau hwy.

O droi at gywydd 'Y Ceiliog Bronfraith' dywed Thomas Parry fel a ganlyn:

Nid oes ond dau gopi o'r cywydd hwn ar gael, a'r ddau yn anodd iawn eu darllen ... Ond ni eill fod dim amheuaeth nad yw'n ddilys.<sup>55</sup>

Y ddwy lawysgrif dan sylw gan Thomas Parry yw Pen 52, 15 a Pen 78, 38.<sup>56</sup> Yn ei nodiadau ar y cywydd hwn dywed Thomas Parry fod y ddau gopi o'r cywydd hwn sydd ar glawr yn anodd eu darllen oherwydd 'pylni'r inc'.<sup>57</sup> Er bod ambell air yn aneglur yn Pen 52 y mae'n gopi da at ei gilydd, ac yn ddigon hawdd ei ddarllen hyd yn oed ar ffurf electronig.<sup>58</sup> At hynny, ceir copi o'r cywydd yn Llansteffan 118, 653 yn ogystal.<sup>59</sup> Yr oedd y llawysgrif honno ar glawr ac ar gael i Thomas Parry a defnyddiwyd hi ganddo

---

<sup>52</sup> Ibid., llau. 25–6.

<sup>53</sup> Ibid., llau. 33–4.

<sup>54</sup> Ibid., llau. 45–6.

<sup>55</sup> Ibid., t. 534.

<sup>56</sup> Ibid., t. cxci.

<sup>57</sup> Ibid., t. 534.

<sup>58</sup> Gw. <URL: <http://digidol.llgc.org.uk/METS/DAF00013/frames?div=0&subdiv=0&locale=cy&mode=reference>>

[Cyrchwyd 11 Mai 2007].

<sup>59</sup> Llansteffan 118, 653.

yng nghyswllt cerddi eraill Dafydd ap Gwilym (er enghraifft, yn ei olygiad o'r cywydd 'Y Breuddwyd').<sup>60</sup>

Yr enw mwy traddodiadol ar Lansteffan 118 yw Carpiog Aber Llyfeni ac yn ôl un disgrifiad ohoni:

This volume is made up of two different manuscripts. Fifteen poems are wanting at the beginning of part i which breaks off in the middle of its 105th poem, p. 176. Part ii begins in the middle of its 20th poem on p. 177 and ends with the 12th line of its 309th poem. Both parts are from the same pen which wrote also Mostyn MS. 160 and Peniarth MS. 115.<sup>61</sup>

Ymddengys 'Y Ceiliog Bronfraith' yn Llansteffan 118 heb briodoliad fel a ganlyn:

I mae pob Mai difeioed  
ar flaenav canghenav koed  
keiliog teg reg rhagorgan  
bronfraith drwy gyfraith a ga[ ]  
pregethwr maith pob iaithoedd  
pendevig ar goedwig oedd  
siri fydd ymedwydd mai  
saith vgeiniaith a ganai  
ystvs gwiw ar flaen gwiaail  
ystiwart llys dyrys dail  
a thro maith fy nghoweithas  
ieithydd ar frig planwydd plas  
cowirwas ar friglas fry  
cydvmeth mewn koed imy  
dowaid ym goreyriw gan  
ag ynill pwyll ag anian  
hvder y balch i hedeg  
a wnaeth y dewiniaeth deg  
o blas i blas drwy dra serch  
o lwyn i lwyn er mwyn merch  
dysg annerch a disgyunny  
lleir roedd y fvn llariedd fy  
dowed yn deg fyneges  
diwyd fydd penn llowydd lles  
dangos a wnaeth cydfaeth kant  
y gwir yn i lythr gwarant  
darlleodd ymadrodd mvdvr  
deg lwyswawd oi dv glaswydvr

---

<sup>60</sup> GDG, cerdd 39.

<sup>61</sup> RMWL II (Llundain, 1903), t. 579. Y mae'r llawysgrif yn llaw Humphrey Davies a gellir dyddio'r ail ran 1612 x 35.

gelwais yn faith gyfreithiol  
arnaf ddechre r haf orhol  
collais ni ddamvnais ddig  
daered Rym dirwy dremig  
cydgollwnn gwnn gynnydd  
dirwyon dan wyrddion wydd  
ni chyll trasserch merch i mi  
kai nerth oedd am kwyn wrthi  
[ ]dd kymen y genad  
[ ]dd ef a gais i brad

[ ]ni wnn pwy ai kant<sup>62</sup>

Dywed J. Gwenogvryn Evans fod y cywydd yn Pen 78 yn llaw  $\alpha$  ac iddo gael ei gopïo yn 1573.<sup>63</sup> Nis trafodir gan Daniel Huws yn ei erthygl, ‘The transmission of a Welsh classic’, ond fe geir rhai nodiadau manwl ar y llawysgrif ganddo sydd heb eu cyhoeddi.<sup>64</sup> Yr un llaw a fu’n gyfrifol am y llawysgrif hon â Mostyn 160 a Pen 114 ond ni cheir copi o gywydd ‘Y Ceiliog Bronfraith’ yn un o’r ddwy lawysgrif hynny. Lleolir y copi hwn rhwng dwy gerdd serch o eiddo Bedo Phylip Bychan a Bedo Aeddrem ond ni thadogir ef ar Ddafydd ap Gwilym. Yn wir, nis priodolir i neb. Awgryma hyn na ddigwyddodd y copïydd, yn ôl y dystiolaeth sydd ar glawr, weld na Pen 52 na Pen 78. Dilyn darlleniad Pen 52 a wna Thomas Parry ar gyfer y cywydd hwn yn bennaf oll. Fodd bynnag, er mai dau gopi yn unig o’r cywydd hwn a oedd yn hysbys iddo ef ar y pryd myn ddiwygio ambell air a llinell o eiddo’r testun hwnnw heb garn yn y naill lawysgrif na’r llall.

Yn llinell 9 ceir ‘sierri’ gan Pen 52 ond fe’i diwygir yn ‘siryf’ (gan ddilyn darlleniad y ddwy lawysgrif arall) gan Thomas Parry er mwyn i’r llinell, mae’n debyg, gydymffurfio ag orgraff Gymraeg yr ugeinfed ganrif. Er hynny, ys dywed Thomas Parry, ‘ceir digon o brofion fod y beirdd weithiau’n dewis ffurfiau ar eiriau a oedd wedi datblygu yn yr iaith

---

<sup>62</sup> Llansteffan 118, 653.

<sup>63</sup> RMWL I, t. 518.

lafar. Er enghraifft, hepgorir y gytsain feddal *-f* ar ddiwedd gair'.<sup>65</sup> Trwy fynnu cynnwys y ffurf 'siryf' yn lle 'sieri' collwyd y cyfle i roi blas i'r darllenydd modern ar y modd y byddai ffurfiau tafodieithiol neu ansafonol o'r fath wedi ymblethu ag ieithwedd fwy cydnabyddedig gan olygyddion modern cywyddwyr y bedwaredd ganrif ar ddeg.<sup>66</sup>

Yn llinell 11 newidir 'Eustus' (sydd yn cynrychioli'r ynganiad 'iustus') Pen 52 yn 'ustus' yn y golygiad er bod hyn efallai yn enghraifft arall o'r modd y collir peth o'r blas canoloesol ar iaith y Cywyddwyr, ynghyd â chymeriad llythrennol, wrth fynnu glynu'n rhy gaeth at gonfensiynau orgraff ddiweddar. Y mae rhan gyntaf llinell 19 yn annarllenadwy yn Pen 52 ac, ysywaeth, ni cheir y llinell hon yn y ddwy lawysgrif arall. Yn llinell 27 diwygiwyd y llinell oherwydd bod darlleniad Pen 52 (o'i ddiwygio i gydymffurfio ag orgraff safonol ddiweddar, sef 'dywedud') yn euog o'r bai tor mesur drwy fod yn rhy hir o sillaf. O'r herwydd, gwrthodwyd yr ail berson unigol amherffaith (neu'r ffurf ferfenwol) 'dwedud' a geir yn Pen 52, sydd yn ffurf 'a gysylltir â Chymraeg Canol,'<sup>67</sup> a chrewyd darlleniad newydd â 'dywad', sef y ffurf amheronol gorffennol mynegol ar y berfenw 'dweud'.<sup>68</sup> Cynnig Pen 78 a Llansteffan 118 ill dwy 'dowed' ond nid oedd yn dderbyniol gan Thomas Parry. Camgopiwyd darlleniad Pen 52 ar gyfer llinell 30 gan Thomas Parry: nid 'y gŵr ym lythr gwarant' sydd yma ond 'y gwir yni lythr gwarant'. Gwrthodir amrywiad dilys arall yn llinell 49 wrth i Thomas Parry ddewis 'gynheiliad' yn lle 'ganheiliad' Pen 52. Er na fyddai golygiad yn seiliedig ar y sylwadau uchod yn wahanol iawn i'r hyn a gynigir gan Thomas Parry gellid dadlau y byddai'n

---

<sup>64</sup> MWM, tt. 84–103.

<sup>65</sup> GDG, t. lxxxiii; gw. hefyd sylwadau Gilbert Ruddock ar ddarlleniadau 'llafar eu naws' Pen 52 yn *Dafydd Nanmor*, tt. 24–7.

<sup>66</sup> Gw. gwaith Peter Wynn Thomas ar dafodieitheg hanesyddol, er enghraifft, yn Peter Wynn Thomas, 'Cydberthynas y pedair fersiwn ganoloesol' yn Sioned Davies a Peter Wynn Thomas (gol.), *Canhwyl Marchogyon: Cyd-destunoli Peredur* (Caerdydd, 2000), tt. 10–49.

<sup>67</sup> *Ibid.*, t. lxxxii.

<sup>68</sup> GMW, t. 114.

agosach i Pen 52 ac, yn sgil hynny, yn debycach i'r hyn a ganwyd neu a glywyd gan Ddafydd Nanmor yn y bymthegfed ganrif.

Er nad ysgrifennwyd cywyddau Dafydd ap Gwilym gan Ddafydd Nanmor yn Pen 52 fe ellir tybio'n bur ddiogel bod Dafydd Nanmor wedi darllen 'Diolch am Fenig' ac 'Y Ceiliog Bronfraith' gan Ddafydd ap Gwilym yn y llawysgrif hon. Yn gyffredinol, ni wyddys hyd sicrwydd i ba raddau yr oedd beirdd y bymthegfed ganrif yn gyfarwydd â holl weithiau Dafydd ap Gwilym ond fe rydd Pen 52 brawf pendant inni fod Dafydd Nanmor yn gyfarwydd ag o leiaf ddwy gerdd benodol o'i eiddo.

### 'Diolch am Fenig' a Dafydd Nanmor

---

Yn 'Diolch am Fenig' ceir portread o noddwr hael:

Ifor ydoedd afradaur,  
O'i lys nid âi bys heb aur.<sup>69</sup>

Ond fe geir trawiad cyferbyniol newydd gan Ddafydd wrth sôn am enw da Ifor Hael:

Tra fu'n trafaelu trwy fodd,  
Trwy foliant y trafaelodd.<sup>70</sup>

Cynodai'r berfenw 'trafaelu' nad oedd Ifor Hael yn noddwr a arhosai yn ei lys. Ceir awgrym yn 'Awdl i Ifor Hael' fod Ifor Hael yn fasnachwr o ryw fath—'Newidiwr, trwsiwr trysor—a moliant', sef math cwbl newydd (o ran dosbarth cymdeithasol) o noddwr llên.<sup>71</sup> Newydd hefyd yw'r syniad o drafaelu trwy foliant. Er bod y berthynas gyd-ddibynnol rhwng bardd a noddwr yn hen gysyniad erbyn y bedwaredd ganrif ar ddeg rhoddir gwedd newydd arno gan Ddafydd ap Gwilym. Ym myd arian a moethau yr ydym yng nghywydd Dafydd ap Gwilym:

---

<sup>69</sup> GDG, cerdd 9.1–2.

<sup>70</sup> Ibid., llau 9–10.

<sup>71</sup> Ibid., cerdd 5.21.

Aur yn y llaill, dyaill dau,  
Arwydd yw, i'r llaw ddeau,  
Ac ariant, moliant miloedd,  
O fewn y llall, f'ennill oedd.<sup>72</sup>

Atgyfnerthu'r syniad o lys gwâr a diwladaidd yw'r cyferbyniad rhwng menig "o groen mollt" a'r menig "hyddgen" neu'r menig "gŵyl".<sup>73</sup> Ond cyn i Ddafydd fynd i ormod o hwyl yn y cywair llysol newydd troir ein sylw yn ôl at sylfeini'r traddodiad mawl:

Rhoddaf i hwn, gwn ei ged,  
O nawdd rugl, neuadd Reged,  
Bendith Taliesin wingost,  
A bery byth heb air bost.<sup>74</sup>

Er bod allanolion y llys wedi newid (ynghyd â swydd a statws y noddwr yn ogystal) yr un yw'r neuadd yn ei hanfod, ac â'r bardd rhagddo i restru nodweddion y neuadd honno:

Lle dewr mab, lle diwair merch;  
Lle y trig y bendefigaeth.<sup>75</sup>

Os yw'r menig a roddwyd i Ddafydd ap Gwilym yn symbol o werthfawrogiad Ifor Hael o fawl ei fardd y mae Dafydd ap Gwilym hefyd yn pwysleisio moethusrwydd llys Ifor Hael:

Yn ysgarlad rhag rhydeg,  
Yn aur tawdd, yn eiriau teg.<sup>76</sup>

At hynny, cyplysir y llys hwn ar ei newydd wedd â byd natur a thrwy gysylltiad â chywyddau Dafydd ap Gwilym, â chanu serch hefyd efallai:

Nid oes bren yn y Wennallt  
Na bo'n wyrdd ei ben a'i wallt,  
A'i gangau yn ogyngerth,

---

<sup>72</sup> Ibid., cerdd 9.17–20.

<sup>73</sup> Ibid., llau 28, 31–2.

<sup>74</sup> Ibid., llau 33–6. Er nad yw'r cwpled cyntaf 'Rhoddaf i hwn, gwn ei ged,/ O nawdd rugl, neuadd Reged' yn digwydd yn Pen 52, y mae'r cyfeiriad at Daliesin yn ddigon o hyd i droi'n sylw yn ôl at y Cynfeirdd. Gw. hefyd ei gyfeiriad at Ifor Hael fel 'ail Daliesin' yn 'Ymado ag Ifor Hael' (GDG, cerdd 10.34)—yn yr un cywydd cyfeirir at Ifor fel "synnwyr wybod serch" sydd yn awgrymu bod modd i noddwr fod yn gysylltiedig â dau fath o gerdd, gw. ll. 20; a cheir cyfeiriad at draddodiad mawl Taliesin gan Ddafydd ap Gwilym yn ei farwnad i Ruffudd Gryg, gw. GDG, cerdd 20.2.

<sup>75</sup> GDG, cerdd 9.40–1.

<sup>76</sup> Ibid., llau 45–6.

A'i w'n a'i bais yn un berth.<sup>77</sup>

Dylid nodi hefyd fod arddull y cywydd hwn yn dra gwahanol i eiddo 'Awdl i Ifor Hael' sydd yn gerdd lawer mwy ffurfiol ei mydr a'i chystrawen. Perthyn 'Awdl i Ifor Hael' fwy i naws ac arddull canu'r Gogynfeirdd diweddar nag i oes y Cywyddwyr.

'Diolch am Fenig' yw un o gerddi mawl pwysicaf Dafydd ap Gwilym. Yn gyntaf, y mae'n un o'r cerddi sydd yn asio ynghyd elfennau a fuasai ar wahân: sef canu mawl, canu gofyn ac, i raddau llai, canu natur (a hyd yn oed ganu serch os derbynnir yr awgrym bod sôn am goedwig a changen yng ngwaith Dafydd ap Gwilym yn dwyn i gof *locus amoenus* canu serch, sef y deildy). Yn ôl Eurys Rowlands, yn y cywydd hwn y ceir prawf bod Dafydd ap Gwilym "yn gweld ystyr ei wrthryfel".<sup>78</sup> Ond yn lle synied am Ddafydd ap Gwilym fel chwyldröwr neu fel hwrdd yn topi'r celfi oll, gellir dadlau (drwy gyfeirio at y cywydd hwn) yr un mor argyhoeddiadol dros ei awydd i gyfannu elfennau a fuasai'n ddigyswllt gynt.

'Diolch am Fenig' hefyd yw un o'r cywyddau diolch cynharaf yn y Gymraeg.<sup>79</sup> Amlinellir gan Bleddyn Huws fod y dull llenyddol hwn yn unigryw ac awgrymir bod elfen o ddefod yn gysylltiedig â chyflwyno'r rhodd i fardd ac wrth i'r bardd ddiolch ar gân am ei rodd. Gellid ymhelaethu ar y dybiaeth hon drwy ddadlau bod y ddefod hon yn feicrocosm o'r hyn yr oedd Dafydd ap Gwilym yn ei gyflwyno i farddoniaeth Gymraeg yn y bedwaredd ganrif ar ddeg.<sup>80</sup> Dylid sylwi hefyd fod mwy o bwyslais ar y berthynas rhwng y bardd a'r noddwr ac ar foli llys y noddwr yng nghywydd diolch Dafydd ap

---

<sup>77</sup> Ibid., llau 47–50.

<sup>78</sup> Eurys I. Rowlands, 'Nodiadau ar y traddodiad moliant a'r cywydd', LIC, 7 (1962–3), 230.

<sup>79</sup> Barn Bleddyn Huws yw mai hwn yw'r 'cywydd diolch cynharaf sydd ar glawr, ond odid'; gw. Bleddyn O. Huws, *Y Canu Gofyn a Diolch* (Caerdydd, 1998), t. 33.

<sup>80</sup> Ibid.

Gwilym nag ar y gwrthrych ei hun (er bod cywyddau diolch y Cywyddwyr, at ei gilydd, yn dyfalu'r rhodd yn llawer helaethach).

Ni cheir ond tri chyfeiriad at Ifor Hael yng ngwaith Dafydd Nanmor. Digwydd un cyfeiriad ato ym marwnad Rhys ap Maredudd a digwydd y ddau gyfeiriad arall, yn arwyddocaol ddigon, yn ei gywydd cymod i Rys ap Maredudd (sef cerdd nad oes copi ohoni yn Pen 52).<sup>81</sup> Gelwir Rhys ddwywaith yn y cywydd cymod yn 'nai Ifor Hael' ac yn 'nai Jfor' yn y farwnad ac, o bosibl, dengys hyn fod Dafydd Nanmor yn ymwybodol o gysylltiadau teuluol Rhys â Dafydd ap Gwilym, gan y gallai Rhys ap Maredudd a Dafydd ap Gwilym olrhain eu hachau yn ôl hyd at Wynfardd Dyfed a Chuhelyn Fardd drwy Wilym ab Einion Fawr o'r Tywyn.<sup>82</sup> Ar lefel lenyddol ac o safbwynt dylanwad barddoniaeth Dafydd ap Gwilym ar Ddafydd Nanmor y mae 'Dadolwch Rhys o'r Tywyn' yn arwyddocaol. Fe gychwyn â chyfeiriadau at ei berthynas â Gwen o'r Ddôl (sydd yn dwyn tebygrwydd amlwg â charwriaeth Dafydd ap Gwilym a Morfudd):

Wedi kav am gerddav Gwen  
Dayar Wynedd â draenen,  
Devthvm i, nid aeth y'm ôl,  
I'r Deav, yn w'r deol.<sup>83</sup>

Y mae cywair y cywydd yn hamddenol a chymharol anffurfiol, ond efallai na ddylid pwysu ar naws yr arddull yn ormodol gan ei fod yn gywydd a berthyn i'r bymthegfed ganrif (ac nid yn gerdd, dyweder, a ganwyd yng nghyfnod y Gogynfeirdd diweddar). Fodd bynnag, digwydd y gair 'trafael' gan Ddafydd Nanmor yn yr un cwpled â'r cyfeiriad at Ifor Hael:

Kyntaf i'm roed ar drafael  
Yn fy rodd, nai Ifor Hael.

---

<sup>81</sup> PWDN, cerdd VII.32: "nai Jfor"; cerdd IV.5–8.

<sup>82</sup> P. C. Bartrum, WG: 1 'Gwynfardd' 1; P. C. Bartrum, WG: 1 'Gwynfardd' 2; P. C. Bartrum, WG: 2 'Gwynfardd' 2 (A1).

<sup>83</sup> PWDN, cerdd IV.1–4.

A chyntaf i'm drychafodd  
Nai Ifor Hael yn fy rodd.<sup>84</sup>

Y mae'r adlais yn amlwg. Er y gall 'trafaelu' olygu 'llafurio' yn ogystal â 'teithio' y mae'n bur amlwg mai'r ail ystyr sydd yn gweddu orau yng nghywyddau Dafydd ap Gwilym a Dafydd Nanmor. Ni cheir enghreifftiau eraill yng ngwaith cydnabyddedig Dafydd ap Gwilym o'r ffurfiau 'trafael' neu 'trafaelu' a chan fod enghreifftiau o'r gair hwn mewn cywydd i Ifor Hael y ceir copi ohono mewn llawysgrif sydd yn rhannol yn llaw Dafydd Nanmor nid yw'n afresymol haeru bod gennym enghraifft bosibl o ddylanwad uniongyrchol Dafydd ap Gwilym ar Ddafydd Nanmor yn yr achos hwn. At hynny, fe ellir ychwanegu y gallai Dafydd Nanmor fod wedi dewis adleisio 'Awdl i Ifor Hael', sef cerdd lawer mwy ffurfiol a hynafol ei naws. Eithr dewis cywydd diolch Dafydd ap Gwilym a wnaeth, gan fabwysiadu'r un naws arddulliol a'r un portread o gyfeillgarwch rhwng bardd a noddwr yn ei waith ei hun.<sup>85</sup> Dewis bwriadus oedd hynny, gan fod yr un delfrydau yn gweddu yng ngherddi Dafydd Nanmor i Rys ap Maredudd.

### 'Y Ceiliog Bronfraith' a Dafydd Nanmor

---

Er i Ddafydd Nanmor ddatgan yn ei gywydd cyffes:

Ni thorrais vn llythyrenn  
O bin ag ingk heb ennw Gwen.<sup>86</sup>

ni ellir rhoi gormod o goel arno gan na cheir enghraifft o ganu serch a natur o'i eiddo yn Pen 52. Yr hyn a geir ganddo yn y llawysgrif honno yw awdl i Ddafydd ab Ifan ab Einion o Wynedd (sef y gerdd hir gyntaf yn y llawysgrif nad yw yn llaw Dafydd Nanmor); tair cerdd i Rys ap Maredudd o'r Tywyn; cywydd i Rys ap Rhydderch ap Rhys o'r Tywyn; cywydd i Domas ap Rhys o'r Tywyn; cywydd i Bedrog Sant ac awdl i

---

<sup>84</sup> Ibid., llau 5–8.

<sup>85</sup> Ibid., gw. er enghraifft, gerddi I a V.

<sup>86</sup> Ibid., cerdd XXVII.27–8.

Ddafydd ap Tomas ap Dafydd a fuasai'n gwnstabl castell Aberteifi yn ystod teyrnasiad Edward IV ac felly'n ŵr, fel y dywed D. Myrddin Lloyd, y byddai'n ddoeth i aelodau teulu'r Tywyn ei blesio trwy ganu mawl iddo.<sup>87</sup> Os tybir bod Pen 52 yn rhyw fath o lyfr llys a berthyn i dde-orllewin Cymru (o bosibl, i gartref Rhys ap Rhydderch) nid yw'n syndod mai canu mawl yw natur ei gynnwys at ei gilydd.

Fe ddadleuir uchod fod cywydd diolch Dafydd ap Gwilym i Ifor Hael yn batrwm i ganu mawl Dafydd Nanmor ac yn talu am ei le yn y llawysgrif. Ond beth am 'Y Ceiliog Bronfraith'? Awgrymir yn ail bennod y traethawd hwn fod Glyn Aeron, cartref Rhydderch ab Ieuan Llwyd, yn lleoliad posibl ar gyfer perfformio 'Y Ceiliog Bronfraith' (GDG 123) yn rhannol oherwydd bod cynifer o gyfeiriadau cyfreithiol yn y cywydd, oherwydd bod Rhydderch yn arbenigwr ym maes y gyfraith a bod ganddo gysylltiad personol â Dafydd ap Gwilym.<sup>88</sup> Er bod R. Geraint Gruffydd yn cynnig bod Dafydd ap Gwilym wedi dysgu termau cyfreithiol wrth draed ei ewythr Llywelyn ap Gwilym nid yw hynny o reidrwydd yn golygu nad yng Nglyn Aeron y perfformiwyd y cywydd hwn.<sup>89</sup> At hynny, gellir dyfalu ymhellach drwy gynnig mai drych i gymeriad Rhydderch ab Ieuan Llwyd yw'r ceiliog bronfraith, sef cysêt a fyddai'n destun difyrrwch. Os gwir hynny, gellir dadlau nad yw'n gywydd natur yn unig: hynny yw, fe gynnwys elfennau eraill (fel testunio neu ddychanu noddwr cyfeillgar). Os tynnu coes noddwr â diddordebau cyfreithiol oedd y nod yn wreiddiol fe ellir dychmygu'n hawdd y byddai o ddiddordeb i deulu arall (fel teulu'r Tywyn) a oedd â dyletswyddau ym maes y gyfraith. Bu Rhys ap Maredudd yn feili ym mhlwyf Llanbadarn rhwng 1437 a 1438, ac

---

<sup>87</sup> D. Myrddin Lloyd, 'Dafydd Nanmor', t. 179.

<sup>88</sup> Am drafodaeth fanwl ar y cyfeiriadau cyfreithiol a geir yn 'Y Ceiliog Bronfraith', gw. R. Geraint Gruffydd, 'A glimpse of Welsh medieval court procedure', yn Isobel Harvey a Colin Richmond (gol.), *Recognitions: Essays Presented to Edmund Fryde* (Aberystwyth, 1996), tt. 165–78.

<sup>89</sup> *Ibid.*, tt. 172–3.

yn rhyngyll (1460–1) ac yn feili (1460–1) yng Ngenau'r Glyn (sef swyddi sy'n goleuo'r llinellau a ganlyn yn awdl Dafydd Nanmor i Rys ap Maredudd: 'Genau[*r*] Glyn, Towyn, finteioedd—a droes/ I dai Rys yn llvoedd').<sup>90</sup> Ceir ambell gyfeiriad yng ngwaith Dafydd Nanmor at ddyletswyddau cyfreithiol Rhys ap Maredudd yn ogystal, a digwydd un o'r cyfeiriadau mewn awdl y ceir copi ohoni yn Pen 52.<sup>91</sup> Bu Rhys ap Rhydderch ap Rhys, sef wŷr Rhys ap Maredudd, yntau'n dal swyddi: bu'n feili ym mhlwyf Llanbadarn yn 1486–7 ac yn grwner-faer yn Aberystwyth yn 1486–7.<sup>92</sup> Ni ellir haeru'n bendant, wrth reswm, fod y ddau gywydd gan Ddafydd ap Gwilym yn rhagfynegi peth o gynnwys barddol Dafydd Nanmor yn y llawysgrif. Y mae'n bosibl nad oedd Dafydd Nanmor yn tybied mai symbol o Rydderch ab Ieuan Llwyd yw'r ceiliog bronfraith; mae'n bosibl mai casgliad o gerddi digyswllt a geir yn Pen 52 (cyn tudalen 20 beth bynnag). Ar y llaw arall, os cyd-ddigwyddiad yw'r copïau a geir yn Pen 52 o ddau gywydd gan Ddafydd ap Gwilym, gellir dadlau (yn ôl-dremiol) o'r hyn lleiaf eu bod yn cyfoethogi'r llyfr llys yn llenyddol ac yn thematig.

### Dafydd Nanmor: Disgyrsiau Eraill

---

Nid memrwm a llawysgrif yw'r unig ffurf ar y cysyniad o Ddafydd Nanmor sydd wedi goroesi oherwydd tyfodd o'i gwmpas fanylion bywgraffyddol am fywyd anturus a chyffrous ac, yn iaith theori lenyddol ddiweddar, perthyn nifer o ddisgyrsiau amrywiol i'w enw. Ceir nifer o gyd-ddigwyddiadau a chyfatebiaethau rhwng hanes Dafydd ap Gwilym a Dafydd Nanmor mewn disgyrsiau y tu allan i Pen 52. Yn gyntaf, tybir yn gyffredinol fod Dafydd Nanmor wedi ei alltudio o Wynedd oddeutu'r flwyddyn 1453 ar

---

<sup>90</sup> Gw. R. A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: I. South Wales, 1277–1536* (Caerdydd, 1972), tt. 312, 441 a 446; PWDN, cerdd II.1–2.

<sup>91</sup> Er enghraifft, PWDN, cerddi II.50 a III.61.

<sup>92</sup> R. A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages*, tt. 435–6.

gyfrif ei gerddi i wraig briod o'r enw Gwen o'r Ddôl.<sup>93</sup> Ceir wyth cywydd serch ganddo,<sup>94</sup> sydd yn cynnwys cywydd cyffes, marwnad i ferch, cywyddau llatai a chywyddau llawn dyfalu.<sup>95</sup> Ceir nifer o adleisiau o waith Dafydd ap Gwilym yn y cywyddau serch hyn, fel y byddid yn ei ddisgwyl mewn barddoniaeth serch Gymraeg o'r bymthegfed ganrif. Ceir cywydd i'r cae bedw ynghyd â chyfeiriad at Ofydd:

Eirchiad wyf, archiad Ofydd,  
Erchais gae euryches gwŷdd.<sup>96</sup>

Yn yr un cywydd enwir Dafydd ap Gwilym ganddo:

Ni byddaf, mwy na Dafydd  
Ab Gwilym Gam, heb glwm gwŷdd;<sup>97</sup>

At hynny, ceir trawiadau yng ngwaith Dafydd Nanmor sy'n nodweddiadol o gywair Dafydd ap Gwilym yn ei gywyddau serch yntau.<sup>98</sup> Er enghraifft:

Er yn vab y karwn vedd,  
Garw gŵyn, a gwraic o Wynedd.<sup>99</sup>

Gair mwys yw 'vedd' y cwpled hwn ac arddull amwys o chwareus a geir hefyd yn llawer o gywyddau serch a natur Dafydd ap Gwilym.<sup>100</sup> Cyfeirir at yr un adar mewn cywydd serch:

Gweddw am hon yn y bronnydd  
Ydyw'r gog, a'r bedw a'r gwŷdd;  
A cherdd bronfraith, o chuddiwyd,

---

<sup>93</sup> PWDN, cerdd IV.1–4: 'Wedi kav am gerddav Gwen/ Dayar Wynedd â draenen./ Devthvm i, nid aeth y'm ol./ I'r Deav, yn wr deol.' Yn ei gywydd i Ddafydd ab Ifan ab Einion o Wynedd (PWDN, cerdd XXI.25–8) dywed Dafydd Nanmor: 'A thra fv'n rhyfelv'n Rhôn/ Aelynael a'i elynion/ Gorfv ym, myn y Gwr a fedd./ Gell y gwin, gollli Gwynedd.' Am ymdriniaeth â nodweddiadion gwaith Dafydd Nanmor gw. D. Myrddin Lloyd, 'Dafydd Nanmor' yn A.O.H. Jarman a G. R. Hughes (gol.), *A Guide to Welsh Literature 1282–c. 1550*, Cyf. 2 (arg. diwyg. gan Dafydd Johnston; Caerdydd, 1997), tt. 170–81.

<sup>94</sup> Pace Saunders Lewis.

<sup>95</sup> PWDN, cerddi XXVI–XXXIII.

<sup>96</sup> Ibid., cerdd XXVIII.1–2; cymh. 'Cae Bedw Madog', 'Yr Euryches' ac 'Yr Het Fedw' yn GDG, cerddi 31, 38 a 59.

<sup>97</sup> PWDN, cerdd XXVIII.43–4.

<sup>98</sup> Cydnabyddiaeth o afael dychymyg Dafydd ap Gwilym ar ganu serch Dafydd Nanmor a geir ym marwnad Hywel Rheinallt (PWDN, cerdd XL.9–10) pan ddywed: 'Pren pêr ddiouer Ddavydd./ Pren sur ymhob bryn ysydd.'

<sup>99</sup> PWDN, cerdd XXVII.5–6.

<sup>100</sup> Gw. pennod 4 sy'n trafod amwysedd yng ngwaith Dafydd ap Gwilym.

Is y lann, ag eos lwyd.<sup>101</sup>

Hyd yn oed yng nghyswllt y paun, a ddisgrifir gan Myrddin Lloyd fel llatai na fyddai Dafydd ap Gwilym wedi'i ddewis,<sup>102</sup> fe geir cyfeiriadau at yr aderyn hwnnw yng ngwaith Dafydd ap Gwilym: yn 'Gerlant o Blu Paun' disgrifir penwisg o blu paun;<sup>103</sup> "Paun asgellas dinastai' yw un o'r disgrifiadau o'r dail yn 'Mis Mai';<sup>104</sup> a chyfeiria Madog Benfras at Ddafydd ap Gwilym fel "paun cerdd" a "paun inseilwawd," er mwyn pwysleisio ei uchelwriaeth.<sup>105</sup> Y mae dylanwad Dafydd ap Gwilym ar ganu serch Dafydd Nanmor yn bur amlwg ac yn ystod alltudiaeth Dafydd Nanmor yn y de canodd i deulu Rhys ap Maredudd o'r Tywyn fel y gwnaeth Dafydd ap Gwilym yntau i Ifor Hael a dadleuwyd uchod yng nghyswllt 'Diolch am Fenig' fod elfennau cyfatebol yng nghywyddau mawl y ddau fardd. At hynny, y mae'n werth nodi bod gan Ddafydd ap Gwilym gysylltiad â'r Tywyn o bosibl. Yn 'Disgwyl yn Ofer' sonnir am "tawel fryd uwch y tywyn" sydd o bosibl yn gyfeiriad at y Tywyn ac y mae Dafydd Bowen wedi olrhain cysylltiad rhwng Dyddgu a'i thad a'u cartref yn "Tywyn dir".<sup>106</sup>

Fodd bynnag, o orbwysleisio'r tebygrwydd rhwng bywydau Dafydd ap Gwilym a Dafydd Nanmor y mae perygl inni anwybyddu'r agweddau ar eu bywydau a'u gwaith sy'n wahanol i'w gilydd. Yr oedd Dafydd Nanmor, er enghraifft, yn ôl tystiolaeth ei waith ei hun, yn ymddiddori'n fawr mewn llyisiau fel y tystia rhai o'i englynion.<sup>107</sup> Yn ei awdl i Syr Dafydd ap Tomas, Offeiriad o'r Faenawr, ceir yr hyn a ganlyn:

---

<sup>101</sup> PWDN, cerdd XXX.15–18.

<sup>102</sup> D. Myrddin Lloyd, 'Dafydd Nanmor', t. 172–3: "It is significant that the bird Dafydd Nanmor chose as a love-messenger is not any frequenter of the wild or open country, but a peacock, a bird of the lawn by the big house. How unlike Dafydd ap Gwilym!"

<sup>103</sup> GDG, cerdd 32.

<sup>104</sup> Ibid., cerdd 23.37.

<sup>105</sup> Ibid., t. 424, llau 6 a 10.

<sup>106</sup> D. J. Bowen, 'Dafydd ap Gwilym a Cheredigion', LIC, 14 (1981–4), 191–2. Fodd bynnag, ni chydabyddir y cysylltiad hwn yn uniongyrchol yng ngwaith Dafydd Nanmor.

<sup>107</sup> Er enghraifft, PWDN, cerdd LI.

Mae kost llu yno, mae kistie llawnion  
O doreth gwenith yn dorthe gwynion,  
A saigau lawer drwy lysau glewon,  
Ag adar o dir, a physgod o'r donn.

Ag o geginwaith i gogau gwynion  
I dygir seigau yn y dai gwresogion.  
A'r gorau [i] vraich a'i ry geyr i vronn,  
A'u roi'n dra aml, a'r haini'n drymon.

Ag ar i vyrddau i gwrw i vairddion,  
A bragod y ty, brig ydau tewion.  
A llenwi medd o gann, a llynn meddygon,  
A'u berwi'n brau ffin fal berw o ffynnon.<sup>108</sup>

Hyd yn oed pan na fo Dafydd Nanmor yn sôn am lysiau yn benodol ceir cyfeiriadau deallus atynt yn ei farddoniaeth.

Canodd Dafydd Nanmor hefyd gyfres o englynion i bymtheg arwydd Dydd y Farn ac englynion i arwyddion y sidydd. Ni roddai'r ysgolhaig Myrddin Lloyd fawr o bwys ar y cerddi hyn ac, er eu bod yn arddangos crefft gain Dafydd Nanmor, ei farn lem oedd eu bod yn 'somewhat commonplace.'<sup>109</sup> Bid a fo am hynny, y maent yn dangos o'r hyn lleiaf fod Dafydd Nanmor yn fwy na bardd serch yn unig a bod ganddo nifer o heyrn deallusol yn y tân.

At hynny, llwyddodd Dafydd Nanmor i roi ar fydr ei ddiddordeb mewn hanes a seryddiaeth.<sup>110</sup> Yn ei gywydd i Dduw ac i Sadwrn nodir cysylltiad Sadwrn â phlanedau eraill, a ddigwyddodd nifer o weithiau ar yr un adeg â chychwyn y Pla Du a phlâu eraill yn ystod ei oes ei hun (er enghraifft, yn 1478).<sup>111</sup> Ys dywed ef ei hun:

Gweithred y blaned yw'r bla<sup>112</sup>

---

<sup>108</sup> Ibid., cerdd XIX: 37–48.

<sup>109</sup> D. Myrddin Lloyd, 'Dafydd Nanmor', tt. 179–80.

<sup>110</sup> Ibid., t. 180.

<sup>111</sup> PWDN, cerdd XXXVII. William Rees, *The Black Death in Wales* (Aberdeen, 1920) a ailgyhoeddwyd yn R. W. Southern (gol.), *Essays in Medieval History* (Llundain, 1968), tt. 179–99; Glanmor Williams, *Recovery, Reorientation and Reformation: Wales c.1415–1642* (Rhydychen, 1987), tt. 15, 18, 90–1 a 118.

<sup>112</sup> PWDN, cerdd XXXVII.64

Yr oedd Dafydd Nanmor yn fwy nag ymgorfforiad o grefft a dysg farddol gonfensiynol.

Yng ngeiriau Myrddin Lloyd:

[He] delighted in practising his verbal and metrical dexterity in such things as scraps of natural observation, weather lore and prognostications, riddles, the number of minutes in a year, tides, herbal remedies, the time spent by Adam in hell before being rescued by Christ, the divisions of Wales between the sons of Rhodri, and in tours de force such as the composing of verses consisting only of particles, or which could be read backwards or forwards, containing all the eight parts of speech, or only of pronouns or of nouns and adjectives, every syllable beginning with d-, or containing only one consonant.<sup>113</sup>

Cred Gruffydd Aled Williams hefyd nad oedd dysg Dafydd Nanmor yn gyfyngedig i ddysg farddol ei ddydd a thrwy ei gysylltiadau â noddwyr lleyg a mynachaid daeth i gysylltiad â dysg fwy Ewropeaidd ei ddydd.<sup>114</sup> Yn ei gywydd i Abad Ystrad Fflur ymddengys fod gan Ddafydd Nanmor gysylltiad â'r sefydliad hwnnw. At hynny, awgryma ei lythyr yn Pen 52 ei bod hi'n bosibl bod ganddo gysylltiadau â phriordy Awstinaidd Beddgelert yn ogystal.<sup>115</sup> Ystyrid Dafydd Nanmor yn ysgolhaig hirben yn ei oes ei hun ac nid oes syndod felly fod Hywel Rheinallt yn ei farwnad wedi datgan yn gofiadwy fod ei farwolaeth yn gyfystyr â:

Darfod y mefyrdod mawr<sup>116</sup>

Canodd Dafydd Nanmor fawl hefyd i Edmwnd ac Iasbar Tudur mewn awdl a chywydd, gan ddwyn i gof eu hachau Cymreig. Yn y cerddi rhethregol hyn ceir elfennau brudiol (nas ceir gan Ddafydd ap Gwilym), sef y math o gerddi a fu'n rhan o'r ymgyrch cyn brwydr Bosworth. Un o'i awdlau mwyaf adnabyddus yw'r awdl i Syr Dafydd ap Tomos, offeiriad o'r Faenor.<sup>117</sup> Canodd nifer o gerddi crefyddol yn ogystal, ac yr oedd hefyd yn ŵr dysgedig a fedrai Ladin fwy na thebyg ac a oedd wrth ei fodd yn

---

<sup>113</sup> D. Myrddin Lloyd, 'Dafydd Nanmor', t. 180.

<sup>114</sup> G. A. Williams, 'The literary tradition to c. 1560; the native poets of Meirioneth from the Glyndŵr Revolt to c. 1560', t. 574.

<sup>115</sup> PWDN, cerdd XXV; bu Morgan ap Rhys yn ei swydd rhwng 1443 ac 1486. Gw. D. H. Williams, 'Fasti Cistercienses Cambrenses: addenda and corrigenda', BBGC, 25 (1972-4), 156.

ymorchestu'n farddol drwy ganu cerddi i ddadlennu syniadau cyfoes am seryddiaeth, arwyddion tywydd a moddion llysieuol.<sup>118</sup>

Yn ôl Saunders Lewis, bardd athronyddol oedd Dafydd Nanmor, a bardd 'y mefyrdod mawr' a oedd—mewn cyferbyniad â'r *persona* a gysylltir â Dafydd ap Gwilym yn ei farddoniaeth—yn mwynhau bywyd y llys a'i foethusrwydd yn fwy na bywyd y glêr grwydrol a'r oed deiliog.<sup>119</sup> Yn ôl y dehongliad hwn nid byd natur oedd llygad ei ffynnon awenyddol, eithr byd gwneuthuredig ac adeiledig dyn.<sup>120</sup> Ceir enghraifft dda o'i ddisgrifiadau manwl o'r llys, yn ôl Saunders Lewis, yn ei gywydd i Abad Ystrad Fflur:

Y côr, y fo a'i cweiriawdd,  
A doreu teg o wydr tawdd.<sup>121</sup>

Fodd bynnag, braidd yn ysgubol yw'r cyffredinol hwn ynghylch nodau amgen barddoniaeth Dafydd Nanmor. Wedi'r cyfan, yn y cywydd i Abad Ystrad Fflur y ceir y cwpled canlynol sydd yn dangos bod gan Ddafydd Nanmor lygad am liwiau natur:

Lliw'r gynau oll rhyg Ionawr,  
Lliw dŵr marl fal llwydrew mawr.<sup>122</sup>

Ychydig yn ddiweddarach yn y cywydd ceir:

Y mae rhwng i muriau hi  
Erw i gladdu arglwyddi.<sup>123</sup>

Ac yn yr un cywydd ceir rhagor o ddelweddau natur:

Pwy a edrych bob Hydref  
Golwg uwch no'i geiliog ef?<sup>124</sup>

---

<sup>116</sup> PWDN, cerdd XL.11; D. Myrddin Lloyd, 'Dafydd Nanmor', t. 180.

<sup>117</sup> D. Myrddin Lloyd, 'Dafydd Nanmor', t. 178.

<sup>118</sup> Gw. Robin Flower, 'Richard Davies', 11. Cytunir yn gyffredinol mai llaw Dafydd Nanmor sydd yn LIGC 3024.

<sup>119</sup> Saunders Lewis, 'Dafydd Nanmor', tt. 80–92. Gw. hefyd David Johnston, 'The Serenade and the image of the house in the poems of Dafydd ap Gwilym', CMCS, 5 (1983), 1–19.

<sup>120</sup> D. Myrddin Lloyd, 'Dafydd Nanmor', t. 171.

<sup>121</sup> PWDN, cerdd XXV:5–6.

<sup>122</sup> Ibid., llau. 11–13.

<sup>123</sup> Ibid., llau. 19–20.

<sup>124</sup> Ibid., llau. 41–2.

A gellir codi nifer o enghreifftiau eraill o'r un cywydd i brofi'r graddau y mae Saunders Lewis wedi ei gor-ddweud hi.<sup>125</sup>

Bardd 'perchentyaeth' oedd Dafydd Nanmor, yn nhyb Saunders Lewis, a bardd y teulu (yn ystyr estynedig y gair hwnnw). Y mae'n wir fod rhyw naws sagrafenol yn ei waith yn y modd y mawrygir bywyd gwâr y llys: try gwledd yn gymundeb, try tinfeddianwyr yn offeiriaid ac yn warcheidwaid gwareiddiad.<sup>126</sup> Fe welir y gred hon orau yn ei gerddi i aelodau teulu'r Tywyn lle y myfyrir ar hanes uchelwriaeth a'i swyddogaeth mewn cymdeithas, gan ganmol ei cheidwadaeth fel un o hanfodion gwareiddiad.<sup>127</sup> Fodd bynnag, y mae dyled Dafydd Nanmor i fyd natur yn fwy nag yr oedd Saunders Lewis yn fodlon ei addef. Yn ei gywydd adnabyddus i wallt Llio, er enghraifft, ceir y cwpled agoriadol hwn:

Llio eurwallt, lliw arian,  
Llewychu mae fal lluwch mân.<sup>128</sup>

Yn ddiweddarach ceir cwpled arall sy'n dibynnu'n drwm ar fyd natur am ei ddelweddaeth:

Ni bu ar wÿdd, un bêr iach,  
Afal Anna felynach.<sup>129</sup>

At hynny, yn ei gywyddau i aelodau teulu'r Tywyn pwysir ar fyd natur fel ffynhonnell delweddau. Digon amlwg, er enghraifft, yw'r onnen (a'r dderwen) fel delwedd yn ei gywydd i Rys ap Rhydderch ap Rhys:

Tyfu'r wyd fal twf yr onn  
O fagad pendefigion.<sup>130</sup>

---

<sup>125</sup> Ibid., llau 29 a 50 er enghraifft.

<sup>126</sup> D. Myrddin Lloyd, 'Dafydd Nanmor', t. 178: "a sacramental quality about the civilized life".

<sup>127</sup> Ibid., tt. 173–8.

<sup>128</sup> PWDN, cerdd XXIX:1–2.

<sup>129</sup> Ibid., llau. 5–6.

<sup>130</sup> Ibid., cerdd X: 7–8.

Gellir dwyn sylw yn y cyswllt hwn at ddefnydd cyfatebol Dafydd ap Gwilym o fyd natur a'i ddefnydd eang ac amrywiol o adar yn arbennig.<sup>131</sup> Cadarnhau'r ddyled honno i fyd natur a wna'r cywydd i'r ceiliog bronfraith yn Pen 52 (os derbynnir mai Rhydderch ab Ieuan Llwyd sydd y tu cefn i'r ceiliog bronfraith). Eithr o ran meistrolaeth Dafydd Nanmor ar gelfyddyd cerdd dafod ni ellir anghytuno ag asesiad Saunders Lewis: y mae rhai o'r cwpledi agoriadol o'i eiddo yn arbennig o drawiadol ac, er bod ei awdlau yn dilyn patrwm disgwylidig y cyfnod, cyfrannodd Dafydd Nanmor at ddatblygiad y mesur hwnnw yn ogystal drwy gyflwyno symlrwydd ac eglurder yn ei fynegiant, gan gynysgaeddu ei farddoniaeth â chadernid urddasol.<sup>132</sup>

Ymddengys, felly, fod dyled Dafydd Nanmor i waith Dafydd ap Gwilym, yn faes astrus, o ran ceisio ei olrhain mewn canu serch, canu ysgafn neu ganu mawl. Rhoes cyfraniad Dafydd ap Gwilym i ganu mawl gyfle i Ddafydd Nanmor bwysu a mesur natur y berthynas rhwng bardd a noddwr (a hynny'n uniongyrchol yn Pen 52), gan gynnig patrwm newydd. Datgelu dylanwad mawl Dafydd ap Gwilym i Ifor Hael a wna Dafydd Nanmor wrth gyfarch aelodau teulu'r Tywyn.<sup>133</sup> Weithiau, fe geir adlais yma a thraw. Ond ni ellir haeru mai efelychu dulliau Dafydd ap Gwilym a wna Dafydd Nanmor yn gyffredinol gan iddo ganu ar bynciau nas trafodir gan Ddafydd ap Gwilym.

At hynny, tra bo modd dadlau o hyd dros yr hyn a alwyd gan Saunders Lewis yn 'Estheteg Gymreig' yng nghyswllt canu mawl Dafydd Nanmor, dylid hefyd gofio bod rhai o linellau'r bardd hwn yn atseinio canu'i ragflaenwyr (ac felly nid *sui generis* oedd

---

<sup>131</sup> Lynne Jones, "'Gwyn eu byd yr adar gwylltion": Golwg ar gerddi Ddafydd ap Gwilym', *Dwned*, 3 (1997), 9–26.

<sup>132</sup> D. Myrddin Lloyd, 'Dafydd Nanmor', t. 174.

<sup>133</sup> Eurys Rolant, 'Ifor Hael', *Y Traethodydd*, 136 (1981), 113–35 ac A. C. Lake, 'Awduraeth cerddi'r Oesoedd Canol', *Dwned*, 3 (1997), 66.

Dafydd Nanmor).<sup>134</sup> Y mae ei gywydd aeddfed ei athroniaeth i Rys ap Rhydderch o'r Tywyn a'i awdl i Syr Dafydd ap Tomas yn gerddi diweddarach yn ei yrfa na rhai o'i gywyddau serch, a deuir o hyd i'r un math o lawenydd yng ngwaith Dafydd Nanmor ag a geir yn rhai o gerddi Ddafydd ap Gwilym i Ifor Hael. Ymddengys bellach, felly, fod barn Saunders Lewis ar waith Dafydd Nanmor yn rhy ysgubol, yn rhy bendant ac yn anwybyddu'r gwahanol gyfnodau a'r datblygiadau a fu yng ngwaith Dafydd Nanmor.

Elfen bwysig arall i'w chrybwyll yng nghyswllt gwerthfawrogi gwaith Dafydd Nanmor yw'r pwyslais a roddir ar dir gan Saunders Lewis. Pwysleisir perchentyaeth gan Saunders Lewis ond yng ngwaith Dafydd Nanmor ceir llawn cynifer o gyfeiriadau a delweddau sydd yn tarddu o fyd natur fel y crybwyllwyd eisoes yn y bennod hon. Gellir gweld adlais o hyn yng nghywydd Dafydd ap Gwilym i'r ceiliog bronfraith ac nid oes rhaid ond ystyried cywydd Dafydd Nanmor i wallt Llio a'i ddefnydd aml o drosiadau fel yr onnen i weld amlygrwydd yr arfer hwn yn ei waith ac i weld nad oedd yn fardd y llys uchelwrol yn unig. Y mae'r tir a byd natur yn rhan greiddiol o'i waith mewn ystyr sydd yn mynd y tu hwnt i'n dealltwriaeth o berchentyaeth ac yn gysylltiedig o bosibl â'r hyn y mae Francesco Benozzo wedi ei alw'n ddiweddar yn ddadansoddiad ffenomenolegol o'r modd y canfyddir tirlun, sef math o feirniadaeth lenyddol sydd yn archwilio sut y gall "the structures of physical space ... affect the narrative structures (and, vice versa, how the narrative structures can affect the perception of landscapes)."<sup>135</sup> Digon am y tro, fodd bynnag, yw gwerthfawrogi mai llaw'r bardd Dafydd Nanmor sydd yn un rhan o Pen 52, er gwaethaf amheuan golygydd modern blaenorol. Yn sgil hyn, y mae pwysigrwydd tystiolaeth y llawysgrif honno o ran barddoniaeth Dafydd Nanmor a dau

---

<sup>134</sup> D. Myrddin Lloyd, 'Dafydd Nanmor', t. 174.

<sup>135</sup> Francesco Benozzo, *Landscape Perception in Early Celtic Literature* (Aberystwyth, 2004), tt. vii–xii a vii.

gywydd Dafydd ap Gwilym yn amlycach nag a fu. Ar ryw olwg, cadarnhau y maent y gydberthynas a awgrymir ym marwnad Hywel Rheinallt:

Myned adref i'r nevoedd  
At i vrawd Glyn Teivi'r oedd.<sup>136</sup>

Yn sgil yr ymdriniaeth hon hefyd dadlennir natur agweddau dau olygydd modern, sef Thomas Parry a Gilbert Ruddock, tuag at destunau'r bymthegfed ganrif a thuag at farddoniaeth y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed. Y mae bodolaeth llaw Dafydd Nanmor yn y llawysgrif hon yn creu llinyn cyswllt pendant a gweladwy rhwng Dafydd ap Gwilym a bardd o'r bymthegfed ganrif, er bod mesur union raddau dylanwad y naill ar y llall yn bwnc dyrys sydd, hyd yma, heb dderbyn y sylw sy'n ddyladwy iddo. O'r hyn lleiaf, ni ellir cydsynio bellach â Saunders Lewis pan haerodd nad oedd dylanwad Dafydd ap Gwilym ar Ddafydd Nanmor "ond dyled ei oes, sef defnyddio'r cywydd, mesur y bu gan ap Gwilym brif ran yn ei ddyfeisio. A dyna'r cwbl."<sup>137</sup> Ar yr un pryd, nid oes cyfiawnhad ychwaith dros haeru mai dynwaredwr slafaidd oedd Dafydd Nanmor yn unig.

---

<sup>136</sup> PWDN, cerdd XL.17–18; D. Myrddin Lloyd, 'Dafydd Nanmor', t. 172.

<sup>137</sup> Saunders Lewis, 'Dafydd Nanmor', t. 84.

**Information added by Oxford University Library Services**

Chapter 4 of this thesis is not currently available in Oxford University Research Archive (ORA).

# Llyfryddiaeth

Aaron, Jane, 'Darllen yn groes i'r drefn', yn John Rowlands (gol.), *Sgleftrio ar Eiriau* (Llandysul, 1992), tt. 63–83.

Achebe, Chinua, *Hopes and Impediments: Selected Essays* (Efrog Newydd, 1989).

Allchin, A. M., *Praise Above All: Discovering the Welsh Tradition* (Caerdydd, 1991).

Aristoteles, *Barddoneg*, gol. J. Gwyn Griffiths (Caerdydd, 1978).

Aston, M., *Lollards and Reformers: Images and Literacy in Late Medieval Religion* (Llundain, 1984).

Bartrum, P. C., *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Caerdydd, 1974).

— *Welsh Genealogies AD 1400–1500* (Aberystwyth, 1983).

Bell, H. I., 'Dafydd ap Gwilym', *Yorkshire Celtic Studies*, 1 (1937–8), 11–32.

Belsey, Catherine, *Critical Practice* (Llundain ac Efrog Newydd, 1980).

Benozzo, Francesco, 'The frontier in medieval epic: A comparative study of Celtic, Germanic and Romance heroic poetry', *Studi Celtici*, 2 (2003), 43–68.

— *Landscape Perception in Early Celtic Literature* (Aberystwyth, 2004).

Beresford, M., *New Towns of the Middle Ages* (Llundain, 1967).

Bloom, Allan, *The Closing of the American Mind* (Efrog Newydd, 1987).

Bloom, Harold, *The Anxiety of Influence* (Efrog Newydd, 1973).

— *Kabbalah and Criticism* (Efrog Newydd, 1975).

- *A Map of Misreading* (Efrog Newydd, 1975).
- *Poetry and Repression: Revisionism from Blake to Stevens* (New Haven, 1976).
- *Ruin the Sacred Truths: Poetry and Belief from the Bible to the present* (Llundain, 1989).
- *The Western Canon* (Efrog Newydd, 1994).
- Bowen, D. J., ‘Gruffydd Hiraethog ac argyfwng Cerdd Dafod’, LIC, 2 (1952–3), 147–60.
- ‘Sylwadau ar waith Dafydd ap Gwilym’, LIC, 6 (1960), 36–45.
- ‘Cynganeddion Gruffudd Hiraethog’, LIC, 6 (1960–1), 1–20.
- ‘Nodiadau ar Waith Dafydd ap Gwilym’, LIC, 7 (1962–3), 244–9.
- ‘Dafydd ap Gwilym a datblygiad y cywydd’, LIC, 8 (1964–5), 1–32.
- ‘Morfudd yn Hen, GDG, 139’, LIC, 8 (1964–5), 231–4.
- ‘Agweddau ar ganu’r bedwaredd ganrif ar ddeg a’r bymthegfed’, LIC, 9 (1966–7), 46–73.
- ‘Nodiadau ar waith y Cywyddwyr’, BBGC, 25 (1972), 19–32.
- ‘Nodiadau ar Gywydd y Gwynt, GDG 117’, YB, 9 (1976), 57–60.
- ‘Dafydd ap Gwilym a’r trefydd drwg’, YB, 10 (1977), 190–226.
- ‘Y Cywyddwyr a’r noddwyr cynnar’, YB, 11 (1979), 63–108.
- ‘Dafydd ap Gwilym a Cheredigion’, LIC, 14 (1981–4), 163–209.

— ‘Cywydd Dafydd ap Gwilym i Ferched Llanbadarn a’i gefndir’, YB, 12 (1982), 77–122.

— Dafydd ap Gwilym a Dyfed (Llandysul, 1986).

— ‘Beirdd a Noddwyr y bedwaredd ganrif ar ddeg’, LIC, 17 (1992–3), 60–107.

— ‘Gwilym Gam ac Ardudful, rhieni Dafydd ap Gwilym’, *Barddas*, 224–5 (1995), 2–4.

— ‘Beirdd a noddwyr y bymthegfed ganrif’, LIC, 18 (1994–5), 53–89.

— ‘Beirdd a noddwyr y bymthegfed ganrif (Rhan II)’, LIC, 18 (1994–5), 221–57.

— ‘Llywelyn ap Gwilym’, LIC, 18 (1994–5), 365–8.

— ‘Claddu’r bardd o gariad’, LIC, 18 (1994–5), 368–9.

— ‘Beirdd a noddwyr y bymthegfed ganrif (Rhan III)’, LIC, 19 (1996), 1–28.

— ‘Pynciau cynghanedd: Odli I, U ac Y’, LIC, 20 (1997), 138–43.

— ‘Yr Ywen Brudd’, *Y Traethodydd*, 158 (2003), 153–6.

Bramley, Kathleen Anne [née Evans], ‘Canu Hywel ab Owain Gwynedd’, SC, 20/1 (1985–6), 167–91.

— et al. (gol.), *Gwaith Llywelyn Fardd, I, ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif* (Caerdydd, 1994).

Breeze, Andrew, ‘Chaucer’s “Malkin” and Dafydd ap Gwilym’s “Mald y Cwd”’, *Notes & Queries*, 240 (1995), 159–60.

- Bromwich, Rachel, *Trioedd Ynys Prydein, The Welsh Triads* (Caerdydd, 1961).
- ‘Influences upon Dafydd ap Gwilym’s Poetry’, *Poetry Wales*, 8:4 (Gwanwyn 1973), 44–55.
- *Dafydd ap Gwilym* (Caerdydd, 1974).
- ‘Gwaith Einion Offeiriad a barddoniaeth Dafydd ap Gwilym’, *YB*, 10 (1977), 157–80.
- *Dafydd ap Gwilym: A Selection of Poems* (Llandysul, 1982).
- *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym: Collected Papers* (Caerdydd, 1986).
- ac Evans, D. Simon (gol.), *Culhwch and Olwen: An Edition and Study of the Oldest Arthurian Tale* (Caerdydd, 1992).
- ‘Dafydd ap Gwilym’, yn R. H. F. Hofman et al. (gol.), *Welsh and Breton Studies in Memory of Th. M. Th. Chotzen: Proceedings of a Colloquium, Utrecht-Amsterdam, 23–24 April 1993* (Utrecht, 1995), tt. 1–26.
- *Medieval Welsh Literature to c. 1400, including Arthurian Studies* (Caerdydd, 1996).
- ‘Dafydd ap Gwilym: Influences and analogies’, *CMCS*, 33 (Haf 1997), 81–92.
- (gol.) *Trioedd Ynys Prydein* (trydydd arg., Caerdydd, 2006)
- Brook, G. L. (gol.), *The Harley Lyrics* (4ydd arg., Manceinion, 1968).
- Bryant-Quin, M. Paul, ‘Enaid y gwir oleuni’: y Grog yn Aberhonddu’, *Dwned*, 2 (Hydref 1996), 51–93.

- ‘Marchog Mai’, LIC, 22 (1999), 128–30.
- *Gwaith Ieuan Brydydd Hir* (Aberystwyth, 2000).
- ‘Ailystyried “Englynion yr Offeren” gan Ddafydd ap Gwilym’, *Dwned*, 7 (2001), 27–42.
- *Gwaith Ieuan ap Llywelyn Fychan, Ieuan Llwyd Brydydd a Lewys Aled* (Aberystwyth, 2003).
- *Apocryffa Siôn Cent* (Aberystwyth, 2004).
- Bullock-Davies, Constance, ‘Welsh minstrels at the courts of Edward I and Edward II’, THSC (1972–3), 104–22.
- Burke, Peter, *Popular Culture in Early Modern Europe* (Llundain, 1978).
- Busse, Peter, ‘The poet as spouse of his patron: Homoerotic love in medieval Welsh and Irish poetry?’, *Studi Celtici*, 2 (2003), 175–92.
- A.D. Carr, ‘This is my act and deed’: the writing of private deeds in late medieval north Wales’, yn Hugh Pryce (gol.), *Literacy in Medieval Celtic Societies* (Caergrawnt, 1998), tt. 223–37.
- Cartwright, J., *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod* (Caerdydd, 1999).
- Charles-Edwards, G., ‘Scribes of the Red Book’, CLIGC, 21 (1979–80), 246–56.
- a Russell, Paul, ‘The Hendregadredd manuscript and the orthography and phonology of Welsh in the early fourteenth century’, CLIGC, 28 (1994), 419–462.

Charnell-White, Cathryn A., *Beirdd Ceridwen: Blodeugerdd Barddas o Ganu Menywod hyd tua 1800* (Llandybïe, 2005).

Chotzen, T. M., *Recherches sur la poésie de Dafydd ab Gwilym* (Amsterdam, 1927).

— ‘Balchnoe’, *Revue celtique*, 44 (1927), 68–75.

Clanchy, M.T., *From Memory to Written Record: England 1066–1307* (ail arg., Rhydychen, 1993).

Clancy, Joseph P., *The Earliest Welsh Poetry* (Llundain, 1970).

Cohen, Murray, *Sensible Words: Linguistic Practice in England 1640–1785* (Llundain, 1977).

Colgrave, Bertram a Mynors, R. A. B. (gol.), *Bede's Ecclesiastical History of the English People* (Rhydychen, 1969).

Conran, Anthony (cyf.), *The Penguin Book of Welsh Verse* (Harmondsworth, 1967).

Costigan, N. G., Daniel, R. Iestyn a Johnston, Dafydd (gol.), *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli* (Aberystwyth, 1995).

Cowell, E. B., ‘Dafydd ab Gwilym’, *Y Cymmrodor*, 2 (1878), 101–32.

Cowley, F. G., *The Monastic Order in South Wales, 1066–1349* (Caerdydd, 1977).

Crawford, T. D., ‘Cyfartaledd y gynghanedd sain yng nghywyddau Dafydd ap Gwilym’, *YB*, 12 (1982), 131–42.

- ‘The englynion of Dafydd ap Gwilym’, *Etudes celtiques*, 22 (1985), 235–285.
- ‘The *toddaid* and *gwawdodyn byr* in the poetry of Dafydd ap Gwilym, with an appendix concerning the *traethodlau* attributed to him’, *Etudes celtiques*, 27 (1990), 301–336.
- Crosby, Ruth, ‘Oral delivery in the Middle Ages’, *Speculum*, 11 (1936), 88–110.
- Cuddon, J. A., *A Dictionary of Literary Terms and Literary Theory* (Rhydychen, 1991).
- Curtius, E. R., *European Literature and the Latin Middle Ages* (Efrog Newydd, 1953).
- Daniel, R. Iestyn (gol.), ‘Awduriaeth y Gramadeg a briodolir i Einion Offeiriad’, *YB*, 13 (1985), 178–208.
- *Gwaith Bleddyn Ddu* (Aberystwyth, 1994).
- *Gwaith Ieuan ap Rhydderch* (Aberystwyth, 2003).
- Davies, Catrin T. B., ‘Cerddi’r tai crefyddol’ (Traethawd M.A. Prifysgol Cymru, 1973).
- Davies, J. Glyn, *Welsh Metrics* (Llundain, 1911).
- Davies, J. H. (gol.), ‘The Roll of the Caerwys Eisteddfod of 1523’, *Transactions of the Liverpool Welsh National Society* (1904/5–1908/9), 87–102.
- Davies, Morgan Thomas, ‘Dafydd ap Gwilym and the friars: The poetics of antimendicancy’, *SC*, 29 (1995), 237–55.
- ‘“Aed i’r coed i dorri cof”: Dafydd ap Gwilym and the metaphors of carpentry’, *CMCS*, 30 (Gaeaf 1995), 67–85.

- Davies, R. Rees, 'Colonial Wales', *Past and Present*, 65 (1974), 3–23.
- 'Race Relations in Post-Conquest Wales', THSC (1974–5), 32–56.
- *The Age of Conquest: Wales 1063–1415* (Rhydychen ac Efrog Newydd, 1991).
- Davies, Sioned, 'Llafar v. ysgrifenedig yn *Culhwch ac Olwen*', YB, 19 (1993), 46–53.
- *Crefft y Cyfarwydd* (Caerdydd, 1995).
- 'Written text as performance: the implications for Middle Welsh prose narratives', yn Huw Pryce (gol.), *Literacy in Medieval Celtic Societies* (Caergrawnt, 1998), tt. 133–48.
- Davies, W. B., 'Awdl Dafydd Nanmor i Syr Dafydd ap Tomas', LIC, 8 (1964–5), 70–3.
- Denby, David, *The Great Books* (Efrog Newydd, 1996).
- Derrida, Jacques, *Of Grammatology* (Baltimore, 1997).
- Dimock, J. (gol.), *Giraldi Cambrensis Opera*, VI (Rolls Series, 1868).
- Donovan, P. (gol.), *Cywyddau Serch y Tri Bedo* (Caerdydd, 1982).
- Dronke, Peter, *Medieval Latin and the Rise of European Love-Lyric*, 2 gyfrol (Rhydychen, 1965–6).
- *The Medieval Lyric* (Llundain, 1968).
- 'Serch *Fabliau* a Serch *Cwrtais*', yn John Rowlands (gol.), *Dafydd ap Gwilym a Chanu Serch yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1975), tt. 1–17.

Edmonson, Munro E., *Lore: An Introduction to the Science of Folklore and Literature* (Efrog Newydd, 1971).

Edwards, H. M., “‘Rhodiwr fydd clerwr’: Sylwadau ar gerdd ymffrost o’r bedwaredd ganrif ar ddeg’, *Y Traethodydd*, 149 (Ionawr 1994), 50–5.

— ‘Y Trioedd Serch’, *Dwned*, 1 (1995), 25–39.

— *Dafydd ap Gwiliym: Influences and Analogues* (Rhydychen, 1996).

— ‘Murnio Marwnadau: Golwg ar y ffug-farwnad yng nghyfnod y cywydd’, *Dwned*, 5 (Hydref 1999), 47–70.

— ‘Dwyn marwnadau adref’, *LIC*, 23 (2000), 21–38.

— (gol.), *Gwaith Prydydd Breuan a Cherddi Dychan Eraill o Lyfr Coch Hergest* (Aberystwyth, 2000).

— ‘Ymgodymu â Dafydd’, *Taliesin*, 114 (2002), 133–46.

— (gol.), *Gwaith Madog Dwygraig* (Aberystwyth, 2006).

Ellis, D. Machreth, ‘Chwarae “Cnau i’r Llaw” a chwaraeon eraill’, *LIC*, 5 (1959), 187–90.

Ellis, Robert (Cynddelw) (gol.), *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym o grynhoed Owen Jones, William Owen ac Edward Williams, yn nghydag amryw gyfieithiadau i’r Seisnig* (Lerpwl, 1873; fersiwn gwreiddiol yn 1789).

Else, G. E., *Plato and Aristotle on Poetry* (Llundain, 1986).

Empson, William, *Seven Types of Ambiguity* (Llundain, 1930).

Evans, Dafydd H., 'Yr Ustus Llwyd a'r Swrcod', YB, 18 (1990), 63–92.

Evans, D. Simon, *A Grammar of Middle Welsh* (Dulyn, 1989).

Evans, Dylan Foster, *'Goganwr am Gig Ynyd': The Poet as Satirist in Medieval Wales* (Aberystwyth, 1996).

Evans, J. Gwenogvryn, *Report on Manuscripts in the Welsh Language* (Llundain, 1898–1910).

— (gol.), *The Poetry in the Red Book of Hergest* (Llanbedrog, 1911).

Evans, Kathleen Anne, 'Cerddi'r Gogynfeirdd i Rianedd a Gwragedd' (Traethawd M.A. Prifysgol Cymru, 1972).

Evans, Meredydd, 'Y Canu Gwasael yn *Llawysgrif Richard Morris o Gerddi*', LIC, 13 (1974–81), 207–35.

Finnegan, Ruth, *Literacy and Orality* (Rhydychen, 1988).

Flower, Robin, 'Richard Davies, William Cecil, and Giraldus Cambrensis', CLIGC, 3 (1943–44), 11–14.

Ford, Patrick K., 'Re-Reading Dafydd ap Gwilym', yn Klar, Kathryn A., Sweetser, Eve a Thomas, Claire (gol.), *A Celtic Florilegium: Studies in Memory of Brendan O Hehir* (Andover, Massachusetts, 1996), tt. 20–31.

Fulton, Helen, 'The love poetry of Dafydd ap Gwilym', *AUMLA: Journal of the Australasian Universities Language and Literature Association*, 49 (1978), 22–37.

— 'The theory of Celtic influence on the Harley Lyrics', *Modern Philology*, 82 (1984–5), 239–54.

— *Dafydd ap Gwilym and the European Context* (Caerdydd, 1989).

— 'Dafydd ap Gwilym and intertextuality', *Leeds Studies in English*, 20 (1989), 65–86.

— 'Medieval Welsh poems to nuns', *CMCS*, 21 (1991), 87–112.

— 'The poetic construction of authority: Dafydd ap Gwilym and the Uchelwyr', *Parergon*, 10/1 (Mehefin 1992), 15–34.

— 'The editor as author: Re-producing the text. A case-study of Parry's Gwaith Dafydd ap Gwilym', *Bulletin of the Bibliographical Society of Australia and New Zealand*, 19/2 (1995), 67–78.

— 'Editorial Method: Thomas Parry and *Gwaith Dafydd ap Gwilym*', yn Kathryn Chadbourne, Laurance J. Maney a Donna Wong (gol.), *Proceedings of the Harvard Celtic Colloquium*, Cyf. 15 (Cambridge, MA, 1998), tt. 14–21.

— (gol.), *Dafydd ap Gwilym: Apocrypha* (Llandysul, 1996).

— 'Punctuation as a semiotic code: The case of the medieval Welsh *cywydd*', *Parergon*, 13 (1996), 21–31.

— ‘Trading places: Representations of urban culture in medieval Welsh poetry’, *SC*, 31 (1997), 219–30.

— ‘Orality and literacy in early Welsh literature’, yn Angharad Price (gol.), *Chwileniwm: Technoleg a Llenyddiaeth* (Caerdydd, 2002), tt. 17–35.

— ‘Awdurdod ac awduriaeth: Golygu’r Cywyddwyr’ yn Iestyn Daniel, Marged Haycock, Dafydd Johnston a Jenny Rowland (gol.), *Cyfoeth y Testun: Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 2003), tt. 50–76.

*Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–2002).

George, Irene, ‘Syr Dafydd Trefor: ei Oes a’i Waith’ (Traethawd M.A. Prifysgol Cymru, 1929).

Green, Peter (gol.), *Ovid: The Erotic Poems* (Llundain, 1982).

Griffiths, R. A., *The Principality of Wales in the Later Middle Ages* (Caerdydd, 1972).

— (gol.), *Boroughs of Medieval Wales* (Caerdydd, 1978).

— ‘Public and private bureaucracies in England and Wales in the fifteenth century’ yn R. A. Griffiths, *King and Country: England and Wales in the fifteenth century* (Llundain, 1991), tt. 137–59.

Gruffydd, R. Geraint, ‘Llawysgrifau Wiliam Bodwrda o Aberdaron (a briodolwyd i John Price o Fellteyrn)’, *CLIGC*, 8 (1954), 349–50.

— ‘Marwnad Lleucu Llwyd gan Lywelyn Goch Amheurig Hen’, *YB*, 1 (1965), 126–37.

- ‘Sylwadau ar gywydd “Offeren y Llwyn” Dafydd ap Gwilym’, YB, 10 (1977), 181–9.
- ‘Sylwadau ar gywydd ‘Yr Adfail’ gan Ddafydd ap Gwilym’, YB, 11 (1979), 109–15.
- ‘The early court poetry of south west Wales’, SC, 14/15 (1979–80), 95–105.
- ‘Cywyddau triawdaidd Dafydd ap Gwilym: Rhai sylwadau’, YB, 13 (1985), 167–77.
- ‘Dafydd ap Gwilym: Trem ar ei yrfa’, *Taliesin*, 71 (Medi 1990), 25–40.
- ‘*Englynion y Cusan* by Dafydd ap Gwilym’, CMCS, 23 (Haf 1992), 1–6.
- ‘Dafydd ap Gwilym: an outline biography’, yn Cyril J. Byrne, Margaret Harry a Pádraig Ó Siadhail (gol.), *Celtic Languages and Celtic Peoples: Proceedings of the Second North American Congress of Celtic Studies* (Halifax, 1992), tt. 425–42.
- ‘*Athro Pawb Oedd*’: *Golwg ar Ddafydd ap Gwilym* (Aberystwyth, 1992).
- ‘Dafydd Ddu o Hiraddug’, LIC, 18 (1995), 205–20.
- ‘Wales’s Second Grammarian: Dafydd Ddu o Hiraddug’, *Proceedings of the British Academy*, 90 (1996), 1–28.
- ‘A glimpse of Welsh medieval court procedure in a poem by Dafydd ap Gwilym’, yn Colin Richmond ac Isobel Harvey (gol.), *Recognitions: Essays Presented to Edmund Fryde* (Aberystwyth, 1996), tt. 165–78.
- ‘Love by toponymy: Dafydd ap Gwilym and place-names’, *Nomina*, 19 (1996), 29–42.

— ac Ifans, Rhiannon (gol.), *Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug* (Aberystwyth, 1997).

— ‘*Englynion* to a mill attributed to Dafydd ap Gwilym’, ZCP, 49–50 (1997), 273–81.

— ‘A reading of Dafydd ap Gwilym’, yn Geraint Evans, Bernard Martin a Jonathan M. Wooding (gol.), *Origins and Revivals: Proceedings of the First Australian Conference of Celtic Studies* (Sydney, 2000), 485–502.

Hallam, Tudur, ‘Ysgrifenu Lewys Glyn Cothi’, LIC, 23 (2000), 74–94.

Haycock, M., ‘Llyfr Taliesin’, CLIGC, 25 (1987–8), 357–86.

— ‘*“Where Cider Ends, There Ale Begins to Reign”*: Drink in Medieval Welsh Poetry’, (Caergrawnt, 1999).

Higley, Sarah Lynn, *Between Languages: The Uncooperative Text in Early Welsh and Old English Nature Poetry* (University Park, Pa, 1993).

Hirsch, Jr, E.D., *The Philosophy of Composition* (Llundain, 1977).

— *Cultural Literacy* (Boston, 1987).

Huizinga, J., *The Waning of the Middle Ages* (Harmondsworth, 1955; cyhoeddwyd gyntaf yn 1937).

Hunter, Jerry, ‘Professional poets and personal insults: *ad hominem* attacks in late medieval Welsh *ymrysonau*’, yn B. Hillers a J. Hunter (gol.), *Proceedings of the Harvard Celtic Colloquium*, Cyf. 13 (Cambridge, Ma., 1993), tt. 54–65.

— ‘A feast of words: Conspicuous consumption and praise poetry in medieval Wales’, yn P. Hopkins, L. Maney a D. Wong (gol.), *Proceedings of the Harvard Celtic Colloquium*, Cyf. 14 (Cambridge, Ma., 1997), tt. 39–48.

Huws, Bleddyn O., ‘Rhai o swyddogaethau Beirdd yr Uchelwyr’, *Y Traethodydd*, 150 (1995), 215–31.

— *Y Canu Gofyn a Diolch* (Caerdydd, 1998).

— “‘Dros fy mhlw ar draws fy mhlwyf’”: Golwg newydd ar “blu” Dafydd ap Gwilym’, *Dwned*, 10 (2004), 33–55.

Huws, Daniel, ‘Llawysgrif Hendregadredd’, *CLIGC*, 22 (1981–2), 1–26.

— ‘Llyfr Gwyn Rhydderch’, *CMCS*, 21 (1991), 1–37.

— ‘The earliest Bangor missal’, *CLIGC*, 27 (1991–2), 113–30.

— ‘Llyfrau Cymraeg 1250–1400’, *LIGC*, 28 (1993), 1–21.

— ‘The transmission of a Welsh classic: Dafydd ap Gwilym’, yn Colin Richmond ac Isobel Harvey (gol.), *Recognitions: Essays Presented to Edmund Fryde* (Aberystwyth, 1996), tt. 179–202.

— ‘Apocryffa Dafydd ap Gwilym’, *Y Traethodydd*, 152 (1997), 29–42.

— *Medieval Welsh Manuscripts* (Caerdydd, 2000).

— ‘Llyfr Coch Hergest’ yn Iestyn Daniel, Marged Haycock, Dafydd Johnston a Jenny Rowland (gol.), *Cyfoeth y Testun* (Caerdydd, 2003), 1–30.

— ‘John Davies and his manuscripts’, yn Ceri Davies (gol.), *Dr John Davies of Mallwyd: Renaissance Scholar* (Caerdydd, 2004), tt. 88–120.

— *Cynnull y Farddoniaeth* (Aberystwyth, 2004).

— *A Repertory of Welsh Manuscripts* (fersiwn drafft, 2005).

Ifans, Dafydd, ‘Wiliam Bodwrda (1593–1660)’, *CLIGC*, 19 (1975–6), 300–10.

Ifans, Rhiannon (gol.), *Gwaith Syr Dafydd Trefor* (Aberystwyth, 2005).

Jackson, Kenneth (gol.), *Early Welsh Gnostic Poems* (Caerdydd, 1935).

— *Studies in Early Celtic Nature Poetry* (Caergrawnt, 1935).

Jacobs, Nicolas, ‘Regression to the commonplace in some vernacular textual traditions’, yn A. J. Minnis a C. Brewer (gol.), *Crux and Controversy* (Woodbridge, 1992), tt. 61–70.

— ‘Geirfa diota Dafydd: *GDG* 132, 1–6 *gildio, golden ladin*’, *SC*, 28 (1994), 174–7.

— ‘Adjectival collocations in the poetry of the early *Cywyddwyr*: a preliminary survey’, *CMCS*, 31 (Haf 1996), 55–70.

James, Christine, ‘Llyfrau cyfraith o Ddyffryn Teifi: disgrifiad byr o BL. Add. ’, *CLIGC*, 27 (1991–2), 383–404.

— “‘Llwyr wybodau, llên a llyfrau’: Hopcyn ap Tomas a’r traddodiad llenyddol Cymraeg’, yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *Cwm Tawe* (Llandysul, 1993), tt. 4–44.

Jarman, A.O.H., *The Legend of Merlin* (Caerdydd, 1960).

— ‘Telyn a chrwth’, LIC, 6 (1960–1), 154–75.

— (gol.), *Llyfr Du Caerfyrddin* (Caerdydd, 1982).

— a Hughes, Gwilym Rees (gol.), *A Guide to Welsh Literature 1282–c. 1550*, Cyf. 2 (Caerdydd, 1997).

Jenkins, Dafydd (gol. a chyf.), *The Law of Hywel Dda* (Llandysul, 1990).

Jenkins, David, ‘Enwau personau a lleoedd yng nghywyddau Dafydd ap Gwilym’, BBGC, 8 (1935–7), 140–5.

— ‘Dafydd ap Gwilym yn ei fro’, *Y Traethodydd*, 133 (1978), 83–8.

— *Bro Dafydd ap Gwilym* (Tal-y-bont, 1992).

Johnston, Dafydd, ‘The Serenade and the image of the house in the poems of Dafydd ap Gwilym’, CMCS, 5 (Haf 1983), 1–19.

— ‘Cywydd y Gal by Dafydd ap Gwilym’, CMCS, 9 (Haf 1985), 71–89.

— (gol.), *Gwaith Iolo Goch* (Caerdydd, 1988).

— (gol.), *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol/Medieval Welsh Erotic Poetry* (Pen-y-bont ar Ogwr, 1991; arg. diwyg. 1998).

— (gol.), *Blodeugerdd Barddas o’r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg* (Llandybie, 1989).

— ‘The erotic poetry of the *Cywyddwyr*’, CMCS, 22 (Gaeaf 1991), 63–94.

— (gol. a chyf.), *Iolo Goch: Poems* (Llandysul, 1993).

- (gol.), *Gwaith Lewys Glyn Cothi* (Caerdydd, 1995).
- ‘Paradwys Dafydd ap Gwilym’, *YB*, 20 (1995), 114–24.
- ‘*Canu ar ei Fwyd ei Hun*’: *Golwg ar y Bardd Amatur yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Abertawe, 1997).
- (gol.), *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen* (Aberystwyth, 1998).
- (adolygiad) ‘*Dafydd ap Gwilym: Apocrypha*, golygwyd gan Helen Fulton; The Welsh Classics Series; Llandysul: Gwasg Gomer, 1996’, *LIC*, 21 (1998), 202–6.
- “Ceidwaid yr hen iaith”? Beirdd yr Uchelwyr a’r iaith Saesneg’, *Y Traethodydd*, 155 (2000), 16–24.
- “Propaganda’r prydydd”: Gwleidyddiaeth Beirdd yr Uchelwyr’, *Cof Cenedl*, 14 (1999), 39–67.
- ‘Dafydd ap Gwilym and oral tradition’, *SC*, 37 (2003), 143–61.
- ‘Early translations of Dafydd ap Gwilym’, yn Alyce von Rothkirch a Daniel Williams (gol.), *Beyond the Difference: Welsh Literature in Comparative Contexts* (Caerdydd, 2004), tt. 158–72.
- *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300–1525* (Caerdydd, 2005).
- ‘*Cyngan Oll?*’ *Cynghanedd y Cywyddwyr Cynnar* (Aberystwyth, 2007).
- <URL: <http://www.dafyddapgwilym.net>>

– a Parry Owen, Ann, ‘Tri darn o farddoniaeth yn llawysgrif Peniarth 10’, *Dwned*, 5 (1999), 35–45.

Jones, Alun R., *Lewis Morris* (Caerdydd, 2004).

Jones, Dewi Stephen, ‘“Fflwring aur” Dafydd ap Gwilym’, BBGC, 19 (1960–2), 29–34.

Jones, E. D., (gol.), *Gwaith Lewis Glyn Cothi* (Caerdydd, 1953).

— ‘A Welsh *Pencerdd*’s manuscripts’ *Celtica*, 5 (1960), 17–27.

Jones, Elin M. a Jones, Nerys Ann (gol.), *Gwaith Llywarch ap Llywelyn ‘Prydydd y Moch’*, cyf. 1 (Caerdydd, 1991).

Jones, Ieuan Gwynedd (gol.), *Aberystwyth 1277–1977* (Llandysul, 1977).

Jones, J. Afan, ‘Gweithiau barddonol Huw Arwystl’ (Traethawd M.A. Prifysgol Cymru, 1926).

Jones, J. Lloyd (gol.), *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg* (Caerdydd, 1931–63).

Jones, J. T., ‘Gramadeg Einion Offeiriad’, BBGC, 2 (1925), 184–200.

Jones, Morgan D., *Termau Iaith a Llên* (Llandysul, 1972).

Jones, Nerys Ann, ‘Canu mawl Beirdd y Tywysogion i’r Arglwydd Rhys’, yn Nerys Ann

Jones a Huw Pryce (gol.), *Yr Arglwydd Rhys* (Caerdydd, 1996), tt. 129–44.

— a Parry Owen, Ann (gol.), *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr I* (Caerdydd, 1994).

- a Parry Owen, Ann (gol.), *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr II* (Caerdydd, 1995).
- Jones, Owen a Pughe, Wiliam Owen, *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym* (Llundain, 1789).
- Jones, Owen, Pughe, Williams Owen, a Williams, Edward (gol.), *The Myvyrian Archaeology of Wales* (ail arg., Dinbych, 1870).
- Jones, P. Lynne [gw. hefyd Williams, P. Lynne], “Gwyn eu byd yr adar gwylltion”: Golwg ar gerddi Ddafydd ap Gwilym’, *Dwned*, 3 (1997), 9–26.
- Jones, R. M., ‘Pwnc mawr beirniadaeth lenyddol Gymraeg’, *YB*, 3 (1967), 253–88.
- ‘Ymryson ac Ymddiddan Corff ac Enaid’, *YB*, 5 (1970), 44–61.
- ‘Marwnad Morfudd’, *Barddas*, 173 (1991), 6–8.
- ‘Gogynghanedd y Gogynfeirdd’, *YB*, 22 (1997), 41–79.
- *Ysbryd y Cwlwm: Delwedd y Genedl yn ein Llenyddiaeth* (Caerdydd, 1998).
- ‘Ffurf y cywydd a’r englyn’, *YB*, 25 (1999), 16–40.
- Jones, Thomas, ‘Llyfrawr’, *BBGC*, 11 (1943), 137–8.
- (gol.), *Ystoryaeu Seint Greal* (Caerdydd, 1992).
- Jones, T. Gwynn, ‘Bardism and Romance: A study of the Welsh literary tradition’, *THSC* (1913–14), 205–310.
- *Rhieingerddi’r Gogynfeirdd* (Dinbych, 1915).
- ‘A “court of love” poem in Welsh’, *Aberystwyth Studies*, 4 (1922), 85–96.

— ‘Ein Kymrisches Fluchgedicht’, *ZCP*, 17 (1928), 167–76.

— *Welsh Folklore and Folk-Custom* (Llundain, 1930).

Kenney, E. J. (gol.), *P. Ovidi Nasonis: Amores, Ars Amatoria, Remedia Amoris* (Rhydychen, 1961).

Kimball, Roger, *Tenured Radicals* (Efrog Newydd, 1990).

Klar, Katherine A., a Sweetser, Eve E., ‘Remarks on the development of medieval Welsh metrics’, yn Gordon W. MacLennan (gol.), *Proceedings of the First North American Congress of Celtic Studies, Ottawa, 1986* (Ottawa, 1988), tt. 499–510.

Lake, A. C., ‘Awduraeth cerddi’r Oesoedd Canol: Rhai sylwadau’, *Dwned*, 3 (1997), 63–71.

Lee, Guy (gol.), *Ovid’s Amores* (Llundain, 1968).

Legge, M. Dominica, *Anglo-Norman Literature and its Background* (Rhydychen, 1963).

Lewis, Barry J., ‘Trafod barddoniaeth yn yr Oesoedd Canol: Y traddodiad mawl a chrefydd’, *Dwned*, 8 (2002), 9–34.

— (gol.), *Gwaith Gruffudd ap Maredudd, i, Canu i Deulu Penmynydd* (Aberystwyth, 2003).

Lewis, C. S., *The Allegory of Love* (Rhydychen, 1936).

Lewis, Ceri W., ‘Literary tradition of Morgannwg down to the middle of the sixteenth century’ yn T.B. Pugh (gol.), *Glamorgan County History: Volume III* (Caerdydd, 1971), tt. 449–554.

— ‘Einion Offeiriad and the Bardic Grammar’, yn A. O. H. Jarman a Gwilym R. Hughes (gol.), *A Guide to Welsh Literature*, Cyf. 2 (Caerdydd, 1997), tt. 44–71.

Lewis, Henry, Roberts, Thomas a Williams, Ifor (gol.), *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill* (Caerdydd, 1937).

Lewis, Saunders, ‘Dafydd Nanmor’, *Meistri’r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973), 80–92.

[Cyhoeddwyd gyntaf yn *Y Llenor*, 4 (1925), 135–48.]

— *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* (Caerdydd, 1932).

— ‘Dafydd ap Gwilym’, *Blackfriars*, 34 (Mawrth 1963), 131–5.

— ‘Sangiad, tropus a chywydd’, *Trivium*, i, (1966), 1–4.

— *Gramadegau’r Penceirddiaid* (Caerdydd, 1967).

— *Meistri’r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973).

Lewis, Timothy, ‘The oldest known MS. of the poetry of Dafydd ap Gwilym—Peniarth MS. 48’, *Aberystwyth Studies*, 14 (1936), 35–51.

Lloyd, D. Myrddin, ‘The later Gogynfeirdd’, yn A. O. H. Jarman a Gwilym R. Hughes (gol.), *A Guide to Welsh Literature*, Cyf. 2 (Caerdydd, 1997), tt. 36–57.

— ‘Dafydd Nanmor’ yn A.O.H. Jarman a Gwilym R. Hughes (gol.), *A Guide to Welsh Literature*, Cyf. 2 (Caerdydd, 1997), tt. 170–81.

Lloyd-Jones, J., ‘The court poets of the Welsh princes’, *Proceedings of the British Academy*, 34 (1948), 167–97.

Lloyd, J.E. a Jenkins, R. T. (gol.), *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Caerdydd, 1954).

Lloyd-Morgan, Ceridwen, ‘Rhai agweddau ar gyfieithu yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol’, *YB*, 13 (1985), 134–45.

— ‘More written about than writing? Welsh women and the written word’, yn Huw Pryce (gol.), *Literacy in Medieval Celtic Societies* (Caergrawnt, 1998), tt. 149–65.

Llwyd, Alan (gol.), *50 o Gywyddau Dafydd ap Gwilym* (Abertawe, 1980).

Loomis, R. M., *Dafydd ap Gwilym: The Poems* (Efrog Newydd, 1982).

Lubsen-Admiral, Stella M. a Crouwel, Joost, *Cyprus & Aphrodite* (Yr Hâg, c. 1989).

Lyas, Colin, *Aesthetics* (Llundain, 1997).

Lynch, Peredur I., ‘Cynghanedd cywyddau Dafydd ap Gwilym: Tystiolaeth y llawysgrifau cynnar’, yn Iestyn Daniel, Marged Haycock, Dafydd Johnston a Jenny Rowland (gol.), *Cyfoeth y Testun: Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 2003), tt. 109–47.

Maas, Paul, *Textual Criticism*, cyf. Barbara Flower (Rhydychen, 1958).

McCann, W. J., 'Adeiledd y Tair Rhamant: Gereint, Owein, Peredur', *YB*, 13 (1985), 123–33.

Mckitterick, R. (gol.), *The Uses of Literacy in early Mediaeval Europe* (Caergrawnt, 1989).

Manilius, Marcus, *Astronomica* (Llundain, 1977).

Matonis, A. T. E., 'An investigation of Celtic influences on MS. Harley 2253', *Modern Philology*, 70 (1972–3), 91–108.

— 'Medieval topics and rhetoric in the work of the *Cywyddwyr*' (Traethawd Ph.D., Prifysgol Caeredin, 1973).

— 'Some rhetorical tropes in the early *Cywyddwyr*', *BBGC*, 28 (1978), 47–72.

— 'Nodiadau ar rethreg y *Cywyddwyr*: y *descriptio pulchritudinis* a'r technegau helaethu', *Y Traethodydd*, 133 (1978), 155–67.

— 'Traditions of panegyric in Welsh poetry: The heroic and the chivalric', *Speculum*, 53 (1978), 667–87.

— 'Later medieval poetics and some Welsh bardic debates', *BBGC*, 29 (1980–2), 635–65.

— 'The Welsh bardic grammars and the Western grammatical tradition', *Modern Philology*, 79 (1981), 121–45.

— ‘Barddoneg a rhai ymrysonau barddol Cymraeg yr Oesoedd Canol Diweddar’, YB, 12 (1982), 157–200.

— ‘The Harley Lyrcis: English and Welsh convergences’, *Modern Philology*, 86 (1988–9), 1–21.

— ‘The concept of poetry in the Middle Ages: The Welsh evidence from the bardic grammars’, BBGC, 36 (1989), 1–12.

— ‘Problems relating to the composition of the Welsh bardic grammars’, yn A.T. E. Matonis a D. F. Melial (gol.), *Celtic Language, Celtic Culture: A Festschrift for Eric P. Hamp* (Van Nuys, CA, 1990), tt. 273–9.

— ‘Literary taxonomies and genre in the Welsh bardic grammars’, ZCP, 47 (1995), 211–34.

— ‘Textual culture and its assimilation in fourteenth-century Wales’, ZCP, 49–50 (1997), 576–590.

— ‘A case study: Historical and textual aspects of the Welsh bardic grammar’, CMCS, 41 (Haf, 2001), 24–36.

Minnis, A. J., *Medieval Theory of Authorship* (ail arg., Aldershot, 1988).

— a Johnson, Ian (gol.), *Literary Criticism[:] Volume II[:] The Middle Ages*, (Caergrawnt, 2005).

Moberly, R. C. (gol.), *Historia Ecclesiastica Gentis Anglorum: Historia Abbatum et Epistola ad Ecgberctum, cum Epistola Bonifacii ad Cudberthum* (Rhydychen, 1881).

Mohrmann, Christine, *Liturgical Latin* (Llundain, 1959).

Morgan, Gerald, 'The landscape of Dafydd ap Gwilym', yn R. H. F. Hofman *et al.* (gol.), *Welsh and Breton Studies in Memory of Th. M. Th. Chotzen: Proceedings of a Colloquium, Utrecht-Amsterdam 23–24 April 1993* (Utrecht, 1995), tt. 27–36.

— 'Helyntion Dafydd ap Gwilym', yn Gerald Morgan, *Helyntion Cardi; Ysgrifau ar Hanes Ceredigion* (Aberystwyth, 1997), tt. 13–24.

Morgan, T. J., 'Arddull yr awdl a'r cywydd', THSC, (1946–47), 276–313.

— *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952).

— a Morgan, Prys, *Welsh Surnames* (Caerdydd, 1985).

Morgan-Guy, John, *What Did the Poets See? A Theological and Philosophical Reflection* (Aberystwyth, 2002).

Morris-Jones, John, *Cerdd Dafod* (adarg., Caerdydd, 1980).

— a Parry-Williams, T. H. (gol.), *Llawysgrif Hendregadredd* (Caerdydd, 1933).

Morys, Twm, 'Chwedleu chwydlyd: Golwg ar ganu dychan Llyfr Coch Hergest', *Barddas*, 135–7 (Gorffennaf/Awst/Medi 1988), 32–4.

Nagy, J. F., *The Poetics of Absence in Celtic Tradition* (Aberystwyth, 2003).

Norris, Christopher, *Deconstruction: Theory and Practice* (Llundain ac Efrog Newydd, 1991).

Nuttall, Geoffrey, 'Rhyme, compounds and imagery in Dafydd ap Gwilym', THSC (1993), 7–25.

O'Sullivan, H. J. T., 'Developments in love poetry in Irish, Welsh and Scottish Gaelic before 1650' (Traethawd M.Litt, Prifysgol Glasgow, 1976).

Ó Tuama, Seán, *An Grá in Amhráin na nDaoine* (Dulyn, 1960).

— 'Serch Cwrtais mewn llenyddiaeth Wyddeleg', yn John Rowlands (gol.), *Dafydd ap Gwilym a Chanu Serch yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1975), tt. 18–42.

Olson, David R., 'On the language and authority of textbooks', *Journal of Communications*, 30:4 (Gaeaf 1980), 186–96.

— , Hildyard, A. a Torrance, N. (gol.), *Literacy, Language, and Learning: The Nature and Consequences of Reading and Writing* (Caergrawnt, 1985).

Ong, Walter J., *Orality and Literacy* (Llundain, 1982).

Orpen, Goddard Henry (gol.), *The Song of Dermot and the Earl* (Rhydychen, 1892).

Owen, A. (gol.), *Ancient Laws and Institutions of Wales* (Llundain, 1841).

Owen, H. (gol.), *The Description of Pembrokeshire by George Owen of Henllys*, Cyf. 1 (Llundain, 1892).

Owen, Morfudd E., 'Manion? Meddygol', *Dwned*, 7 (2001), 43–63.

- Owen, Trefor M., *Welsh Folk Customs* (Caerdydd, 1959).
- Ovenden, R., 'Jaspar Gryffyth and his books', *British Library Journal*, 20 (1994), 107–39.
- Parry, R. Williams, 'Yr Haf', yn *Yr Haf a Cherddi Eraill* (Y Bala, 1924).
- Parry, Thomas, 'Statud Gruffudd ap Cynan', *BBGC*, 5 (1929), 25–33.
- *Peniarth 49* (Caerdydd, 1929).
- 'Twf y gynghanedd', *THSC* (1936), 143–60.
- 'Pynciau cynghanedd', *BBGC*, 10 (1939–41), 1–5.
- 'Datblygiad y cywydd', *THSC* (1939), 209–31.
- 'Dafydd ap Gwilym', *Yorkshire Celtic Studies*, 5 (1949–52), 19–31.
- (gol.), *Gwaith Dafydd ap Gwilym* (Caerdydd, 1952; ail arg., 1963; trydydd arg., 1979).
- *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (Caerdydd, 1953).
- 'The Welsh metrical treatise attributed to Einion Offeiriad', *Proceedings of the British Academy*, 47 (1961), 177–95.
- (gol.), *The Oxford Book of Welsh Verse* (Rhydychen, 1962).
- (gol.), *Gwaith Dafydd ap Gwilym* (Caerdydd, 1952; ail arg. 1963).
- 'Dafydd ap Gwilym', *YB*, 9 (1976), 41–56.
- 'Hendregadredd', *Y Casglwr*, 15 (1981), 5.

— ‘Dafydd ap Gwilym a’r cyfrifiadur’, YB, 13 (1985), 114–22.

— *Papurau Thomas Parry*, heb eu catalogio (Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1990/91).

Parry Owen, Ann, ‘Rhieingerdd Efa ferch Madog ap Maredudd. Cynddelw Brydydd Mawr a’i cant’, YB, 14 (1988), 56–86.

— ‘Golwg byr ar fydryddiaeth Englynion Dafydd ap Gwilym i’r Grog o Gaer’, *Dwned*, 1 (1995), 41–53.

— ac Evans, Dylan Foster (gol.), *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hilynn ac Eraill* (Aberystwyth, 1996).

— ‘Englynion Dafydd Llwyd ap Gwilym Gam i’r Grog o Gaer’, YB, 21 (1996), 15–36.

Parry-Williams, T. H., (gol.) *Canu Rhydd Cynnar* (Caerdydd, 1932).

— *Elfennau Barddoniaeth* (Caerdydd, 1939).

— ‘Dau nodyn ar eiriau benthyg’, BBGC, 17 (1958), 271–3.

— *Hen Benillion* (ail arg., Llandysul, 1956).

Pasquali, Giorgio, *Storia della tradizione e critica del testo* (Firenze, 1934).

Pennar, Meirion, ‘Syniad “Y caredd digerydd” ym marddoniaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol’, YB, 9 (1976), 33–40.

— ‘Dryll o dystiolaeth am y glêr’, BBGC, 28 (1979), 406–12.

— ‘Teuluaeth a maswedd’, YB, 16 (1990), 52–9.

- Pierce, T. Jones, 'The law of Wales: the last phase', THSC (1963), 1–32.
- Plato, *Phaedrus*, cyf. Alexander Nehamas a Paul Woodruff (Indianapolis, 1995).
- Poppe, Erich, 'The figures of speech in *Gramadegau'r Penceirddiaid*', BBGC, 38 (1991), 102–4.
- 'Latin grammatical categories in the vernacular: The case of declension in Welsh', *Historiographia linguistica*, 18 (1991), 269–80.
- 'Tense and mood in Welsh grammars, c. 1400 to 1621', CLIGC, 29 (1995–6), 17–38.
- Powell, Nia M. W., 'Dyfalu Dafydd Nanmor', LIC, 27 (2004), 86–112.
- Price, B. B., *Medieval Thought: An Introduction* (Rhydychen, 1992).
- Pryce, Huw (gol.), *Literacy in Medieval Celtic Societies* (Caergrawnt, 1998).
- Raby, F. J. E., *A History of Secular Latin Poetry in the Middle Ages*, 2 gyf. (ail arg., Rhydychen, 1957).
- Rees, Alwyn a Rees, Brinley, *Celtic Heritage* (Llundain, 1961).
- Rees, Brinley, *Dulliau'r Canu Rhydd 1500–1650* (Caerdydd, 1952).
- Rees, William, *The Black Death in Wales* (Aberdeen, 1920).
- Richards, Melville, *Breudwyt Ronabwy* (Caerdydd, 1948).
- Richards, W. Leslie, 'Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn' (Traethawd M.A. Prifysgol Cymru, 1947).

— (gol.), *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn* (Caerdydd, 1964).

Roberts, Brynley F., ‘Tri chyfieithiad Cymraeg o’r weddi “Anima Christi”’, *BBGC*, 16 (1954–6), 268–71.

— ‘Gwyn ap Nudd’, *LIC*, 13 (1974–81), 283–9.

— *Studies on Middle Welsh Literature* (Llanbedr Pont Steffan, 1992).

Roberts, D. H. E., ‘Noddwyr y beirdd yn Sir Aberteifi’, *LIC*, 10 (1968–9), 76–109.

— ‘Noddi beirdd yng Ngheredigion – rhai agweddau’, *Ceredigion*, 7 (1972–5), 14–39.

Roberts, Enid, ‘Dafydd ap Gwilym a Bangor’, *Yr Haul a'r Gangell* (1982), 14–21.

Roberts, Sara Elin, ‘Legal practice in fifteenth-century Brycheiniog’, *SC*, 35 (2001), 307–23.

— ‘Addysg broffesiynol yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol: Y beirdd a’r cyfreithwyr’, *LIC*, 26 (2003), 1–17.

— ‘Dafydd ap Gwilym, ei ewythr a’r gyfraith’, *LIC*, 28 (2005), 100–14.

Roberts, Thomas a Williams, Ifor (gol.), *The Poetical Works of Dafydd Nanmor* (Caerdydd, 1923).

Robinson, F. N. (gol.), *The Works of Geoffrey Chaucer* (ail arg., Rhydychen, 1957).

Rowland, Jenny, ‘Genres’, yn Brynley F. Roberts (gol.), *Early Welsh Poetry: Studies in the Book of Aneirin* (Aberystwyth, 1988), tt. 179–208.

- *Early Welsh Saga Poetry* (Caergrawnt, 1990).
- Rowlands, Eurys I. [... Rolant, Eurys], ‘Dydd Brawd a thâl’, LIC, 4 (1956–7), 80–9.
- ‘Cywydd Dafydd ap Gwilym i Fis Mai’, LIC, 5 (1958–9), 1–25.
- ‘Cyfeiriadau Dafydd ap Gwilym at Annwn’, LIC, 5 (1958–9), 122–35.
- ‘Nodiadau ar y traddodiad moliant a’r cywydd’, LIC, 7 (1963), 217–43.
- ‘Arddull y cywydd’, YB, 2 (1966), 36–57.
- ‘Rhamant hanes y beirdd’, YB, 3 (1967), 28–38.
- ‘Iolo Goch’, yn J. Carney a D. Greene (gol.), *Celtic Studies: Essays in Memory of Angus Matheson 1912–62* (Llundain, 1968), tt. 124–46.
- (gol.), *Gwaith Lewys Môn* (Caerdydd, 1975).
- (gol.), *Poems of the Cywyddwyr* (Dulyn, 1976).
- ‘Morfudd fel yr Haul’, *Y Traethodydd*, 133 (1978), 95–101.
- ‘Ifor Hael’, *Y Traethodydd*, 136 (1981), 113–35.
- ‘Religious poetry in late medieval Wales’, BBGC, 30 (1983), 1–19.
- ‘Canu serch 1450–1525’, BBGC, 31 (1984), 31–47.
- ‘Bardic lore and education’, BBGC, 32 (1985), 143–55.
- ‘Tudur Aled’, yn A.O.H. Jarman a Gwilym R. Hughes (gol.), *A Guide to Welsh Literature 1282–c.1550*, Cyf. 2 (Caerdydd, 1997), tt. 298–313.

Rowlands, John, 'Delweddau serch Dafydd ap Gwilym', YB, 2 (1966), 58–76.

— (gol.), *Dafydd ap Gwilym a Chanu Serch yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1975).

— (gol.), *Sglefrio ar Eiriau* (Llandysul, 1992).

Ruddock, Gilbert, 'Rhai agweddau ar ganu serch y bymthegfed ganrif', yn John Rowlands (gol.), *Dafydd ap Gwilym a Chanu Serch yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1975), tt. 95–119.

— 'Rhagor o eiriau mwys?', LIC, 11 (1970), 125–6.

— 'Amwysedd ac eironi ym Marwnad Lleucu Llwyd', YB, 9 (1976), 61–79.

— 'Genau crefydd a serch', YB, 10 (1977), 230–56.

— *Dafydd Nanmor* (Caernarfon, 1992).

— 'Sylwadau ar sefydlu testun newydd o waith Dafydd Nanmor', LIC, 13 (1974–81), 164–83.

— *Papurau Gilbert Ruddock*, heb eu catalogio (Llyfrgell Prifysgol Caerdydd).

Russell, Paul, 'Gwr gwynn y law: Figures of speech in *Gramadegau'r Penceirddiaid* and Latin grammarians', CMCS, 32 (Gaeaf, 1996), 95–104.

— 'What did medieval Welsh scribes do? The scribe of the Dingestow Court manuscript', CMCS, 37 (Haf 1999), 79–96.

Saenger, P., 'Silent reading: its impact on late medieval script and society', *Viator*, 13 (1982), 367–414.

- Said, Edward, *Culture and Imperialism* (Llundain, 1993).
- Saville, J., *The Medieval Erotic ALBA: Structure and Meaning* (Efrog Newydd a Llundain, 1972).
- Sayce, Oliver, *The Medieval German Lyric, 1150–1300: The Development of its Themes and Forms in their European Context* (Rhydychen, 1982).
- Showalter, Elaine, *The New Feminist Criticism: Essays on Women, Literature and Theory* (Llundain, 1986).
- Sidgwick, F. a Chambers, E. K. (gol.), *Early English Lyrcis* (Llundain, 1966).
- Sims-Williams, Patrick, ‘Dafydd ap Gwilym and Celtic literature’, yn B. Ford (gol.), *Medieval Literature. Part Two: The European Inheritance* (Harmondsworth, 1983), tt. 301–17.
- ‘The uses of writing in early medieval Wales’, yn Huw Pryce (gol.), *Literacy in Medieval Celtic Societies* (Caergrawnt, 1998), tt. 15–38.
- Smith, J. Beverley, ‘Einion Offeiriad’, *BBGC*, 20 (1964), 339–47.
- ‘The Foundation of the borough’ yn Ieuan Gwynedd Jones (gol.), *Aberystwyth 1277–1977* (Llandysul, 1977), tt. 14–27.
- ‘Gwleidyddiaeth a diwylliant cenedl 1282–1400’, yn W. J. Rees (gol.), *Y Meddwl Cymreig* (Caerdydd, 1995), tt. 36–60.

Smith, Llinos Beverley, 'Yr iaith yng Nghymru'r Oesoedd Canol', LIC, 18 (1995), 179–91.

— 'Inkhorn and spectacles: the impact of literacy in late medieval Wales', yn Huw Pryce (gol.), *Literacy in Medieval Celtic Societies* (Caergrawnt, 1998), tt. 202–22.

Smith, Peter, *Houses of the Welsh Countryside* (Llundain, 1988).

Soulsby, Ian, *The Towns of Medieval Wales* (Chichester, 1983).

Southern, R. W. (gol.), *Essays in Medieval History* (Llundain, 1968).

Southworth, J., *The English Medieval Minstrel* (Woodbridge, 1989).

Spearing, A. C., *Medieval Dream-Poetry* (Caergrawnt, 1976).

Speirs, John, *Medieval English Poetry: The Non-Chaucerian Tradition* (Llundain, 1957).

Stern, L. C., 'Davydd ab Gwilym, ein walischer Minnesänger', ZCP, 7 (1910), 1–265.

Stock, Brian, *Implications of Literacy* (Princeton, 1983).

— *Listening for the Text: On the Uses of the Past* (Baltimore a Llundain, 1990).

Sturrock, John, 'Roland Barthes', yn John Sturrock (gol.), *Structuralism and Since* (Rhydychen, 1979), tt. 52–80.

Surrige, Marie E., 'Romance linguistic influence on Middle Welsh', SC, 1 (1966), 63–92.

— ‘Romance and Anglo-Saxon elements in the poetry of Dafydd ap Gwilym’, yn Gordon W. MacLennan (gol.), *Proceedings of the First North American Congress of Celtic Studies, Ottawa, 1986* (Ottawa, 1988), tt. 531–43.

Szittyá, P. R., *The Antifraternal Tradition in Medieval Literature* (Princeton, NJ, 1986).

Tatton-Brown, Veronica, *Ancient Cyprus* (Llundain, 1997).

Taylor, Archer, *The Literary Riddle Before 1600* (California, 1948).

— *English Riddles from Oral Tradition* (California, 1951).

Thomas, Alan R. (gol.), *The Welsh Dialect Survey* (Caerdydd, 2000).

Thomas, Graham C. G. (gol.), *A Welsh Bestiary of Love* (Dulyn, 1988).

Thomas, Gwyn, ‘Golwg ar y sangiad yng ngwaith Dafydd ap Gwilym’, LIC, 10 (1969), 224–30.

— *Y Traddodiad Barddol* (Dinbych, 1974).

— ‘Nodiadau amrywiol: lliw papir’, BBGC, 28 (1979), 404–5.

— ‘Adleisiau ym marddoniaeth Dafydd ap Gwilym’, LIC, 21 (1998), 174–6.

— (cyf.) *Dafydd ap Gwilym: His Poems* (Caerdydd, 2001).

— *Dafydd ap Gwilym: Y Gŵr wrth Gerdd* (Aberystwyth, 2002).

Thomas, Owen, ‘Cip ar wryweidd-dra Dafydd ap Gwilym’, *Tu Chwith* (1998), 116–25.

— ‘Dafydd Epynt: bardd llythrennog o Frycheiniog’, *Dwned*, 6 (2000), 77–94.

- (gol.), *Gwaith Dafydd Epynt* (Aberystwyth, 2002).
- (gol.), *Llenyddiaeth mewn Theori* (Caerdydd, 2006).
- ‘Trwy lygaid Peniarth 52’, yn Owen Thomas (gol.), *Llenyddiaeth mewn Theori* (Caerdydd, 2006), tt. 73–112.
- ‘Awdl Dafydd Nanmor i Rys ap Maredudd o’r Tywyn (*PWDN*, cerdd III)’, *Dwned*, 12 (2006), 73–91.
- ‘Cywyddau Dafydd ap Gwilym ym Mheniarth 48’, *LIC*, 29 (2006), 13–43.
- ‘“Y Gwynt” Dafydd ap Gwilym “trwy eiryau ymwys”’, *YB*, 27 (2007), 25–49.
- Thomas, Peter Wynn, ‘In search of Middle Welsh dialects’, yn Cyril J. Byrne, Margaret Harry a Pádraig Ó Siadhail (gol.), *Celtic Languages and Celtic Peoples: Proceedings of the Second North American Congress of Celtic Studies* (Halifax, 1992), tt. 287–303.
- ‘Middle Welsh Dialects: Problems and Perspectives’, *BBGC*, 40 (1993), 17–50.
- ‘Cyberthynas y pedair fersiwn ganoloesol’ yn Sioned Davies a Peter Wynn Thomas, (gol.), *Canhwyll Marchogyon: Cyd-destunoli Peredur* (Caerdydd, 2000), tt. 10–49.
- Thomas, R. J., ‘Dafydd ap Gwilym a Cheredigion’, *Y Llenor*, xxi (1942), 34–6.
- Thompson, Stith, *Motif-Index of Folk-Literature*, 6 chyf. (Copenhagen, 1955–8; cyhoeddwyd gyntaf 1932–6).
- Thorne, D., ‘Ymholiad cynnar o’r Cyfandir ynglŷn â’r Ffynonellau ar gyfer astudio gwaith Dafydd ap Gwilym’, *BBGC*, 34 (1987), 134–6.

Thornton, D. E., 'Orality, literacy and genealogy in early medieval Ireland and Wales', yn Huw Pryce (gol.), *Literacy in Medieval Celtic Societies* (Caergrawnt, 1998), tt. 83–98.

Trotter, D. A., 'L'Anglo-français au Pays de Galles: une enquête préliminaire', *Revue de Linguistique Romane*, 58 (1994), 461–87.

Waddell, Helen (gol.), *Medieval Latin Lyrics* (Harmondsworth, 1952; cyhoeddwyd gyntaf 1929).

— *The Wandering scholars* (chweched arg., Harmondsworth, 1932).

Watkin, Morgan (gol.), *Ystoria Bown de Hamtwn* (Caerdydd, 1958).

Waugh, Patricia, *Modern Literary Theory and Criticism* (Rhydychen, 2005).

Williams, D. H., 'Fasti Cistercienses Cambrenses: Addenda and corrigenda', *BBGC*, 25 (1972–4), 156–7.

— *The Welsh Cistercians* (Llanllieni, 2001).

Williams, G., 'Addysg yng Nghymru yn ystod yr Oesoedd Canol', yn W. J. Rees (gol.), *Y Meddwl Cymreig* (Caerdydd, 1995), tt. 2–15.

Williams, G. J., *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (Caerdydd, 1948).

Williams, G. J. a Jones, E. J. (gol.), *Gramadegau'r Penceirddiaid* (Caerdydd, 1934).

Williams, Glanmor, *The Welsh Church from Conquest to Reformation* (Caerdydd, 1962).

— *Religion, Language and Nationality in Wales* (Caerdydd, 1979).

— *Renewal and Reformation: Wales c. 1415–1642* (Rhydychen, 1993).

Williams, Gruffydd Aled (gol.), *Ymryson Edmwnd Prys a Wiliam Cynwal* (Caerdydd, 1986).

— ‘The literary traditions to c. 1560; the native poets of Meirioneth from the Glyndŵr Revolt to c. 1560’, yn J. B. ac Ll. B. Smith (gol.), *History of Merioneth II: The Middle Ages* (Caerdydd, 2001), tt. 568–75.

— ‘Gwrthrych un o awdlau Dafydd Nanmor (PWDN, XXIII)’, LIC, 25 (2002), 155–7.

— ‘Later literary criticism in Wales’, yn Alastair Minnis ac Ian Johnson (gol.), *The Cambridge History of Literary Criticism[:] Volume II[:] The Middle Ages* (Caergrawnt, 2005), tt. 549–57.

Williams, Heather, ‘Dafydd ap Gwilym and the debt to Europe’, *Etudes celtiques*, 34 (1998–2000), 185–213.

Williams, Ifor (gol.), *Breuddwyd Maxen* (Bangor, 1908).

— ‘Dafydd ap Gwilym a’r glêr’, THSC (1913–14), 83–204.

— a Roberts, Thomas (gol.), *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a’i Gyfoeswyr* (Bangor, 1914; arg. diwyg., Caerdydd, 1935).

— (gol.), *Detholion o Gywyddau Dafydd ap Gwilym* (Bangor, 1921).

— ‘Cynnydd, cynnif, cyni, nidro’, BBGC, 2 (1925), 299–303.

— (gol.), *Gwyneddion 3* (Caerdydd, 1931).

— a Lewis, Henry a Roberts, Thomas (gol.), *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill* (arg. diwyg., Caerdydd, 1937).

— a Williams, J. E. (gol.), *The Poems of Taliesin* (Dulyn, 1987).

Williams, J. E., *Traddodiad Llenyddol Iwerddon* (Caerdydd, 1958).

— ‘Cerddi’r Gogynfeirdd i wragedd a merched a’u cefndir yng Nghymru a’r Cyfandir’, *LIC*, 13 (1974–81), 3–112.

— *The Poets of the Welsh Princes* (Caerdydd, 1978).

— ‘Balchnoe’, *Y Traethodydd*, 134 (1979), 139–141.

— ‘The Nature Prologue in Welsh Court Poetry’, *SC*, 24/5 (1989–90), 70–90.

— ‘Y feirniadaeth lenyddol ddiweddar’, *Y Traethodydd*, 147 (1992), 173–82.

— a Patrick K. Ford, *The Irish Literary Tradition* (Caerdydd, 1992).

— a Lynch, Peredur I. (gol.), *Gwaith Meilyr Brydydd a’i Ddisgynyddion* (Caerdydd, 1994).

— ‘Guto’r Glyn’, yn A.O.H. Jarman a Gwilym R. Hughes (gol.), *A Guide to Welsh Literature 1282–c.1550*, Cyf. 2 (Caerdydd, 1997), tt. 197–221.

Williams, P. Lynne [gw. hefyd Jones, P. Lynne], ‘Cywydd y “Carw”, Dafydd ap Gwilym’, *Y Traethodydd*, 155 (2000), 80–92.

— *Tirlun a Thirwedd Cymru: Golwg ar Lenyddiaeth yr Oesoedd Canol* (Aberystwyth, 2000).

Williams, Stephen J., *Ystorya de Carolo Magno* (Caerdydd, 1968).

Wimsatt, W. K., *The Verbal Icon* (Lexington, 1954).

Zeydel, E. H. (gol.), *Vagabond Verse: Secular Latin Poems of the Middle Ages* (Detroit, 1966).

Zumthor, Paul, *Essai de poétique médiévale* (Paris, 1972).

— *Introduction à la poésie orale* (Paris, 1983).